



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **BIL ETHOLIADAU A CHYRFF ETHOLEDIG (CYMRU)**

**Memorandwm Esboniadol**  
yn ymgorffori'r  
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r  
Nodiadau Esboniadol

**Mehefin 2024**

# **Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

## **Memorandwm Esboniadol Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan is-adran Etholiadau Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

Fe'i lluniwyd a'i osod yn wreiddiol ym mis Hydref 2023 yn unol â Rheol Sefydlog 26.6, a gosodir Memorandwm diwygiedig yn awr yn unol â Rheol Sefydlog 26.28.

## **Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i byddai darpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), a gyflwynir gennyf i ar 2 Hydref 2023, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

## ***Mick Antoniw AS***

Y Cwnsler Cyffredinol  
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

25 Mehefin 2024

# Cynnwys

Rhestr o fyfoddau	3
Rhan 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL	4
1. Disgrifiad	4
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol	6
3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	7
4. Ymgynghori	37
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	40
RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL	84
6. Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol	84
7. Yr opsiynau – crynodeb	91
8. Costau a manteision – crynodeb	92
9. Costau a manteision	94
Rhan 1 o'r Bil – Gweinyddiaeth Etholiadol a Chofrestru	
Rhan 2 o'r Bil – Cyrff Etholedig a'u Aelodau	
10. Asesiad Fforddiadwyedd	164
11. Asesiadau o'r Effaith	170
12. Asesu'r Gystadleuaeth	171
13. Adolygu ar ôl gweithredu	172
ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol	174
ATODIAD 2 – Mynegai Rheolau Sefydlog	210
ATODIAD 3 – Tabl Tarddiadau	215
ATODIAD 4 – Atodlen o Ddiwygiadau	218
ATODIAD 5 – Tablau Crynodeb o Gostau	432
ATODIAD 6 – Asesiad Effaith ar Gyfiawnder	439

## Rhestr o fyrfoddau

(Nid yw'n berthnasol i'r Nodiadau Esboniadol)

<b>Corff</b>	<b>Byrfodd</b>
Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru	WECB
Bwrdd Rheoli Etholiadol	EMB
Comisiwn Etholiadol yng Nghymru	CE
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru	y Comisiwn
Cynghorau Cymuned a Thref	Cynghorau Cymuned
Cymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol	AEA
Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gymru	IRPW (y Panel)
Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol	OBR
<b>Deddfwriaeth</b>	<b>Byrfodd</b>
Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013	ERAA 2013
Deddf Cymru 2017	Deddf 2017
Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983	Deddf 1983
Deddf Etholiadau 2022	Deddf 2022
Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006	Deddf 2006
Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013	Deddf 2013
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	Deddf 2021
Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000	Deddf 2000
Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020	Deddf 2020
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011	Mesur 2011
<b>Termau Etholiadol</b>	<b>Byrfodd</b>
Cofrestru Etholiadol Unigol	IER
Gwahoddiad i gofrestru	ITR
Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy	STV
Swyddogion Canlyniadau	ROs
Systemau Rheoli Etholiadol	EMS

# RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

## 1. Disgrifiad

- 1.1. Mae Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) (y Bil) yn darparu ar gyfer cofrestru etholwyr yn awtomatig yn amodol ar ei dreialu'n llwyddiannus a chryfhau gweinyddu etholiadol drwy sefydlu EMB. Bydd hefyd yn bwrw ymlaen â diwygio'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau cymunedol ac etholiadol a diddymu'r Panel, gan roi y mwyafrif o swyddogaethau blaenorol y Panel i'r Comisiwn. Bydd y Bil yn ein galluogi i wella hygyrchedd etholiadau datganoledig ar gyfer pleidleiswyr anabl yn ogystal â gwella diogelwch ymgeiswyr drwy foderneiddio a gwella'r diffiniad o drosedd dylanwad amhriodol.
- 1.2. I grynhoi, mae'r Bil yn cynnig:
  - Rhoi swyddogaethau EMB yng Nghymru i'r Comisiwn a fydd yn golygu bod y Comisiwn yn sefydlu'r EMB i ysgwyddo cyfrifoldeb am oruchwylio'r gwaith o gyd-drefnu a gweinyddu etholiadau datganoledig, cydweithio â Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ogystal â chynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd democrataidd y wlad.
  - Cyflwyno cofrestru etholiadol heb gais, a'r gallu i dreialu'r dulliau mwyaf priodol ar gyfer cyflawni hyn.
  - Creu dyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith a fydd â'r nod o wella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a llywodraeth leol yn ogystal â chreu a theilwra cynlluniau unigol i ddarparu cymorth ar gyfer nodweddion gwarchoddedig.
  - Diddymu'r gofyniad i nodi geiriad a fformat penodol yr arolwg i ymgeiswyr llywodraeth leol mewn rheoliadau.
  - Creu gofyniad am lwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr all gynnal gwybodaeth ymgeiswyr a phleidleisio ar gyfer etholiadau'r Senedd a phrif gynghorau.
  - Sicrhau bod ymgeiswyr ac asiantau yn atebol am wariant tybiannol dim ond pan fyddant wedi cyfarwyddo ei ddefnydd, caniatáu i bersonau awdurdodedig wneud taliadau heb fynd drwy asiant etholiadol, a chyfyngu ar bwy all weithredu fel ymgyrchydd trydydd parti mewn etholiadau datganoledig. Er mwyn cefnogi'r newidiadau hyn i gyllid ymgyrchoedd, mae'r Bil hefyd yn cynnig galluogi'r Comisiwn Etholiadol i gynnwys y rhain yn ei godau ymarfer.
  - Addasu rôl a chylch gwaith y Comisiwn, gan gynnwys newidiadau i enw a swyddogaethau ei bwyllgor archwilio, cryfhau trefniadau

adolygiadau etholiadol yn sylweddol yn ogystal â rhoi swyddogaethau i'r Comisiwn i ymgymryd â'r mwyafrif o'r swyddogaethau a gyflawnir gan y Panel ar hyn o bryd. Bydd y Comisiwn hefyd yn gyfrifol am bennu swm unrhyw daliad ymaddasu sy'n daladwy gan awdurdod lleol (a ragnodir mewn rheoliadau sydd wedi'u gwneud gan Weinidogion Cymru) i aelodau o'r awdurdodau lleol rhagnodedig hynny, nad ydynt yn llwyddo i gael eu haillethol mewn etholiad cyngor lleol.

- Anghymwyso cyngorwyr tref a chymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu yn Aelodau o'r Senedd a diddymu'r "cyfnod gras" presennol i brif gynghorwyr a etholir i'r Senedd ac i Aelodau o'r Senedd a etholir yn Aelodau Seneddol y Deyrnas Unedig.
- Anghymwyso personau sydd wedi'u heuogfarnu o'r drosedd o ddichell rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd am gyfnod o 4 blynedd.
- Creu dyletswydd a roddir ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol cofrestredig ynghylch;
  - Casglu, crynhoi a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ynghylch ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd.
  - Datblygu, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â phob etholiad Cymreig.

## **2. Cymhwysedd Deddfwriaethol**

2.1. Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ("y Bil") yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017.

### **3. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

#### **Cyd-destun**

- 3.1. Estynnwyd cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol Cymru drwy Ddeddf 2017. Ers hynny, cyflwynwyd sawl darn o ddeddfwriaeth gan y Senedd i ddiwygio'r modd y cynhelir etholiadau yng Nghymru. Y mwyaf nodedig yw Deddf 2020 a Deddf 2021 a ostyngodd yr oedran pleidleisio i 16 oed a rhoi'r hawl i ddinasyddion tramor cymwys bleidleisio.
- 3.2. Mae'r gyfraith etholiadol yn hynafol ac yn gymhleth ac nid yw'n darparu ar gyfer system etholiadol sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> ganrif. Nod y Bil hwn yw mynd i'r afael â'r materion hynny a symud ein huchelgais yn ei blaen er mwyn galluogi pob dinesydd i chwarae ei ran yn ein system ddemocrataidd yn llawn a gosod y sylfeini ar gyfer arloesi a gwella yn y dyfodol.
- 3.3. Mae annog pobl i gofrestru ar y gofrestr etholiadol a phleidleisio wedi hynny yn hollbwysig inni, yn ogystal â sicrhau bod prosesau democrataidd mor syml â phosibl i'r etholwr. Bydd y Bil hwn yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gofrestru etholwyr yn awtomatig ar gofrestrau llywodraeth leol. Golyga hyn na fydd rhaid i ddinasyddion wneud cais i gofrestru i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd nac etholiadau lleol a byddant ar y gofrestr etholiadol er mwyn cael gwybodaeth am etholiadau sydd ar y gweill. I gyflawni hyn, rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid etholiadol allweddol i ddatblygu cynlluniau treialu cofrestru awtomatig.
- 3.4. Dylai sefydliadau democrataidd adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym yn cydnabod yr heriau a wynebwr gan bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Mae'r Bil hwn yn gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i geisio gwella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a llywodraeth leol ynghyd â rhoi cymorth i alluogi'r rheini sydd â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan.
- 3.5. Dylai pob pleidleisiwr allu teimlo'n hyderus i gymryd rhan mewn etholiadau. I gefnogi pleidleiswyr anabl yn benodol, mae'r Bil hwn yn gosod dyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau i ystyried anghenion eu pleidleiswyr a sicrhau bod trefniadau hygyrchedd priodol ar waith i'w galluogi i bleidleisio a hynny gan ystyried canllawiau'r Comisiwn Etholiadol. Er mwyn helpu pleidleiswyr i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, mae'r Bil hwn yn darparu ar gyfer Platfform Gwybodaeth i Bleidleiswyr i gasglu a rhannu gwybodaeth am etholiadau datganoledig ac ymgeiswyr mewn modd sydd ar gael i bawb yn hawdd.



- 3.6. Wedi i'r Comisiwn gyflawni'r rhaglen adolygu deng mlynedd o hyd ynglŷn â threfniadau etholiadol y prif gynghorau, mae gwelliannau i'r broses adolygu wedi'u nodi. Mae'r Bil hwn yn darparu cyfres o fesurau a fydd yn fodd i sicrhau bod y trefniadau yn cael eu cryfhau yn sylweddol a hynny er mwyn sicrhau llywodraeth effeithiol a hwylus.
- 3.7. I gryfhau gweinyddu etholiadol, byddwn yn adeiladu ar waith gwirfoddol da sy'n bodoli eisoes yn y sector er mwyn cyd-drefnu gweinyddu etholiadol drwy EMB newydd. Bydd hyn yn sicrhau sail fwy cadarn ar gyfer y cysylltiadau da rhwng Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a phersonau eraill sy'n gyfrifol am weinyddu etholiadau yng Nghymru. Mae gan sefydlu EMB yng Nghymru, fel y'i nodir yn y Bil hwn, y potensial i roi cymorth sylweddol y bydd Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei angen i ymdrin â'r gwahaniaethau rhwng etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau datganoledig.
- 3.8. Cynhelir etholiadau datganoledig ochr yn ochr ag etholiadau y mae San Steffan yn gyfrifol amdanynt - etholiadau ar gyfer Tŷ'r Cyffredin a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd. Gwnaed rhai newidiadau i'r etholiadau hynny gan Ddeddf 2022 gan gynnwys ym maes cyllid ymgyrchoedd. I gefnogi ein hegwyddor ar gyfer diwygio etholiadol, sef symrlwydd, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau a fydd yn lleihau cymhlethdodau i ymgyrchwyr a gweinyddwyr. Mae'r rhain yn ymwneud â gwariant tybiannol, personau sydd ag awdurdod i wneud taliadau, a chymhwystra trydydd partïon i gymryd rhan mewn etholiadau datganoledig. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn gallu cynnwys y newidiadau hyn yn ei godau ymarfer.
- 3.9. Wrth ddatblygu'r Bil hwn, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i weithredu diwygiadau mewn da bryd cyn etholiadau nesaf y Senedd a llywodraeth leol sydd wedi'u trefnu i'w cynnal yn 2026 a 2027 yn y drefn honno. Rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r angen i barchu confensiwn Gould sy'n argymhell o leiaf chwe mis rhwng gwneud deddfwriaeth a dechrau unrhyw etholiad y mae'r deddfwriaeth yn effeithio arno. Byddwn yn gweithio gyda'r gymuned etholiadol fel eu bod yn cael digon o amser i gynllunio ar gyfer gweithredu cyn y daw newidiadau i rym.

## **Cefndir y Bil**

- 3.10. Fel y manylir ym Mhennod 4, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr opsiynau ar gyfer gweinyddu a diwygio etholiadol, ac ymgynghori arnynt drwy gyfres o ddogfennau ymgynghori a thrwy raglen ymgysylltu barhaus â rhanddeiliaid.

- 3.11. Ymgynghorwyd ar y ‘Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol’ rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023, a oedd yn ceisio barn ynghylch y cynigion a nodir yn y Bil. Dangosodd canlyniadau’r broses ymgynghori ac ymgysylltu gefnogaeth eang i’r cynigion a nodir yn y Bil. Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddwyd [crynodeb](#) llawn o’r ymatebion i’r ymgynghoriad.
- 3.12. Cafodd y Bil ei ddatblygu a’i lunio mewn modd sy’n adlewyrchu’r ymgysylltu helaeth a wnaed â rhanddeiliaid ar draws y meysydd arfaethedig, yn enwedig â rheolwyr gwasanaethau etholiadol, yn uniongyrchol a thrwy ddigwyddiadau a gweithgorau.
- 3.13. Mae’r tudalennau a ganlyn yn disgrifio diben y ddeddfwriaeth a nodir yn y Bil a’r effaith y bwriedir iddi ei chael.

## **Rhan 1: Gweinyddu a Chofrestru Etholiadol**

### Pennod 1: Bwrdd Rheoli Etholiadol

- 3.14. Ar hyn o bryd, nid oes corff statudol sy’n gyfrifol am gydlynid strategol gweinyddu etholiadol yng Nghymru. Cyflawnir y rôl hon ar hyn o bryd gan Fwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (WECB) sef grŵp gwirfoddol heb unrhyw bwerau statudol. Cefnogir y Bwrdd ar hyn o bryd gan y Comisiwn Etholiadol.
- 3.15. Sefydlwyd y WECB yn sgil adroddiad gan y Comisiwn Etholiadol ynglŷn ag etholiadau Cynlluniad Cenedlaethol Cymru yn 2016. Mae’r Bwrdd yn cydlynu’r gwaith o gynllunio digwyddiadau etholiadol ledled Cymru a’r cydweithio rhwng Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a phartneriaid allweddol yng Nghymru. Yn hanesyddol, nid yw’r WECB wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau rhoi cyllid i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddiweddar i helpu’r WECB yn y cyfnod interim cyn i’r EMB gael ei sefydlu. Ni orfodir Swyddogion Canlyniadau i gymryd rhan mewn trafodaethau nac ystyried argymhellion y WECB.
- 3.16. Mae’r amrywiaeth gynyddol yn y ddeddfwriaeth sy’n berthnasol i etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau Cymreig, yn ogystal â datblygiadau newydd yn sgil rhaglen barhaus Llywodraeth Cymru ar ddiwygio etholiadol yn ychwanegu cymhlethdod pellach i’r rôl cydlynu etholiadol bresennol. Mae hyn yn debygol o arwain at bwysau cynyddol ar Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ac mae’n amlygu’r angen i weithredu. Yn ei ffurf bresennol, mae’n annhebygol bod gan y WECB y gallu i ddiwallu’r galw hwn. Ystyrir ei bod yn angenrheidiol sefydlu EMB erbyn y set nesaf o etholiadau a drefnir yng Nghymru a hynny er mwyn cynorthwyo gweinyddwyr, ac etholiadau, i weithredu’n fwy effeithlon.

- 3.17. Y bwriad yn y Bil hwn yw sefydlu EMB sydd â swyddogaethau statudol i ddatblygu gwaith gwirfoddol y WECB. Bydd yr EMB yn hybu arferion gorau o ran gweinyddu etholiadol ac yn cynorthwyo'r gymuned etholiadol yng Nghymru i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau Cymreig. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad rhoi pŵer i'r EMB arfer swyddogaethau presennol Swyddogion Canlyniadau na Swyddogion Cofrestru Etholiadol.
- 3.18. Bydd rôl yr EMB yn cynnwys cydlynu etholiadau Cymreig a gweithgarwch etholiadol cysylltiedig, gan gynnwys cyflawni'r gwaith o foderneiddio a diwygio gweinyddu etholiadol yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yr EMB yn hybu arferion gorau, gan gynnwys rhoi gwybodaeth, cyngor neu hyfforddiant. Bydd yr EMB yn rhoi gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall i Weinidogion Cymru yn unol â'i swyddogaethau.
- 3.19. Bydd gan yr EMB y pŵer i:
- ddyroddi cyfarwyddydau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gan osod dyletswydd arnynt i gydymffurfio (heb ddisodli eu cyfrifoldebau personol eu hunain i gyflawni eu swyddogaethau neu eu dyletswyddau),
  - rhoi cyngor i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol mewn perthynas â'u swyddogaethau, yn debyg i adran 10(3) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) mewn perthynas â phŵer y Comisiwn Etholiadol i ddyroddi cyngor, ac eto gan osod dyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i ystyried y cyngor hwnnw.
- 3.20. Yr opsiynau cychwynnol a ystyriwyd ar gyfer sefydlu corff etholiadau yng Nghymru oedd naill ai corff cyhoeddus newydd neu bwyllgor statudol (heb bersonoliaeth gyfreithiol na'r gallu i ymrwymo i gontractau) a gynhelir gan gorff arall, yn debyg i fodel EMB yr Alban. Roedd gan bob model ei anfanteision. Byddai gan gorff cyhoeddus gostau cyffredinol uwch ac roedd gan yr ail opsiwn gyfyngiadau o ran y gallu i ymrwymo i gontractau a chynaliadwyedd ei ddarparu.
- 3.21. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer rhoi swyddogaethau'r EMB i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn), gan sicrhau manteision corff cyhoeddus heb greu costau cyffredinol newydd sylweddol. Yn rhan o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), bydd y Comisiwn yn cael ei ailenwi yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Mae nodau a swyddogaethau presennol y Comisiwn yn cydfynd yn dda â swyddogaethau arfaethedig yr EMB. Mae'n gorff cyhoeddus sefydledig sy'n annibynnol ar y llywodraeth gyda chysylltiadau sefydledig â rhanddeiliaid. Caiff comisiynwyr eu penodi drwy broses penodiadau cyhoeddus fanwl. Mae'r corff eisoes yn cynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol

ynghymru ac yn gwneud argymhellion y mae'n credu sydd o fudd ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a hwylus.

- 3.22. Yn unol â'r Bil, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor i gyflawni'r swyddogaethau sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda Cymreig. Gan fod yn ystyriol o gapasiti cyfyngedig Swyddogion Canlyniadau sy'n gwasanaethu i ysgwyddo'r cyfrifoldeb ychwanegol o fod yn Gadeirydd yr EMB, bydd y Comisiwn yn enwebu un o'i Gomisiynwyr i fod yn Gadeirydd yr EMB. Bydd aelodaeth bellach yn cynnwys Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a bydd un ohonynt yn cael ei benodi yn Ddirprwy Gadeirydd gan yr EMB. Bydd rôl yr EMB yn ategol i waith y Comisiwn Etholiadol ac ni fydd yn disodli unrhyw un o swyddogaethau presennol y Comisiwn Etholiadol.

## Pennod 2: Cofrestru Etholiadol heb Geisiadau

- 3.23. I gael pleidleisio mewn etholiadau neu refferenda, mae angen i berson cymwys fod ar y gofrestr etholiadol. Mae adran 9 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Deddf 1983), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn datgan:

*“Each registration officer shall maintain -*

- (a) a register of parliamentary electors for each constituency or part of a constituency in the area for which he acts; and*
- (b) a register of local government electors for the local government areas or parts of local government areas included in the area for which he acts”.*

- 3.24. Rhestr o enwau a chyfeiriadau pawb sy'n gymwys i bleidleisio (neu sydd ar fin cael yr hawl i bleidleisio) ac sydd wedi cofrestru i wneud hynny yw'r gofrestr etholiadol. Caiff y gofrestr ei chadw a'i chynnal gan Swyddog Cofrestru Etholiadol pob prif gyngor.
- 3.25. Mae gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddyletswydd i lunio'r gofrestr etholiadol a sicrhau ei bod mor gyfredol â phosibl. Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn anfon Gwahoddiad i Gofrestru at unrhyw unigolyn nad yw wedi cofrestru a ddaw i'w sylw. Mae gofyniad cyfreithiol i ymateb a bydd Gwahoddiadau i Gofrestru yn cael eu hanfon at unrhyw un sy'n ymateb i'r canfasiad ond sydd heb gofrestru.
- 3.26. Yn 2014, trosglwyddodd Llywodraeth y DU o system o gofrestru aelwydydd, lle'r oedd y penteulu yn llenwi'r ffurflenni cofrestru ar ran pob aelod o'r aelwyd, i system o Gofrestru Etholiadol Unigol. Wrth gofrestru, mae Cofrestru Etholiadol Unigol yn ei gwneud yn ofynnol i unigolyn roi ei rif Yswiriant Gwladol a'i ddyddiad geni yn ogystal â'i enw a'i gyfeiriad. Defnyddir rhifau Yswiriant Gwladol i wirio data gyda chofnodion yr Adran Gwaith a Phensiynau ac yna cânt eu gwaredu gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol. Gellir cwblhau'r broses Cofrestru

Etholiadol Unigol ar-lein drwy system ddigidol Llywodraeth y DU. Mae'r broses gofrestru barhaus yn galluogi unigolion i gofrestru eu manylion, neu eu diweddarau unrhyw adeg o'r flwyddyn drwy roi gwybod i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

3.27. Ceir dwy fersiwn o'r gofrestr etholiadol:

- Caiff y gofrestr lawn, a elwir hefyd yn gofrestr gaeedig, ei diweddarau yn fisol a'i chyhoeddi unwaith y flwyddyn ar gyfer awdurdodau penodol at ddibenion penodol. Defnyddir y gofrestr gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddogion Canlyniadau at ddibenion sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda.
- Ar y cyfan, mae'r gofrestr olygedig, a elwir hefyd yn gofrestr agored, yn cynnwys yr un wybodaeth â'r gofrestr lawn ond ni chaiff ei defnyddio ar gyfer etholiadau na refferenda. Caiff ei diweddarau a'i chyhoeddi unwaith y mis a gellir ei gwerthu i unrhyw berson, sefydliad neu gwmni at ystod eang o ddibenion. Mae defnyddwyr y gofrestr yn cynnwys busnesau ac elusennau er mwyn gwirio manylion enwau a chyfeiriadau, cwmnïau marchnata uniongyrchol a chwmnïau cyfeiriaduron ar-lein. Gall unigolion ddewis cynnwys eu manylion ar y gofrestr agored neu beidio.

#### *Gwella'r broses gofrestru*

3.28. Mae awdurdodau lleol yn cynnal ymarfer canfasio bob blwyddyn. Yn 2019, cafodd yr ymarfer hwn ei ddiwygio er mwyn symleiddio'r broses a'i gwneud yn fwy effeithlon. Ar hyn o bryd, mae etholwyr yn cael Gwahoddiad i Gofrestru a chânt eu harwain at un o dair proses ar gyfer cofrestru i bleidleisio. Er bod y broses hon wedi bod yn effeithlon o ran cyfathrebu ag etholwyr, nid yw'n effeithiol bob amser.

3.29. Nid yw'r system bresennol yn llwyddo i gyrraedd pob etholwr. Er bod Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cymryd pob cam i sicrhau bod y gofrestr yn gywir ac yn gyflawn, mae nifer o etholwyr cymwys nad ydynt wedi'u cofrestru o hyd. Yn 2022, adroddodd y Comisiwn Etholiadol fod 2,362,964 o etholwyr cymwys ar y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru.<sup>1</sup> Er i'r swm hwn ddangos cynnydd yn nifer yr etholwyr a oedd yn cofrestru, nid oedd oddeutu 260,000 o etholwyr cymwys wedi cofrestru i bleidleisio sydd oddeutu 9.9% o'r rhai hynny sy'n gymwys.<sup>2</sup>

3.30. Bwriad polisi y Bil hwn yw ei gwneud yn haws i unigolion gael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol gan annog rhannu data a chael gwared ar y gofyniad i unigolion gadarnhau eu data drwy Gofrestru

---

<sup>1</sup> Adroddiad y Comisiwn Etholiadol: *Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr yn 2022* [Cofrestru Etholiadol ym Mhrydain Fawr yn 2022 | Y Comisiwn Etholiadol](#)

<sup>2</sup> Ibid.

Etholiadol Unigol pan fo cofrestru awtomatig a pharu data wedi digwydd.

- 3.31. Gwnaeth Deddf 2021 rywfaint o ddarpariaeth er mwyn caniatáu i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gofrestru etholwyr ar gofrestrau llywodraeth leol heb gais os oedd y Swyddog Cofrestru wedi'i fodloni bod gan berson, nad oedd ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol, yr hawl i gael ei gofrestru. Roedd hyn yn golygu y gallai Swyddogion Cofrestru Etholiadol, os oeddent yn dymuno, ddefnyddio data a gedwir gan yr awdurdod lleol i ychwanegu person at y gofrestr llywodraeth leol gan roi gwybod iddynt yn ysgrifenedig eu bod wedi gwneud hynny, pan fo angen. Ni chychwynwyd y darpariaethau hynny, ac ers hynny, maent wedi'u hadolygu gyda'r nod o sicrhau dull cyson ledled Cymru a sicrhau diogelwch etholwyr a allai fod yn agored i niwed.
- 3.32. Rydym felly yn cynnig darpariaethau newydd yn y Bil hwn a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol gofrestru etholwyr ar y gofrestr llywodraeth leol yn awtomatig ac anfon Hysbysiad Cofrestru at bob etholwr cymwys. Yna, bydd gan yr etholwyr gyfnod penodol o amser i ymateb i'r hysbysiad os ydynt o'r farn eu bod yn gymwys i gael eu cofrestru'n ddiennw. Unwaith y bydd y cyfnod penodol wedi dod i ben, ac oni bai bod yr etholwr wedi oedi'r cyfnod hysbysu drwy wneud cais am gofrestru'n ddiennw, neu wedi rhoi gwybod yn ysgrifenedig i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol nad yw'n dymuno cael ei gofrestru'n awtomatig, bydd yr etholwr yn cael ei ychwanegu at y gofrestr llywodraeth leol.
- 3.33. Gan mai proses awtomatig fydd hon, ac er mwyn ychwanegu mesurau diogelu ychwanegol ar gyfer etholwyr ifanc ac etholwyr sy'n agored i niwed, byddwn yn cael gwared â'r gofrestr etholiadol agored yng Nghymru ar gyfer etholiadau Cymreig. Mae hyn yn golygu mai dim ond ar y gofrestr gaeedig o etholwyr llywodraeth leol, nad yw'n cael ei dosbarthu'n eang o gwbl, y bydd yr etholwr cofrestredig yn ymddangos. Er y bydd sefydliadau yn parhau i allu cael gafael ar y gofrestr hon, ni fyddant yn gallu gwneud hynny oni bai bod ganddynt hawl gyfreithiol i'r wybodaeth a gedwir ar y gofrestr etholiadol gaeedig.
- 3.34. Dim ond y gofrestr llywodraeth leol y bydd y broses cofrestru awtomatig yn berthnasol iddi. Bydd angen i'r rhai hynny sy'n gymwys i fod ar y gofrestr Seneddol barhau i gymryd rhan yn y broses Cofrestru Etholiadol Unigol naill ai drwy'r canfasiad blynyddol neu drwy wneud cais uniongyrchol i fod ar y gofrestr etholiadol.
- 3.35. Gan ystyried y bydd angen i'r broses cofrestru awtomatig fynd law yn llaw â'r broses Cofrestru Etholiadol Unigol, rydym wedi ymrwymo i beilota'r dull mwyaf effeithiol o gofrestru etholwyr yn awtomatig ar y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru. Felly, mae'r Bil hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer y pwerau angenrheidiol er mwyn cynnal y peilotau hyn.

- 3.36. Bwriad y Llywodraeth yw y bydd peilotau cofrestru awtomatig yng Nghymru yn cael eu cynnal wedi i'r Bil hwn gael y Cydsyniad Brenhinol ac y bydd y model llwyddiannus ar gyfer cofrestru awtomatig yn cael ei gyflwyno ledled Cymru gan ddefnyddio'r pwerau angenrheidiol i wneud is-ddeddfwriaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn. Bydd y rhaglen beilotau yn cael ei llunio ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid etholiadol eraill. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn gwerthuso'r cynlluniau peilot ar ôl iddynt gael eu cyflawni.

### Pennod 3: Peilota a Diwygio Etholiadau Cymreig

- 3.37. Ar hyn o bryd, mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal peilotau etholiadol yng Nghymru a Lloegr. Mae adran 10 yn darparu y gall awdurdod lleol perthnasol gyflwyno cynigion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer cynllun peilot sy'n gwneud darpariaeth ynghylch un o'r materion a ganlyn, neu bob un ohonynt:
- i. pryd, ble a sut y mae pleidleisio yn yr etholiad i ddigwydd;
  - ii. sut y mae'r pleidleisiau a fwir yn yr etholiadau i'w cyfrif;
  - iii. ymgeiswyr yn anfon gohebiaeth etholiadol yn rhad ac am ddim drwy'r post.
- 3.38. Caiff pwerau peilota eu cynnwys hefyd yn Neddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (Deddf 2006) a Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadol 2013 (ERAA 2013).
- 3.39. Yn unol ag adran 32 o Ddeddf 2006, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol gynnal peilot sy'n caniatáu i bapurau pleidleisio gynnwys ffotograffau o ymgeiswyr. Mae'r pwerau yn ERAA 2013 yn ymwneud yn benodol â phrofi sut y caiff y newidiadau a wneir gan unrhyw ddarpariaeth cofrestru eu rhoi ar waith yn ymarferol, a hynny am gyfnod penodol ac mewn perthynas ag ardal benodol. Defnyddiwyd y pwerau hyn, o dan adrannau 9 i 11 o ERAA 2013, i beilotau'r cynigion ar gyfer diwygio'r canfas cyn eu cyflwyno yn llawn yn 2019.
- 3.40. Trosglwyddwyd y pwerau peilota a nodir uchod mewn perthynas ag etholiadau Cymreig i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.
- 3.41. Bwriad y peilotau etholiadol oedd treialu gwahanol ddiwygiadau etholiadol ar raddfa y gellir ei rheoli er mwyn asesu eu heffaith ar gynyddu canran yr etholwyr a oedd yn pleidleisio a moderneiddio'r system bleidleisio. Ers i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 ddod i rym, mae sawl peilot ar ddiwygio etholiadol wedi'u cynnal yn Lloegr. Lluniwyd y peilotau hyn i brofi newidiadau o ran pryd, ble a sut y mae pleidleisio yn digwydd mewn etholiadau llywodraeth leol, sut y cyfrifwyd pleidleisiau a fwriwyd, ac ymgeiswyr yn anfon gohebiaeth yn rhad ac am ddim drwy'r post.

- 3.42. Cyn 2022, dim ond un peilot pleidleisio drwy'r post oedd wedi'i gynnal yng Nghymru. Fodd bynnag, yn 2022, cynhaliwyd rhaglen beilot a oedd yn canolbwyntio ar bleidleisio cynnar a hyblyg a chynhaliwyd pedwar peilot ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol. Roedd y rhain yn cynnwys pleidleisio ymlaen llaw ym Mlaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Thorfaen, gyda phob un o'r pedwar yn cynnig lleoliad canolog ar gyfer pleidleisio ymlaen llaw.
- 3.43. Lluniwyd peilotau 2022 gyda'r nod o sicrhau bod etholiadau mor hygyrch â phosibl ac y gallai pawb sy'n dymuno pleidleisio, wneud hynny. Nodwyd o ddechrau'r rhaglen y byddai'r hyn a fyddai'n cael ei ddysgu o'r peilotau yn llywio gwelliannau tymor hwy i'r modd y mae pobl yn pleidleisio yn ogystal â helpu i leihau'r diffyg democrataidd.
- 3.44. Yn ei werthusiad<sup>3</sup>, nododd y Comisiwn Etholiadol fod y peilotau wedi'u cynnal yn dda ac nad oedd unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg yn sgil cynnal y peilotau arloesol hyn. Roedd y cofrestrau electronig a beilotwyd yn gweithio'n dda ac yn galluogi'r gweinyddwyr i sicrhau gorsafoedd pleidleisio mewn sawl lleoliad yn ddiogel ac ar yr un pryd. Er na wnaeth y peilotau gynyddu canran yr etholwyr a bleidleisiodd yn sylweddol, dangoswyd bodd modd sicrhau ffyrdd hyblyg a mwy cyfleus o bleidleisio yn ddiogel, a hynny gyda hyder pleidleiswyr.
- 3.45. Nododd y Comisiwn Etholiadol hefyd y dylai newidiadau a gynigir i brosesau pleidleisio gael eu cynllunio i sicrhau mantais debygol i bleidleiswyr, i gynnal diogelwch ac uniondeb y system ac i fod yn newidiadau y gall gweinyddwyr etholiadol eu cyflawni'n realistig.

#### *Pwerau peilota newydd*

- 3.46. Mae'r Bil hwn yn cynnwys pwerau peilota newydd ar gyfer arloesi etholiadol yng Nghymru mewn etholiadau Cymreig (etholiadau'r Senedd neu etholiadau lleol). Bydd y pwerau newydd hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Swyddogion Cofrestru i gynnig peilotau etholiadol ar draws gwahanol feysydd, gan gynnwys sut y caiff pobl sy'n gymwys i bleidleisio mewn etholiad Cymreig eu cofrestru; pryd, ble a sut y bydd pleidleisio mewn etholiad Cymreig yn digwydd; pryd, ble a sut y caiff pleidleisiau sy'n cael eu bwrw eu cyfrif; cyfathrebu â phleidleiswyr ynghylch etholiadau; a phrosesau a gweithdrefnau gweinyddol cyn y diwrnod pleidleisio neu ar ôl hynny.
- 3.47. Am y tro cyntaf, bydd y pwerau hyn yn galluogi peilotau i gael eu cynnal yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol a byddant hefyd yn berthnasol i is-etholiadau llywodraeth leol. Bydd hyn yn sicrhau sawl cyfle i dreialu gwahanol beilotau mewn gwahanol sefyllfaoedd gyda'r nod o ddarparu'r sail dystiolaeth orau bosibl ar gyfer deall effaith y gweithgarwch a beilotwyd.

---

<sup>3</sup> [Gwerthusiad cynlluniau peilot pleidleisio ymlaen llaw | Y Comisiwn Etholiadol](#)



- 3.48. Bydd y pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol a Swyddogion Cofrestru i wneud cynigion o ran peilotau. Bydd yn ofynnol iddynt gyflwyno unrhyw gynnig i'r EMB i'w ystyried. Bydd yn ofynnol i'r EMB adrodd ar y peilotau a gynigir, gan nodi eu barn ac argymhellion mewn perthynas â'r dichonoldeb a'r canlyniadau arfaethedig. Er y dylid ystyried argymhellion yr EMB cyn gwneud y ddarpariaeth ddeddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer peilot, ni fydd gan yr EMB y pŵer i roi fetu ar gynigion peilotau, dim ond y pŵer i wneud argymhellion.
- 3.49. Yn ogystal, bydd y darpariaethau yn y Bil yn caniatáu cyflwyno cynigion peilotau ar y cyd. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn gallu gwneud argymhellion ar gyfer peilotau ond ni fydd yn gallu gwneud cynigion ar ei ben ei hun o dan y darpariaethau hyn. Bydd y Comisiwn, fodd bynnag, yn gallu parhau i wneud cynigion ar y cyd gydag awdurdod lleol er mwyn peilota gweithgarwch. Bydd hyn yn fodd i gynnal rôl hanfodol y Comisiwn, yn gorff annibynnol, wrth werthuso peilotau.
- 3.50. Unwaith y mae'r gweithgarwch peilota wedi'i gwblhau, ac os yw'r broses werthuso yn argymhell newid parhaol, gellir rhoi'r gweithgarwch ar waith gan ddefnyddio deddfwriaeth yn amodol ar y weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd. Bydd hyn yn sicrhau cyfle i graffu ymhellach ar y cynigion. Mewn rhai amgylchiadau, bydd y rheoliadau hyn yn destun gwell gweithdrefn gadarnhaol sy'n darparu ar gyfer craffu ychwanegol lle mae natur y newid yn fwy arwyddocaol yn gyfreithiol.

#### *Pŵer Gweinidogion Cymru i orfodi peilotau*

- 3.51. Dim ond pan fo awdurdod lleol yn dechrau'r cynigion yn ffurfiol y mae'r trefniadau presennol yn caniatáu peilotau. Un o ystyriaethau peilotau 2022 oedd na chawsant eu cynnal mewn set ddaearyddol amrywiol o ardaloedd awdurdodau lleol. Bydd y darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi peilotau mewn mannau lle y maent o'r farn bod hyn yn angenrheidiol. Mae hyn yn golygu y gallai Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal peilotau, gan helpu i sicrhau y gellid peilota mathau addas o arloesiadau mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Gallai hyn sicrhau tystiolaeth werthfawr er mwyn llywio diwygio etholiadol yn y dyfodol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r EMB a nodi'r rhesymau dros orfodi'r peilot cyn bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth angenrheidiol.

## Pennod 4: Hygyrchedd Pleidleisio ac Ymgeisyddiaeth

### *Cymorth i bleidleiswyr anabl*

- 3.52. Fel y mae ar hyn o bryd, mae cyfraith etholiadol yng Nghymru yn agored i gael ei herio mewn perthynas â gallu pleidleiswyr anabl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol, heb gymorth gan swyddog llywyddu neu gydymaith. Er mwyn gwella sut y mae pobl anabl yn cymryd rhan mewn democratiaeth, bydd darpariaeth yn cael ei gwneud yn y Bil hwn i gysoni rheolau hygyrchedd ar gyfer etholiadau yng Nghymru gyda deddfwriaeth y DU. Mae'r diwygiadau arfaethedig yn ymgorffori ymhellach egwyddor Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â diwygio etholiadol mewn deddfwriaeth etholiadol, sef 'hygyrchedd' ac yn cymryd camau pellach i sicrhau bod pobl anabl yn gallu pleidleisio yn annibynnol ac yn gyfrinachol.

### *Deddf Etholiadau 2022*

- 3.53. Ar gyfer etholiadau Seneddol y DU cyn Deddf Etholiadau 2022 (Deddf 2022), darparodd Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fod rhaid i Swyddogion Canlyniadau ddarparu mewn gorsafoedd pleidleisio, "*a device of such description as may be prescribed (in regulations) for enabling voters who are blind or partially-sighted to vote without any need for assistance from the presiding officer or any companion*". Mae rheoliad 12 o Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001 yn cynnwys darpariaethau sy'n disgrifio Dyfais Bleidleisio Gyffyrddadwy. Darperir ar gyfer darpariaeth debyg yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007.
- 3.54. Yn ddiweddar, mae Deddf 2022 wedi mynd ymhellach ar gyfer etholiadau Seneddol drwy ddiwygio rheolau etholiadau Seneddol sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Mae Deddf 2022 wedi creu gofyniad newydd, ehangach y bwriedir iddo ehangu'r gofyniad cul sy'n ymwneud â Dyfais Bleidleisio Gyffyrddadwy. Mae'n gwneud gofynion ar gyfer darparu cyfarpar o'r fath sy'n rhesymol eu darparu at ddibenion galluogi, neu ei gwneud yn haws i bleidleiswyr anabl – gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rheini sydd â cholled golwg – bleidleisio yn annibynnol yn y modd a gyfarwyddir gan reol 37 o'r Atodlen, sy'n cynnwys y weithdrefn i farcio'r papur pleidleisio yn gyfrinachol.

- 3.55. Mae hefyd yn ofynnol bellach i'r Comisiwn Etholiadol ddarparu canllawiau i gynorthwyo Swyddogion Canlyniadau wrth iddynt gyflawni'r gofyniad newydd, ehangach i ddarparu cyfarpar cynorthwyol. O ganlyniad, mae dyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau i ystyried y canllawiau hynny. Mae Deddf 2022 hefyd yn gweithredu mesurau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol adrodd ar y camau a gymerir gan Swyddogion Canlyniadau mewn etholiadau i gynorthwyo pobl anabl yn unol â'r gofynion newydd.

*Newidiadau deddfwriaethol ar gyfer Etholiadau Cymreig*

- 3.56. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod dyletswydd ychwanegol ar y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag adrodd ar y camau a gymerir gan Swyddogion Canlyniadau mewn etholiadau i gynorthwyo pobl anabl yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy ddiwygio Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, gan ddiwygio gofynion presennol y Comisiwn Etholiadol i lunio a chyhoeddi adroddiad ar weinyddu etholiadau penodol. Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth sy'n estyn dyletswydd adrodd y Comisiwn Etholiadol i etholiadau cyffredin siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau.
- 3.57. Trwy is-ddeddfwriaeth, mae'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno diwygiadau i'r fframwaith presennol o reolau etholiadau yng Nghymru a nodir mewn is-ddeddfwriaeth i adlewyrchu gofyniad newydd, ehangach i ddarparu cyfarpar o'r fath sy'n rhesymol at ddibenion galluogi, neu ei gwneud yn haws i bobl anabl bleidleisio yn annibynnol ac yn unol ag anghenion pleidleiswyr anabl a nodwyd. Bydd darpariaeth hefyd mewn is-ddeddfwriaeth i'r Comisiwn Etholiadol ddyroddi canllawiau ar sut y dylai Swyddogion Canlyniadau gyflawni'r ddyletswydd honno. Yn yr un modd, bydd gofynion yn cael eu gosod ar Swyddogion Canlyniadau i roi sylw dyledus i ganllawiau perthnasol yn y rheolau etholiadau ar gyfer etholiadau Cymreig yng Nghymru. Bydd diwygiadau i'r fframwaith presennol hefyd yn cynnwys cysoni rheolau etholiadau'r Senedd gyda rheolau etholiadau Llywodraeth Leol o ran y meini prawf o'r hyn yw cydymaith.
- 3.58. Mae'r Bil yn darparu diffiniad o anabledd at ddibenion yr adran o'r Bil fel y nodwyd yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (sy'n cynnwys diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb yn ogystal ag anallu dros dro i wneud rhywbeth).
- 3.59. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ystyried yr angen am ddiffiniad cyson o bobl anabl ar draws y dyletswyddau amrywiol sy'n gymwys i Swyddogion Canlyniadau mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

- 3.60. Mae'r dull hwn yn gyson â'r ymatebion i'r ymgynghoriad Papur Gwyn ar gynigion ar gyfer diwygio etholiadol i foderneiddio gweinyddu etholiadol yng Nghymru. Cytunodd nifer o ymatebwyr y dylid gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i ddarparu canllawiau, yn debyg i ddull Llywodraeth y DU o ran etholiadau a gedwir yn ôl.

#### *Arolwg Ymgeiswyr*

- 3.61. Mae hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth ymysg aelodau etholedig lleol yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. I gyflawni hyn, mae data cyfres amser cadarn yn bwysig i olrhain newidiadau amrywiaeth dros amser.
- 3.62. Ers 2011, mae'n ofyniad cyfreithiol ar awdurdodau lleol i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned. Caiff y gofyniad ei nodi yn adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (Mesur 2011).
- 3.63. Mae cwestiynau a fformat yr arolwg wedi'u rhagnodi yn Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) 2012. Cafodd y rhain eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(3)(a), 1(3)(b), 2(2), a 175 o Fesur 2011. Yn benodol, mae adran 175 yn darparu dehongliad o'r term 'rhagnodedig' i olygu rhagnodedig mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.
- 3.64. Diwygiwyd y rheoliadau hyn gan Reoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2016 ac yn fwy diweddar gan Reoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2022.
- 3.65. Gellir gofyn cwestiynau ynghylch rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, hil, oedran, anabledd, crefydd neu gred, iechyd, addysg neu gymwysterau, cyflogaeth a gwaith fel cynghorydd, ymlyniad wrth blaid, ymwneud â'r trydydd sector a hyd unrhyw weithgarwch gwleidyddol. Gall unigolion lenwi'r arolwg cyn yr etholiad, tra eu bod yn ymgeiswyr o hyd, neu fel arall, yn dilyn yr etholiad waeth beth fo'r canlyniad. Mae cymryd rhan yn ddewisol ac mae'r cyfraddau ymateb yn is nag yr hoffem.
- 3.66. Nod yr arolwg yw deall nodweddion yr ystod eang o bobl sy'n mynd ati i geisio cael eu hethol yn gynghorwyr yn ogystal â deall sut y mae proffil y grŵp hwn yn newid dros amser. Mae'r wybodaeth a gesglir o'r arolygon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddeall effaith polisiâu sydd â'r nod o ehangu cyfranogiad ym maes llywodraeth leol a chefnogi datblygu polisiâu yn y dyfodol.
- 3.67. Mae hwn yn arolwg pwysig, ond yn aml, mae'n cystadlu am sylw yn erbyn arolygon eraill gan awdurdodau lleol a'r Comisiwn Etholiadol sydd gyda'i gilydd yn gallu achosi syrffed ar arolygon.

- 3.68. Mae adran 26 o'r Bil hwn yn dileu'r gofyniad i nodi geiriad a fformat penodol yr arolwg mewn rheoliadau. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i newid elfennau o'r arolwg wrth i bolisïau amrywiaeth a chydaddoldeb ddatblygu. Yn y dyfodol, bydd geiriad yr arolwg yn cael ei adolygu gan grŵp o bartneriaid allweddol, gan gynnwys llywodraeth leol, cynrychiolwyr grwpiau cydraddoldeb a phartïon eraill sydd â diddordeb. O ganlyniad, bydd y grŵp yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru ynghylch newidiadau a gwelliannau a gynigir.
- 3.69. Bydd yr arolwg yn cynnwys set o gwestiynau craidd a fydd yn berthnasol i gyfranogwyr ym mhob cwr o Gymru. Bydd hyn yn darparu ar gyfer cysondeb ledled Cymru ac yn galluogi cymharu ar draws y set lawn o arolygon a gynhaliwyd ers cyflwyno arolygon yn 2012. Bydd darpariaeth hefyd i awdurdodau lleol ychwanegu cwestiynau a fydd yn ceisio gwybodaeth ynghylch mentrau lleol.
- 3.70. Mae'r dull hwn yn darparu ar gyfer cysondeb ledled Cymru, parhad cyfres amser y set ddata yn ogystal â galluogi hyblygrwydd lleol.

#### *Platfform Gwybodaeth i Bleidleiswyr*

- 3.71. Un o ganfyddiadau allweddol yr ymchwil<sup>4</sup> a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd yn 2020 oedd bod "diffyg gwybodaeth, meddwl bod gwleidyddiaeth yn ddryslyd ac yn anneniadol a dadrithiad cyffredinol yn rhwystrau allweddol i ymgysylltu". Nid yw'r diffyg gwybodaeth hwn yn unigryw i etholiadau; mae'n berthnasol i wleidyddiaeth yn fwy cyffredinol hefyd. Dywedodd cyfranogwyr yr ymchwil fod dryswch ynghylch y gwahaniaethau rhwng lefelau'r llywodraeth ac ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau.
- 3.72. Ar hyn o bryd, ceir ystod o sefydliadau sy'n darparu gwybodaeth i bleidleiswyr. Mae'r rhain yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol, sydd â dyletswydd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r system etholiadol<sup>5</sup> ymysg y cyhoedd, ac awdurdodau lleol, lle y mae Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn cyflawni eu cyfrifoldebau i roi gwybodaeth i bleidleiswyr ynghylch pryd y mae etholiad yn cael ei gynnal a sut a lle y gall pleidleiswyr fwrw eu pleidlais, yn ogystal â sut i gofrestru er mwyn gallu pleidleisio.
- 3.73. Ceir cyfle i helpu Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bleidleiswyr ledled y wlad gyda mwy o gysondeb o ran sut a phryd y rhoddir gwybodaeth i bleidleiswyr. Byddai pleidleiswyr hefyd yn cael cymorth i ddod o hyd i wybodaeth berthnasol am y broses etholiadol mewn un man. Gallai

---

<sup>4</sup> Beaufort Research. Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: Ymchwil archwiliol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 13/2020. Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/adnewyddu-ymgysylltiad-democrataidd-ymchwil-archwiliol>

<sup>5</sup> Adran 13 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000

platfform ar-lein fod o gymorth drwy ddarparu un pwynt mynediad a allai gynnal a/neu gyfeirio'r ymwelydd at ddeunyddiau gwefannau partneriaid sy'n ymwneud â chyfathrebu etholiadol.

- 3.74. Gan ymateb i'r bwlch o ran darparu gwybodaeth, mae rhai datrysiadau digidol wedi'u datblygu gan sefydliadau nid er elw i ddarparu gwybodaeth i ddinasyddion er mwyn hwyluso cyfranogi. Mae sefydliadau fel [Y Clwb Democratiaeth](#) a [mySociety](#) yn darparu adnoddau i alluogi dinasyddion i nodi'n hawdd sut y gallant ymwneud â chynrychiolwyr neu gymryd rhan mewn etholiadau. Cyfeirir yn rheolaidd at adnoddau digidol megis [WhoCanIVoteFor.co.uk](#), [WhereDoIVote.co.uk](#), [TheyWorkForYou](#) ac [WriteToThem](#) yn enghreifftiau o arferion gorau wrth ymwneud â dinasyddion a chânt eu hyrwyddo gan ystod o sefydliadau, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadol. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau hyn yn aml yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr ac nid oes ffynonellau cadarn o gyllid ganddynt. Mae hyn yn golygu bod cynaliadwyedd platfformau o'r fath yn y fantol.
- 3.75. Rydym wedi ymgynghori'n flaenorol ynglŷn â darparu datganiadau ymgeiswyr yn '[Diwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru](#)' (2017). Gofynnwyd i ymatebwyr yr ymgynghoriad a oeddent yn cytuno a ddylid ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd lunio datganiad personol i'w gynnwys ar wefan a ddarperir gan yr awdurdod y maent yn sefyll i gael eu hethol iddo. Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn yn yr ymateb i'r brif ddogfen (84%) a hyd yn oed mwy o gefnogaeth yn yr ymateb i'r fersiwn ar gyfer pobl ifanc (89%). Un rheswm allweddol a nodwyd o blaid oedd y byddai gweithred o'r fath yn gwella democratiaeth a gwella dealltwriaeth pleidleiswyr o'r hyn y mae ymgeisydd yn sefyll drosto.
- 3.76. Bwriad y polisi yw y bydd dyletswydd yn cael ei gosod ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith ar gyfer sefydlu platfform gwybodaeth ar-lein i bleidleiswyr. Bydd y ddyletswydd yn darparu ar gyfer gwefan sy'n gallu o leiaf cynnal gwybodaeth am ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol cofrestredig, a gwybodaeth i bleidleiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau cyffredin prif gynghorau.
- 3.77. Y tu hwnt i hyn, byddai'r platfform yn gallu:
- cynnal gwybodaeth a fydd yn cynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch etholiadau yn ogystal â rhoi gwybodaeth ymarferol am y broses bleidleisio;
  - darparu gwybodaeth syml iawn er mwyn egluro wrth etholwyr y pwerau, y rolau a'r cyfrifoldebau ar bob lefel o lywodraeth, gan annog dinasyddion i weld y cyswllt rhwng y pethau sy'n bwysig iddynt hwy a'u cynrychiolwyr lleol a chenedlaethol;
  - darparu un pwynt mynediad i bleidleiswyr sy'n chwilio am ragor o wybodaeth yn hytrach na'r ystod eang o ffynonellau sy'n bodoli ar hyn o bryd; a

- gwneud y broses o gael gafael ar wybodaeth berthnasol yn symlach ac yn fwy hygyrch i bob pleidleisiwr.

*Gwella Amrywiaeth Cynrychiolaeth yn Strwythurau Democrataidd y Senedd a Llywodraeth Leol*

- 3.78. Bydd creu Gymru decach, lle y mae gan bawb y cyfle i gymryd rhan mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn a'r gallu i gyfrannu'n llawn at yr economi, yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus ac arloesol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynyddu amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys cynyddu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau Cymreig drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig rhag ceisio am swyddi etholedig. Y bwriad yw mynd i'r afael â rhwystrau o'r fath a gwella cyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol chwarae rhan lawn wrth gynorthwyo a chynrychioli eu cymunedau. Er enghraifft, mae pobl anabl yn debygol o wynebu costau uwch wrth geisio am swyddi etholedig oherwydd eu hamhariadau.
- 3.79. Mae adran 30 o'r Bil yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol a fydd yn ceisio annog mwy o dryloywder a hyrwyddo amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr sy'n ceisio swyddi etholedig. Bydd y canllawiau yn annog pleidiau gwleidyddol i gasglu, crynhoi a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ynghylch ymgeiswyr i'r Senedd. Bydd hefyd yn annog pleidiau gwleidyddol i ddatblygu, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant.

*Y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig*

- 3.80. Yn 2021, sefydlwyd cronfa beilot Mynediad i Swyddi Etholedig i ddarparu cymorth ychwanegol i bobl anabl geisio am swyddi etholedig. Llwyddodd y gronfa beilot i gynorthwyo unigolion a oedd yn sefyll etholiad yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 ac yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Cafodd newidiadau eu gwneud i'r rheolau ynghylch terfynau gwario ymgeiswyr er mwyn sicrhau nad oedd y cyllid a ddarparwyd drwy'r peilot yn cyfrif tuag at derfynau gwario ymgeiswyr.
- 3.81. Cynhaliwyd sawl digwyddiad Mynediad i Wleidyddiaeth i godi ymwybyddiaeth ynghylch y cymorth a oedd ar gael drwy'r gronfa a'r amserlenni ar gyfer ceisiadau. Ariannodd y gronfa beilot, a ddarparwyd gan Anabledd Cymru ac ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, gymorth ymarferol i alluogi pobl anabl i gymryd rhan lawn yn y broses wleidyddol. Cafodd y peilot 21 o ymgeiswyr a chafodd chwech ohonynt eu hethol i gynghorau cymuned.
- 3.82. Mae gwerthusiad annibynnol o drefniadau'r Gronfa wedi'i gwblhau. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y gronfa wedi cael ei chroesawu

a'i bod wedi bod o fudd i'r rhai hynny a gyflwynodd geisiadau. Roedd y cymorth a roddwyd i unigolion drwy gydol y broses yn arbennig a nodwyd bod cefnogaeth i'r gronfa fod ar gael ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Amlygodd y gwerthusiad fod rhai meysydd angen eu gwella. Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn yma: [Adolygiad o beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru | LLYW.CYMRU](#).

- 3.83. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyn, cafwyd cefnogaeth eang ar gyfer gosod y gronfa ar sail ddeddfwriaethol ac mae adran 29 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer cynllun cymorth ariannol (o unrhyw fath penodedig) i gynorthwyo ymgeiswyr anabl mewn etholiad Cymreig i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan yn yr etholiad sy'n gysylltiedig â'u hanabledd. Bwriedir i effaith y ddarpariaeth hon roi sicrwydd i ymgeiswyr anabl yn ogystal ag ystyried y profiadau a gafwyd yn y gronfa beilot.

*Darparu ar gyfer nodweddion gwarchoddedig eraill*

- 3.84. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ehangu ein Cronfa Mynediad i Swyddi Etholedig ar gyfer nodweddion gwarchoddedig eraill. Un o'r pwyntiau allweddol y mae'r grŵp nodwedd warchoddedig anabledd yn canolbwyntio arno yw bod ffyrdd adnabyddadwy ac ymarferol y gall cymorth ariannol gynorthwyo unigolion mewn modd gwirioneddol er mwyn sicrhau chwarae teg ag ymgeiswyr nad ydynt yn anabl.
- 3.85. Cododd yr ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyn a'r ymchwil a gomisiynwyd gan Weinidogion Cymru bryderon ynghylch sut y gellid llunio meini prawf i ehangu'r gronfa bresennol i grwpiau eraill.
- 3.86. Mae'r strwythur ar gyfer mynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd yn ddibynnol ar natur y rhwystrau hynny ac anghenion yr unigolion o dan sylw. Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y gellid mynd i'r afael â'r rhwystrau hynny drwy roi cyngor ac arweiniad gan drydydd partion, er enghraifft drwy gynlluniau hyfforddi a mentora. Mewn achosion eraill, gall cymorth o'r fath gynnwys rhoi cymorth ariannol i dalu'n uniongyrchol am unrhyw gostau ychwanegol y bu'n rhaid i ymgeiswyr dalu amdanynt wrth iddynt sefyll mewn etholiad ac a oedd yn gysylltiedig â'u hanghenion.
- 3.87. Ar sail y pryderon hyn, mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod yr amcan polisi ehangach yn golygu bod angen dull gwahanol drwy greu dyletswydd statudol drosfwaol a roddir ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith sydd â'r nod o wella amrywiaeth o fewn strwythurau democrataidd y Senedd a Llywodraeth Leol gan ddarparu cymorth i gael gwared â'r rhwystrau i gymryd rhan. Mae adran 28 yn darparu ar gyfer y dull hwn. Gall y trefniadau fod ar ffurf gwasanaethau neu gymorth ariannol.



- 3.88. Mae adran 29 yn darparu ar gyfer creu a theilwra cynlluniau unigol i ddarparu cymorth naill ai ar gyfer nodwedd warchoddedig unigol a / neu rwystrau cyffredin ar draws ystod o nodweddion gwarchoddedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol.
- 3.89. Mae'n bwysig bod yr holl drefniadau hyn yn dryloyw ac yn gweithredu mewn modd sy'n wleidyddol niwtral. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys mesurau diogelu sy'n golygu na chaiff cyrff nac unigolion penodol weithredu cynllun ac na chaiff Gweinidogion Cymru wneud penderfyniadau ynghylch unigolion penodol.

#### Pennod 5: Cyllid Ymgyrchu

- 3.90. Gwnaeth Deddf 2022 rai newidiadau i reolau cyllid ymgyrchu ar gyfer etholiadau y DU a gedwir yn ôl yn San Steffan. Mewn rhai meysydd, credwn ei bod yn ddoeth cael cysondeb ag etholiadau Cymreig yng Nghymru i leihau dryswch i bobl sy'n cymryd rhan yn yr etholiadau hyn ac i'r rheini sy'n eu gweinyddu. Mae hyn yn unol â'n hegwyddor ar gyfer diwygio etholiadol, sef symlrwydd. Er na wnaeth y Senedd gydsynio i'r darpariaethau yn Neddf 2022 fod yn gymwys i etholiadau Cymreig, roedd hyn ar y sail bod y Senedd yn cadw'r hawl i graffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag etholiadau Cymreig.

#### *Gwariant Tybiannol*

- 3.91. Gwnaeth Deddf 2022 ddiwygiadau i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 mewn perthynas ag etholiadau a gedwir yn ôl. Gwnaethpwyd hynny er mwyn egluro'r gyfraith mewn perthynas â gwariant tybiannol, gan sicrhau na ddylai buddion megis eiddo, nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau sy'n cael eu cyflenwi i ymgeisydd, plaid neu ymgyrch yn rhad ac am ddim neu gyda disgownt, ond cael eu cyfrif yn draul etholiad ar gyfer yr ymgyrch berthnasol pan gânt eu hawdurdodi neu eu cyfarwyddo gan yr ymgyrch. Daeth yr eglurhad hwn yn sgil dyfarniad gan yr Oruchaf Lys (*R v Mackinlay and others [2018]*) a benderfynodd fod gwariant tybiannol o'r fath yn draul etholiad heb fod angen awdurdodiad.
- 3.92. I gael gwared ar yr amwysedd hwn o ran etholiadau Cymreig, mae'r Bil yn cymhwyso'r un gofyniad i ddosbarthu gwariant tybiannol yn dreuliau etholiad dim ond pan gaiff ei gyfarwyddo neu ei awdurdodi'n briodol. I gynorthwyo eglurder ar gyfer cyfranogwyr a gweinyddwyr, mae'r Bil hefyd yn diwygio pŵer y Comisiwn Etholiadol i lunio cod ymarfer ar dreuliau etholiad er mwyn sicrhau ei fod yn ddigon eang fel bod modd cynnwys esboniad o'r rheolau ar bob math o wariant.

#### *Personau sy'n gallu gwneud taliadau ar ran ymgyrch*

- 3.93. Gwnaeth Deddf 2022 ddiwygiadau hefyd i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i ganiatáu i rywun heblaw am yr asiant etholiad wneud taliadau ar ran ymgyrch, hynny yw, rhywun sydd wedi'i awdurdodi gan ymgyrch i wneud taliad o dan adran 75 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Os oes rheol wahanol ar gyfer etholiadau a gedwir yn ôl ac etholiadau Cymreig ynghylch ai dim ond yr asiant etholiad sy'n gallu gwneud taliad ar ran ymgyrch, efallai y ceir achosion o dorri'r gyfraith mewn camgymeriad. Er enghraifft, pe bai taliad yn cael ei wneud gan berson sydd wedi'i awdurdodi ar gyfer un set o etholiadau ond nid ar gyfer etholiadau Cymreig. Mae'r Bil yn caniatáu i bersonau, sydd wedi'u hawdurdodi gan ymgeisydd neu asiant i'w hyrwyddo, wneud taliad, yn hytrach na bod rhaid i'r asiant etholiad wneud y taliad hwnnw. Cyflawnir hyn drwy ddileu'r eithriad ar gyfer etholiadau lleol yng Nghymru yn is-adran (5)(ca) newydd o adran 73 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a fewnosodwyd gan Ddeddf 2022. Bydd y newid cyfatebol ar gyfer etholiadau'r Senedd yn cael ei wneud yn yr adolygiad o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, lle ceir y darpariaethau cyfatebol.

#### *Ymgyrchwyr Trydydd Parti*

- 3.94. Cyflwynodd Deddf 2022 rai cyfyngiadau ar allu trydydd partïon, sef unigolion neu sefydliadau nad ydynt yn bleidiau gwleidyddol cofrestredig, i fynd i wariant a reolir mewn cyfnodau a reoleiddir cyn etholiadau i Dŷ'r Cyffredin neu i Gynulliad Gogledd Iwerddon. Yn fras, mae gwariant a reolir yn ymwneud â threuliau adroddadwy i gefnogi gweithgarwch penodol er dibenion dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn modd penodol.
- 3.95. Dim ond trydydd partïon sy'n gymwys i roi hysbysiad o dan adran 88(2) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 y mae'r Bil yn caniatáu iddynt fynd i wariant a reolir mewn cyfnod a reoleiddir cyn etholiad ar gyfer y Senedd, fel rheol y pedwar mis hyd at a chan gynnwys diwrnod yr etholiad. Mae'r ddarpariaeth yn cyflwyno dirwy ar gyfer unrhyw sefydliadau neu unigolion trydydd parti sy'n mynd i wariant yn groes i hynny.
- 3.96. Mae'r Bil hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud diwygiadau – ychwanegu, dileu neu amrywio – i ddisgrifiadau yn y rhestr o drydydd partïon cymwys. Fodd bynnag, dim ond yn sgil argymhelliad gan y Comisiwn Etholiadol y gellir gwneud gorchymyn i ddileu neu amrywio'r partïon sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr honno. Ar hyn o bryd, mae'r trydydd partïon sy'n gymwys i roi hysbysiad o dan adran 88(2) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn cynnwys:
- unigolyn sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholiadol yn y DU neu sy'n preswyllo yn y DU
  - cwmni cofrestredig yn y DU, sy'n gwmni corfforedig yn y DU ac sy'n cynnal busnes yn y DU
  - undeb llafur cofrestredig yn y DU

- cymdeithas adeiladu gofrestrdig yn y DU
  - partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gofrestrdig yn y DU sy'n cynnal busnes yn y DU
  - cymdeithas gyfeillgar, ddiwydiannol neu ddarbodus gofrestrdig yn y DU
  - cymdeithas anghorfforedig sydd â'i phrif swyddfa yn y DU ac sy'n cynnal y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU
  - corff wedi'i ymgorffori gan Siarter Frenhinol
  - sefydliad corfforedig elusennol yn y DU
  - partneriaeth Albanaid sy'n cynnal busnes yn y DU
- 3.97. Gwnaeth Deddf 2022 hefyd ganiatáu i gymdeithasau anghorfforedig sydd â'r cyswllt angenrheidiol â'r DU fod yn drydydd parti cymwys i fynd i wariant a reolir mewn perthynas ag etholiadau a gedwir yn ôl. Nid yw'r Bil yn cyflwyno yr un categori gan fod y cyswllt angenrheidiol â'r DU yn ymwneud ag etholwyr tramor, nad ydynt yn cymryd rhan yn Etholiadau'r Senedd.
- 3.98. Er mwyn helpu ymgyrchwyr trydydd parti i ddeall y trefniadau hyn, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol lunio cod ymarfer ar gyfer trydydd parti, mewn ymgynghoriad â Phwyllgor y Llywydd a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd, neu unrhyw bwyllgor olynol. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru osod fersiwn ddrafft o unrhyw god ymarfer o'r fath gerbron y Senedd.

## **Rhan 2: Cyrff Etholedig a'u Haelodau**

### Pennod 1: Trefniadau ar gyfer Llywodraeth Leol

#### *Adolygiadau o drefniadau etholiadol: prif gynghorau*

- 3.99. Mae Rhan 3 o Ddeddf 2013 yn disgrifio'r gwahanol fathau o adolygiadau o ardaloedd llywodraeth leol a'u trefniadau etholiadol a phwy gaiff gynnal yr adolygiadau hynny. Manylir hefyd ar y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth gynnal yr adolygiadau hynny. Mae hefyd yn rhagnodi sut y dylid gweithredu unrhyw argymhellion a wneir o ganlyniad i adolygiad.
- 3.100. Mae adran 29(1) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol pob prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi rhaglen ac amserlen ar gyfer cynnal yr adolygiadau hynny yn ogystal ag anfon copi o'r rhaglen at Weinidogion Cymru.
- 3.101. Mae adran 22 o 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau fonitro'r cymunedau a'u trefniadau etholiadol yn eu hardaloedd. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid i'r cyngor ystyried y rhaglen 10 mlynedd ar gyfer adolygu trefniadau etholiadol prif ardaloedd a gyhoeddir gan y Comisiwn ac unrhyw gyfarwyddydau a ddyroddir i'r cyngor gan

## Weinidogion Cymru.

3.102. Daeth rhaglen 2017 ar gyfer adolygu trefniadau etholiadol prif ardaloedd i ben yn 2021 a gwnaed nifer o newidiadau i drefniadau etholiadol prif ardaloedd ledled Cymru. Ymrwymodd Gweinidogion Cymru i ystyried y trefniadau presennol ar gyfer cynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd, gwrando ar adborth gan eraill a nodi cyfleoedd i wella. Yn sgil cyfres o drafodaethau gyda'r rhai hynny a oedd ynghlwm wrth y broses adolygu a'r adborth a gafwyd yn ystod y broses adolygu, cynigiodd Gweinidogion Cymru becyn o fesurau er mwyn datblygu a chryfhau'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol prif ardaloedd ac adolygiadau cymunedau.

3.103. O ganlyniad, mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i:

- ymdrin â phryderon a leisiwyd ynglŷn â'r amser a gymerir i gwblhau adolygiadau a'r amser a gymerir i wneud penderfyniadau ynghylch argymhellion a geir mewn adroddiadau adolygu drwy nodi amserlenni ar gyfer pob un o'r elfennau hyn. Yn ogystal, bydd yn ofynnol yn awr i'r Comisiwn gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o 12 mlynedd. Caiff dyletswydd newydd ei gosod ar brif gynghorau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned yn eu hardaloedd o leiaf unwaith ym mhob 12 mlynedd. Wrth gynnal yr adolygiadau hynny, bydd yn ofynnol i'r prif gyngor ystyried rhaglen ac amserlen y Comisiwn ar gyfer cynnal adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd.
- ehangu natur y materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn a'r prif gynghorau pan fyddant yn llunio argymhellion i newid y trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd a chymunedau. Yn ogystal, ynghyd â'r meini prawf presennol, bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal asesiad cyflawn o'r holl feini prawf wrth benderfynu a ddylai nifer y cynghorwyr fod yr un fath ar gyfer pob ward etholiadol mewn ardal prif gyngor.
- egluro'r gofynion o ran cyhoeddusrwydd ac ymgynghori sydd i'w gweithredu gan y Comisiwn a phrif gynghorau wrth gynnal adolygiadau etholiadol.
- rhoi pwerau gwneud cyfarwyddydau i Weinidogion Cymru i oedi adolygiad. Bydd hyn yn sicrhau hyblygrwydd pan fo amgylchiadau annisgwyl sy'n effeithio'n andwyol ar gynnal y broses adolygu. Enghraifft o hyn yw'r amgylchiadau a wynebwyd yn sgil pandemig COVID-19. Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i oedi adolygiad am gyfnod neu gyfnodau nad ydynt, gyda'i gilydd, yn fwy na chyfnod o 9 mis ar y mwyaf.
- galluogi Gweinidogion Cymru i benderfynu a ddylid gweithredu argymhelliad mewn adroddiad adolygu etholiadol naill ai gydag addasiad neu heb addasiad neu benderfynu peidio â gweithredu mewn

perthynas â'r argymhelliad hwnnw. Ar hyn o bryd, nid yw Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud hyn, ac mae hyn wedi arwain at oedi wrth weithredu argymhellion adroddiad. Mae hyn hefyd wedi arwain at risg y gall fod rhaid i Weinidogion Cymru beidio â gweithredu mewn perthynas â'r holl argymhellion mewn adroddiad adolygu pan fo ganddynt bryderon ynghylch un neu rai o argymhellion yr adroddiad adolygu yn unig.

- gwella trylowyder ynghylch y broses ar gyfer penderfynu ar enwau Cymraeg a Saesneg wardiau etholiadol a sicrhau mwy o ymwneud ag aelodau o'r cyhoedd yn yr ardal y mae'r adolygiad yn effeithio arni.
- ychwanegu nifer o gyrff, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg at y rhestr o ymgynghorai gorfodol y mae'n ofynnol i'r Comisiwn a phrif gynghorau ymgynghori â nhw yn rhan o'r prosesau adolygu amrywiol a nodir yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Bydd ychwanegu Comisiynydd y Gymraeg fel ymgynghorai gorfodol yn rhoi'r cyfle i'r Comisiynydd ddylanwadu ar bob rhan o'r broses adolygu, gan gynnwys y dull arfaethedig ar gyfer enwi wardiau etholiadol.

3.104. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn, yn becyn o fesurau, yn cynrychioli cryfhau'n sylweddol y trefniadau a roddir ar y Comisiwn a phrif gynghorau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflawni llywodraeth leol effeithiol a hwylus.

#### *Adolygiadau o Ffiniau Atfor*

3.105. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn fonitro ac adolygu'r ardaloedd a'r trefniadau etholiadol sy'n berthnasol i'r strwythur llywodraeth leol yng Nghymru wrth ystyried a ddylid newid y trefniadau hynny, neu argymhell gwneud hynny. Wrth gyflawni'r ddyletswydd fonitro honno, caniateir i'r Comisiwn gynnal adolygiad o ffiniau prif ardaloedd, ffiniau cymunedol (naill ai gyda, neu heb gytundeb y prif gyngor priodol), siroedd sydd wedi'u cadw a ffiniau atfor.

3.106. Mewn perthynas â ffiniau atfor, mae adran 28 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn galluogi'r Comisiwn i adolygu unrhyw ran o ffin ardal llywodraeth leol sy'n gorwedd o dan y môr ac nad yw'n ffurfio ffin gyffredin ag ardal llywodraeth leol arall, gan adrodd i Weinidogion Cymru os ydynt o'r farn bod angen ei newid.

3.107. Ceir nifer o amgylchiadau lle y mae'n gwneud synnwyr i'r Comisiwn allu adolygu'r ffiniau atfor mewn mwy nag un ardal llywodraeth leol yn rhan o un broses adolygu. Er enghraifft, pan fo cynigion ar gyfer prosiectau megis môr-lynnoedd llanw sy'n cynnwys, o fewn eu hardal safle, ffiniau mwy nag un ardal llywodraeth leol.

- 3.108. Gwneir darpariaeth yn y Bil i egluro'r gyfraith er mwyn galluogi'r Comisiwn i adolygu ffiniau atfor mwy nag un ardal llywodraeth leol mewn un broses adolygu.

## Pennod 2: Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Etholedig

### *Diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol*

- 3.109. Corff annibynnol yw'r Panel, a'i brif swyddogaeth yw gwneud penderfyniadau ynglŷn â lwfansau a phensiynau y mae'n ofynnol i brif gynghorau, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chydbwyllgorau corfforedig eu talu i'w haelodau, neu yr awdurdodir iddynt eu talu, pan fo'r aelodau hynny yn ymgymryd â busnes swyddogol y cyrff hynny. Mae gan y Panel hefyd y pŵer i wneud argymhellion ar bolisiau sy'n ymwneud â'r cyflogau, neu newidiadau arfaethedig i gyflogau prif weithredwyr awdurdodau y mae'n ofynnol iddynt lunio datganiad ar bolisiau tâl.
- 3.110. Yn 2021, cynhaliwyd adolygiad annibynnol deng mlynedd o'r Panel er mwyn sefydlu a oedd y corff yn parhau i fod yn addas i'r diben ac yn cynnig gwerth da am arian cyhoeddus. Un o argymhellion yr adolygiad oedd ailystyried y trefniadau presennol o ran darparu cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Panel ac ystyried a allai corff Cymreig annibynnol gyda blaenoriaethau tebyg roi'r cymorth ysgrifenyddiaeth hwnnw, yn hytrach na Llywodraeth Cymru.
- 3.111. Cytunodd Gweinidogion Cymru y dylai cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Panel gael ei roi gan gorff heblaw am Lywodraeth Cymru, gan nodi y byddai hyn hefyd yn helpu i atgyfnerthu gweithrediad annibynnol y Panel. Ystyrir mai'r Comisiwn yw'r corff mwyaf priodol i ddarparu'r cymorth hwn gan ei fod yn gorff corfforedig annibynnol sydd o dan arweiniad prif weithredwr, ac mae ganddo hefyd swyddogaeth ysgrifenyddiaeth fewnol effeithiol.
- 3.112. Mae'r Comisiwn yn defnyddio'r un sail dystiolaeth a rhanddeiliaid i gwblhau ei waith ei hun ac mae ei bwrpas hefyd yn seiliedig ar hybu democratiaeth leol effeithiol. Ceir eisoes berthynas symbiotig rhwng gwaith y ddau gorff. Mae blaenoriaethau'r ddau yn dibynnu ar gael gwir ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o anghenion poblogaeth Cymru, y modd y mae aelodau etholedig a chynghorau yn gweithredu, yn ogystal â dealltwriaeth o lwythi gwaith aelodau etholedig.
- 3.113. Yn seiliedig ar y synergeddau rhwng y Panel a'r Comisiwn, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y dylid mynd ymhellach nag argymhelliad yr adolygiad ac mae'n fwriad ganddynt i ddiddymu'r Panel a throsglwyddo swyddogaethau'r Panel ynghylch cydnabyddiaeth ariannol i'r Comisiwn, ac eithrio'r swyddogaeth sy'n ymwneud â chyflogau prif weithredwyr a fydd yn dod i ben pan ddiddymir y Panel. Byddai hyn yn golygu y byddai'r un garfan o Gomisiynwyr yn pennu

nifer y cynghorwyr ledled Cymru, y trefniadau etholiadol ar gyfer y cynghorwyr hynny, a'r trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol a phensiynau'r cynghorwyr hynny a'r cyrff eraill a nodir ym mharagraff 57 uchod.

3.114. Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn cael swyddogaeth newydd mewn perthynas â thaliadau ailsefydlu. Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu'r disgrifiad ar gyfer aelod o awdurdod lleol y mae'n rhaid gwneud taliad iddo neu y caniateir gwneud taliad iddo (diffinnir "awdurdod lleol" yn gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned o dan adran 72 o Ddeddf 2013). Mae hon yn swyddogaeth y gofynnwyd amdani ac a gefnogir gan gynghorau er mwyn cefnogi ein nod cyffredin o ran amrywiaeth aelodaeth etholedig yn y cyrff hyn. Rhoddir taliadau ailsefydlu i gynrychiolwyr etholedig eraill ar draws ein democratiaeth a'u bwriad yw cefnogi amrywiaeth drwy alluogi pobl i gyflwyno eu hunain i'w haillethol gan wybod os na chânt eu dychwelyd yn aelod, y bydd ganddynt lefel gymedrol o gymorth ariannol i'w galluogi i bontio i gam nesaf eu bywydau. Ni fydd taliadau ar gael i gynghorwyr sy'n penderfynu ymddiswyddo a pheidio â cheisio cael eu haillethol.

3.115. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad Papur Gwyn, cefnogwyd y cynigion hyn ar y cyfan. O ganlyniad, bydd y Bil yn:

- diddymu'r Panel.
- creu darpariaeth newydd yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 a fydd yn rhoi'r swyddogaethau ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a'r gofynion gweinyddol ac adrodd ategol a gyflawnir gan y Panel ar hyn o bryd mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny, i'r Comisiwn.
- peidio â gwneud darpariaeth i roi swyddogaeth bresennol y Panel sy'n ymwneud â thâl prif weithredwyr prif gynghorau i'r Comisiwn gan fod y swyddogaeth honno wedi'i hychwanegu mewn ymateb i set benodol o amgylchiadau nad ydynt yn berthnasol mwyach.
- galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r math o rolau, a'u natur, sydd i'w cynnwys mewn unrhyw drefniadau yn y dyfodol mewn perthynas â chynlluniau taliadau ailsefydlu i aelodau etholedig ar y cyrff perthnasol o fewn eu cylch gwaith. Bydd y Comisiwn yn gallu pennu manylion unrhyw gynlluniau yn y dyfodol o fewn y paramedrau a nodir gan Weinidogion Cymru.

### Pennod 3: Anghymwyso a Dylanwad Amhriodol

*Anghymwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd ac yn gynghorydd cymuned*

- 3.116. Diben y ddarpariaeth hon a'r effaith y bwriedir iddi ei chael yw gwneud newidiadau i'r gyfundrefn anghymwysu bresennol ar gyfer Aelodau o'r Senedd yng Nghymru er mwyn cefnogi tegwch, cydraddoldeb ac atebolrwydd y Senedd a llywodraeth leol.
- 3.117. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys y newidiadau a ganlyn i'r gyfundrefn anghymwysu bresennol:
- a) atal aelodaeth ddeuol o'r Senedd a chynghorau cymuned (sy'n cynnwys cynghorau tref a chymuned) yng Nghymru drwy anghymwysu cynghorwyr cymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu yn Aelodau o'r Senedd, gan gysoni'r trefniadau ar gyfer cynghorwyr cymuned gyda'r drefn anghymwysu ar gyfer prif gynghorwyr (aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru;
  - b) dileu'r "cyfnod gras" presennol ar gyfer prif gynghorwyr a etholir i'r Senedd pan fo diwrnod disgwylidig yr etholiad cyffredin nesaf ar gyfer ethol aelodau o'r cyngor o fewn y cyfnod o 372 o ddiwrnodau sy'n dechrau gyda'r diwrnod dychwelyd;
  - c) dileu'r "cyfnod gras" presennol ar gyfer Aelodau o'r Senedd a etholir yn brif gynghorwyr pan fo diwrnod disgwylidig yr etholiad cyffredinol nesaf ar gyfer ethol Aelodau o'r Senedd o fewn y cyfnod o 372 o ddiwrnodau sy'n dechrau gyda'r diwrnod dychwelyd; a
  - d) dileu'r "cyfnod gras" presennol ar gyfer Aelod o'r Senedd a ddychwelir yn Aelod o'r Tŷ Cyffredin pan fo diwrnod disgwylidig yr etholiad cyffredinol nesaf ar gyfer ethol Aelodau o'r Senedd o fewn y cyfnod o 372 o ddiwrnodau sy'n dechrau gyda'r diwrnod dychwelyd.
- 3.118. Bydd y newidiadau hyn yn ymdrin â phryderon y gallai unigolion sy'n Aelodau o'r Senedd ac yn gynghorwyr cymuned ar yr un pryd fod â mantais bosibl dros eu cymheiriaid drwy fod mewn sefyllfa o allu gwthio materion penodol yn eu blaen drwy eu cysylltiad â Gweinidogion Cymru yn y Senedd. Bydd y newidiadau hyn hefyd yn ymdrin â phryderon ynghylch ymrwymadau amser a gwrthdaro buddiannau posibl wrth ddal swyddi deul.
- 3.119. Mae Aelodau o'r Senedd eisoes wedi'u hanghymwysu rhag bod yn aelodau o gyrrff etholedig eraill. Fodd bynnag, ceir cyfnodau gras. Yn ystod y cyfnodau gras, mae gan brif gynghorwyr neu aelodau o'r Tŷ Cyffredin sydd hefyd yn Aelodau o'r Senedd yr hawl i gydnabyddiaeth ariannol am y ddwy rôl. Mae'r sefyllfa hon yn rhoi rhai unigolion mewn sefyllfaoedd breintiedig, hyd yn oed pe baent yn dewis rhoi rhywfaint o'u cydnabyddiaeth ariannol i elusennau o'u dewis.
- 3.120. Bydd dileu'r cyfnodau gras felly yn sicrhau cysondeb yn ogystal ag ymdrin â materion sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol ddeuol. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod cynrychiolwyr etholedig yn gallu cyflawni eu mandad yn briodol o ran ymrwymiad amser yn ogystal ag osgoi gwrthdaro buddiannau bob amser.



*Anghymwysiad am arferion llwgr neu anghyfreithlon: etholiadau llywodraeth leol*

- 3.121. Yn fras, mae'r gyfundrefn anghymhwysu sy'n berthnasol yn sgil cyflawni arferion llwgr neu anghyfreithlon yn gweithio er mwyn anghymwysu unigolyn o bob etholiad a chorff am y cyfnod perthnasol o amser ni waeth ble y cyflawnwyd y drosedd. Mae hyn er mwyn atal unigolion sy'n ceisio niweidio democratiaeth rhag bod yn rhan o'r ddemocratiaeth honno.
- 3.122. Ar hyn o bryd, mae bwlch o ran gweithredu'r gyfundrefn hon. Nid yw unigolyn sy'n cyflawni trosedd mewn etholiad cyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon ac yna'n cael ei anghymwysu o'r etholiadau hynny yn cael ei anghymwysu ar hyn o bryd rhag sefyll yn ymgeisydd na bod yn aelod mewn etholiadau lleol yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio ymdrin â'r bwlch hwnnw o ran gweithredu'r gyfundrefn. Nododd Deddf Etholiadau 2022 y mater hwn hefyd a chafodd deddfwriaeth ei chynnwys er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn yn gweithio fel y bwriedir iddi wneud mewn etholiadau lleol yn Lloegr.

*Anghymhwysiad rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd: y drosedd o ddichell*

- 3.123. Yn ystod Cyfnod 2 y broses graffu deddfwriaethol ar y Bil, cyflwynwyd gwelliant gan Adam Price AS i sefydlu trosedd o ddichell, y byddai euogfarn yn ei sgil yn arwain at anghymhwysiad rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd am gyfnod o 4 blynedd. Wrth gyflwyno'r gwelliant, dywedodd Adam Price AS:

*“deliberate deception in politics should never be acceptable. That is a cultural norm that I'm sure that we all share, but what we are doing in this amendment is turning that cultural norm, that standard, and giving it legal force by creating a specific criminal offence around deliberate deception.”<sup>6</sup>*

- 3.124. Dywedodd Adam Price AS mai pwrpas y gwelliant oedd mynd i'r afael ag atebolrwydd a hygrededd gwleidyddion, gan fanylu:

*“there has always been a problem with a small minority of unscrupulous politicians who are prepared to say anything, even though they know it's not true, to get elected or whatever their motivation is, but we are now getting into a context where that credibility gap is becoming an accountability chasm.”<sup>7</sup>*

- 3.125. Cafodd y gwelliant ei basio yn ystod trafodion Cyfnod 2 ar 15 Mai 2024.

---

<sup>6</sup> Cofnod o Drafodion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Mai 2024.

<sup>7</sup> Cofnod o Drafodion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Mai 2024.

- 3.126. Mae'r darpariaethau sy'n deillio o'r gwelliant yn darparu ar gyfer anghymwysiad rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd am gyfnod o 4 blynedd o ddyddiad yr euogfarn am y drosedd, (a grëwyd hefyd gan y ddarpariaeth hon). Mae'r darpariaethau sy'n creu'r drosedd yn darparu na all Aelod o'r Senedd, neu ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd, yn fwriadol — a chyda'r bwriad o gamarwain — wneud, cyhoeddi, achosi neu ganiatáu iddo gael ei gyhoeddi ar ei ran, ddatganiad sy'n honni ei fod yn ddatganiad ffeithiol, y mae'n gwybod ei fod yn ffug neu'n dwyllodrus mewn manylyn perthnasol.
- 3.127. Er na nodir unrhyw ddull treialu, mae'r darpariaethau yn nodi ei bod yn amddiffyniad i unrhyw berson a gyhuddir o'r drosedd ddangos ei fod, ar adeg y drosedd honedig, naill ai wedi gweithredu er budd diogelwch cenedlaethol, neu y gellid awgrymu'n rhesymol fod y datganiad yn ddatganiad o farn, cred neu fwriad yn y dyfodol yn hytrach na datganiad ffeithiol, neu ei fod wedi tynnu'r datganiad yn ei ôl ac wedi ymddiheuro am ei anghywirdeb o fewn 14 o ddiwrnodau o naill ai wneud neu gyhoeddi'r datganiad, neu pan fo'r anghywirdeb yn cael ei ddwyn i'w sylw.
- 3.128. Mater i'r heddlu fydd ymchwilio i gwynion a ddaw i law ac yna cyflwyno tystiolaeth i Wasanaeth Erlyn y Goron i benderfynu a oes achos rhesymol y gellid ei herlyn.
- 3.129. Mae'r darpariaethau yn nodi bod rhaid cychwyn achos ar gyfer trosedd o'r fath o fewn chwe mis i'r dyddiad y cafodd y datganiad ei wneud neu ei gyhoeddi.
- 3.130. Pan gaiff person ei euogfarnu o'r drosedd, bydd yn cael ei anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu sefyll fel ymgeisydd i fod yn Aelod am bedair blynedd, gan ddechrau o ddyddiad yr euogfarn. Nid yw'r ddarpariaeth yn pennu unrhyw gosb droseddol os bydd achos o euogfarn am y drosedd.
- 3.131. Mae'r darpariaethau hefyd yn rhoi pŵer eang i Weinidogion Cymru ychwanegu, dileu neu addasu darpariaethau, ac fel arall, i ddiwygio unrhyw ddeddfiad at ddibenion y darpariaethau ynghylch y drosedd o ddichell, neu unrhyw ddeddfiad sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r pŵer hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.
- 3.132. Wrth ymateb i welliant Adam Price AS, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol fod yr egwyddor gyffredinol sy'n sail iddo yn un bwysig. Dywedodd:

*the truthfulness of Members sits at the heart of the standards by which we must be held. Trust is fundamental to the proper functioning of democracy in Wales.*"<sup>8</sup>

---

<sup>8</sup> Cofnod o Drafodion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Mai 2024.

3.133. Fodd bynnag, esboniodd fod y ddarpariaeth benodol hefyd yn codi cwestiynau difrifol o braint Seneddol ac effeithiau posibl ar y system gyfiawnder. Yn benodol, dywedodd:

*“we must be very careful about unintended consequences including in relation to Members’ ability to speak freely on matters that concern their constituents in this Senedd.”<sup>9</sup>*

3.134. Nododd y Cwnsler Cyffredinol hefyd y byddai'r gwelliant i bob pwrpas yn dileu braint bresennol yr Aelodau o ran gallu siarad yn agored ynghylch y materion hynny sy'n bwysig iddynt<sup>10</sup>, gan ychwanegu:

*“could be something that has very significant consequences if people consistently look over their shoulder as to whether or not they might be subject to an individual complaint.”<sup>11</sup>*

3.135. Yn yr amser a oedd ar gael i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Memorandwm Esboniadol hwn, nid yw wedi bod yn bosibl i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad cynhwysfawr o oblygiadau ariannol a barnwrol y ddarpariaeth. Nid yw'r rhain felly yn cael eu hystyried yn rhan o Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Asesiad Effaith Integredig nac Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder y Bil.

#### *Anghymwysiad am arferion llwgr neu anghyfreithlon: etholiadau'r Senedd*

3.136. Mae'r un bwlch y cyfeirir ato uchod (3.122) yn berthnasol ar hyn o bryd mewn perthynas ag etholiadau cyngor dosbarth Gogledd Iwerddon ac etholiadau'r Senedd. Mae'r ddarpariaeth hon yn ceisio ymdrin â bwlch yng ngweithrediad y gyfundrefn hon fel bod unigolyn sy'n euog o fod wedi cyflawni arfer llwgr neu anghyfreithlon mewn etholiad cyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn cael ei anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd neu'n Aelod o'r Senedd.

#### *Dylanwad Amhriodol*

3.137. Dylanwad amhriodol yw pan fo unigolyn yn ceisio rhoi pwysau i orfodi etholwr i beidio â phleidleisio neu bleidleisio mewn modd na fyddai wedi gwneud pe na bai pwysau wedi'i roi. Dyma un o'r troseddau etholiadol hanesyddol, ochr yn ochr â llwgrwobrwyo a thretio.

3.138. Yng Nghymru, diffinnir y ddeddfwriaeth bresennol sy'n llywodraethu'r drosedd mewn perthynas ag etholiadau lleol yn adran 115 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, ac, mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, yn erthygl 81 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Yn ychwanegol, yn sgil darpariaethau a

<sup>9</sup> Cofnod o Drafodion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Mai 2024.

<sup>10</sup> Cofnod o Drafodion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Mai 2024..

<sup>11</sup> Cofnod o Drafodion y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 16 Mai 2024..

geir yn Neddf Etholiadau 2022, mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n diffinio trosedd dylanwad amhriodol a gyflawnir yn ystod etholiad Seneddol y DU neu etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi'i nodi yn adran 114A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Mae iaith yr olaf wedi'i hegluro a'i moderneiddio gan Ddeddf Etholiadau 2022.

- 3.139. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r achos dros egluro iaith y drosedd wedi'i ailadrodd yn gyson. Yn 2016, yn ei adolygiad o gyfraith etholiadol, argymhellodd y Comisiynydd Etholiadol y dylid ailddrafftio a moderneiddio'r drosedd. Yn ei adroddiad '[Securing the Ballot](#)', cynghorodd Syr Eric Pickles y dylid cryfhau'r drosedd dylanwad amhriodol mewn perthynas ag etholwyr. Yn 2018, lansiodd Llywodraeth y DU yr ymgynghoriad '[Protecting the Debate: Intimidation, Influence and Information](#)' gan ofyn a ddylid ailddrafftio'r drosedd a gofyn beth y dylai ei gynnwys.
- 3.140. Wedi hynny, aeth Llywodraeth y DU ati i gryfhau a moderneiddio iaith y drosedd drwy ychwanegu darpariaethau diwygiedig at Ddeddf Etholiadau 2022 (Deddf 2022). Yn sgil ceisiadau gan Weinidogion Cymru, cafodd darpariaethau ynghylch dylanwad amhriodol ar gyfer etholiadau Cymreig eu heithrio o Ddeddf 2022 gan alluogi Gweinidogion Cymru a'r Senedd i ystyried y datrysiad priodol ar gyfer etholiadau Cymreig.
- 3.141. Mae diffiniad Deddf 2022 o'r drosedd mewn perthynas ag etholiadau a gedwir yn ôl yn cael ei gryfhau yn arbennig o ran niwed i enw da person a bwriad. Nid oedd y diffiniad blaenorol, a oedd yn rhoi mwy o bwyslais ar niwed corfforol, yn eithrio niwed i enw da yn benodol. Fodd bynnag, yn y diffiniad newydd, ceir darpariaeth gyfartal i'r niweidiau hynny y gall pobl eu profi sy'n llai gweladwy, ond sydd efallai yr un mor niweidiol.
- 3.142. Mae'r diffiniad newydd yn cael ei wella ymhellach drwy egluro pwysigrwydd 'bwriad' wrth gyflawni trosedd. Mae'r ymadrodd "for the purpose of" yn yr adran newydd sy'n amlinellu elfennau'r drosedd yn dangos bod bwriad y person wrth gyflawni'r weithred yn allweddol. I fod yn euog o ddylanwad amhriodol, mae'n ddigon sefydlu bwriad i ddylanwadu yn ormodol ar berson, hyd yn oed os nad oedd y weithred yn llwyddiannus yn hynny o beth.
- 3.143. Mae swyddogion wedi ystyried yr iaith sydd wedi'i chryfhau sy'n disgrifio trosedd dylanwad amhriodol ac maent o'r farn y bydd erlyn achosion o ddylanwad amhriodol yn symlach. Nodwyd yn yr ymgynghoriad Papur Gwyn fod cefnogaeth aruthrol gan randdeiliaid i'r dull hwn. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cymhwyso'r iaith sydd wedi'i hegluro a'i chryfhau o ran trosedd dylanwad amhriodol i etholiadau lleol yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y drosedd gyfatebol ar gyfer etholiadau'r Senedd, sydd wedi'i nodi yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, yn cael ei chryfhau

yn yr un modd drwy'r Bil ac y bydd yn dod i rym cyn etholiadau nesaf y Senedd yn 2026.

#### Pennod 4: Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru:

##### *Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio*

- 3.144. Mae pwyllgor archwilio y Comisiwn yn cadw cydbwysedd pwysig ar gyfer trefniadau llywodraethu'r Comisiwn. Mae gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sefydlu pwyllgor archwilio o dan adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
- 3.145. Yn sgil y swyddogaethau ychwanegol a roddir i'r Comisiwn, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol cryfhau rôl pwyllgor archwilio y Comisiwn o ran cwrpas ei swyddogaethau a lefel aelodaeth annibynnol y pwyllgor.
- 3.146. Mae'r Bil yn diwygio adran 17 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i roi swyddogaethau adolygu ac asesu pellach i bwyllgor archwilio y Comisiwn mewn perthynas â rheoli trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Comisiwn, sut yr ymdrinnir â chwynion a sut yr adolygir adroddiadau a datganiadau ariannol.
- 3.147. Bydd y diwygiad hefyd yn galluogi'r Comisiwn i roi swyddogaethau addas pellach i'r pwyllgor archwilio ac mae'n pennu nifer uchaf aelodau y pwyllgor, nifer lleiaf aelodau lleyg y pwyllgor ac yn ei gwneud yn ofynnol i gadeirydd a dirprwy gadeirydd y pwyllgor fod yn aelodau lleyg o'r pwyllgor.
- 3.148. Wrth fwrw ati â'r uchod, mae'r Bil yn diwygio'r ddyletswydd a roddir ar y Comisiwn i sefydlu pwyllgor archwilio i ddyletswydd i sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio.

##### *Pŵer i godi tâl*

- 3.149. Er mwyn cefnogi cyflawni swyddogaethau newydd a diwygiedig y Comisiwn ymhellach, mae'r Bil yn mewnosod adran newydd yn Neddf 2013 sy'n rhoi pŵer i'r Comisiwn godi tâl ar dderbynwyr am nwyddau neu wasanaethau, os ydynt yn cytuno i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Byddai hyn mewn perthynas â'i swyddogaethau gweinyddu etholiadol newydd (y gellir eu harfer gan yr EMB) neu ei swyddogaethau mewn perthynas â Rhan 3 o Ddeddf 2013 (trefniadau ar gyfer llywodraeth leol). Er enghraifft, gall y Comisiwn gaffael sesiynau hyfforddi dewisol i'r gymuned etholiadol, y gallai godi tâl ar fynychwyr am hynny i adennill cost darparu'r hyfforddiant.

## 4. Ymgynghori

- 4.1. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [bapur ymgynghori](#) ar Ddiwygio Etholiadol ym maes Llywodraeth Leol yng Nghymru ar 18 Gorffennaf 2017, yn dilyn y broses o drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar ystod eang o gynigion ar gyfer diwygio etholiadol ym maes llywodraeth leol, yn ymwneud yn bennaf â sut mae pobl yn cofrestru i bleidleisio a bwrw eu pleidlais. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ac ymgysylltiad perthnasol arall â rhanddeiliaid, cyflwynwyd diwygiadau ar ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau datganoledig a gwella'r broses ar gyfer y canfasiad blynyddol.
- 4.2. O ganlyniad, pasiwyd dwy Ddeddf gan y Senedd:
- Deddf 2020 a estynnodd yr etholfraint etholiadol ar gyfer etholiadau i'r Senedd; a
  - Deddf 2021 a estynnodd yr etholfraint etholiadol ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ac a roddodd bŵer dewisol i gyflwyno Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy (STV) mewn etholiadau i brif gynghorau.
- 4.3. Ym mis Gorffennaf 2021, gwnaeth Mick Antoniw AS, Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, ddatganiad ar Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio etholiadol a roddodd ymrwymiad i ddylunio diwygiadau mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid yn unol â chwe egwyddor tegwch, hygyrchedd, cyfranogiad, gwella profiad dinasyddion, symrlwydd a chywirdeb.
- 4.4. Cyhoeddwyd [Papur Gwyn](#) yn nodi ystod eang o gynigion ar gyfer Gweinyddu a Diwygio Etholiadol ar 11 Hydref 2022 ac roedd yn destun cyfnod cyhoeddus o ddeuddeg wythnos. Mae'r Papur Gwyn yn nodi cynigion Llywodraeth Cymru i foderneiddio gweinyddiaeth etholiadol a diwygio etholiadau datganoledig. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad mewn fformat addas ar gyfer pobl ifanc, fformat hawdd ei ddarllen ac mewn Iaith Arwyddion Prydain. Cafodd yr ymgynghoriad 137 o ymatebion. Cafodd y rhan fwyaf o feysydd yr ymgynghorwyd arnynt gefnogaeth gan ymatebwyr a gellir dod o hyd i fanylion am hyn yn yr [adroddiad cryno](#) i'r ymgynghoriad.
- 4.5. Er bod rhanddeiliaid yn gyffredinol gefnogol, gwnaethom nodi nifer o themâu ar draws yr ymatebion a gafwyd lle roedd pryderon. Cododd Swyddogion Canlyniadau, yr AEA a rheolwyr y gwasanaeth etholiadol bryderon ynghylch pwysau gweinyddol ac ariannol ychwanegol posibl rhai o'r diwygiadau a chapasiti systemau rheoli etholiadol i weithredu'r newidiadau arfaethedig. Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd rheoli gwahaniaethau yn ofalus rhwng etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau Cymru er mwyn lleihau'r pwysau gweinyddol ar staff

etholiadol. Amlygwyd pwysigrwydd cyfathrebu cynnar a chlir hefyd i sicrhau bod pleidleiswyr yn deall y newidiadau ac osgoi dryswch.

4.6. Fel rhan o'r broses ymgynghori, cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu wedi'u targedu gyda rhanddeiliaid allweddol a gynlluniwyd i hysbysu, ceisio barn a phrofi cymhwysiad ymarferol y cynigion. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynhadledd rithwir rhwng y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Swyddogion Canlyniadau, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol a rheolwyr y gwasanaeth etholiadol a oedd yn canolbwyntio ar allu'r sector i gyflawni diwygiadau a sut i reoli gwahaniaeth rhwng etholiadau datganoledig a rhai a gedwir yn ôl.
- Gweithdy bord gron ar gyfer y trydydd sector ac awdurdodau lleol a gynhelir gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol a oedd yn canolbwyntio ar anghenion y pleidleisiwr mewn perthynas â diwygio etholiadol.
- Sesiwn dechnegol a gynhelir gan y Comisiwn ar gyfer rheolwyr gwasanaethau etholiadol i asesu manylion cynigion sy'n ymwneud â'r Comisiwn a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar awdurdodau lleol.
- Tair sesiwn dechnegol gaeedig gyda darparwyr meddalwedd etholiadol a gynhelir gan swyddogion Llywodraeth Cymru, gan roi'r cyfle i'r darparwyr hynny drafod goblygiadau'r diwygiadau arfaethedig ar systemau rheoli etholiadol a gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru am unrhyw bwyntiau o esboniad.
- Cyfres o ddigwyddiadau Amrywiaeth mewn Democratiaeth, gan gynnwys gweithdai diogelwch ymgeiswyr, a oedd yn ystyried sut i annog mwy o amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad a sut i amddiffyn ymgeiswyr ac aelodau etholedig rhag camdriniaeth.
- Sesiwn galw heibio i Aelodau Seneddol ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth a diogelwch ymgeiswyr.

4.7. Yn dilyn canlyniadau'r ymarfer ymgynghori, mae'r ddeddfwriaeth wedi'i llunio i ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid ac ymatebwyr i'r Papur Gwyn.

4.8. Yn benodol, gofynnwyd am farn ar gyflwyno Cronfa Ddata Cymru Gyfan o ddata cofrestru etholiadol fel rhan o foderneiddio systemau cofrestru etholiadol yng Nghymru yn ehangach. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn codi pryderon am raddfa'r cynnig ar hyn o bryd yng nghyd-destun newidiadau etholiadol ehangach yng Nghymru ac ar draws y DU. O ganlyniad, penderfynwyd wedyn i beidio â bwrw ymlaen â hyn o fewn y Bil ar hyn o bryd.

4.9. Gwnaethom ymgynghori ar ein cynnig i ddeddfu ar gyfer sefydlu EMB yng Nghymru, i gyflawni swyddogaethau yn annibynnol o'r lywodraeth sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan y WECB. Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, roedd cefnogwyr EMB yn ffafrio model pwyllgor statudol yn fras i fodel corff cyhoeddus oherwydd ei gostau a'i gymhlethdod

is. Helpodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad i lunio ein dull o ddatblygu'r Bil sy'n ceisio deddfu ar gyfer rhoi swyddogaethau'r EMB i'r Comisiwn, ac mae'n ofynnol i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor i gyflawni'r swyddogaethau sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda Cymru. Mae hyn yn rhoi manteision corff cyhoeddus heb greu costau gorbenion newydd sylweddol.

- 4.10. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgymryd â rhaglen o ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid allweddol a fydd yn parhau wrth inni ddatblygu ein cynigion i ddiwygio ymhellach. Mae dau weithgor wedi'u sefydlu i helpu i lywio'r dyluniad polisi manwl:
- Partneriaeth Ymgysylltu Democrataidd Cymru sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, sefydliadau'r trydydd sector, grwpiau cymunedol sydd â diddordeb mewn hyrwyddo cymryd rhan mewn democratiaeth, a thimau gwasanaethau etholiadol Awdurdodau Lleol, sy'n helpu i nodi dulliau arfer gorau, rhannu adnoddau digidol a mynd i'r afael â rhwystrau i gynyddu ymgysylltiad democrataidd; a
  - Gweithgor ar Gofrestru Awtomatig, a sefydlwyd i ddatblygu cyfres o gynlluniau peilot gwybodus a chyflawnadwy, gyda dealltwriaeth glir o'r costau a'r goblygiadau adnoddau ar gyfer cyflwyno'r polisi hwnnw yn y Bil hwn. Mae aelodaeth y grŵp hwnnw'n cynnwys rheolwyr gwasanaethau etholiadol awdurdodau lleol.
- 4.11. Mae gwaith hefyd wedi'i wneud i ymgynghori'n anffurfiol ar y newidiadau technegol y mae angen eu gwneud i systemau digidol er mwyn galluogi'r newidiadau gweinyddol arfaethedig i weithio'n effeithiol yn ymarferol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau manwl gyda darparwyr meddalwedd rheoli etholiadol i asesu goblygiadau amser a chost gwneud newidiadau gweinyddol, ac i sicrhau y byddai newidiadau o'r fath yn gweddu i anghenion gweinyddwyr etholiadol.
- 4.12. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Bil drafft cyn ei gyflwyno i'r Senedd gan fod rhaglen ymgysylltu a chydweithio helaeth ac adeiladol gyda rhanddeiliaid, sy'n adeiladu ar ymgynghoriadau cynharach, yn cael ei chynnal, a bydd hon yn parhau drwy gydol oes y Bil.



## 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

- 5.1. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi dyfarniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:
- i. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;
  - ii. ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;
  - iii. priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
  - iv. y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol
- 5.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran newydd 20E(3)(c) o Ddeddf 2013 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau pellach (yn ogystal ag adrannau 20A i 20D newydd o Ddeddf 2013 a phennod 3 o Ran 1 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (peilota a diwygio etholiadau Cymreig)) i'r Comisiwn, i'w harfer gan yr EMB. Yn benodol, rhagwelir y gallai rheoliadau a wneir o dan adran 27 (Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig) roi swyddogaethau i'r Comisiwn mewn perthynas â'r platfform hwnnw.</p> <p>Hefyd, efallai y bydd angen yn y dyfodol i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau eraill sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadol i'r Comisiwn.</p>	Negyddol neu gadarnhaol	Pan fo rhoi unrhyw swyddogaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddiwygiadau gael eu gwneud i Ddeddf gan Senedd y DU, Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddf gan y Senedd, bydd y rheoliadau sy'n rhoi'r swyddogaeth newydd honno yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>cadarnhaol. Ym mhob achos arall, bydd y weithdrefn negyddol yn gymwys (mae adran 71(2) a (3) o Ddeddf 2013 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 1(54)(b) o Atodlen 1 i'r Ddeddf hon yn cyfeirio at hyn). Pan ddefnyddir y pŵer i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol. Serch hynny, ym mhob achos arall ystyrir bod natur y rheoliadau'n cyfiawnhau'r</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					weithdrefn negyddol.
Adran newydd 9ZA((6)(a)-(c) o Ddeddf 1983 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch yr hyn sy'n ofynnol ar yr hysbysiad etholiad a anfonir at bob etholwr sydd wedi'i gofrestru'n awtomatig. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiweddarau'r rhestr o wybodaeth ofynnol yn unol â gweithgarwch peilota ac yn y dyfodol os bydd gwerthuso'r cynllun cofrestru awtomatig yn tynnu sylw at yr angen am wybodaeth hanfodol i etholwyr.	Negyddol	Mae sylwedd y pŵer hwn wedi'i nodi ar wyneb y bil h.y. yr hyn y mae'n rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol ei gynnwys yn yr hysbysiad cofrestru. Byddai'r pwerau gwneud rheoliadau hyn yn cael eu defnyddio i ddiweddarau'r rhestr hon yn dilyn argymhellion gan gynlluniau peilot cofrestru awtomatig, neu

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					yn y dyfodol i adlewyrchu unrhyw newidiadau pellach a argymhellir a fyddai'n cefnogi'r etholwr i ddeall y broses hon.
Adran 5	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer cynnal cynlluniau peilot etholiadol mewn cysylltiad â materion etholiadol perthnasol (fel y'u diffinnir gan adran 5(3)) yn etholiadau Cymru (etholiadau cyffredin Senedd Cymru, etholiadau llywodraeth leol cyffredin ac is-etholiadau llywodraeth leol). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddefnyddio'r pŵer hwn i dreialu'r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 3(4) (adran 5(4)).	Cadarnhaol a negyddol	Lle mae rheoliadau peilot; <ul style="list-style-type: none"> <li>i. yn cael eu gwneud heb ganiatâd yr awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo weithredu'r cynllun peilot;</li> <li>ii. yn treialu'r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 2(4); neu</li> </ul>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>iii. yn creu, yn dileu neu'n addasu troseddau,</p> <p>mae'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (adran 7(3) a (4)). Ystyrir ei bod yn briodol, mewn amgylchiadau o'r fath, i roi cyfle i'r Senedd drafod teilyngdod cynlluniau peilot o'r fath.</p> <p>Bydd pob rheoliad peilot arall yn ddarostyngedig</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					i'r weithdrefn negyddol (adran 7(5)). Ystyrir bod hyn yn briodol oherwydd cyn gwneud unrhyw reoliadau peilot, bydd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru (drwy ei Fwrdd Rheoli Etholiadol) adrodd ar y cynllun arfaethedig, a rhaid gosod copi o'r adroddiad gerbron y Senedd gyda'r rheoliadau.
Adran 15(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi ffactorau perthnasol y mae'n rhaid i Gomisiwn	Negyddol	Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i alluogi

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>Ffiniau a Democratiaeth Cymru (sydd i'w arfer gan ei Fwrdd Rheoli Etholiadol) eu hystyried wrth asesu a gwerthuso unrhyw gynigion ar gyfer cynlluniau peilot. Bydd modd diwygio'r rhestr o ffactorau perthnasol drwy reoliadau pellach a thrwy hynny ddarparu hyblygrwydd yn y dyfodol os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno pennu meini prawf eraill y dylid eu hystyried wrth werthuso cynigion ar gyfer cynlluniau peilot. Gallai unrhyw newidiadau o'r fath fod yn seiliedig ar brofiad neu ymrwymadau'r llywodraeth.</p>		<p>Gweinidogion Cymru i ragnodi meini prawf penodol y dylid eu hystyried wrth werthuso cynigion peilot. Mae'r materion sydd i'w hasesu ac i adrodd arnynt wedi'u nodi ar wyneb y ddeddfwriaeth (adran 15(2)). Felly, ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol.</p>
Adran 17(4)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i nodi'r hyn y dylai adroddiad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gynlluniau peilot arfaethedig ei gynnwys. Yn ogystal â'r gofynion a nodir ar yr wyneb ar y Bil, ac yn ogystal ag unrhyw beth y mae'r Comisiwn yn credu</p>	Negyddol	<p>Nid yw'r pŵer d yn caniatáu i ogion Cymru egu gofynion at y n y bydd y vn yn adrodd Argymhellir y efn negyddol</p>



Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			sy'n berthnasol, gall Gweinidogion Cymru fynnu bod materion ychwanegol yn cael eu hadrodd arnynt pan fydd y Comisiwn yn gwerthuso cynlluniau peilot sydd wedi cael eu cyflwyno iddynt i'w hystyried.		dd bod y Bil yn s gofynion pl yr adroddiad ac omisiwn, drwy iaethau'r Bil, yn adrodd am beth y maent yn y'n berthnasol, ac yn yn gofyn am b Gweinidogion Mae'r pŵer hwn yddol yn bennaf.
Adran 19(3)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau parhaol i gyfraith etholiadol yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus. Fodd bynnag, dim ond ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y gellir gwneud rheoliadau o'r fath.	Uwchnegyddol & Uwchgadarnhaol	Lle mae rheoliadau diwygio; <ul style="list-style-type: none"> <li>i. yn addasu deddfwriaeth sylfaenol;</li> <li>ii. yn creu neu'n ehangu cwmpas trosedd; neu</li> <li>iii. yn creu neu'n diwygio pŵer i ddeddfu,</li> </ul>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (adran 20 (3) a (4)), ond gall y Senedd neu bwyllgor o'r Senedd sy'n adrodd ar y rheoliadau ddatrys, o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r rheoliadau drafft gael eu gosod, y dylai gweithdrefn uwchgadarnhaol fod yn gymwys i reoliadau o'r fath (adran 20(13)). Mae'r weithdrefn uwchgadarnhaol hon yn ei gwneud yn ofynnol i</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw sylwadau; unrhyw benderfyniadau gan y Senedd; ac unrhyw argymhellion gan bwyllgor o'r Senedd sy'n gyfrifol am adrodd ar y rheoliadau drafft, a wneir o fewn 60 diwrnod i osod y rheoliadau. Dim ond os yw'r Senedd yn eu cymeradwyo ar ôl i'r cyfnod 60 diwrnod ddod i ben y caiff Gweinidogion Cymru wneud y</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>rheoliadau (heb newidiadau perthnasol). Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl y cyfnod o 60 diwrnod, yn dymuno bwrw ymlaen â'r rheoliadau drafft, ond gyda newidiadau perthnasol, rhaid gosod y rheoliadau drafft diwygiedig gerbron y Senedd ynghyd â datganiad yn crynhoi'r newidiadau, i'w cymeradwyo gan y Senedd. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod datganiad</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>yn nodi pam eu bod wedi dewis peidio â dilyn argymhelliad y pwyllgor yn gyfan gwbl neu yn rhannol.</p> <p>Ar gyfer pob offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau diwygio, bydd gweithdrefn uwchnegyddol yn berthnasol (adran 20(5)). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, pan fyddant yn ystyried bod y weithdrefn</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>negyddol yn briodol, wneud datganiad i'r perwyl hwnnw a gosod drafft o'r rheoliadau gerbron y Senedd ynghyd â memorandwm sy'n nodi eu datganiad a'r rhesymau dros eu barn. Ni chaiff Gweinidogion Cymru ond symud ymlaen i wneud y rheoliadau ar ffurf y weithdrefn negyddol os yw Pwyllgor perthnasol yn y Senedd yn gwneud argymhelliad ynghylch y</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>weithdrefn briodol, neu os oes 14 diwrnod yn mynd heibio ers gosod y rheoliadau drafft ac os na dderbynnir argymhelliad gan y pwyllgor. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod datganiad yn nodi pam eu bod wedi dewis peidio â dilyn argymhelliad y pwyllgor yn gyfan gwbl neu yn rhannol.</p> <p>Ystyrir bod y ddwy weithdrefn yn briodol gan eu bod yn darparu ar gyfer</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					craffu ychwanegol gan y Senedd sy'n adlewyrchu natur y rheoliadau diwygio.
Adran 26(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu plattform gwybodaeth am etholiadau Cymreig. Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu pwy yw'r sefydliad gorau i ddarparu ar gyfer plattform o'r fath a pha wybodaeth, yn ychwanegol at yr wybodaeth a ragnodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, y dylid ei darparu i bleidleiswyr i gefnogi eu cyfranogiad yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau prif gynghorau yng Nghymru gyda phŵer i gynnwys gwybodaeth mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol. Rhaid i'r rheoliadau hefyd nodi trefn adrodd ar redeg plattform gwybodaeth am etholiadau Cymreig a'i effaith.	Cadarnhaol a negyddol	Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys pan fo rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ymwneud ag is-adran (4)(c), hynny yw, pan fo'r rheoliadau'n rhoi esemptiadau rhag atebolrwydd sifil a throreddol mewn cysylltiad â chyhoeddi datganiadau ymgeiswyr a gwybodaeth arall



Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>am ymgeiswyr. Mae hyn er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i Senedd Cymru graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn oherwydd pwysigrwydd gwleidyddol cyfyngu ar atebolrwydd o'r fath i'r Senedd gyfan.</p> <p>Mae'r weithdrefn negyddol i'w defnyddio pan wneir rheoliadau mewn perthynas â rhoi swyddogaethau i</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>bersonau, ynghylch cyhoeddi gwybodaeth ar y platfform, gan gynnwys cyhoeddi datganiadau ymgeiswyr a gwybodaeth arall mewn perthynas ag ymgeiswyr, a sicrhau bod yr wybodaeth ar y platfform ar gael ac eithrio drwy ddulliau electronig. Mae hyn yn caniatáu i'r gofynion ynghylch adrodd ar weithrediad ac effeithiolrwydd y platfform gael eu nodi. Mae'r weithdrefn hon</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					yn briodol gan ei bod yn debygol y bydd yn ymwneud â materion gweinyddol yn hytrach na materion sy'n ymwneud â pholisi.
Adran 27(8)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu, diwygio neu ddileu gwasanaethau a ychwanegir at y rhai y gellir eu darparu i hyrwyddo amrywiaeth mewn personau sy'n ceisio swydd etholedig.	Cadarnhaol	Mae hyn er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i Senedd Cymru graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn oherwydd pwysigrwydd gwleidyddol Senedd gyfan. Teimlir bod y

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau tryloywder a niwtraliaeth wleidyddol.</p> <p>Yn ogystal â hyn, gan fod y pŵer hwn yn cynnwys diwygio deddfwriaeth sylfaenol, teimlir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol.</p>
Adran 28(1)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol i helpu ymgeiswyr, sydd â nodweddion neu amgylchiadau penodol, i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan yn yr etholiad sy'n gysylltiedig â'r nodweddion neu'r amgylchiadau hynny.</p> <p>Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi neu</p>	Cadarnhaol	<p>Mae hyn er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i Senedd Cymru graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>ddarparu ar gyfer penodi person i weithredu'r cynllun y maent yn darparu ar ei gyfer.</p> <p>Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau i berson a darparu ar gyfer dirprwyo'r swyddogaethau hynny, yn ei gwneud yn ofynnol i berson y rhoddir swyddogaethau iddo gadw a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio, i gadw cyfrifon a chofnodion eraill, ac yn ei gwneud yn ofynnol i berson arall gyhoeddi gwybodaeth benodedig am gymorth ariannol a roddir yn unol â'r cynllun (fodd bynnag, ni osodir dyletswydd o'r fath i gyhoeddi pan fyddai'r ddyletswydd honno (gan gymryd y ddyletswydd i ystyriaeth) yn groes i'r ddeddfwriaeth diogelu data o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 2018).</p> <p>Mae'n galluogi rhoi cymorth ariannol yn amodol ar amodau ac yn nodi'r amgylchiadau pan fydd cymorth o'r fath yn cael ei ad-dalu.</p>		<p>Cymru yn y maes hwn oherwydd pwysigrwydd gwleidyddol Senedd gyfan. Teimlir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau tryloywder a niwtraliaeth wleidyddol.</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
Adran 28(2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	<p>Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi, mewn rheoliadau, unrhyw drefniadau i ddarparu cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl sy'n sefyll mewn etholiad yng Nghymru i oresgyn rhwystrau er mwyn cymryd rhan lawn ac effeithiol yn yr etholiad sy'n gysylltiedig â'u hanabledd.</p> <p>Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau i berson a darparu ar gyfer dirprwyo'r swyddogaethau hynny, yn ei gwneud yn ofynnol i berson y rhoddir swyddogaethau iddo gadw a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio, i gadw cyfrifon a chofnodion eraill, ac yn ei gwneud yn ofynnol i berson arall gyhoeddi gwybodaeth benodedig am gymorth ariannol a roddir yn unol â'r cynllun (fodd bynnag, ni osodir</p>	Cadarnhaol	Mae hyn er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i Senedd Cymru graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn oherwydd pwysigrwydd gwleidyddol Senedd gyfan. Teimlir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>dyletswydd o'r fath i gyhoeddi pan fyddai'r ddyletswydd honno (gan gymryd y ddyletswydd i ystyriaeth) yn groes i'r ddeddfwriaeth diogelu data o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 2018).</p> <p>Mae'n galluogi rhoi cymorth ariannol yn amodol ar amodau ac yn nodi'r amgylchiadau pan fydd cymorth o'r fath yn cael ei ad-dalu.</p>		er mwyn sicrhau tryloywder a niwtraliaeth wleidyddol.
Adran 156 o Ddeddf 2000 (fel y'i diwygiwyd gan adran 34(2))	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae paragraff 14A o Atodlen 4A i Ddeddf 1983 (fel y'i diwygiwyd gan y Bil) yn caniatáu i'r Comisiwn Etholiadol baratoi canllawiau i'w defnyddio gan ymgyrchwyr, gan nodi'r gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â gwariant ar ymgyrchoedd mewn etholiadau llywodraeth leol. Daw Gweinidogion Cymru â'r canllawiau i rym drwy orchymyn. Mae'r Bil yn diwygio adran 156(3) o Ddeddf 2000 fel nad yw gorchymynion o'r fath yn destun gweithdrefn gan y Senedd.	Dim gweithdrefn	Cyn gwneud gorchymyn i ddod ag unrhyw ganllawiau i rym, rhaid i Weinidogion Cymru osod y canllawiau drafft gerbron y Senedd am gyfnod o 40 diwrnod. Os yw'r Senedd yn

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					penderfynu peidio â chymeradwyo'r canllawiau, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ei dwyn i rym. Gan fod y canllawiau drafft yn destun craffu llawn, ystyrir ei bod yn briodol nad yw gorchymyn dilynol i ddod â'r canllawiau hynny i rym yn ddarostyngedig i weithdrefn arall gan y Senedd.
Adran 88(11) o Ddeddf 2000 (fel y'i diwygiwyd gan adran 37(2))	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o ddisgrifiadau o drydydd partïon, y darperir ar eu cyfer yn adran 88(2) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda	Cadarnhaol	Gan fod y pŵer hwn yn caniatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio, ystyrir ei



Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			<p>2000 (Deddf 2000), sy'n gallu cofrestru i ymgyrchu mewn cyfnod etholiad Senedd sy'n cael ei reoleiddio, gan ganiatáu iddynt wynebu gwariant o fwy na £700. Gall gorchymyn ychwanegu, dileu neu addasu disgrifiad o'r trydydd partïon hynny. Fodd bynnag, dim ond ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y gellir dileu neu addasu'r disgrifiadau o drydydd partïon. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cadw'r rhestr o drydydd partïon cymwys yn wyneb unrhyw ddatblygiadau, ac osgoi'n ddiangen atal math newydd o drydydd parti rhag gallu ymgyrchu mewn etholiad.</p>		<p>bod yn briodol i'r Senedd gael cyfle i drafod rhinweddau unrhyw ddiwygiad o'r fath ac felly mae defnyddio'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yn ogystal â hyn, pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnig tynnu trydydd partïon oddi ar y rhestr, neu ddiwygio'r disgrifiad o'r trydydd partïon hynny, mewn perthynas â'r cyfnod ymgyrchu perthnasol, dim</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					ond ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y byddant yn gallu gwneud hynny.
Adrannau newydd 100A a 100C o Ddeddf 2000 (fel y'u mewnosodwyd gan adran 38(2) a (4))	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Mae adran 38 o'r Ddeddf yn mewnosod darpariaeth newydd yn Neddf 2000 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol baratoi cod ymarfer ynghylch y rheolaethau ar wariant trydydd parti yn ystod ymgyrch etholiadol gan y Senedd (mae adran 38(2)(a) yn mewnosod adran newydd 100A(1A) yn Neddf 2000). Mae adran 38(4) yn mewnosod adran newydd 100C yn Neddf 2000 sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r cod ymarfer. Mae unrhyw god ymarfer o'r fath yn cael ei ddwyn i rym drwy orchymyn Gweinidogion Cymru (adran 100C(8) o Ddeddf 2000).	Dim gweithdrefn	Nid yw unrhyw orchymyn sy'n dod â chod ymarfer perthnasol i rym yn ddarostyngedig i weithdrefn gan y Senedd. Ystyrir hyn yn briodol oherwydd cyn y gellir gwneud gorchymyn o'r fath, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol baratoi ac ymgynghori ar y cod ymarfer, sy'n cynnwys

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					<p>ymgyngori â'r Pwyllgor Llywydd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (neu unrhyw bwyllgor olynol). Yn ogystal â hyn, rhaid i unrhyw god ymarfer drafft a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru gael ei osod gerbron y Senedd am gyfnod o 40 diwrnod cyn y caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn dod â'r cod hwnnw i rym.</p>

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					Os yw'r Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ei dwyn i rym.
Adran 41(2)(b)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd gan y Comisiwn.	Negyddol	Mae newid y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau cyfnod adolygu yn fanylion technegol y gallai fod eu hangen os bydd tarfu ar raglen adolygu. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a fyddai'n ysgogi defnyddio'r pŵer hwn yn cynnwys

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					argyfwng iechyd cyhoeddus, newid yn y dyddiad ar gyfer etholiadau llywodraeth leol neu ddarparu mwy o synergedd rhwng cyfnodau adolygu trefniadau sirol a chymunedol.
Adran 51(3)(a)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol cymunedol gan brif gyngor.	Negyddol	Mae newid y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau cyfnod adolygu yn fanylion technegol y gallai fod eu hangen os bydd tarfu ar raglen adolygu. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					fyddai'n ysgogi defnyddio'r pŵer hwn yn cynnwys argyfwng iechyd cyhoeddus, newid yn y dyddiad ar gyfer etholiadau llywodraeth leol neu ddarparu mwy o synergedd rhwng cyfnodau adolygu trefniadau sirol a chymunedol.
Adran 57  Adran 69R o Ddeddf 2013 fel y'i mewnosodwyd gan adran 57(2) o'r Bil	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i addasu Rhan 5A i ychwanegu, amrywio neu hepgor darpariaeth sy'n ymwneud â swyddogaeth y Comisiwn neu'n gosod swyddogaeth arno	Cadarnhaol	Ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol gan y gellid defnyddio'r pŵer i addasu deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n atgynhyrchu'r pŵer a'r

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					weithdrefn yn adran 158 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
Adran 64 (mewnosodwyd yn y Bil yng Nghyfnod 2)	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu, dileu neu addasu darpariaethau, yn ogystal â phŵer i ddiwygio unrhyw ddeddfiad arall o ganlyniad ac ati i'r darpariaethau.	Cadarnhaol	Mae hwn yn bŵer eang i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol felly'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol gan ddarparu lefel ychwanegol o graffu gan y Senedd.
Adran 71	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o ddefnydd cyffredinol i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn cysylltiad â darpariaethau o fewn y Bil.	Negyddol a Chadarnhaol	Bydd y rhain yn rhai technegol a gweithdrefnol eu natur.  Pan fyddai rheoliadau'n

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					diwygio, yn diddymu neu fel arall yn addasu darpariaeth mewn Deddf Seneddol neu a Deddf neu Fesur Senedd Cymru, ni chaniateir i'r offeryn sy'n cynnwys y rheoliadau gael ei gwneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd.
Adran 72	Gweinidogion Cymru	Gorchymyn	Y pŵer i ddechrau darpariaethau penodol mewn perthynas â Biliiau er mwyn galluogi i'r broses o ddod i rym a gweithredu gael eu hamseru'n briodol.	Dim gweithdrefn	Mae hwn yn bŵer i bennu dyddiad dod i rym ar gyfer darpariaethau y



<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
					cytunwyd arnynt eisoes yn y Bil, ac ystyrir ei bod yn briodol nad oes angen gweithdrefn ar gyfer hyn.
Atodlen 1  Adran 69K(2)(d) o Ddeddf 2013 fel y'i mewnosodwyd gan adran 57(2) o'r Bil	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi corff cyhoeddus sy'n berthnasol at ddibenion yr wybodaeth y caniateir ei chynnwys mewn adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol o dan adran 69K.	Negyddol	Galluogi tryloywder llawn y taliad cydnabyddiaeth y mae cynghorwyr yn ei chael gan gyrff cyhoeddus, yn ogystal â'u cyngor eu hunain.
Atodlen 1  Adran 69C(2)(e) o Ddeddf 2013 fel y'i mewnosodwyd	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyrff sy'n dod o fewn y diffiniad o'r term awdurdod perthnasol at ddibenion Rhan 5A.	Negyddol	Byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu cyrff o fewn y teulu llywodraeth leol at y rhestr o gyrff

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
gan adran 57(2) o'r Bil					y byddai'n ofynnol iddynt ddilyn penderfyniadau'r Comisiwn mewn perthynas â thaliadau a phensiynau.
Atodlen 1  Adran 69D(1) o Ddeddf 2013 fel y'i mewnosodwyd gan adran 57(2) o'r Bil	Gweinidogion Cymru	Rheoliadau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, mewn rheoliadau, ddisgrifiad o aelodau y byddant yn gymwys i gael taliad ailsefydlu.	Negyddol	Mae hyn yn dechnegol ei natur ar y cyfan a byddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r disgrifiad o'r aelodau y byddai unrhyw daliadau ailsefydlu yn y dyfodol yn berthnasol iddynt. Byddai'r Comisiwn wedyn yn gyfrifol am bennu'r amodau cymhwyso y

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
					byddai'n rhaid i unigolion eu bodloni cyn derbyn taliad.

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i wneud cyfarwyddydau a dyroddi canllawiau yn narpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
Adran 20B(1) o Ddeddf 2013, fel y'i mewnosodwyd gan adran 1(2)	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru	Cyfarwyddydau	Y pŵer i ddyroddi cyfarwyddydau i swyddogion canlyniadau ynghylch arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru. Ni fydd cyfarwyddydau'n disodli eu cyfrifoldeb personol presennol i gyflawni eu swyddogaethau neu eu dyletswyddau.	Dim gweithdrefn	Bydd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru (sy'n gweithredu drwy'r EMB) ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn dyroddi cyfarwyddydau.
Adran 20C(1) o Ddeddf 2013, fel y'i mewnosodwyd gan adran 1(2)	Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru	Cyfarwyddydau	Y pŵer i ddyroddi cyfarwyddydau i swyddogion cofrestru etholiadol ynghylch arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru. Ni fydd cyfarwyddydau'n disodli eu cyfrifoldeb personol presennol i gyflawni	Dim gweithdrefn	Bydd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru (sy'n gweithredu drwy'r EMB) ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn dyroddi cyfarwyddydau.

<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
			eu swyddogaethau neu eu dyletswyddau.		
Adolygiadau etholiadol Adran 50(2)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd i ohirio adolygiad hyd at ddyddiad penodedig neu gyfarwyddyd pellach.	Dim gweithdrefn	Os bydd tarfu o unrhyw fath, fel argyfwng iechyd cyhoeddus neu newid dyddiad etholiadau llywodraeth leol, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu lliniaru'r effaith ar y broses adolygu heb y ddarpariaeth hon.
Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69H(1) yn Neddf 2013)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn i ailystyried darpariaeth mewn adroddiad blynyddol drafft neu adroddiad atodol drafft.	Dim gweithdrefn	Mae'r ddarpariaeth hon eisoes yn bodoli o fewn Mesur 2011. Mae'n cael ei ailadrodd o ganlyniad i'r swyddogaethau sy'n cael eu rhoi i'r Comisiwn drwy'r Ddeddf hon a diddymu'r Panel.
Adran 57(2) (yn mewnosod adran	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi	Dim gweithdrefn	Mae'r ddarpariaeth hon eisoes yn bodoli o

<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
69M(1) yn Neddf 2013)			cyfarwyddyd i awdurdod lleol i gydymffurfio â gofyniad a bennir gan y Comisiwn mewn adroddiad blynyddol neu atodol.		fewn Bil 2011. Mae'n cael ei ailadrodd o ganlyniad i'r swyddogaethau sy'n cael eu rhoi i'r Comisiwn drwy'r Ddeddf hon a diddymu'r Panel.
Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69O(3) yn Neddf 2013)	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod lleol i ddal taliadau yn ôl mewn cysylltiad â chydabyddiaeth ariannol neu ailsefydlu.	Dim gweithdrefn	Mae'r ddarpariaeth hon eisoes yn bodoli i raddau helaeth ym Mesur 2011. Mae'n cael ei ailadrodd (a bydd yn cynnwys taliadau ailsefydlu) o ganlyniad i'r swyddogaethau sy'n cael eu rhoi i'r Comisiwn drwy'r Ddeddf hon a diddymu'r Panel.
Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69P(2) yn Neddf 2013)	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r Comisiwn mewn	Dim gweithdrefn	Bwriad y pŵer i ddyroddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth

Adran	I bwy y rhoddir y pŵer	Ffurf	Priodoldeb y pŵer dirprwyedig	Gweithdrefn	Rheswm dros y weithdrefn
			perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan y Bil.		sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phrosesau ac, o'r herwydd, nid yw gweithdrefn y Senedd yn briodol.
Adran 57(2) (yn mewnosod adran 69P(1) yn Neddf 2013)	Y Comisiwn	Canllawiau	Mae'n galluogi'r Comisiwn i ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ran 5A.	Dim gweithdrefn	Bwriad y pŵer i ddyroddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phrosesau rhwng y Comisiwn ac awdurdodau lleol ac, fel y cyfryw, nid yw gweithdrefn y Senedd yn briodol.
Adran 1(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i awdurdod lleol i bennu cwmpas a fformat yr arolwg	Dim gweithdrefn	Mae hon yn ddarpariaeth dechnegol i sicrhau cysondeb cwestiynau craidd yr arolwg ym

<b>Adran</b>	<b>I bwy y rhoddir y pŵer</b>	<b>Ffurf</b>	<b>Priodoldeb y pŵer dirprwyedig</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Rheswm dros y weithdrefn</b>
y'i diwygiwyd gan adran 25(2)					mhob ardal cyngor sir a bwrdeistref sirol.
Adran 14 o Ddeddf 2013, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 1(4) o Atodlen 1	Gweinidogion Cymru	Cyfarwyddydau	Mae hwn yn bŵer sy'n bodoli eisoes yn Neddf 2013 sy'n cael ei ddiwygio i sicrhau annibyniaeth y Comisiwn ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r EMB.	Dim gweithdrefn	Nid oes newid i'r weithdrefn bresennol ond mae cwmpas y pŵer yn cael ei ddiwygio.
Adran 30 o Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) – mewnosodwyd yn y Bil yng Nghyfnod 2	Gweinidogion Cymru	Canllawiau	Mae'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth a strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant.	Dim gweithdrefn	Cynghori'r pleidiau gwleidyddol fydd diben y canllawiau felly ni fyddant yn cynnwys unrhyw ofynion gorfodol arnynt. Wrth lunio'r canllawiau, bydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol.



## RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Crynodeb o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1. Mae Aseiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.
- 6.2. Nid oes darpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.
- 6.3. Mae'r tabl a ganlyn yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn gyfan. Cynlluniwyd y tabl i gyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

#### Yr opsiwn a ffeirir:

#### 6.4 Cyflwyno'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Cydlynu gweinyddiaeth etholiadol –
  - Sefydlu'r EMB drwy roi swyddogaethau mewn perthynas â goruchwylio gweinyddiaeth etholiadol i bwylgor newydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
- Cofrestru etholiadol heb geisiadau –
  - gosod dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol i gofrestru personau ar y gofrestr etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru heb geisiadau,
  - lansio cynlluniau peilot i brofi gwahanol ddulliau o weithredu'r ddyletswydd newydd hon.
- Cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau Cymru –
  - diwygio ac ehangu pwerau Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynlluniau peilot etholiadol mewn perthynas â phob agwedd ar y broses etholiadol ar gyfer etholiadau Cymru.
- Adroddiadau ar gymorth i bleidleiswyr anabl –
  - Creu dyletswydd i'r Comisiwn Etholiadol adrodd ar y camau a gymerwyd gan swyddogion canlyniadau i gynorthwyo pobl anabl i bleidleisio.
  - Mae hyn yn gysylltiedig â dyletswyddau newydd a fydd yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth, i Swyddogion Canlyniadau ddarparu offer sy'n rhesymol i helpu pobl anabl bleidleisio yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Etholiadol.
- Arolygon ymgeiswyr (o gydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol) –

- dileu'r gofyniad i nodi geiriad penodol a fformat yr arolwg mewn rheoliadau i'w gwneud yn haws i newid elfennau ohono wrth i bolisi ddatblygu.
- Platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig –
- darpariaethau i sicrhau bod llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr ar-lein yn cael ei ddarparu i gefnogi dinasyddion Cymru i gymryd rhan mewn democratiaeth.
- Amrywiaeth ymysg yr unigolion sy'n ceisio swydd etholedig –
- dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith sydd â'r nod o wella amrywiaeth yn strwythurau democrataidd y Senedd a Llywodraeth Leol drwy ddarparu cymorth i gael gwared ar rwystrau rhag cymryd rhan, gan gynnwys mentrau a chynlluniau ar gyfer unigolion sy'n cael eu tangynrychioli sy'n ceisio cael eu hethol i'r Senedd ac mewn etholiadau llywodraeth leol.
  - dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol i geisio hyrwyddo amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swyddi etholedig.
- Cyllid ymgyrchu –
- Egluro'r gyfraith fel na ddylai ymgyrchoedd fod yn gyfrifol ond am wariant tybiannol – neu "mewn nwyddau" – pan fydd yn cael ei gyfarwyddo neu ei awdurdodi gan yr ymgeisydd, y blaid wleidyddol neu'r trydydd parti,
  - Galluogi taliadau i gael eu gwneud ar ran ymgeisydd neu ymgyrch yn ystod ymgyrch etholiadol llywodraeth leol yng Nghymru, gan berson awdurdodedig ar wahân i asiant etholiad,
  - Cyfyngu ar drydydd partion sy'n gallu cymryd rhan mewn ymgyrchoedd etholiadol ar gyfer y Senedd,
  - Galluogi'r Comisiwn Etholiadol i gynnwys canllawiau ar yr uchod mewn Codau Ymarfer.
- Adolygiadau o drefniadau etholiadol a chymunedol –
- ymestyn cylchoedd adolygu o 10 i 12 mlynedd,
  - gosod terfynau amser ar gyfer cynnal adolygiadau,
  - ehangu'r rhestr o ymgynghorion gorfodol yn y prosesau adolygu
  - ymestyn y cyfnodau pan na chaiff Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru wneud na chyhoeddi argymhellion a gwahardd Gweinidogion Cymru rhag arfer swyddogaethau yn y chwe mis cyn etholiad llywodraeth leol arferol,
  - diwygio'r materion sydd i'w hystyried drwy adolygiadau,
  - rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru oedi proses adolygu,

- ei gwneud yn ofynnol i enwau Cymraeg a Saesneg wardiau gael eu cyhoeddi yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o adroddiadau,
  - ei gwneud yn ofynnol i'r holl orchmynion gael eu cyhoeddi gan y sawl sy'n gwneud y gorchymyn, a
  - gweithredu penderfyniadau ynghylch statws cymunedau fel trefi a rhoi hysbysiad ohonynt.
- Adolygu ffiniau atfor –
- egluro'r gyfraith i ddarparu bod y Comisiwn yn gallu adolygu ffiniau tanfor mwy nag un ardal awdurdod lleol pan fydd yn cynnal adolygiad
- Tâl Aelodau etholedig –
- Diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a throsglwyddo ei swyddogaethau i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a
  - Darparu ar gyfer creu cynllun i alluogi gwneud taliadau i aelodau awdurdod lleol sy'n sefyll etholiad mewn etholiad cyngor cyffredin ond sy'n methu â chael eu hailethol.
- Anghymhwysu –
- anghymhwysu cynghorwyr tref a chymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd, a
  - dileu'r cyfnodau gras ar gyfer cynghorwyr prif gyngor a etholwyd i'r Senedd, ar gyfer Aelodau'r Senedd a etholwyd i brif gynghorau ac ar gyfer Aelodau'r Senedd a etholwyd yn Aelodau o Dŷ'r Cyffredin,
- Dylanwad amhriodol -
- diweddarau a moderneiddio'r drosedd o ddylanwad amhriodol ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol yng Nghymru.
- Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru -
- Gwella rôl y pwyllgor llywodraethu ac archwilio
  - Rhoi pŵer i'r Comisiwn godi tal ar dderbynwyr am nwydau neu wasanaethau, os ydynt yn cytuno i dderbyn y nwydau neu'r gwasanaethau hynny.

Tabl 6.1 – Yr opsiwn a ffefrir

<b><i>Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)</i></b>		
<b>Yr opsiwn a ffefrir:</b> Cyflwyno'r ddeddfwriaeth a nodir uchod.		
<b>Cam:</b> Cyflwyno	<b>Cyfnod gwerthuso:</b> 2024/25 – 2033/34	<b>Blwyddyn sail brisiau:</b> 2022/23
<b>Cyfanswm Cost</b> Cyfanswm: £19,857,000 Gwerth presennol: £16,246,000	<b>Cyfanswm Manteision</b> Cyfanswm: £0 Gwerth presennol: £0	<b>Gwerth Presennol Net:</b> £-16,246,000

## Cost gweinyddu

Tabl 6.2. – Cost Gweinyddu ac Arbedion

<p><b>Costau:</b> Bydd costau gweinyddol o £575,000 i Lywodraeth Cymru, yr holl gostau pontio a wynebir yn 2024-25 a 2025-26.</p> <p>Disgwylir i awdurdodau lleol ysgwyddo costau gweinyddol o £15,161,000 dros y cyfnod gwerthuso, gyda £44,000 ohono'n gost pontio a £15,117,000 yn gostau rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'r gost i awdurdodau lleol yn ymwneud â chofrestru pleidleiswyr heb gais.</p> <p>Disgwylir i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wynebu cost o £6,022,000. Mae hyn yn cynnwys costau pontio o £1,03,000 a chostau rheolaidd o £4,992,000.</p> <p>Disgwylir i gostau gweinyddol y Comisiwn Etholiadol fod yn £68,000, a fydd yn gostau pontio i gyd.</p>			
<b>Pontio:</b> <b>£1,717,000</b>	<b>Rheolaidd:</b> <b>£20,110,000</b>	<b>Cyfanswm:</b> <b>£21,826,000</b>	<b>Gwerth Presennol:</b> <b>£17,864,000</b>
<p><b>Arbedion costau:</b></p> <p>Ceir arbedion bach o ran costau i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr EMB – £70,000 y flwyddyn o 2025-26 ymlaen ar gyfer costau rhedeg y WECB.</li> <li>• Arolwg ymgeiswyr – £9,500 mewn dwy flynedd ariannol – arbedion o ran cost cyfle am nad oes angen gwneud rheoliadau mwyach.</li> <li>• Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – arbedion costau o £60,000 i Lywodraeth Cymru yn 2024-25 a £140,000 y flwyddyn ar ôl hynny.</li> </ul> <p>Fel yr eglurir yn yr asesiad, disgwylir i ran o'r arbedion cost a nodir yma drosglwyddo i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i ariannu gwaith yr EMB a'r swyddogaethau newydd sy'n ymwneud â thâl aelodau etholedig.</p>			
<b>Pontio: £0</b>	<b>Rheolaidd:</b> <b>£1,969,000</b>	<b>Cyfanswm:</b> <b>£1,969,000</b>	<b>Gwerth Presennol:</b> <b>£1,617,000</b>
<p><b>Cost gweinyddu net: £19,857,000</b></p>			

## Costau cydymffurfio

Tabl 6.3. – Costau cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw gostau cydymffurfio.			
<b>Pontio: £0</b>	<b>Rheolaidd: £0</b>	<b>Cyfanswm: £0</b>	<b>Gwerth Presennol: £0</b>

## Costau eraill

Tabl 6.4. – Costau Eraill

Ni nodwyd unrhyw gostau eraill.			
<b>Pontio: £0</b>	<b>Rheolaidd: £0</b>	<b>Cyfanswm: £0</b>	<b>Gwerth Presennol: £0</b>

## Costau neu anfanteision heb eu meintoli

Fel y nodir yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, mae rhai meysydd lle nad yw'n bosibl amcangyfrif costau ar hyn o bryd. O ystyried yr ansicrwydd ynghylch pa brosiectau peilot etholiadol fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol, nid yw'n bosibl cyflwyno'r amcangyfrif gorau o'r costau tebygol a/neu'r arbedion cost. Felly, nid yw'r effeithiau ariannol yn hysbys ar hyn o bryd.

Bydd y costau i Lywodraeth Cymru am beilota cofrestru awtomatig yn dibynnu ar y newidiadau sy'n ofynnol i'r Systemau Rheoli Etholiadol (EMS). Bydd angen cynnal trafodaethau manwl rhwng darparwyr EMS, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ganfod amcangyfrif rhesymol o'r costau hyn. Darparwyd ffigurau dangosol yn ddiweddarach yn y ddogfen hon ond nid yw'r gwir gostau'n hysbys ar hyn o bryd ac ni ellir eu hamcangyfrif oherwydd natur arbenigol y gwaith hwn a sensitifwydd masnachol.

Fel y nodwyd drwy gydol yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, lle mae bwriad i gyflwyno is-ddeddfwriaeth, bydd costau manwl yn cael eu darparu fel rhan o'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol.

## Manteision

Tabl 6.5. - Manteision

Nid yw manteision y Bil wedi'u meintioli. Bwriad y cynigion yw dileu'r diffyg democrataidd. Mae'r buddion disgwylidig heb eu meintioli'n cynnwys:

- gwneud democratiaeth a phleidleisio yn fwy hygyrch i bob aelod o'n cymdeithas ac annog cyfranogiad gweithredol mewn bywyd democrataidd yng Nghymru
- helpu pobl i fod yn ddinasyddion mwy gweithredol a gweithgar, ac, wrth wneud hynny, cyfrannu at well canlyniadau economaidd-gymdeithasol
- moderneiddio gweinyddiaeth etholiadau yng Nghymru
- gwella'r defnydd o dechnoleg i'w gwneud yn haws i bleidleiswyr ac ymgeiswyr gymryd rhan mewn democratiaeth.

**Cyfanswm: £0**

**Gwerth Presennol: £0**

## Tystiolaeth, rhagdybiaethau ac ansicrwydd allweddol

Mae'r wybodaeth a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael mewn perthynas â'r cynigion. Mae hyn wedi cael ei lywio gan ymgynghoriad y Papur Gwyn ac ymgysylltu helaeth pellach â rhanddeiliaid etholiadol ac ystyried gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli, fel asesiadau o'r effaith ar gyfer deddfwriaeth etholiadol ddiweddar.

Mae rhai meysydd yn y Bil lle nad yw'r costau'n hysbys eto, ond byddant yn cael eu hasesu'n llawn pan wneir is-ddeddfwriaeth ddilynol. Rydym wedi darparu gwybodaeth lle bo hynny'n bosibl i egluro'r math o gostau a fydd yn debygol o godi ac i roi costau gweithgareddau cymharol er mwyn cyd-destun.

Wrth asesu costau'r Bil hwn, rydym wedi tybio y bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Byddai hyn yn cynnwys darpariaethau i newid tymhorau'r Senedd o bum mlynedd i bedair blynedd. Ar sail hyn, mae ein rhagdybiaeth ar gyfer cylchoedd etholiadol Cymru yn ystod y cyfnod gwerthuso deng mlynedd ar gyfer y Bil hwn fel a ganlyn:

2024-25 – Dim

2025-26 – Dim

2026-27 – Etholiad y Senedd Mai 2026

2027-28 – Etholiadau lleol Mai 2027

2028-29 – Dim

2029-30 – Dim

2030-31 – Etholiad y Senedd Mai 2030

2031-32 – Dim

2032-33 – Etholiadau lleol Mai 2032

2033-34 – Dim

## 7. Yr opsiynau - crynodeb

- 7.1. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn canolbwyntio ar ddarpariaethau deddfwriaethol yn y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwrw ymlaen ag amrywiaeth o bolisiau drwy is-ddeddfwriaeth a chamau gweithredu eraill. Lle mae cysylltiad agos rhwng is-ddeddfwriaeth a darpariaethau yn y Bil hwn, rydym wedi ceisio nodi rhai o'r effeithiau ariannol disgwylidig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.
- 7.2. Mae nifer o ryngddibyniaethau gyda Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ac mae swyddogion yn cydweithio ar y meysydd hynny. Mae'r costau a'r manteision ariannol a nodir yn yr asesiad hwn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) yn derbyn Cydsyniad Brenhinol. Felly, mae'r ffigurau sylfaenol yn seiliedig ar gyflwyno ddarpariaethau'r Bil hwnnw. Mae costau a manteision yn cael eu hasesu ar wahân, ond rydym wedi cydlynu gwaith lle bo hynny'n bosibl, er enghraifft drwy ddefnyddio tybiaethau a dulliau tebyg ar gyfer amcangyfrif costau.
- 7.3. Ar gyfer rhai o'r darpariaethau, rhoesom ystyriaeth i nifer o opsiynau. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth am yr opsiynau hynny yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, ond mae'r ffocws ar gostau a manteision yr opsiwn i gyflwyno'r deddfwriaeth arfaethedig o'i gymharu â'r senario busnes fel arfer.
- 7.4. Ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, rydym nawr yn cynnig dau opsiwn i'w hystyried yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

### **Opsiwn 1: Busnes fel arfer**

- 7.5. Byddai'r trefniadau etholiadol yn parhau fel y maent yng Nghymru ym mhob ardal sy'n dod o dan y Bil drafft.

### **Opsiwn 2: Cyflwyno Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

- 7.6. Bydd y Bil yn cyflwyno amrywiaeth o gynigion i gefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i leihau'r diffyg democrataidd mewn Llywodraeth Leol.
- 7.7. Bydd yn gwneud darpariaeth i gynyddu cyfranogiad mewn etholiadau yng Nghymru a gwella hygyrchedd ar gyfer pleidleiswyr ac ymgeiswyr anabl, galluogi cofrestru pleidleiswyr heb gais, yn amodol ar dreialu llwyddiannus, gwella a moderneiddio'r drosedd o ddylanwad amhriodol a sefydlu EMB i gefnogi gweinyddu etholiadol. Bydd hefyd yn diwygio'r prosesau ar gyfer cynnal adolygiadau cymunedol ac etholiadol ac yn rhoi swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.



## 8. Costau a manteision – crynodeb

- 8.1. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi cael ei lywio gan Aseiad Effaith Rheoleiddiol drafft blaenorol a gyhoeddwyd gyda'r Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol ym mis Hydref 2022. Roedd yr aseiad drafft hwnnw'n nodi amrywiaeth o opsiynau a ystyriwyd ar gyfer pob bwriad polisi ac yn ystyried y mathau o effeithiau a rhai costau a manteision posibl. Roedd yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn yn darparu rhagor o wybodaeth i ddatblygu'r cynigion polisi a mireinio aseidiadau o gostau a buddion. Ar ôl dadansoddi ymatebion ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r set o ddarpariaethau yn y Bil yn wahanol i'r hyn a nodir yn yr aseiad drafft. Mae rhai cynigion wedi newid ac nid yw rhai wedi cael eu datblygu. Mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn canolbwyntio ar ddau opsiwn yn unig – opsiwn 'busnes fel arfer' a'r opsiwn a ffefrir.
- 8.2. Mae'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiynau wedi cael eu hasesu dros gyfnod o ddeng mlynedd, 2024-25 i 2033-34. Mae hyn yn caniatáu ystyried dau gylch etholiadol. Mae gorwel cynllunio 10 mlynedd wedi cael ei ddefnyddio drwy gydol yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol.
- 8.3. Lle bo'n briodol, cyflwynir y costau a'r manteision yn nhermau Gwerth Presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5%. Mae hyn yn unol â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Y flwyddyn sylfaen ar gyfer pob cyfrifiad Gwerth Presennol yw 2022-23.
- 8.4. Mae pob opsiwn wedi cael ei asesu gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Cyfrifir y costau a'r manteision ar lefel Cymru gyfan. Drwy gydol yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, amcangyfrifir costau a manteision yn flynyddol, ac yna eu coladu dros gyfnod o ddeng mlynedd.
- 8.5. Mae tablau costau cryno ar gyfer y Bil cyfan i'w gweld yn Atodiad A.
- 8.6. Drwy gydol yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, mae costau wedi cael eu priodoli yn ôl lle y cawsant eu hysgwyddo gyntaf. Er enghraifft, mae cost sefydlu EMB wedi cael ei briodoli i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru er gwaethaf y disgwyliad y bydd y costau'n cael eu hariannu yn y pen draw gan Lywodraeth Cymru.
- 8.7. Mae costau staff Llywodraeth Cymru wedi bod yn seiliedig ar gostau band cyflog cyfartalog 2022-23, sy'n defnyddio blwyddyn 52 wythnos ac wythnos waith pum diwrnod. Mae'r wythnos waith safonol yn cael ei hystyried yn 37 awr yr wythnos yn unol â 'Llyfr Gwyrdd' y Cytundeb Cenedlaethol. Mae costau staff yn cynnwys argostau.
- 8.8. Mae costau staff Llywodraeth Leol yn seiliedig ar gostau 2022-23 a nodir yng nghytundeb y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer

Gwasanaethau Llywodraeth Leol (NJC) ym mis Tachwedd 2022. Mae 30 y cant wedi cael ei ychwanegu i gyfrif am argostau.

- 8.9 Fel y manylir ym Mhennod 3 y Memorandwm Esboniadol hwn, yn ystod Cyfnod 2 y broses graffu deddfwriaethol ar y Bil, cyflwynwyd gwelliant gan Adam Price AS i sefydlu trosedd o ddichell. Cafodd y gwelliant hwn ei basio yn ddiweddarach. Yn yr amser a oedd ar gael i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Memorandwm Esboniadol hwn, nid yw wedi bod yn bosibl i Lywodraeth Cymru gynnal asesiad cynhwysfawr o oblygiadau ariannol y ddarpariaeth. Bydd y Llywodraeth yn cwblhau'r elfen hon unwaith y bydd ffurf derfynol y Bil yn hysbys.
- 8.10. Mae'r ffigurau wedi cael eu talgrynnu drwy gydol yr asesiad effaith i lefel o fanylder sy'n cael ei hystyried ei bod yn briodol ar gyfer y cyfrifiadau perthnasol. Mewn rhai tablau, efallai na fydd rhesi a cholofnau yn cyfateb i gyfanswm y golofn oherwydd y broses dalgrynnu hon.
- 8.11. Mae'r manteision a nodwyd yn cael eu trafod mewn termau ansoddol yn bennaf, ac nid ydynt wedi cael eu meintoli na'u prasio, oherwydd natur y cynigion. Mae unrhyw gostau sydd wedi'u cynnwys yn rhagolygon.

## **Pennod 9 – Costau a manteision Rhan 1 – Gweinyddu a chofrestru etholiadol**

### **Pennod 1 – Cydlynu gweinyddiaeth etholiadol**

- 9.1. Y mater dan sylw yw a ddylid sefydlu EMB mewn perthynas ag etholiadau Cymreig.

#### **Cefndir**

- 9.2. Sefydlwyd Bwrdd Rheoli Etholiadol yr Alban, fel pwyllgor statudol, gan Ddeddf Gweinyddiaeth Etholiadol Leol (Yr Alban) 2011. Mae ganddo'r swyddogaethau cyffredinol o gydlynu'r gwaith o weinyddu etholiadau seneddol yr Alban, ac etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban, gan gynnwys:

- cynorthwyo swyddogion canlyniadau rhanbarthol, swyddogion canlyniadau etholaeth, awdurdodau lleol a phersonau eraill i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau seneddol yr Alban,
- cynorthwyo swyddogion canlyniadau, awdurdodau lleol a phersonau eraill i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol, a
- hyrwyddo arferion gorau mewn etholiadau seneddol ac etholiadau llywodraeth leol yn yr Alban drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu hyfforddiant (neu fel arall).

- 9.3. Yng Nghymru, sefydlwyd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru (WECB) yn 2017 i helpu i hwyluso'r gwaith o gydlynu digwyddiadau a gweithgarwch etholiadol, moderneiddio a diwygio yng Nghymru. Mae hefyd yn hwyluso mwy o gydweithio rhwng Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a phartneriaid allweddol eraill. Mae'r WECB yn fwrdd gwirfoddol, sy'n cael ei hwyluso ar hyn o bryd gan y Comisiwn Etholiadol ac nid yw'n cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, er bod disgwyl i hyn newid. Bwriad y Bil hwn yw rhoi rôl y WECB ar sail statudol, ac o'r herwydd, rhoddwyd ystyriaeth i ddyluniad EMB statudol.

#### **Opsiynau blaenorol a ystyriwyd**

- 9.4. Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft blaenorol, gwnaethom nodi tri opsiwn a grynhoir fel a ganlyn:
- i. Cynnal y sefyllfa bresennol gyda'r WECB yn cadw ei rôl bresennol.
  - ii. Sefydlu bwrdd rheoli etholiadol fel pwyllgor statudol (fel yn yr Alban) i ymgymryd â'r swyddogaethau sydd ar hyn o bryd o fewn cylch gwaith y

WECB, yn annibynnol ar y llywodraeth.

- iii. Sefydlu bwrdd rheoli etholiadol fel corff cyhoeddus newydd i ymgymryd â'r swyddogaethau sydd o fewn cylch gwaith y WECB ar hyn o bryd yn annibynnol ar y llywodraeth.
- 9.5. Cafodd yr opsiwn i greu corff cyhoeddus ei ddiystyru yn y pen draw oherwydd y costau gorbenion amcangyfrifedig cysylltiedig i sefydlu model o'r fath, sy'n golygu mai pwyllgor statudol oedd y model gorau. Cawsom heriau o ran dod o hyd i gorff addas gyda'r capasiti angenrheidiol ac un a oedd yn fodlon cynnal yr EMB.
- 9.6. Yn dilyn hynny, buom yn ystyried rôl Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (i ddod yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru) (y Comisiwn), ac mae'r manteision wedi'u nodi isod. Buom yn ystyried opsiynau a oedd yn ymwneud â'r Comisiwn naill ai'n cynnal yr EMB neu'n ymgymryd â swyddogaethau arfaethedig yr EMB newydd.
- 9.7. Ar ôl ystyried y cynigion hyn, ystyrir mai'r dull a ffefrir yw rhoi swyddogaethau'r EMB i un o bwyllgorau'r Comisiwn. Ystyrir bod y Comisiwn yn gerbyd addas gyda'r gallu digonol i gyflawni swyddogaethau arfaethedig yr EMB. Mae sefydlu'r Bwrdd i eistedd o dan gorff hyd braich annibynnol fel y Comisiwn yn cael ei ystyried yn ateb cynaliadwy.
- 9.8. Rydym wedi ystyried dau opsiwn ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, fel a ganlyn:
  - Cynnal y sefyllfa bresennol gyda'r WECB yn cadw ei rôl bresennol.
  - Rhoi'r swyddogaethau arfaethedig i'r Comisiwn, i fod yn arferadwy gan bwyllgor statudol newydd o'r Comisiwn a elwir y "bwrdd rheoli etholiadol".

### **Opsiwn 1: Cynnal y sefyllfa bresennol gyda'r WECB yn cadw ei rôl bresennol.**

- 9.9. Nid yw'r WECB yn gorff statudol ac mae'n cael ei hwyluso a'i weinyddu gan y Comisiwn Etholiadol. Nid yw cyfranogiad swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol yn orfodol ac nid oes gan y WECB unrhyw swyddogaethau statudol na phwerau cyfarwyddo.
- 9.10. Nid oes gan y WECB ddigon o gapasiti i gefnogi'r gwaith o weithredu rhaglen diwygio etholiadol Llywodraeth Cymru. Gallai cyllid gael ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru i gynyddu ei gapasiti, ond mae'n debyg y byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol reoli'r cyllid hwn ar ran y WECB. Gallai hyn godi cwestiynau ynghylch gwrthdaro buddiannau gan y gallai fod yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol

adrodd ar y gwaith o gyflawni tasgau y mae corff y mae'n ei hwyluso (ac y mae'n rheoli ei gyllid) wedi ei ariannu i'w cyflawni.

## **Opsiwn 2: Sefydlu bwrdd rheoli etholiadol fel bwrdd statudol y Comisiwn (yr opsiwn a ffefrir)**

- 9.11. Mae'r opsiwn hwn wedi cael ei ddatblygu o opsiwn y pwyllgor statudol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft blaenorol, gan ystyried sylwadau rhanddeiliaid a'r cyfle i ehangu rôl y Comisiwn ochr yn ochr ag ysgwyddo swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (adran 57 o'r Bil).
- 9.12. Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys sefydlu'r EMB fel un o bwyllgorau statudol y Comisiwn. O'r herwydd, bwriedir i'r swyddogaethau mewn perthynas â goruchwyllo gweinyddiaeth etholiadol gael eu rhoi i'r Comisiwn, ond eu dirprwyo i'r EMB a bod yn arferadwy ganddo, a bydd hyn yn cael ei nodi mewn deddfwriaeth.
- 9.13. Bydd gan yr EMB y swyddogaeth gyffredinol o gydlynu'r gwaith o weinyddu etholiadau a refferenda Cymru, a fydd yn cynnwys (mewn perthynas â gweinyddu Etholiadau a refferenda Cymru yn unig):
- darparu cyngor i'r rhai sy'n ymwneud â gweinyddu'r etholiadau hynny i gyflawni'r swyddogaethau hynny,
  - hyrwyddo arferion gorau drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu hyfforddiant (neu fel arall).
- 9.14. Gall y Comisiwn hefyd ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall i Weinidogion Cymru. Bydd y swyddogaethau hyn yn cael eu dirprwyo i'r EMB a dim ond yr EMB, nid y Comisiwn, a gaiff eu harfer.
- 9.15. Bydd y Comisiwn, drwy'r EMB, hefyd yn gallu darparu plattform gwybodaeth am etholiadau Cymreig (adran 27 o'r Bil). Bydd ganddo bwerau hefyd i roi cyfarwyddiadau i swyddogion canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol (heb fwriad i ddisodli eu cyfrifoldeb personol eu hunain i gyflawni eu swyddogaethau neu eu dyletswyddau), gyda dyletswydd ar swyddogion canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i gydymffurfio. Hefyd, darparu cyngor i'r swyddogion canlyniadau a'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol hynny mewn perthynas â'u swyddogaethau, tebyg i adran 10(3) o Ddeddf 2000 mewn perthynas â phŵer y Comisiwn Etholiadol i roi cyngor, gyda dyletswydd ar swyddogion canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol i roi sylw i'r canllawiau. Pwrpas cyhoeddi cyfarwyddiadau neu gyngor fyddai sicrhau cysondeb ac arfer gorau wrth weinyddu etholiadau yng Nghymru. Dyma rai enghreifftiau o sut y gellid defnyddio cyfarwyddiadau:
- Dehongli a defnyddio canllawiau fel y rhai a welwyd mewn ymateb i argyfwng y coronafeirws

- Sefydlu dyddiad cyson ledled Cymru ar gyfer cyhoeddi papurau pleidleisio drwy'r post
- Cynhyrchu templedi safonol, e.e. hysbysiad o etholiad, hysbysiad o bôl.

9.16. Bydd y Comisiwn yn enwebu un o'i Gomisiynwyr (y mae'n rhaid iddo fod yn gyn swyddog canlyniadau neu'n Swyddog Cofrestru Etholiadol) i weithredu fel Cadeirydd yr EMB ac un Comisiynydd arall i fod yn aelod o'r EMB. Bydd aelodaeth bellach yn cynnwys o leiaf bedwar Swyddog Canlyniadau presennol neu flaenorol a/neu Swyddogion Cofrestru Etholiadol, na fyddant yn Gomisiynwyr y Comisiwn. Bydd yr EMB yn penodi un o'r aelodau hynny yn Ddirprwy Gadeirydd. Mae hyn yn cynnwys yr aelodau craidd a fyddai'n gwneud penderfyniadau, er enghraifft wrth gyhoeddi cyfarwyddiadau. Fel gyda'r WECB ar hyn o bryd, byddai aelodaeth ehangach o gynghorwyr ac arbenigwyr hefyd, fel gweinyddwyr etholiadol eraill, y Comisiwn Etholiadol, a Chymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol Cymru.

### **Costau a manteision**

#### **Opsiwn 1 – Cynnal y sefyllfa bresennol gyda Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru yn cadw ei rôl bresennol.**

##### **Costau**

9.17. Er nad oes cyllid yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o redeg y WECB, fel y nodwyd uchod, hyd yn oed os mae cyllid yn cael ei darparu, mae'n annhebygol y bydd y Comisiwn Etholiadol yn gallu parhau i fod yn hwyluso. Mae hyn oherwydd gwrthdaro buddiannau posibl rhwng ei rôl fel cynghorydd i'r WECB ac yn hwyluso'r WECB. Rydym yn rhagweld costau blynyddol o oddeutu £70,000 y flwyddyn, gan ddechrau yn 2024-25 i ariannu sefydliad arall i hwyluso'r WECB.

##### **Manteision**

9.18. Mae'r opsiwn hwn yn cynnal y sefyllfa bresennol ac nid ydym wedi nodi unrhyw fanteision ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn.

#### **Opsiwn 2 – Sefydlu “bwrdd rheoli etholiadol” fel bwrdd statudol y Comisiwn**

##### **Costau**

##### **Costau i'r Comisiwn**

9.19. Byddem yn disgwyl costau pontio i'r Comisiwn yn ystod 2024-25 ar gyfer recriwtio staff newydd a hyfforddiant mewn gweinyddu a chyfraith etholiadol, sef oddeutu £30,000.

- 9.20. Byddem hefyd yn rhagweld costau rhedeg blynyddol i'r Comisiwn o oddeutu £130,000, gan ddechrau yn 2024-25. Mae hyn yn seiliedig ar gost rhedeg yr EMB yn yr Alban, sy'n cynnwys amser staff a chostau rhedeg Cyngor Caeredin i gynnal yr EMB. Rydym yn gweithio gyda'r Comisiwn i ystyried anghenion staffio cyffredinol ar gyfer yr ystod o swyddogaethau newydd a rôl estynedig i'r Comisiwn, o'r darpariaethau hyn, y porth gwybodaeth i bleidleiswyr a rhoi swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl i o leiaf un swyddog penodol oruchwylio'r EMB, mwy na thebyg ar lefel Gradd 7 neu SEO yn ogystal â chyfran o amser cyfwerth ag amser llawn nifer o staff eraill.
- 9.21. Byddem hefyd yn disgwyl costau i'r Comisiwn gael cyngor cyfreithiol allanol ar gyfraith etholiadol o oddeutu £10,000 mewn blwyddyn cyn yr etholiad a £2,500 mewn blynyddoedd eraill (5 diwrnod cyfwerth ag amser llawn yn ystod pob blwyddyn ariannol, gan godi i 20 diwrnod ym mhob blwyddyn cyn etholiad).
- 9.22. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol allanol a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith polisi etholiadol yn 2020-21. Mae'r amcangyfrif o'r gost ddyddiol o £500 wedi cael ei dalgrynnu ac mae'n cynnwys cynnydd i ystyried data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n dangos bod enillion gros canolrifol yng Nghymru wedi cynyddu 10.5% rhwng 2020 a 2022.

Tabl 9.1 -Costau cyngor cyfreithiol yr EMB

<b>Costau cyfreithiol allanol</b>	<b>Cost dyddiol (ar sail diwrnod 7.5 awr)</b>	<b>Diwrnodau</b>	<b>Cyfanswm</b>
<b>Mewn blwyddyn cyn etholiad</b>	£500	20	£10,000
<b>Mewn blwyddyn nad yw'n rhagflaenu etholiad</b>	£500	5	£2,500

- 9.23. Bydd costau mwy cywir yn hysbys wrth i strwythurau staffio'r Comisiwn ddod yn rhai terfynol.
- 9.24. Mae'r costau hyn wedi cael eu priodoli i'r Comisiwn at ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, fodd bynnag, y disgwyliad yw y byddai Llywodraeth Cymru yn eu talu yn y pen draw.
- 9.25. Byddai rhagor o gostau penodol yn gysylltiedig â darparu llwyfan gwybodaeth i bleidleiswyr (y bwriedir i'r EMB ei ddarparu) ac mae'r

costau hynny wedi'u nodi yn yr adran plattform gwybodaeth i bleidleiswyr o'r Asesiad Effaith Rheolaidd hwn.

### Costau Staff Llywodraeth Cymru

9.26. Mae cost staff Llywodraeth Cymru o £20,600 y flwyddyn ar gyfer rheoli prosiectau a gweithredu'r EMB wedi cael ei hamcangyfrif ar gyfer y blynyddoedd 2024-25 a 2025-26. Bydd y costau a gyflwynir isod yn cael eu talu o'r adnoddau presennol ac felly'n cynrychioli costau cyfle yn hytrach na gwariant ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

**Tabl 9.2 – costau staff Llywodraeth Cymru ar gyfer rheolaeth yr EMB**

Gradd	Cyferwerth ag Amser Llawn	Cost Band Cyfartalog (gan gynnwys argostau)	Cyfanswm costau blynyddol (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf)
Gradd 7	0.1	£86,731	£8,700
SEO	0.1	£66,364	£6,600
HEO	0.1	£52,774	£5,300
<b>Cyfanswm</b>			<b>£20,600</b>

### Arbedion cost i Lywodraeth Cymru

9.27. O dan yr opsiwn hwn, byddai angen tua £70,000 y flwyddyn o gostau y mae disgwyl i Lywodraeth Cymru eu hwynebu er mwyn hwyluso y WECB (a nodir o dan Opsiwn 1) ar gyfer trefniadau pontio yn 2024-25, ond ni fyddai eu hangen ar ôl hynny. O'r herwydd, byddai arbedion cost o £70,000 y flwyddyn o 2025-26.

### **Manteision**

9.28. Bydd EMB sydd â swyddogaethau statudol yn ymwneud â chydlynu gweithgarwch etholiadol ac, o bosibl, pŵer cyfarwyddo ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn helpu i sicrhau dull cyson, Cymru gyfan o weinyddu etholiadau. Byddai'r opsiwn hwn yn darparu cynaliadwyedd fel rhan o gorff cyhoeddus gyda'r seilwaith a'r trefniadau cyllido presennol. Byddai hyn yn darparu EMB sy'n gallu parhau ac adeiladu ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y WECB.

9.29. Mae swyddogaeth yr EMB a phwrpas ehangach y Comisiwn yn cyd-fynd â'i gilydd o ran cefnogi cyfranogiad democrataidd. Un o fanteision yr opsiwn hwn yw y bydd yn darparu'r annibyniaeth angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd y Comisiwn i weithredu fel corff annibynnol a noddir gan Lywodraeth Cymru. Penodir ei Gomisiynwyr drwy broses penodiadau cyhoeddus drwyadl sy'n dilyn y Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Bydd sefydlu'r Bwrdd i eistedd o fewn corff hyd braich annibynnol fel



y Comisiwn ond yn cryfhau annibyniaeth y Bwrdd ar fuddiannau gwleidyddol.

- 9.30. Gan y bydd gofyniad cyfreithiol i'r Comisiwn gefnogi'r EMB, mae'n sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr EMB.
- 9.31. Fel rhan o'r Comisiwn, byddai'r EMB yn gallu adennill costau, caffael gwasanaethau a llunio contractau. Mae'r bwriad i ehangu'r Comisiwn ar gyfer swyddogaethau eraill yn golygu bod amseriad sefydlu'r EMB mewn deddfwriaeth yn cynrychioli gwerth da am arian o ran ychwanegu swyddogaethau at gorff presennol.
- 9.32. Credwn fod gan y Comisiwn ystod o arbenigedd sy'n berthnasol i swyddogaethau arfaethedig yr EMB. Mae hyn yn cael ei ddangos, er enghraifft, drwy ei wybodaeth am dirwedd etholiadol Cymru, a'i berthnasoedd a'i brosesau ymgysylltu sydd eisoes wedi'u sefydlu gyda thimau rheoli etholiadol awdurdodau lleol. Mae ganddo hefyd ystod o arbenigedd arall sy'n berthnasol i swyddogaethau'r EMB, fel cyfathrebu ac ymgysylltu.

#### **Yr opsiwn a ffefrir**

- 9.33. Yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 2 – Sefydlu bwrdd rheoli etholiadol fel bwrdd statudol i'r Comisiwn – am y rhesymau a nodir uchod.

## **Pennod 2 – Cofrestru etholiadol heb gais**

9.34. Ystyriwyd dau opsiwn wrth ddatblygu'r polisi hwn:

- Busnes fel arfer; a
- Cyflwyno cofrestru etholwyr heb gais (cofrestru awtomatig) ar gyfer etholwyr llywodraeth leol yng Nghymru.

9.35. Nid oes modd cael opsiwn anneddfwriaethol yn yr achos hwn, gan fod yr holl drefniadau ar gyfer cofrestru etholwyr wedi'u nodi'n glir mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth.

### **Opsiwn 1: busnes fel arfer**

9.36. Byddai'r opsiwn hwn yn parhau â'r arfer presennol o Gofrestru Etholiadol Unigol (IER) lle mae'n ofynnol i bob etholwr gymryd rhan yn y canfasio blynyddol er mwyn cael eu cofrestru i bleidleisio.

### **Opsiwn 2: cofrestru etholwyr heb gais (cofrestru awtomatig)**

9.37. Byddai'r opsiwn hwn yn darparu ar gyfer cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais os yw'r swyddog cofrestru etholiadol yn fodlon bod ganddo wybodaeth ddibynadwy bod unigolyn yn gymwys i gael ei gofrestru.

9.38. Er y byddai pleidleiswyr yn cael eu hychwanegu at y gofrestr etholwyr llywodraeth leol heb orfod gwneud cais, ar ôl iddynt gael eu canfod, byddai'r swyddog cofrestru etholiadol wedyn yn cysylltu â nhw i roi gwybod iddynt am eu cofrestrriad arfaethedig. Byddai hyn yn golygu bod yr etholwr, mewn rhai sefyllfaoedd prin, yn cael ei 'gofrestru'n ddiennw' (categori sydd ar gael i rywun lle gallai datgelu ei gyfeiriad ei beryglu ef neu rywun arall ar ei aelwyd).

9.39. I sicrhau y gwneir y defnydd mwyaf priodol o ddata etholwyr sydd wedi'u cofrestru'n awtomatig, bydd y Bil yn gwneud darpariaeth i sicrhau na fydd y gofrestr etholiadol agored ar gael mwyach ar gyfer y gofrestr llywodraeth leol cyn rhoi cofrestru awtomatig ar waith. Mae hyn yn golygu mai dim ond y gofrestr lawn, neu gaeedig, fydd ar gael i'r rhai sy'n cael mynediad drwy ddeddfwriaeth.

9.40. Gan ystyried y byddai symud i gofrestru awtomatig ar gyfer etholiadau yng Nghymru yn newid sylweddol o ran gweinyddu etholiadau yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid etholiadol allweddol eraill i ddatblygu cynllun peilot cyn yr is-ddeddfwriaeth er mwyn rhoi cofrestru awtomatig ar waith yn llawn. Bydd y gweithgor yn datblygu nifer fach o gynlluniau peilot i'w cyflwyno ar draws awdurdodau lleol sy'n rhoi cymorth yng Nghymru ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol i'r Bil hwn. Pwrpas y cynllun peilot hwn yw

datblygu cyfres o gynlluniau peilot y gellir eu cyflawni, gyda dealltwriaeth glir o'r goblygiadau o ran costau ac adnoddau. Er y bydd y cynlluniau peilot a ddatblygir fel rhan o'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar sicrhau cywirdeb y gofrestr, bydd hefyd yn ystyried y ffordd orau bosibl o ymgysylltu â'r etholwr yn ogystal â deall goblygiadau ariannol llawn pob cynllun peilot.

- 9.41. Wrth i'r modelau peilot gael eu datblygu, bydd y Gweithgor yn sefydlu goblygiadau ariannol llawn pob model cyn ei gyflwyno. Bydd Llywodraeth Cymru yn talu costau'r cynlluniau peilot hyn a bydd yn cyhoeddi'r goblygiadau ariannol llawn cyn cyflwyno'r cynllun.
- 9.42. Os penderfynir bwrw ymlaen â chofrestru awtomatig, bydd dadansoddiad llawn o gostau yn cyd-fynd â'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol a fydd yn ofynnol cyn cyflwyno'r cynllun yn llawn. Bydd hyn yn darparu'r goblygiadau ariannol diweddaraf yn seiliedig ar y model a fydd yn cael ei weithredu ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.

### **Costau a manteision**

#### **Opsiwn 1: Busnes fel arfer Costau**

##### **Costau i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru**

- 9.43. Ni fyddai Opsiwn 1 yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol.

#### **Manteision**

##### **Manteision i lywodraeth leol a Llywodraeth Cymru**

- 9.44. Byddai'r opsiwn hwn o fudd i bleidleiswyr oherwydd y byddai'r system yn llai cymhleth. Os caiff cofrestru awtomatig ei gyflwyno, bydd yn dal angen i rai pleidleiswyr gofrestru i bleidleisio'n flynyddol drwy'r system Cofrestru Etholiadol Unigol. Bydd hyn yn berthnasol i'r pleidleiswyr hynny sy'n gymwys i fod ar y cofrestrau etholiadol seneddol a llywodraeth leol.

#### **Opsiwn 2: Cofrestru etholwyr heb gais (cofrestru awtomatig)**

##### **Costau**

##### **Costau i Lywodraeth Cymru**

- 9.45. Bydd y costau i Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar y newidiadau sy'n ofynnol i'r Systemau Rheoli Etholiadol (EMS). Bydd angen cynnal trafodaethau manwl rhwng darparwyr EMS, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ganfod amcangyfrif rhesymol o'r costau hyn. Fodd bynnag, yn 2020-21 talwyd tua £1.6 miliwn i ddarparwyr EMS

i gefnogi'r newidiadau gofynnol i systemau ar ôl ymestyn yr etholfraint. Darparwyd y ffigur hwn ffigurau i ddibenion dangosol yn unig, nid yw'r gwir gostau'n hysbys ar hyn o bryd ac ni ellir eu hamcangyfrif oherwydd natur arbenigol y gwaith hwn a sensitifrwyd masnachol.

9.46. Bydd costau'n parhau i gael eu cyfrifo yn ystod y cyfnod treialu wrth i'r model terfynol o gofrestru awtomatig gael ei ddatblygu a chyn i benderfyniad gael ei wneud ynghylch unrhyw fodel cofrestru awtomatig terfynol cyn unrhyw gyflwyno ar y drefn ledled Cymru. Bydd rhain yn gostau untro gan y bydd Llywodraeth Cymru yn talu costau cychwynol newidiadau i systemau EMS sy'n deillio o'r polisi hwn.

9.47. Ni fydd unrhyw gostau i Lywodraeth Cymru o ddileu'r gofrestr agored mewn perthynas â Chymru.

Tabl 9.3 - Costau staff Llywodraeth Cymru (costau cyfle) o ran cynhyrchu rheoliadau yn ystod 2025-26

Costau staff	Cyflog blynyddol gydag argostau (£)	Cost dyddiol (wedi'i dalgrynnu) (£)	Nifer y dyddiau sydd eu hangen	Cyfanswm (wedi'i dalgrynnu) (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	120,174	462	1	462
Gradd 7	86,731	334	5	1,670
SEO	66,364	255	10	2,550
HEO	52,774	203	5	1,015
Cyfreithiwr (Gradd 7)	86,731	334	10	3,340
Cyfieithu (SEO)	66,364	255	2	510
			<b>Cyfanswm</b>	<b>9,500</b>

Tabl 9.4 - Costau cyfle staff Llywodraeth Cymru ar gyfer rhedeg gweithgor i ddatblygu cynlluniau peilot (a wynebir yn 2024-25)

Costau staff	Cyflog blynyddol gydag argostau (£)	Cyferwerth ag Amser Llawn		Cyfanswm (wedi'i dalgrynnu) (£)
Gradd 7	86,731	0.1		8,673
SEO	66,364	0.05		3,318
			<b>Cyfanswm</b>	<b>12,000</b>

Costau i lywodraeth leol

- 9.48. Ar hyn o bryd, rydym wedi nodi dau faes o gostau ychwanegol i lywodraeth leol, ond gallai hyn newid yn dilyn y cyfnod treialu. Mae'r pwynt lle bydd y costau hyn yn cael eu hysgwyddo yn ansicr gan y bydd yn dibynnu ar ganlyniad yr ymarferion peilot. Fodd bynnag, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, tybir y bydd y costau'n bodoli o 2026-27 ymlaen.
- 9.49. Gan fod angen cloddio data ychwanegol ym mhob awdurdod lleol, rydym ar hyn o bryd yn amcangyfrif y byddai hyn yn golygu bod angen swyddog ychwanegol i weithio'n llawn amser am 3 diwrnod yr wythnos yn y ddwy flynedd gyntaf o weithredu, a 2 ddiwrnod yr wythnos ar ôl hynny.
- 9.50. Fel y nodir yn y tabl isod, amcangyfrifir bod y costau yn 2026-27 a 2027-28 yn £495,900. Ar gyfer blynyddoedd dilynol, rydym wedi amcangyfrif bod y costau hyn oddeutu £330,600 y flwyddyn. Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £15,000 fesul awdurdod ar sail pwynt cyflog 21 y cytundeb cyflog Llywodraeth Leol cenedlaethol (2022-23) lle'r oedd swyddog amser llawn yn gweithio 2 ddiwrnod yr wythnos yn benodol ar y gwaith cloddio data. Byddai'r gost ychwanegol hon yn gost hirdymor i'r awdurdod lleol oherwydd mae'n debygol y byddai angen y swyddogaethau cloddio data ychwanegol cyn cynhyrchu'r gofrestr etholiadol bob blwyddyn.

Tabl 9.5 – Costau awdurdodau lleol ar gyfer cloddio data

Blwyddyn	Dyddiau yr wythnos	Cost flynyddol fesul awdurdod lleol	Cyfanswm y gost flynyddol (wedi'i dalgrynnu)
2026-27 a 2027-28	3	£22,542	£495,900
Blynyddoedd dilynol	2	£15,028	£330,600

- 9.51. Hefyd, bydd cost ychwanegol i awdurdodau lleol wrth gysylltu ag etholwyr i roi hysbysiad cofrestru iddynt. Rydym yn cynnig caniatáu hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu mwyaf priodol (yn unol â rheoliadau canfasio presennol). Fodd bynnag, rydym wedi amcangyfrif cost anfon llythyr yn uniongyrchol at bob etholwr.
- 9.52. Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu cyfrifo ar sail y gost gyfartalog o anfon Gwahoddiad i Gofrestru (ITR) at etholwyr ym mis Gorffennaf 2022 ynghyd â nifer y bobl sydd wedi cofrestru ym mhob awdurdod lleol.
- 9.53. Ar hyn o bryd, rydym yn amcangyfrif y bydd yn costio tua £1.5 miliwn bob blwyddyn i anfon llythyr papur at bob etholwr yng Nghymru. Bydd y gost fesul awdurdod yn amrywio rhwng £30,000 a £150,000 yn dibynnu ar faint yr awdurdod a nifer yr etholwyr.

- 9.54. Bydd modd gwneud arbedion os cysylltir ag etholwyr drwy e-bost neu ddulliau cyfathrebu electronig eraill.
- 9.55. Bydd y costau hyn yn ychwanegol at gost y canfasio blynyddol, oherwydd bydd angen i'r ddwy system hyn ar gyfer cofrestru, gydredeg, a bydd angen i'r awdurdod lleol gysylltu ddwywaith â darpar etholwyr. Er bod cyfleoedd i arbed costau, mae'n debygol y bydd y gost ychwanegol yn un hirdymor o ystyried y ddyletswydd ychwanegol a roddir ar bob awdurdod.
- 9.56. Bydd awdurdodau lleol yn colli rhywfaint o incwm o ddileu'r gofrestr agored mewn perthynas ag etholiadau Cymru. Er nad yw'r gost hon wedi'i chyfrifo ac felly'n anhysbys, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu y bydd yn y cannoedd o bunnoedd yn flynyddol. Fodd bynnag, bydd y gofrestr agored yn dal yn ei lle ar gyfer y gofrestr seneddol a bydd incwm yn parhau i gael ei gynhyrchu o hyn.

## **Manteision**

### Manteision i lywodraeth leol

- 9.57. Byddai cofrestru etholwyr heb gais yn helpu i wella'r broses o gwblhau'r gofrestr etholwyr llywodraeth leol. Bydd treialu'r gweithgarwch hwn cyn ei gyflwyno'n llawn yn caniatáu i'r model mwyaf addas ac effeithiol gael ei gyflwyno ledled Cymru. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod etholwyr yn cael y cyfle gorau posibl i gael eu rhoi ar gofrestr etholiadol llywodraeth leol (a ddefnyddir hefyd ar gyfer etholiadau'r Senedd) heb orfod gwneud cais.

### Manteision i bobl eraill

- 9.58. Er y byddai hyn o fudd i bob etholwr, disgwylir y bydd o fudd arbennig i rai sy'n nesáu at oedran pleidleisio (pobl ifanc 14 a 15 oed a fyddai'n gymwys i bleidleisio yn y ddwy flynedd nesaf), lle gall ysgolion a gwasanaethau addysgol ddarparu data i'r swyddog cofrestru etholiadol. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi croesawu'r uchelgais i foderneiddio cofrestru etholiadol a chefnogi cynlluniau i archwilio sut gallai cofrestru awtomatig wella cyflawnder y gofrestr llywodraeth leol. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc a grwpiau eraill sydd wedi'u tan-gofrestru. Ar gyfer dinasyddion tramor cymwys, byddai'n golygu na fyddai'n rhaid iddynt gofrestru i bleidleisio er mwyn cymryd rhan yn yr etholiadau y maent yn gymwys i bleidleisio ynddynt. Yn gyffredinol, bydd cofrestru awtomatig yn helpu i symleiddio'r berthynas rhwng yr etholwr a'r gwasanaethau democrataidd.
- 9.59. Bydd dileu'r gofrestr agored yng Nghymru o fudd mawr i bobl ifanc a'r rhai sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed. Mae'r gofrestr agored gyffredol yn cael ei gwerthu i nifer o sefydliadau sy'n fodlon talu am fynediad at ddata etholwyr. Os bydd data person ifanc neu

unigolyn agored i niwed yn cael ei werthu drwy'r gofrestr agored, mae'n bosibl y bydd yn cael ei dargedu gan sefydliadau a allai ei niweidio. Bydd dileu'r gofrestr agored mewn perthynas ag etholiadau Cymru yn golygu na fydd manylion y bobl hynny a gofrestrir yn awtomatig, na'r bobl ifanc hynny a dinasyddion tramor cymwys nad ydynt yn gymwys i bleidleisio mewn etholiadau a gadwyd yn ôl yn cael eu gwerthu i drydydd partïon. Bydd data etholiadol yn parhau i gael ei ddarparu drwy'r gofrestr gaeedig i'r sefydliadau hynny y caniateir iddynt gael mynediad atynt yn ôl y gyfraith.

- 9.60. Byddai'r gofrestr agored yn dal ar waith yng Nghymru ar gyfer y gofrestr seneddol, ond byddai hyn ond yn berthnasol ar gyfer y bobl hynny sy'n 18 oed a hŷn, a'r rhai a oedd wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio drwy'r system Cofrestru Etholiadol Unigol.

### **Yr Opsiwn a ffefrir**

- 9.61. Byddai Opsiwn 1 yn cynnal y sefyllfa bresennol.
- 9.62. Byddai Opsiwn 2 yn caniatáu i'r unigolion gael eu cynnwys ar y gofrestr etholiadol heb gais drwy hyrwyddo rhannu data rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau eraill sy'n dal data perthnasol. Byddai hyn hefyd yn dileu'r gofyniad i unigolion ddilysu eu data drwy Gofrestru Etholiadol Unigol lle mae cofrestru awtomatig a chyfateb data wedi digwydd mewn perthynas â'r gofrestr llywodraeth leol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

## **Pennod 3 – Treialu a Diwygio Etholiadau Cymru**

### **Cefndir**

9.63. Ym mis Gorffennaf 2021, fe wnaethom wahodd pob awdurdod lleol yng Nghymru i gyflwyno cynigion i dreialu gwahanol ffyrdd o bleidleisio, a arweiniodd at bedwar awdurdod yn treialu system pleidleisio ymlaen llaw yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Mae hyn wedi rhoi tystiolaeth ddefnyddiol ynghylch sut mae datblygiadau arloesol ym maes etholiadau'n gweithio'n ymarferol, yn ogystal â nodi meysydd y byddai angen rhoi sylw iddynt cyn y gellid ystyried cyflwyno rhagor o bleidleisio ymlaen llaw. Rydym yn debygol o fod eisiau profi rhagor o ddatblygiadau ym maes gweinyddu etholiadol er mwyn ymateb i newidiadau mewn ffordd o fyw a thechnolegau sy'n datblygu. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth a ddarperir gan y cynlluniau pleidleisio ymlaen llaw, adroddiad y Comisiwn Etholiadol ac ymatebion o'r ymgynghoriad i ystyried pa ddatblygiadau newydd y dylid eu treialu yn y dyfodol.

### **Opsiynau**

9.64. Yn ystod yr ymgynghoriad ar ddiwygio etholiadol, cyflwynodd ymatebwyr nifer o awgrymiadau ar gyfer ardaloedd lle dylai cynlluniau etholiadol peilot gael eu cynnal yn y dyfodol. Er mwyn caniatáu i'r ystod o gynlluniau peilot a awgrymir gael eu cynnal yn y dyfodol, rydym yn cynnig ehangu'r pwerau treialu presennol i ddarparu ar gyfer y fframwaith a fyddai'n caniatáu gweithgarwch peilota mewn nifer o ardaloedd. Rydym hefyd yn cynnwys pŵer cyfarwyddo i Weinidogion Cymru a fyddai'n eu galluogi i orfodi awdurdod lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol.

**Opsiwn 1 – Busnes fel arfer - Gallai Gweinidogion Cymru barhau i gymeradwyo cynigion gan awdurdodau lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol mewn ardaloedd penodol, ond ni fyddent yn gallu eu cyfarwyddo.**

**Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i ehangu pwerau treialu etholiadol ar gyfer etholiadau Cymru a galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi awdurdod lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol.**

### **Costau a manteision**

#### Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

### **Costau**

9.65. Mae pwerau'n bodoli o fewn deddfwriaeth sylfaenol gyfredol i ganiatáu treialu gweithgarwch etholiadol mewn ardaloedd penodol iawn. Byddai unrhyw gost o gyflwyno cynlluniau peilot ar gyfer etholiadau'r dyfodol yn dibynnu ar natur a graddfa'r cynlluniau



peilot, a nifer yr awdurdodau lleol a fydd wedi cyflwyno cynigion peilot a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru. Fel cymhariaeth, cost y pedwar cynllun peilot a ddarparwyd ym mis Mai 2022 oedd oddeutu £1.5m.

## Manteision

- 9.66. Gallai treialu gwahanol fathau o arloesi ddarparu tystiolaeth werthfawr i lywio diwygiadau etholiadol yn y dyfodol, ond byddai'r budd hwn yn cael ei gyfyngu gan nifer yr awdurdodau lleol a fyddai'n cyflwyno cynigion.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i ehangu pwerau treialu etholiadol presennol a galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi awdurdod lleol i dreialu datblygiadau etholiadol arloesol

## Costau

- 9.67. Mae'n debyg y byddai'r costau'n uwch nag Opsiwn 1, ond byddai'n dibynnu ar faint, natur a graddfa'r cynlluniau peilot fyddai'n cael eu cynnal. Nid yw nifer a natur peilotiaid etholiadol yn hysbys ar hyn o bryd. Wrth gynllunio ar gyfer cynlluniau peilot etholiadol yn y dyfodol bydd angen i Weinidogion Cymru roi ystyriaeth i gynigion yn unol â'u prosesau cyllidebol arferol. Bydd angen i unrhyw gostau peilot etholiadol gael eu talu gan y gyllideb Etholiadau a bydd angen eu hystyried yn unol â blaenoriaethau eraill y llywodraeth.

Costau cynlluniau peilot a gyflwynwyd ym mis Mai 2022

- 9.68. Mae'r tabl isod yn nodi costau cyfanswm y pedwar cynllun peilot, wedi'u rhannu'n brif gategorïau gwariant, fel y'u darparwyd i Lywodraeth Cymru gan yr awdurdodau peilot. Mae'r data'n cynrychioli'r costau y maent wedi'u hwynebu'n uniongyrchol (megis mewn perthynas â rhywfaint o'r ddarpariaeth TG) neu wedi'u darparu i awdurdodau lleol i ariannu agweddau ar y cynlluniau peilot. Mae hyn yn rhoi syniad o gostau posibl darparu cynlluniau peilot tebyg o ran graddfa a lefel eu cymhlethdod yn y dyfodol.

Tabl 9.6 – Costau cynlluniau peilot etholiadol yn 2022

Math o wariant	Cost
Staffio	£54,046
Cyfarpar	£25,297
Llogi adeiladau, cludiant a storio	£13,600
Cyfathrebu	£56,970
EMS	£268,000
Cofrestrau Electronig*	£1,093,890
Cyfanswm	£1,511,803

\* Mae hyn yn cynnwys y costau a ysgwyddir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol ar gyfer parhau i ddefnyddio trwyddedau meddalwedd yn ogystal â'r gost ychwanegol a ysgwyddir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau peilot penodol.

- 9.69. Gallai fod costau ychwanegol bach i'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer gwerthuso cynlluniau peilot yn y dyfodol. Fel y nodwyd uchod, nid yw'n bosibl cyfrifo'r costau hynny ar hyn o bryd.

### **Manteision**

- 9.70. Prif fantais yr opsiwn hwn fyddai'r gallu i ganiatáu i gynigion ar gyfer ystod ehangach o gynlluniau peilot etholiadol gael eu cynnal. Gallai'r cynlluniau peilot hyn gael eu cynnig gan y Comisiwn Etholiadol, awdurdodau lleol, swyddogion cofrestru etholiadol neu Weinidogion Cymru. Byddai hefyd yn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru gyfarwyddo awdurdodau lleol i gynnal cynlluniau peilot, gan helpu i sicrhau y gellid treialu mathau addas o arloesi mewn cymysgedd amrywiol o ardaloedd awdurdodau lleol. Gallai hyn ddarparu tystiolaeth werthfawr i oleuo diwygiadau etholiadol yn y dyfodol, gyda'r diben o leihau'r diffyg democrataidd a gwella'r ffordd y caiff etholiadau Cymru eu rhedeg.
- 9.71. Gallai fod budd i bleidleiswyr wrth dreialu dulliau arloesol a hyblyg newydd, a allai arwain at newidiadau i wneud etholiadau'n fwy hygyrch ac yn haws i bobl gymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, mae rhai sefydliadau pobl anabl wedi awgrymu y gallai trefniadau hyblyg, fel gallu pleidleisio mewn gwahanol leoliadau, gefnogi pobl anabl i allu pleidleisio.

### **Yr Opsiwn a Ffefrir**

- 9.72. Am y rhesymau a nodir uchod, yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i ehangu pwerau peilot etholiadol presennol a galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi awdurdod lleol i dreialu arloesiadau etholiadol.

## **Pennod 4 – Hygyrchedd ac amrywiaeth: Etholiadau Cymru**

### **Adroddiadau ar gymorth i bleidleiswyr anabl**

- 9.73. Rydym wedi ystyried pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i gael gwared ar rwystrau y gall pleidleiswyr anabl eu hwynebu wrth arfer eu hawl ddemocrataidd i frwr eu pleidlais yn annibynnol ac yn gyfrinachol.
- 9.74. Rydym am sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol lle mae pleidleisio'n digwydd yn hygyrch i bawb sy'n pleidleisio, ac rydym yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol, gweinyddwyr etholiadol a rhanddeiliaid eraill i ystyried a oes modd gwneud newidiadau i arweiniad a hyfforddiant ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio er mwyn cefnogi pobl anabl yn well.
- 9.75. Mae angen ystyried newidiadau deddfwriaethol fel pecyn i adlewyrchu'r fframwaith cyfraith etholiadol yng Nghymru, lle mae'r rheolau ar gyfer cynnal etholiadau'r Senedd a Llywodraeth Leol wedi'u nodi yn yr is-ddeddfwriaeth ganlynol:
- Rheol 32(6) ac (8) Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021 a Rheolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021 mewn perthynas ag etholiadau lleol.
  - Rheol 37(7) ac (8)-(10) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 mewn perthynas ag Etholiadau'r Senedd.
- 9.76. Rydym wedi ystyried yr offer sydd ar gael i bleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio yn ystod etholiadau Cymru yn sgil Deddf Etholiadau 2022. Roedd y Ddeddf hon yn diwygio Atodlen 1 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, a oedd yn arfer ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau mewn etholiadau a gadwyd yn ôl ddarparu dyfais i bob gorsaf pleidleisio ar gyfer pleidleiswyr a oedd wedi colli eu golwg. Disodlwyd y gofyniad hwn â gofyniad ehangach newydd i ddarparu unrhyw offer sy'n rhesymol at ddibenion galluogi neu ei gwneud yn haws i bobl anabl pleidleisio'n annibynnol. Mae'r darpariaethau cysylltiedig ar gyfer Cymru wedi'u cynnwys yn y gorchmynion uchod.
- 9.77. Ymgynghorwyd yn ein Papur Gwyn i sefydlu barn ynghylch a ddylem gyflwyno deddfwriaeth sy'n adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf Etholiadau 2022 o ran yr offer i'w ddarparu i bleidleiswyr anabl mewn gorsafoedd pleidleisio yn ystod etholiadau Cymru neu a ddylem ddefnyddio dull gwahanol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cwestiynau ar wella hygyrchedd etholiadau Cymru ar gyfer pleidleiswyr anabl. Rydym wedi ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn wrth ddatblygu'r cynigion deddfwriaethol.
- 9.78. Buom hefyd yn ystyried a oes angen newidiadau i ddeddfwriaeth etholiadol i sicrhau bod modd gweinyddu etholiadau Cymru mewn ffordd sy'n hygyrch i bawb, gan ddiogelu uniondeb yr etholiadau ar

yr un pryd. Mae ein sgysiau parhaus â rhanddeiliaid a llywodraethau eraill yn y DU wedi nodi datblygiadau arloesol y gellid eu defnyddio i helpu pobl anabl i bleidleisio, a hefyd diogelu eu hawl i fwrw eu pleidlais yn gyfrinachol.

9.79. Wrth ystyried y fframwaith deddfwriaethol a ddisgrifir uchod, rydym hefyd wedi ystyried sut y gellid gwneud darpariaeth yn neddfwriaeth Cymru, er mwyn:

- ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gyhoeddi canllawiau i Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru, sy'n nodi sut y dylai swyddogion canlyniadau gyflawni eu dyletswydd i ddarparu offer o'r fath sy'n rhesymol at ddibenion galluogi neu ei gwneud yn haws i bobl anabl yn gyffredinol bleidleisio'n annibynnol ac yn amodol ar anghenion dynodedig pleidleiswyr anabl yn eu hardal.
- Gosod dyletswydd ar Swyddogion Canlyniadau i roi sylw i'r canllawiau hynny gan y Comisiwn Etholiadol.
- Ei gwneud yn haws i bobl anabl gael eu cefnogi gan gymdeithion ar gyfer etholiadau'r Senedd drwy newid y meini prawf ar gyfer person dros 16 oed, ar yr amod nad ydynt o'r blaen wedi helpu mwy nag un pleidleisiwr ag anabledau i bleidleisio yn yr etholiad. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer etholiadau lleol.

9.80. Y bwriad yw cyflawni'r uchod drwy ddiwygiadau i'r fframwaith presennol o reolau etholiadol yng Nghymru a nodir mewn is-ddeddfwriaeth. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ar wahân i'r Bil.

9.81. I gefnogi'r uchod, bydd y Bil hwn yn diwygio Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 i ychwanegu dyletswydd arall ar y Comisiwn Etholiadol i gynnwys, yn yr adroddiadau y mae'n eu paratoi am etholiadau Cymreig yng Nghymru, ddisgrifiad o'r camau a gymerwyd gan swyddogion canlyniadau i helpu pleidleiswyr anabl.

9.82. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn, rydym wedi ceisio asesu costau a manteision y pecyn cyfan hwn o fesurau.

### **Opsiwn 1: Busnes fel Arfer**

9.83. Nid yw'r ddeddfwriaeth gysylltiedig ynghylch etholiadau Cymreig yng Nghymru wedi newid

### **Opsiwn 2 (yr opsiwn a ffefrir):**

9.84. Gwneir newidiadau deddfwriaethol drwy'r Bil ac is-ddeddfwriaeth berthnasol (fel yr uchod). Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth drwy'r Bil i wneud diwygiadau i Adran 5 o Ddeddf 2000 'adroddiadau ar refferenda etholiadau ac ati'. Byddai'r diwygiad yn ehangu'r gofynion presennol ar y Comisiwn Etholiadol i baratoi a chyhoeddi adroddiad o dan yr adran honno, i gynnwys y camau a gymerwyd gan swyddogion canlyniadau i gynorthwyo pobl anabl i bleidleisio yn yr

etholiad. Bydd hyn yn adlewyrchu darpariaethau tebyg a gyflwynwyd ar gyfer y rhan fwyaf o etholiadau a gadwyd yn ôl yn Neddf Etholiadau 2022.

## **Costau**

**Opsiwn 1** – Dim costau â gwerth ariannol yn gysylltiedig ag opsiwn 1.

## **Opsiwn 2**

### Costau i'r Comisiwn Etholiadol

- 9.85. Costau'r Bil: Byddai'r costau i'r Comisiwn Etholiadol am y gofyniad i asesu'r camau a gymerwyd gan swyddogion canlyniadau i gynorthwyo pleidleiswyr anabl, yn ei adroddiadau etholiadol, yn isel a byddent yn rhan o weithgarwch arferol ar ôl pleidleisio. Caiff y costau hyn eu cynnwys yng nghostau cyffredinol y Comisiwn Etholiadol, fel yr amlinellir yn nhudalen 162.
- 9.86. Costau is-ddeddfwriaeth: Byddai costau ychwanegol ar gyfer cynhyrchu canllawiau i swyddogion canlyniadau ar gynorthwyo pleidleiswyr anabl mewn etholiadau. Mae'n debygol y byddai hyn yn debyg i'r canllawiau a gynhyrchwyd eisoes ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl, felly mae'n debygol y byddai'r costau'n isel. Nid yw'r costau hyn wedi cael eu mesur, ond byddant yn cael eu hasesu'n llawn pan fydd is-ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu.

### Costau i lywodraeth leol

- 9.87. Fel y nodir yn Asesiad Effaith Deddf Etholiadau 2022, nid oes unrhyw gostau uniongyrchol â gwerth ariannol sy'n ymwneud â newidiadau i'r rheolau Etholiadol a nodir uchod. Er bod Swyddogion Canlyniadau (RO) yn debygol o brynu offer newydd i helpu pleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio, mae diffyg data i ddangos pa offer y gallant ei brynu, neu faint. Yn yr un modd â'r Ddeddf 2022, mae'r pecyn o newidiadau deddfwriaethol yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Swyddogion Canlyniadau brynu cyfarpar i helpu pleidleiswyr yn ôl yr angen. Felly, mae'r offer a brynir i alluogi pobl anabl i fwrw eu pleidlais yn annibynnol ac yn gyfrinachol yn debygol o amrywio ar draws gorsafoedd pleidleisio er mwyn i Swyddogion Canlyniadau allu teilwra'r offer a brynwyd i anghenion eu hetholwyr penodol. Nid oes data chwaith i ddangos beth yw gwerth cynnydd mewn hygyrchedd, felly nid oes modd rhoi gwerth ariannol i'r costau hyn.
- 9.88. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi darparu cyllid ychwanegol<sup>12</sup> o ran y darpariaethau cysylltiedig a gyflwynwyd ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl drwy Ddeddf Etholiadau 2022.

---

<sup>12</sup> [Elections Act New Burdens funding methodology: voter identification and accessibility - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/elections-act-new-burdens-funding-methodology-voter-identification-and-accessibility)

Offer i'w ddarparu ym mhob gorsaf bleidleisio ar gyfer etholiadau'r DU (amcangyfrif o'r costau fesul uned)	Amcangyfrif o'r gost fesul uned
Pecyn o bensiliau mawr	£4.77
Pac o afaelion pensiliau	£4.75
Bathodynnau 'Yma i helpu' i staff	£0.14
Chwyddwydrau	£3.19
Cadeiriau	£20.46
Offer y dylid ei ystyried:	
Dyfais Sain Hygyrch*	£54.99
Clustffon*	£14.40
Cofion bach*	£3.58
Dyblygwr USB	£641.80
Tanysgrifiad meddalwedd testun i lais (amcangyfrif)	£3.04

Rydym yn rhagweld y bydd disgwyliad tebyg i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod cyllid ar gael, a chafodd hyn ei godi yn ystod yr ymgynghoriad.

- 9.89. Nid yw'n bosibl defnyddio fformiwla ariannu Llywodraeth y DU ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl yng Nghymru fel canllaw clir i ddangos y gost ragamcanol gymharol ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae tabl Llywodraeth y DU yn dangos costau a bennwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas ag ID Pleidleiswyr a chostau hygyrchedd yn gyffredinol.<sup>13</sup> Rydym hefyd yn nodi y byddai angen addasu unrhyw gymariaethau a wneir i adlewyrchu'r galw diweddaraf.
- 9.90. Nid yw'r canllawiau a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas ag etholiadau a gadwyd yn ôl yn nodi prynu offer drud penodol (y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes eu hangen). Fodd bynnag, wrth arfer y dyletswyddau arfaethedig ar gyfer Swyddogion Canlyniadau i gefnogi pobl anabl, efallai y bydd costau ychwanegol. Un o fanteision y dull gweithredu arfaethedig yw y gallai offer sydd eisoes wedi'i brynu ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl gael ei ddefnyddio o bosibl i gefnogi pleidleiswyr anabl mewn etholiadau yng Nghymru, neu fel arall.
- 9.91. Mae'r ffigurau isod o Fethodoleg Beichiau Newydd Deddf Etholiadau Llywodraeth y DU yn rhoi cost enghreifftiol ar gyfer gwahanol fathau o offer. Fel y nodwyd uchod, bydd y gost yn cael ei hasesu wrth gyflwyno'r is-ddeddfwriaeth berthnasol.

Tabl 9.9 – Costau offer cymorth ar gyfer pleidleisio

<sup>13</sup> [New Burdens Funding Allocations 22/23 and 23/24: voter ID, accessibility, training & contact centre costs \(England and Wales\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/new-burdens-funding-allocations-22-23-and-23-24-voter-id-accessibility-training-contact-centre-costs)

\* Ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl, amcangyfrifwyd y byddai angen yr offer hwn ar 20% o orsafoedd pleidleisio yn y DU<sup>14</sup>

### Costau i Lywodraeth Cymru

- 9.92. Costau sy'n deillio o is-ddeddfwriaeth: Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer unrhyw feichiau ychwanegol sy'n deillio o'r gofynion hyn. Fel y nodwyd uchod, bydd y costau hyn yn cael eu pennu pan fydd yr is-ddeddfwriaeth yn cael ei llunio. Ni fyddai hyn yn cynnwys holl wariant llywodraeth leol ar fesurau hygyrchedd ar gyfer etholiadau, a byddai rhai ohonynt yn fusnes fel arfer.
- 9.93. Ni fyddem yn disgwyl unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru am wneud is-ddeddfwriaeth gan ei bod eisoes i fod i gael ei hadolygu fel rhan o weithgarwch busnes fel arfer.
- 9.94. Byddem yn disgwyl talu unrhyw gostau o'r mesurau a symudir ymlaen o fewn y cyllidebau presennol. Bydd angen ystyried argaeledd a natur y cyllid o 2025-26 ymlaen fel rhan o'n gwaith o gynllunio'r gyllideb i'r dyfodol.

### **Manteision**

- 9.95. Y brif fantais yw sicrhau bod cymorth priodol ar gael i alluogi pobl anabl i bleidleisio'n annibynnol ac yn gyfrinachol, drwy gael gwared ar y rhwystrau a allai eu hatal rhag gwneud hynny ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyd-fynd â defnydd Llywodraeth Cymru o'r model cymdeithasol o anabledd, sy'n dweud wrthym y gall unigolion fod â nam neu wahaniaeth, ond mai cymdeithas sy'n eu gwneud yn anabl drwy roi rhwystrau yn eu ffordd. I ddefnyddio'r Model Cymdeithasol, mae'n rhaid dileu'r rhwystrau er mwyn i bobl anabl allu cyfranogi'n llawn.
- 9.96. Byddai'r newidiadau i'r is-ddeddfwriaeth a grybwyllwyd yn sicrhau bod pobl ag ystod ehangach o namau yn cael cymorth mewn gorsafoedd pleidleisio, gan wella hygyrchedd pleidleisio. Mae'r camau deddfwriaethol hefyd yn caniatáu mwy o hyblygrwydd drwy beidio â nodi offer a mesurau, gan sicrhau y bydd y newidiadau'n cwmpasu technoleg well sy'n dod i'r amlwg. Bydd deddfu i'r Comisiwn Etholiadol ddarparu canllawiau yn sicrhau y gellir ymgynghori ar y canllawiau a'u diweddarau yn ôl yr angen.
- 9.97. Byddai'r ddyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol yn y Bil i adrodd ar y camau a gymerwyd gan swyddogion canlyniadau i gynorthwyo pleidleiswyr anabl yn sicrhau bod swyddogion canlyniadau yn atebol.

---

<sup>14</sup> [Elections Act New Burdens funding methodology: voter identification and accessibility - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/news/elections-act-new-burdens-funding-methodology-voter-identification-and-accessibility)

- 9.98. Mae mantais anuniongyrchol bosibl hefyd i fusnesau sy'n cyflenwi'r offer newydd i Swyddogion Canlyniadau.

### **Yr Opsiwn a Ffefrir**

- 9.99. Am y rhesymau a amlinellir uchod, Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

### **Arolwg Ymgeiswyr: Etholiadau Llywodraeth Leol Cefndir**

- 9.100. Ar hyn o bryd, nid yw aelodau awdurdodau lleol Cymru yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o gynlluniau i annog pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ystyried sefyll mewn etholiad. Bwriad yr arolwg ymgeiswyr yw helpu i greu darlun o nodweddion y rheini sy'n sefyll etholiad mewn awdurdodau lleol, ac yn cael eu hethol iddynt, a helpu i ddatblygu polisi yn y maes hwn.
- 9.101. Rhoddodd Rhan 1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddyletswydd ar awdurdodau lleol i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth ymgeiswyr mewn etholiadau cyffredin i brif gynghorau a chynghorau tref a chymuned. Mae adran 1(1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol gynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus mewn etholiadau cyffredin i sir neu fwrdeistref sirol ac i gyngor tref a chymuned.
- 9.102. Mae adran 1 (3)(a) a (b) yn darparu bod y rheoliadau'n rhagnodi'r cwestiynau a ofynnir, y modd maent yn cael eu gofyn, a sut y cesglir yr wybodaeth.
- 9.103. Mae Adran 1(4) yn nodi meysydd y cwestiynau y gellir eu gofyn yn yr arolwg. Y meysydd yw - rhyw, tueddfryd rhywiol, iaith, hil, oedran, anabledd, crefydd neu gred, iechyd, addysg neu gymhwyster, cyflogaeth a gwaith fel cynghorydd.
- 9.104. Rhagnodir y cwestiynau a ffurf yr arolwg yn Rheoliadau Arolwg Etholiadau Lleol (Cymru) 2012 ("Rheoliadau 2012"). Cafodd y rhain eu diwygio gan Reoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2016 ac yn fwy diweddar, Rheoliadau Arolygon Etholiadau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2022.
- 9.105. Mae hwn yn arolwg pwysig, ond yn aml mae'n cystadlu am sylw gydag arolygon eraill gan awdurdodau lleol a'r Comisiwn Etholiadol, a all, gyda'i gilydd, achosi i unigolion flino ar orfod llenwi arolygon. Un ffordd o leihau nifer yr arolygon yw rhannu'r arolwg yn ddwy ran, gan bennu set graidd o gwestiynau a galluogi awdurdodau lleol i ychwanegu nifer cyfyngedig o gwestiynau mewn perthynas â materion lleol.



9.106. Mae Gweinidogion Cymru eisiau cadw dull gweithredu Cymru gyfan ar gyfer yr arolwg ond maent yn bwriadu dileu'r gofyniad i ragnodi'r arolwg yn y rheoliadau. Byddai hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i ddatblygu'r arolwg ar lefel genedlaethol, gyda chwestiynau craidd i bob awdurdod lleol a'r hyblygrwydd i ofyn cwestiynau lleol.

## **Opsiynau**

9.107. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Opsiwn 2 – Dileu'r angen i ragnodi ffurf a chwestiynau'r arolwg o fewn rheoliadau.

### **Opsiwn 1 – Busnes fel arfer**

9.108. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newidiadau. Byddai'r ffurf a'r cwestiynau ar gyfer yr adolygiad yn parhau i gael eu rhagnodi drwy reoliadau, a byddai angen rheoliadau newydd ar gyfer unrhyw newid i gwestiynau a ffurf ar gyfer pob etholiad cyffredin.

## **Costau**

9.109. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

## **Manteision**

9.110. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

### **Opsiwn 2 - Dileu'r angen i ragnodi ffurf a chwestiynau'r arolwg o fewn rheoliadau a rhoi cyfarwyddyd yn eu lle.**

9.111. Byddai Opsiwn 2 yn dileu'r gofyniad am ffurf yr arolwg a'r cwestiynau sydd i'w rhagnodi mewn rheoliadau ac o ganlyniad yr angen i wneud rheoliadau newydd cyn pob etholiad cyffredin, sef y profiad a gafwyd hyd yma. Yn hytrach, byddai ffurf yr arolwg yn cael ei nodi mewn cyfarwyddyd.

9.112. Byddai proses yn cynnwys cydweithredu rhwng prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, y Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a grwpiau cydraddoldeb yn cael ei sefydlu cyn pob etholiad cyffredin i ystyried ffurf yr arolwg a'r cwestiynau i'w gofyn. Byddai proses debyg o gydweithredu hefyd yn digwydd gydag Opsiwn 1, felly ni fyddai hyn yn golygu unrhyw gostau ychwanegol. Byddai Gweinidogion yn gallu diwygio / ychwanegu / dileu cwestiynau cyn cymeradwyo'r arolwg yn derfynol.

## **Costau**

Costau i Lywodraeth Cymru

9.113. Ni fyddai costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru gan mai'r arfer eisoes mewn blynyddoedd diweddar oedd sefydlu grŵp o bartneriaid i drafod newidiadau i'r arolwg ac i'r Gweinidogion ystyried y cwestiynau arfaethedig cyn gwneud rheoliadau newydd. Bydd arbedion cost cyfle o ganlyniad i'r ffaith nad oes angen gwneud rheoliadau, yn 2026-27 a 2031-32.

**Tabl 9.10 - Arbedion cost cyfle sy'n gysylltiedig â pheidio â gorfod gwneud rheoliadau**

Costau staff	Cyflog blynyddol gydag argostau (£)	Cost dyddiol (wedi'i dalgrynnu) (£)	Nifer y diwrnodau sydd eu hangen	Cyfanswm (wedi'i dalgrynnu) (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	120,174	462	1	462
Gradd 7	86,731	334	5	1,670
SEO	66,364	255	10	2,550
HEO	52,774	203	5	1,015
Cyfreithiwr (Gradd 7)	86,731	334	10	3,340
Cyfieithu (SEO)	66,364	255	2	510
			<b>Cyfanswm</b>	<b>9,500</b>

### Costau i lywodraeth leol

9.114. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno costau ychwanegol gan y bydd y ddyletswydd sydd ar awdurdodau lleol i gynnal arolwg yn parhau. Er bod pob awdurdod lleol yn rhydd i gynnal ei arolwg ei hun, ar gyfer y ddau arolwg diwethaf, mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i ariannu Data Cymru yn uniongyrchol i gynnal yr arolwg ar ran pob awdurdod lleol. Disgwylir y bydd opsiwn tebyg ar gael yn y dyfodol. Nid yw rhoi'r opsiwn i lywodraeth leol ychwanegu cwestiynau i'r arolwg mewn cysylltiad â chynlluniau lleol sy'n cael eu datblygu yn eu hardaloedd yn golygu unrhyw gostau uniongyrchol gan ei fod yn galluogi'r sefydliadau unigol i ddefnyddio eu disgresiwn wrth ystyried a ydynt am ddefnyddio'r opsiwn hwn ai peidio. Mae unrhyw gostau i awdurdod unigol o ychwanegu nifer cyfyngedig o gwestiynau at yr arolwg yn cael eu hystyried yn fach iawn ac yn debygol o gael eu cynnwys yn yr ymarfer ehangach.

### **Manteision**

9.115. Bydd Opsiwn 2 yn rhoi hyblygrwydd i ofyn cwestiynau cenedlaethol a lleol mewn un arolwg, ac mae'n bosibl y bydd yn lleihau nifer yr arolygon a roddir i ymgeiswyr i'w cwblhau. Gobeithir y bydd hyn yn cynyddu'r gyfradd ymateb ac, o ganlyniad, yn darparu mwy o wybodaeth am ymgeiswyr er mwyn asesu a yw mentrau cenedlaethol a lleol i annog pobl o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i ystyried sefyll mewn etholiad yn cael effaith. Bydd yr wybodaeth a gesglir hefyd yn helpu i lywio polisi yn y maes hwn yn y dyfodol.

## Yr Opsiwn a ffefrir

9.116. Mae Opsiwn 1 yn cadw'r sefyllfa bresennol, a bydd yn parhau i fynnu bod rheoliadau newydd yn cael eu gwneud cyn pob etholiad cyffredin heb ganiatáu hyblygrwydd i ofyn cwestiynau lleol.

9.117. Opsiwn 2 – byddai'n dileu'r gofyniad i wneud rheoliadau newydd cyn pob etholiad cyffredin, yn caniatáu hyblygrwydd i gael cwestiynau craidd cenedlaethol a chwestiynau lleol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

## Platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig

### Cefndir

9.118. Rydym wedi ystyried pa fesurau y gellir eu rhoi ar waith i:

- sicrhau bod pleidleiswyr yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan yn hyderus mewn etholiadau,
- beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth hon a chan bwy.

9.119. Gwyddom o ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid fod diffyg gwybodaeth yn rhwystr rhag cymryd rhan mewn etholiadau a'r broses ddemocrataidd yn fwy cyffredinol. Roedd adborth o'r papur gwyn yn atgyfnerthu'r farn y bydd datganiadau ymgeiswyr yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi gan bleidleiswyr, ond nad oes platfform electronig dibynadwy wedi'i ariannu'n ddiogel ar hyn o bryd i gyflawni'r polisi hwn. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu mai priodol fyddai i'r gwaith o ddarparu'r platfform fod yn nwylo sefydliad nad yw'n rhan o Lywodraeth Cymru, a'r EMB arfaethedig yw'r lleoliad a ffefrir.

## Opsiynau

### Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

9.120. Ar gyfer rhai etholiadau, gwneir darpariaeth i gopïau caled o ddeunydd etholiadol gael eu hanfon at bleidleiswyr.

- Ar gyfer etholiadau'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru yn talu i bob ymgeisydd anfon un darn o ddeunydd etholiadol at bob etholwr cofrestredig yn ei etholaeth. Ar gyfer etholiad y Senedd yn 2021, cost yr ymarfer hwn oedd oddeutu £6.6 miliwn, yn amodol ar archwiliad.
- Ar gyfer etholiadau'r prif gynghorau yng Nghymru, y pleidiau gwleidyddol sy'n uniongyrchol gyfrifol am gost dosbarthu deunydd etholiadol i etholwyr.
- Ar gyfer etholiadau maer yr Awdurdodau Cyfun yn Lloegr, mae darpariaeth i bostio llyfryn etholiad i bob etholwr (Atodlen 5 Gorchymyn Awdurdodau Cyfun (Etholiadau Maer) 2017). Dim ond ar ôl iddynt dalu 'swm rhesymol' tuag at gostau ei argraffu, fel y penderfynir gan y

swyddog canlyniadau, y bydd ymgeiswyr yn cael eu datganiad yn y llyfryn hwn.

- 9.121. Cyn etholiadau'r Senedd a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2021, lluniodd a dosbarthodd y Comisiwn Etholiadol lyfryn gwybodaeth i bleidleiswyr a ddsbarthwyd i etholwyr ledled Cymru. Cost hyn oedd £250,000.

## **Opsiwn 2 – Deddfu i ddarparu platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig**

- 9.122. Rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig yn cefnogi dinasyddion Cymru i gymryd rhan mewn democratiaeth. Bydd y platfform yn canoli a symleiddio'r broses o ddarparu gwybodaeth i bleidleiswyr ar gyfer etholiadau Cymru, yn darparu platfform ar-lein i ddarparu gwybodaeth am ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol cofrestredig gan gynnwys datganiadau ymgeiswyr, a chefnogi egwyddorion diwygio etholiadol sy'n hyrwyddo cyfranogiad, gwella profiad dinasyddion, hygyrchedd a symlrwydd. Bydd manylion y platfform yn cael eu nodi mewn is-ddeddfwriaeth a fydd yn cynnwys pwy fydd yn cyflawni'r swyddogaeth hon. Y bwriad yw y bydd yr EMB yn gyfrifol am gyflawni'r ddyletswydd hon, a bydd y rheoliadau'n nodi'n fanwl yr hyn y bydd gofyn iddynt ei gyflawni.

### **Costau a manteision**

#### Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

##### **Costau**

- 9.123. Mae cyfrifon etholiadau'r Senedd ar gyfer 2021 yn dangos mai cost darparu gwybodaeth i bob etholwr o fewn y darpariaethau presennol oedd oddeutu £6.6 miliwn, yn amodol ar archwiliad. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y gost hon.

##### **Manteision**

- 9.124. Mae'r system bresennol yn darparu ar gyfer anfon rhywfaint o ddeunydd sy'n ymwneud ag etholiadau at etholwyr cyn etholiadau'r Senedd.

#### Opsiwn 2 – Deddfu i ddarparu platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig

##### **Costau**

- 9.125. Gan y bydd copïau caled o ddeunydd etholiadol yn dal i gael eu hanfon at bleidleiswyr cyn etholiadau, bydd y costau a nodir dan Opsiwn 1 yn parhau i gael eu hysgwyddo yn yr opsiwn hwn. Mae amcangyfrif o gost ychwanegol yr opsiwn hwn yn seiliedig ar

wybodaeth a gasglwyd yn ystod ymarfer ymgysylltu ymlaen law â chyflenwyr posibl.

9.126. Mae'r costau'n debygol o ddod dan y categorïau canlynol:

a) Capasiti/adnodd o fewn yr EMB. Bydd angen cynnal ymarfer i nodi'r capasiti priodol yn yr EMB i reoli'r gwaith sy'n gysylltiedig â'r plattform gwybodaeth. Fodd bynnag, credwn y byddai angen i adnoddau yn y Comisiwn ddarparu ar gyfer rheolwr contract/cynnwys (SEO cyfwerth ag amser llawn ar £66,364 cost gros cyfartalog blynyddol), a dadansoddwr busnes (G7 cyfwerth ag amser llawn yn £86,731 cost gros cyfartalog blynyddol). Rhagwelir y byddai'r staff hyn hefyd yn darparu cymorth caffael. Mae'n debygol y bydd yr adnoddau a ddefnyddir gan yr EMB yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith yn ogystal â'r plattform gwybodaeth i bleidleiswyr. Byddai hyn yn cydbwysu yn erbyn capasiti staff eraill sydd ei angen i ddarparu'r plattform, fel gweinyddu a chyfathrebu.

b) Cost darparwr gwasanaeth trydydd parti i ddylunio ac adeiladu'r plattform gwybodaeth i bleidleiswyr. Bydd y gost yn amrywio yn dibynnu ar ddyluniad y plattform ond ar sail ymarfer ymgysylltu ymlaen llaw â'r farchnad, rydym yn amcangyfrif cost sefydlu gychwynnol o £750,000 i £1m yn digwydd yn 2025-26. Bydd cost flynyddol o £80,000 i £110,000 ar gyfer cynnal a chadw a datblygu yn dechrau yn 2026-27. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym wedi mabwysiadu dull ceidwadol a thybir y bydd y costau ym mhen uchaf yr ystodau hyn.

9.127. Mae'r costau yn y tabl isod yn amcangyfrifon gorau sy'n ymwneud â datblygu a chynnal a chadw cynnyrch hyfyw sylfaenol – h.y. datblygu plattform i letya datganiadau ymgeiswyr. Bydd angen i swyddogaethau ychwanegol gael eu costio ar wahân ac mae'n debygol y byddant yn dod o dan wariant Blwyddyn 2/Blwyddyn 3. Mae'r holl gostau'n gostau refeniw.

Tabl 9.7 – Cost Plattform Gwybodaeth i Bleidleiswyr

Gweithgaredd	BI1 (2025-26)	BI2 (rhan o nawdd ar gyfer LDBCW* newydd) (2026-27)	BI3 (rhan o nawdd ar gyfer LDBCW* newydd) (2027-28 ymlaen)
Adnodd o fewn yr EMB	£153,095	£153,095	£153,095
Darparwr gwasanaeth trydydd parti	£750,000 i £1miliwn	£80,000 i £110,000	£80,000 i £110,000
<b>CYFANSWM**</b>	<b>£1,153,095</b>	<b>£263,095</b>	<b>£263,095</b>

\*\*amcangyfrif uchaf

9.128. Mae costau ychwanegol y gellid eu hwynebu wrth i'r plattform ddatblygu a cheisio ymgorffori data sy'n cael ei gyhoeddi'n

rheolaidd ac sy'n cael ei gadw ar hyn o bryd ar Systemau Rheoli Etholiadol. Mae cael meddalwedd EMS i siarad â'r plattform fel ei fod yn gallu cyfuno data ledled Cymru i'w gyflwyno i bleidleiswyr yn debygol o olygu bod angen adeiladu API (Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau) – bydd y rhain yn darparu pont rhwng yr EMS a'r plattform gwybodaeth i bleidleiswyr. Mae bron yn amhosibl gwybod beth yw cost datblygu API gan y bydd hyn yn dibynnu ar sawl ffactor (e.e. cymhlethdod). Nid yw'n bosibl cyfrifo'r costau hyn.

9.129. Fodd bynnag, yn 2020-21 talwyd tua £1.6 miliwn i ddarparwyr EMS i gefnogi'r newidiadau gofynnol i systemau ar ôl ymestyn yr etholfraint. Darparwyd y ffigur hwn ffigurau i ddibenion dangosol yn unig, nid yw'r gwir gostau'n hysbys ar hyn o bryd ac ni ellir eu hamcangyfrif oherwydd natur arbenigol y gwaith hwn a sensitifrwyd masnachol.

9.130. Bydd costau staff Llywodraeth Cymru (costau cyfle) yn ystod 2024-25 ar gyfer gwneud Rheoliadau i nodi manylion yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer y plattform, a ddangosir yn y tabl isod.

Tabl 9.8 - Costau staff Llywodraeth Cymru o ran cynhyrchu rheoliadau yn 2024-25

Costau staff	Cyflog blynyddol gydag argostau (£)	Cost dyddiol (wedi'i dalgrynnu) (£)	Nifer y dyddiau sydd eu hangen	Cyfanswm (wedi'i dalgrynnu) (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	120,174	462	1	462
Gradd 7	86,731	334	5	1,670
SEO	66,364	255	10	2,550
HEO	52,774	203	5	1,015
Cyfreithiwr (Gradd 7)	86,731	334	10	3,340
Cyfieithu (SEO)	66,364	255	2	510
			Cyfanswm	9,500

### Manteision

9.131. Gellid gwireddu nifer o fanteision pe baem yn deddfu i ddarparu plattform gwybodaeth am etholiadau Cymreig.

9.132. Roedd y ddeddfwriaeth bresennol yn darparu bod pob ymgeisydd yn gallu anfon un darn o bost copi caled at bob aelwyd neu bob etholwr yng Nghymru yn etholiadau'r Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer hyn drwy'r Gronfa Gyfunol fel rhan o gostau cynnal etholiadau'r Senedd yng Nghymru. Nid yw hyn yn berthnasol i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

- 9.133. Bydd Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn darparu gwybodaeth ychwanegol i'r etholwyr hynny yn etholiadau'r Senedd, gan ganiatáu iddynt gael gafael ar wybodaeth yn ddigidol ac nid mewn print copi caled yn unig. Bydd hyn yn helpu i wella ymgysylltiad mewn etholiadau drwy gydnabod bod gwahanol grwpiau'n cael gafael ar wybodaeth drwy wahanol ddulliau. Ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, bydd Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn darparu platfform am ddim i ymgeiswyr gyfathrebu â'r etholwyr yn ddigidol. Bydd gohebiaeth copi caled yn parhau i ddilyn y drefn bresennol lle mae ymgeiswyr a phleidiau yn rhydd i gyfathrebu â'r etholwyr ond mae'n rhaid iddynt ddarparu'r cyllid ar gyfer hyn eu hunain.
- 9.134. Bydd darparu platfform tebyg i'r model a ddefnyddir yn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau yn darparu un pwynt mynediad i etholwyr sy'n dymuno deall yn well pwy sy'n sefyll mewn etholiad yn eu hetholaeth. Mae hyn yn cynnig manteision dros y system bresennol sy'n caniatáu i ymgeiswyr anfon un darn o ddeunydd etholiadol at bob etholwr cofrestredig am nifer o resymau, er enghraifft:
- Mae deunydd etholiadol yn aml yn anhygyrch i bobl sydd â nam ar eu golwg. Bydd platfform electronig yn caniatáu hygyrchedd gan ddefnyddio darllenwyr sgrin ac ati.
  - Gall deunydd etholiadol gael ei daflu gan y person ar yr aelwyd sydd fel arfer yn didoli'r post ac felly mae'n bosibl na fydd ar gael i etholwyr eraill ar yr aelwyd.
- 9.135. Gallai platfform gwybodaeth roi cyfle i etholwyr ddod o hyd i wybodaeth sy'n ymwneud nid yn unig ag ymgeiswyr sy'n sefyll, ond hefyd â gwybodaeth am fwrw eu pleidlais, y system etholiadol sy'n cael ei defnyddio ac ati. Gallai hyn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw fwch gwybodaeth. Mae gwahanol grwpiau mewn cymdeithas yn dewis ac yn ffafrio cael gafael ar wybodaeth drwy ddulliau gwahanol. Drwy ddarparu platfform gwybodaeth ar-lein i bleidleiswyr yn ogystal â'r deunydd etholiadol copi caled presennol, mae'n bosibl y gellid gwella ymgysylltiad mewn etholiadau.
- 9.136. Os caiff gwybodaeth ei chyfuno a'i chyflwyno'n syml i bleidleiswyr ar un platfform llawn gwybodaeth, gallai hyn helpu i leddfu'r pwysau ar dimau etholiadol awdurdodau lleol sy'n ateb cwestiynau cyffredin sawl gwaith yn ystod y cyfnod cyn etholiad.

### **Yr Opsiwn a Ffefrir**

- 9.137. Am y rhesymau a nodir uchod, yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 2 – Deddfu i ddarparu ar gyfer platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig.

### **Gwasanaethau i hyrwyddo amrywiaeth ymhlith pobl sy'n ceisio swydd etholedig**

## Cefndir

- 9.138. Drwy greu Cymru fwy cyfartal, lle mae gan bawb gyfle i gymryd rhan, i gyrraedd eu llawn botensial ac i allu cyfrannu'n llawn at yr economi, bydd yn galluogi Cymru i fod yn fwy ffyniannus ac arloesol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag cymryd rhan mewn democratiaeth leol drwy sefyll am swyddi etholedig.
- 9.139. Mae pobl anabl yn debygol o wynebu costau uwch wrth geisio swyddi etholiadol oherwydd eu namau. Sefydlwyd cronfa beilot Mynediad i Swyddi Etholedig i ddarparu cymorth ychwanegol i bobl anabl i geisio swyddi etholedig. Cefnogodd y gronfa beilot unigolion a oedd yn sefyll etholiad yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 ac yn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Oherwydd y newidiadau a wnaed i'r rheolau ynghylch terfynau gwario ar gyfer ymgeiswyr, nid oedd y cyllid a ddarparwyd drwy'r cynllun peilot yn cyfrif tuag at derfynau gwario'r ymgeiswyr. Fel rhan o'r dull gweithredu, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau Mynediad i Wleidyddiaeth i godi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael a'r amserlenni ar gyfer ceisiadau.
- 9.140. Talodd y gronfa beilot a ddarparwyd gan Anabledd Cymru ac a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru am gymorth ymarferol i alluogi pobl anabl i gymryd rhan lawn yn y broses wleidyddol. Denodd y cynllun peilot 21 o ymgeiswyr, a chafodd chwech eu hethol i gynghorau cymuned.
- 9.141. Mae [Adolygiad annibynnol o beilot y Gronfa Mynediad i Swyddi Etholedig Cymru](#) wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi. Daw'r adroddiad i'r casgliad bod yr ymgeiswyr yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r trefniadau a osodwyd yn eu lle a bod cefnogaeth glir i barhau â'r gronfa. Fel gydag unrhyw gynllun beilot, mae gwersi i'w dysgu. Yn yr achos hwn, roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys yr amser cyfyngedig yr oedd y gronfa ar gael i ymgeiswyr, yr angen am fwy o eglurder ynghylch pa gymorth sydd ar gael, a'r angen am fwy o ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r gronfa.
- 9.142. Mae ein Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiad i ymestyn y Gronfa i gefnogi ymgeiswyr o grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol. Mae adborth o'n hymchwil a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn awgrymu efallai na fydd cronfa ar ei phen ei hun yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir o gynyddu amrywiaeth yr ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiadau datganoledig yng Nghymru gan fod rhwystrau eraill i gyfranogiad yn bodoli fel diffyg gwybodaeth a hyfforddiant.



9.143. Ar y sail hon, mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i hyrwyddo amrywiaeth yn y nodweddion gwarchoddedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol pobl sy'n ceisio swydd etholedig. Byddai cynlluniau / mentrau a sefydlir o dan y ddarpariaeth hon yn gallu targedu cefnogaeth neu wasanaethau at grŵp penodol o bobl neu nifer o grwpiau.

9.144. Byddai'r cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl yn gynllun gorfodol o dan y ddyletswydd gyffredinol ehangach hon. Bwriedir i gymorth ariannol i ymgeiswyr anabl fod ar gael ar gyfer pob etholiad ac is-etholiad cyffredin yng Nghymru, gyda threfniadau manwl i'w nodi mewn rheoliadau. Bydd y trefniadau manwl yn cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid a phartïon sydd â diddordeb. Gellid rhoi cynlluniau cymorth ariannol ar waith hefyd ar gyfer grwpiau sydd â'r nodweddion gwarchoddedig eraill a nodir yn y Bil.

## **Opsiynau**

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer. Nid oes gofyniad cyfreithiol i sefydlu a chynnal cronfa i gefnogi grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Mater i weinidogion unigol fyddai penderfynu a oes cronfa yn y dyfodol ai peidio, gan greu ansicrwydd o fewn cymunedau sy'n cael eu tangynrychioli ynghylch a fydd cymorth ar gael pan fo angen.

Opsiwn 2 – Deddfu i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i hyrwyddo amrywiaeth yn y nodweddion gwarchoddedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol pobl sy'n ceisio swydd etholedig. Dan y ddyletswydd eang hon, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl sy'n ceisio swydd etholedig.

## **Costau**

9.145. Opsiwn 1 – Y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gweithredu a rheoli'r gronfa beilot, a oedd yn cynnwys y Senedd, y prif gynghorau a chynghorau cymuned a thref, oedd:

- 2020-2021 - Paratoi ar gyfer cronfa - £50,000  
- Rheoli a dyrannu - £30,000
- 2021-2022 - Rheoli a dyrannu - £86,000
- 2022-2023 - Dirwyn y gronfa i ben a'i hadolygu - £20,000

9.146. Nid oedd yn bosibl pennu faint o gyllid fyddai ei angen ar gyfer dyfarniadau i dderbynwyr trydydd parti gan y byddai hyn yn dibynnu ar nifer yr ymgeiswyr a lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar bob unigolyn. Rhoddwyd £120,000 cychwynnol o'r neilltu at y diben hwn, a oedd, yn achos y cynllun peilot llywodraeth leol, yn fwy na'r hyn a oedd yn ofynnol.

9.147. O ran sefydlu cronfa anneddfwriaethol ar gyfer y dyfodol, a allai gefnogi'r unigolion sy'n cael eu gwarchod gan bob grŵp sy'n cael eu tangynrychioli, byddai disgwyl i'r costau fod o leiaf ar lefel y rhai a nodir uchod. Ond, byddai'n dibynnu ar y trefniadau manwl i gefnogi pob grŵp sy'n cael ei dangynrychioli. Nid yw'n bosibl diffinio costau ar hyn o bryd, gan y byddent yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid a phartïon sydd â diddordeb.

## **Manteision**

9.148. Byddai Opsiwn 1 yn caniatáu parhau â'r gwaith o ran sefydlu dulliau gweithredu i gefnogi unigolion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli i sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn cael ei roi ar sail ddeddfwriaethol. Ni fyddai gan unigolion sicrwydd y byddai cymorth ar gael ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Gallai'r ansicrwydd hwn effeithio ar nifer yr ymgeiswyr sy'n cynnig eu hunain o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

9.149. Opsiwn 2 – gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i hyrwyddo amrywiaeth yn y nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol pobl sy'n ceisio swydd etholedig. Dan y ddyletswydd eang hon, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl sy'n ceisio swydd etholedig.

9.150. Byddai'r opsiwn hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau ar waith i hyrwyddo amrywiaeth yn y nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol pobl sy'n ceisio swydd etholedig. O dan y ddyletswydd hon, byddai'n ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl sy'n ceisio swydd etholedig gyda manylion i'w nodi mewn rheoliadau. Byddai gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i wneud rheoliadau pellach i gefnogi trefniadau ar gyfer ymgeiswyr â nodweddion gwarchodedig eraill ar sail anghenion penodol y grwpiau hynny. Byddai'r trefniadau'n cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid a phartïon sydd â diddordeb, a byddai'n rhoi sicrwydd i unigolion y byddai cymorth ar gael i'w helpu i sefyll mewn etholiad. Byddai hyn yn symud y ddadl i ganolbwyntio ar ymyriadau manwl.

## **Costau**

9.151. Nid oes costau'n cael eu cyflwyno drwy bŵer i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr sydd â nodweddion gwarchodedig eraill. Byddai unrhyw gostau'n deillio o'r trefniadau a roddwyd ar waith drwy reoliadau i gefnogi grwpiau penodol sy'n cael eu tangynrychioli. O'r herwydd, nid yw'r costau'n hysbys ar hyn o bryd. Bydd Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag unrhyw Reoliadau, a fydd yn nodi costau a manteision disgwylidig y

newidiadau deddfwriaethol arfaethedig. Fodd bynnag, er enghraifft, mae'r costau a'r sylwadau a nodir yn Opsiwn 1 yn debygol o fod yn debyg i sefydlu trefniadau i gynorthwyo pobl anabl i sefyll mewn etholiad, fel un elfen o unrhyw drefniadau newydd. Byddai costau sy'n gysylltiedig â chynlluniau / mentrau eraill a sefydlwyd o dan y ddyletswydd hon yn cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu trefniadau. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu costau wrth baratoi rheoliadau yn 2025-26 i roi effaith lawn i weithrediad y cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl.

**Tabl 9.11 - Costau staff Llywodraeth Cymru i gynhyrchu rheoliadau sy'n ymwneud â'r cynllun cymorth ariannol ar gyfer ymgeiswyr anabl**

Costau staff	Cyflog blynyddol gydag argostau (£)	Cost dyddiol (wedi'i dalgrynnu) (£)	Nifer y dyddiau sydd eu hangen	Cyfanswm (wedi'i dalgrynnu) (£)
Dirprwy Gyfarwyddwr	120,174	462	1	462
Gradd 7	86,731	334	5	1,670
SEO	66,364	255	10	2,550
HEO	52,774	203	5	1,015
Cyfreithiwr (Gradd 7)	86,731	334	10	3,340
Cyfieithu (SEO)	66,364	255	2	510
			<b>Cyfanswm</b>	<b>9,500</b>

## Manteision

9.152. Bydd yr opsiwn hwn yn rhoi sylfaen gyfreithiol gadarn i adeiladu cyfres o drefniadau i gefnogi pobl sy'n cael eu tangynrychioli i sefyll mewn etholiad. Yn yr un modd â chostau, bydd manteision unrhyw drefniadau yn y dyfodol yn cael eu nodi pan fydd rheoliadau'n cael eu gwneud. Mae adborth o'r gwerthusiad o'r Gronfa Beilot ar gyfer Ymgeiswyr Anabl wedi nodi na fyddai nifer o unigolion wedi gallu sefyll mewn etholiad heb yr opsiwn o gael mynediad at y gronfa a manteisio ar yr adnoddau sydd ar gael drwyddi. Disgwylir i'r ddyletswydd ehangach ddarparu amrywiaeth o gefnogaeth i unigolion eraill drwy gael gwared ar rwystrau i grwpiau eraill sy'n cael eu tangynrychioli gan alluogi grŵp mwy amrywiol o unigolion i gymryd rhan lawn mewn democratiaeth drwy sefyll mewn etholiad.

## Opsiwn a ffefrir

9.153. Er y bydd Opsiwn 1 yn galluogi gwaith i barhau i nodi trefniadau cymorth, ni fydd yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar unigolion y bydd cymorth ar gael pan fydd ei angen.

9.154. Mae Opsiwn 2 yn darparu'r cysur a'r sicrwydd y bydd trefniadau ar waith i gefnogi unigolion, y bydd yn cael ei gyfundrefnu, ac y bydd partneriaid a phartïon sydd â diddordeb yn rhan o'r gwaith o

datblygu trefniadau ar gyfer y dyfodol. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir.

## **Canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swyddi etholedig**

### **Y cefndir**

9.155. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o argymhellion wedi'u gwneud ynghylch cynyddu amrywiaeth y Senedd yn rhan o waith ehangach ar Ddiwygio'r Senedd. Sefydlwyd [Pwyllgor Diben Arbennig](#) y Senedd ym mis Hydref 2021, gyda chylch gwaith i ystyried y casgliadau a wnaed yn flaenorol gan y Pwyllgor ar Ddiwygio Etholiadol y Senedd, ac i wneud argymhellion ynghylch cyfarwyddiadau polisi ar gyfer Bil gan Lywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Senedd.

9.156. Gwnaeth Pwyllgor Diben Arbennig y Senedd argymhellion y dylid cyhoeddi gwybodaeth ynghylch amrywiaeth ymgeiswyr y Senedd ac y dylid annog pleidiau gwleidyddol i gyhoeddi strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant.

9.157. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i weithredu ar yr argymhellion hyn yn rhan o'r rhaglen ehangach ar ddiwygio'r Senedd.

### **Yr opsiynau**

9.158. Mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer, a fyddai'n golygu na fyddai gofyniad deddfwriaethol ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ac na fyddai ymrwymiad cyhoeddus i annog a chynorthwyo pleidiau gwleidyddol i gymryd camau tuag at gynyddu amrywiaeth a chynhwysiant mewn swyddi etholedig.

Opsiwn 2 – Deddfu i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i annog pleidiau gwleidyddol i gyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth a strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant, ac i adolygu'r canllawiau hyn yn rheolaidd.

### **Opsiwn 1 – Busnes fel arfer**

9.159. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newid. Ni fyddai gofyniad cyfreithiol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i annog pleidiau gwleidyddol i gyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth a strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant. Ni fyddai pleidiau gwleidyddol yn gallu manteisio ar unrhyw ganllawiau neu dempledi safonol ar gyfer arolygu eu hymgeiswyr i'r Senedd a datblygu eu strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant. O ran rhanddeiliaid allweddol (yn

arbennig y rhai sy'n cynrychioli grwpiau sydd â nodweddion penodol sy'n wynebu rhwystrau o ran cynrychiolaeth), ni fyddai ymrwymiad clir gan y Llywodraeth i weithredu yn y maes hwn.

## **Costau**

9.160. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

## **Manteision**

9.161. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision o gymharu â'r sefyllfa bresennol.

## **Opsiwn 2 - Deddfu i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol.**

9.162. Byddai Opsiwn 2 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i annog pleidiau gwleidyddol i gyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth a strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant.

9.163. Byddai hyn yn cynnwys llunio a chyhoeddi canllawiau, yn ogystal ag ymwneud â rhanddeiliaid, gan gynnwys o bosibl, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Byddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu'r canllawiau yn rheolaidd.

## **Costau**

### Costau staff Llywodraeth Cymru

9.164. Byddai ychydig o gostau gweinyddol i Lywodraeth Cymru ar gyfer llunio'r canllawiau. Amcangyfrifir y byddai'r gost yn £100,500. Mae'r gost wedi'i chynnwys yn rhan o gostau staff Llywodraeth Cymru gwerth £900,000 i ddiwygio'r Senedd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ac felly nid yw wedi'i chynnwys yng nghyfanswm costau y Bil hwn. Mae dyraniad o £900,000 wedi'i neilltuo ar gyfer 2024-2025 i gynnal gwaith gweithredu sy'n deillio o argymhellion y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd a adroddodd yn 2022. Gan y byddai'r gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu Opsiwn 2 yn dod o dan flwyddyn ariannol 2024-2025, byddai'r costau'n cael eu talu o fewn y cyllid gwerth £900,000. Bydd gwaith rheolaidd i adolygu'r canllawiau yn cael ei ystyried yn waith busnes fel arfer i Lywodraeth Cymru ac nid oes costau wedi'u cynnwys.

### Costau i bleidiau gwleidyddol

9.165. Bydd y canllawiau yn rhai gwirfoddol ar gyfer pleidiau gwleidyddol a bydd man cychwyn pob plaid wleidyddol yn wahanol. Ni fyddai'n bosibl mesur y costau na'r arbedion gan y gallai'r graddau y byddai

pleidiau gwleidyddol yn ymateb i'r canllawiau amrywio'n helaeth rhwng pleidiau, yn ogystal ag i ba raddau y bydd y canllawiau yn gwneud newidiadau sefydliadol mewnol neu fesurau ac adnoddau ychwanegol o fewn pleidiau yn ofynnol. Nid yw'r costau na'r arbedion i bleidiau gwleidyddol (os o gwbl) yn hysbys felly ar hyn o bryd.

### **Manteision**

- 9.166. Bydd yr opsiwn hwn yn helpu pleidiau gwleidyddol i hyrwyddo amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swyddi etholedig. Bydd yn rhoi eglurder i bleidiau gwleidyddol ynghylch pa gamau y gallant eu cymryd i gasglu, crynhoi a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth. Bydd hefyd yn rhoi gwybod i bleidiau gwleidyddol am sut y gallant ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio'u strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant yn y dyfodol.
- 9.167. Os bydd pleidiau yn dewis dilyn y canllawiau, dylai hyn helpu i gael gwared ar rwystrau i gymryd rhan mewn etholiadau ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ac unigolion eraill mewn amgylchiadau penodol. Bydd yn gwella dealltwriaeth o'r sefyllfa sydd ohoni o ran amrywiaeth darpar gynrychiolwyr etholedig.

### **Yr opsiwn a ffefrir**

- 9.168. Am y rhesymau a amlinellir uchod, yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 2 sef deddfu i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol.

## **Pennod 5 – Cyllid Ymgyrchu**

### **Cefndir**

- 9.169. Mae'r fframwaith rheoleiddio presennol sy'n rheoli gwariant a chyllid (cyllid gwleidyddol) ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr trydydd parti ac ymgyrchwyr eraill wedi'i gynnwys yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000). Roedd Rhan 4 o Ddeddf Etholiadau'r DU 2022 yn ehangu ac yn cryfhau'r gyfraith ynghylch cyllid gwleidyddol drwy:
- egluro'r rheolau ar wariant tybiannol;
  - cryfhau'r rheolau fel bod gwariant trydydd parti yn cael ei gyfyngu i endidau yn y DU ac etholwyr tramor cymwys yn unig yn ystod ymgyrchoedd etholiadol; a
  - sicrhau mwy o dryloywder ynghylch ymgyrchu trydydd parti.
- 9.170. Roedd hefyd yn darparu ar gyfer newidiadau i gofrestru pleidiau gwleidyddol ac yn gwahardd cofrestru deuol i atal pleidiau ac ymgyrchwyr rhag ymestyn eu terfynau gwario yn annheg.

9.171. Mae cofrestru pleidiau gwleidyddol yn gyfrifoldeb a gedwir yn ôl ac felly mae'r newidiadau hynny'n berthnasol i bob etholiad. Mae'r darpariaethau sy'n ymwneud â gwariant tybiannol, a'r rheini sy'n cryfhau'r rheolau sy'n ymwneud â gwariant trydydd parti, yn berthnasol i etholiadau a gadwyd yn ôl yn unig. O ganlyniad, yn y dyfodol bydd gwahaniaeth yn y rheolau cyllid gwleidyddol fel y maent yn berthnasol i etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau Cymreig yng Nghymru. Mae gan hyn botensial i greu dryswch ymhlith pleidleiswyr a chymhlethdod gweinyddol i'r gymuned etholiadol.

## **Opsiynau**

**Opsiwn 1:** Busnes fel Arfer - Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y trefniadau presennol ar gyfer cyllid gwleidyddol mewn perthynas ag etholiadau Cymru.

**Opsiwn 2:** Cyflwyno deddfwriaeth i efelychu'r darpariaethau yn Rhan 4 Deddf Etholiadau 2022 mewn perthynas ag etholiadau Cymru, gwariant tybiannol yn benodol, gan ganiatáu i bersonau awdurdodedig wneud taliadau ar ran ymgeisydd neu ymgyrch, ymgyrchu amhleidiol ac ehangu gallu'r Comisiwn Etholiadol i baratoi codau ymarfer yng nghyswllt y materion hyn.

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

## **Costau**

9.172. Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly does dim costau ychwanegol yn gysylltiedig ag ef. Fodd bynnag, mae newidiadau a wnaed yn Neddf Etholiadau 2022 yn golygu y bydd cynnal y sefyllfa bresennol ar gyfer etholiadau Cymru yn debygol o gynyddu costau i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn aelodau o bleidiau gan y bydd angen iddynt gydymffurfio â dwy system cyllid gwleidyddol wahanol, gan ychwanegu cost a chymhlethdod pellach.

## **Manteision**

9.173. Nid oes unrhyw fanteision i gynnal y sefyllfa bresennol. Bydd angen i ymgeiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr nad ydynt yn aelodau o bleidiau eisoes addasu i'r newidiadau sydd wedi'u cynnwys yng nghyllid ymgyrchoedd sy'n deillio o Ddeddf Etholiadau 2022. Byddai'n rhaid i ymgyrchwyr gynllunio a rhoi cyfrif am eu gwariant yn wahanol ar gyfer etholiadau Cymru ac etholiadau a gadwyd yn ôl, hyd yn oed pe baent wedi ymgymryd â'r un math o weithgaredd ar draws y ddau.

Opsiwn 2: Cyflwyno deddfwriaeth i efelychu'r darpariaethau yn Rhan 4 Deddf Etholiadau 2022 mewn perthynas ag etholiadau Cymru.

## **Costau**

9.174. Y ddau gyfrwng deddfwriaethol y bydd angen eu defnyddio i gyflwyno'r newidiadau hyn yn llawn yw Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) a deddfwriaeth i ddisodli Gorchymyn y Cynulliad Cenedlaethol (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, sy'n cynnwys darpariaeth fanwl ar gyfer etholiadau'r Senedd. Mae'r costau ar gyfer y darpariaethau hynny yn yr EEBB yn unig wedi'u cynnwys yma. Bydd dadansoddiad ar wahân o gostau'r darpariaethau y bydd angen eu cynnwys mewn deddfwriaeth a fydd yn disodli Gorchymyn y Cynulliad Cenedlaethol (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 yn cael ei gyflwyno pan fydd y deddfwriaeth honno'n cael ei gosod gerbron y Senedd. Dyma'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr EEBB:

- egluro'r gyfraith mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol fel y bydd ymgeiswyr ac asiantau yn atebol am wariant tybiannol mewn etholiadau lleol dim ond pan fydd y gwariant hwnnw'n cael ei gyfarwyddo neu ei awdurdodi ganddynt. Nodi bod partiön cofrestredig a thrydydd partiön yn atebol am wariant tybiannol yn ystod cyfnodau a reoleiddir yn etholiadau'r Senedd dim ond pan fydd y gwariant hwnnw'n cael ei gyfarwyddo neu ei awdurdodi ganddynt;
- cyfyngu ar ba drydydd partiön all wynebu gwariant dros drothwy de minimis o £700 yn ystod cyfnodau sy'n cael eu rheoleiddio yn etholiadau annibynnol y Senedd
- caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o drydydd partiön sy'n gallu cael gwariant o'r fath yn ystod cyfnodau sy'n cael eu rheoleiddio yn etholiadau annibynnol y Senedd ar gyngor y Comisiwn Etholiadol
- dileu'r gofyniad mai dim ond drwy'r asiant etholiadol y gellir talu treuliau etholiad a wariwyd gan ymgeisydd mewn etholiadau lleol;
- galluogir y Comisiwn Etholiadol i gynhyrchu canllawiau i ymgyrchwyr ar yr holl dreuliau ar gyfer etholiadau lleol;
- ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol gynhyrchu cod ymarfer ar wariant trydydd parti yn ystod cyfnodau sy'n cael eu rheoleiddio yn etholiadau annibynnol y Senedd

9.175. Mewn perthynas â chyllid ymgyrchu, mae'r Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cyd-fynd ag unrhyw effeithiau a nodir yn Neddf Etholiadau 2022 am nifer o resymau. Mae'r newidiadau'n debyg i'r rheini a gyflwynwyd gyntaf yn Neddf Etholiadau 2022. Ar ben hynny, gan nad yw plismona a chyfiawnder yn faterion sydd wedi'u datganoli, mae'r aseiad effaith ar gyfer y Ddeddf Etholiadau yn cynnwys yr aseidiadau mwyaf cywir o unrhyw effaith y gallai'r newidiadau ei chael ar y meysydd hynny.

*Gwariant Tybiannol, Canllawiau a Chod Ymarfer*

#### Costau i'r Comisiwn Etholiadol

9.176. Roedd yr aseiad o effaith ar gyfer Deddf Etholiadau 2022 yn awgrymu mai'r brif gost sy'n gysylltiedig ag egluro'r mesur hwn fyddai'r gost i'r Comisiwn Etholiadol (CE) am ddiweddarau ei ganllawiau ar gyfer y rhanddeiliaid ehangach y mae'r polisi hwn yn



effeithio arnynt, er bod y data ar gost diwygio'r canllawiau hyn yn gyfyngedig ac yn anodd ei feintoli'n gywir. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud gan y CE i ddiweddarau'r canllawiau mewn perthynas â'r newid hwn yn cael ei ailadrodd ar gyfer etholiadau Cymru a dylai arwain at fân gostau ychwanegol. Bydd y costau hyn yn dod yn rhan o gostau cyffredinol y Comisiwn Etholiadol, fel yr amlinellir yn nhudalen 162.

*Cyfyngu ar ba drydydd partiön all wynebu gwariant dros drothwy de minimis o £700 yn ystod cyfnodau sy'n cael eu rheoleiddio yn etholiadau annibynnol y Senedd*

#### Costau i'r Comisiwn Etholiadol

9.177. Gallai cyfyngu ar ymgyrchu trydydd parti i endidau yn y DU o bosibl gynyddu costau swyddogaethau rheoleiddio'r CE, sy'n cynnwys cofrestru a chynghori ymgyrchwyr. Yn ôl y CE, roedd 11 o droseddau trydydd parti ers mis Ebrill 2018, sy'n cynrychioli oddeutu 5% o drydydd partiön sydd wedi cael eu cofrestru yn ystod y cyfnod hwnnw.

9.178. Prin yw'r dystiolaeth sydd ar gael ynghylch nifer yr ymgyrchwyr trydydd parti posibl nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd ond y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cyflwyno'r polisi hwn yn cynyddu angen y CE i ddarparu cyngor. Roedd yr asesiad o effaith Deddf Etholiadau 2022 yn awgrymu, yng ngoleuni'r data cyfyngedig ynghylch faint o staff ychwanegol y gallai fod eu hangen o ganlyniad i'r polisi hwn, nad yw'n bosibl mesur y gost hon yn gywir oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael. Fodd bynnag, disgwylir i'r gost hon ddod yn rhan o gostau cyffredinol y Comisiwn Etholiadol, fel yr amlinellir yn nhudalen 162.

#### Costau i blismona a'r system cyfiawnder troseddol ehangach

9.179. Gellir datrys troseddau presennol sy'n ymwneud â wynebu gwariant trydydd parti pan fydd wedi'i wahardd (e.e. gwario mwy na'r trothwyon cofrestru heb gael eu cofrestru) naill ai drwy ddulliau sifil neu droseddol. Yn ymarferol, mae'r CE yn gyffredinol yn datrys troseddau o'r fath eu hunain ac mae eisoes angen goruchwyllo gorfodi rheolau yn erbyn gwariant tramor mewn perthynas â'r trothwyon cofrestru ymgyrchwyr trydydd parti presennol. Mae'r asesiadau effaith ar gyfer Deddf Etholiadau 2022 yn awgrymu mewn perthynas ag etholiadau a gadwyd yn ôl y gallai unrhyw gynnydd yn y troseddau hyn gynyddu'r costau i'r heddlu, y system gyfiawnder ehangach, lle cânt eu pasio ymlaen gan y CE. Hefyd, byddai'n anodd mesur hyn oherwydd y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael am wariant gan endidau tramor. Mae hyn hefyd yn wir yma lle rydym yn ailadrodd darpariaethau'r Bil Etholiadau a Cyrff Etholedig (Cymru).

- 9.180. Fel procsi ar gyfer rhoi ystyriaeth bellach i'r effaith bosibl ar blismona a'r system gyfiawnder ehangach, rhoddwyd ystyriaeth i'r troseddau gwariant trydydd parti sbectrwm eang a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru.
- 9.181. Nid oes unrhyw droseddau gwariant trydydd parti wedi cael eu herlyn yng Nghymru na honiadau wedi'u codi ers 2017 (y dyddiad cynharaf ar gyfer data a gyhoeddwyd). Am y rheswm hwn ac yn absenoldeb unrhyw dystiolaeth i'r gwrthwyneb yn asesiadau effaith Deddf Etholiadau 2022, byddem yn rhagweld na fydd unrhyw effaith neu effaith fach iawn ar yr heddlu a chyfiawnder yng Nghymru. Ein hamcangyfrif gorau felly yw nad oes cost ychwanegol.

#### Cynyddu posibl mewn costau dirwyon i ymgyrchwyr

- 9.182. Gallai cyflwyno'r lefel is hon o wariant de minimis gynyddu costau dirwyon i ymgyrchwyr os bydd nifer y troseddau'n cynyddu, ond mae'r data ar hyn yn gyfyngedig. Gall lefelau dirwyon amrywio, ond mae'r cap cosb ar gyfer sancsiynau sifil yn amrywio rhwng £5,000 ac £20,000 ar gyfer rhai troseddau sy'n ymwneud â chofrestru ymgyrchwyr trydydd parti. Mae'r holl ddirwyon yn seiliedig ar achosion unigol fesul achos, ac felly mae'n anodd eu meintoli'n gywir. Beth bynnag, byddai'r costau hyn yn cael eu diystyru at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol gan mai dim ond o ganlyniad i weithgarwch anghyfreithlon y byddent yn codi.

#### **Manteision**

- 9.183. Bob tro y bydd polisiâu'n cael eu cysoni, rydym am gael fframwaith rheoleiddio clir a chyson ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau Cymreig yng Nghymru cyn belled ag y bo modd. Credwn y byddai hyn o fudd i bleidleiswyr, ymgeiswyr ac ymgyrchwyr. Ni fyddai gweithredu dwy system wahanol yn yr achos hwn yn ddymunol. Felly, pan fo'n briodol, rydym yn cynnig cyflwyno darpariaethau cyfatebol mewn perthynas ag etholiadau yng Nghymru.
- 9.184. Bydd darparu eglurder ynghylch gwariant tybiannol yn arwain at well dealltwriaeth i bob ymgeisydd, eu hasiantau, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr eraill. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gan yr ymgeiswyr a'u hasiantau fwy o hyder nad ydynt yn agored i risg gyfreithiol na allant ei rheoli.
- 9.185. Bydd y ddeddfwriaeth yn cynyddu tryloywder ymgyrchu trydydd parti ac yn sicrhau bod yr holl ymgyrchu trydydd parti yn cael ei wneud gan yr unigolion a'r grwpiau hynny sydd â diddordeb dilys yn etholiadau'r DU. Nid oes llawer o reoleiddio i osgoi gormod o faich ar ymgyrchwyr trydydd parti sy'n gwario ond ychydig.

## **Yr Opsiwn a Ffefrir**

- 9.186. Am y rhesymau a nodir uchod, yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 2:  
Cyflwyno deddfwriaeth i efelychu'r darpariaethau yn Rhan 4 o  
Ddeddf Etholiadau 2022 mewn perthynas ag etholiadau Cymru.

## **Rhan 2 – Cyrff Etholedig a’u Haelodau**

### **Pennod 1 – Trefniadau ar gyfer Llywodraeth Leol**

#### **Cefndir**

9.187. Mae Rhan 3 o Ddeddf 2013 yn disgrifio’r mathau o adolygiadau o ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau y gellir eu cynnal ac yn rhoi manylion y weithdrefn sydd i’w dilyn wrth gynnal adolygiad. Mae hefyd yn ymdrin â’r modd y dylid gweithredu unrhyw argymhellion a wneir o ganlyniad i’r adolygiad.

9.188. Mae adran 29(1) a (2) o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn gynnal adolygiad etholiadol o drefniadau etholiadol pob prif ardal o leiaf unwaith bob deng mlynedd, a pharatoi a chyhoeddi rhaglen ar gyfer cynnal yr holl adolygiadau hynny.

9.189. Mae adran 22 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau fonitro'r ardaloedd cymunedol a'u trefniadau etholiadol yn eu hardal. Wrth wneud hynny, rhaid i’r cyngor roi sylw i’r rhaglen 10 mlynedd o adolygiadau etholiadol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddwyd i’r cyngor gan Weinidogion Cymru.

9.190. Daeth rhaglen adolygiadau 2017 i ben yn 2021, a gwnaeth nifer o newidiadau i’r trefniadau etholiadol ledled Cymru. Ymrwymodd Gweinidogion Cymru i bwysu a mesur y trefniadau presennol ar gyfer adolygiadau, gwrando ar adborth gan eraill a nodi cyfleoedd ar gyfer gwella.

9.191. O ganlyniad i gyfres o drafodaethau gyda’r rhai sy’n ymwneud â’r broses adolygu a’r adborth a gafwyd yn ystod y broses adolygu, mae Gweinidogion Cymru wedi cynnig pecyn o fesurau i adeiladu ar y trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol, a’u cryfhau.

9.192. Bydd y newidiadau arfaethedig yn gwneud y canlynol:

- mynd i’r afael â phryderon a fynegwyd am yr amser a gymerwyd i gwblhau adolygiadau a gwneud penderfyniadau am argymhellion a gynhwysir mewn adroddiadau adolygu drwy bennu amserlenni ar gyfer pob un o’r elfennau hyn.
- ehangu natur y materion sydd i’w hystyried gan y Comisiwn a’r prif gynghorau wrth ddatblygu argymhellion i newid y trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd a chymunedau. Yn ogystal, ynghyd â’r meini prawf presennol, bydd yn ofynnol i’r Comisiwn gynnal asesiad cyflawn o’r holl feini prawf wrth benderfynu a ddylai nifer y cynghorwyr fod yr un fath ar gyfer pob ward etholiadol mewn ardal prif gyngor.
- Darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd i atal adolygiad. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd mewn amgylchiadau fel y

rheini a gafodd eu profi yn ystod y pandemig, cyfnodau o lifogydd neu newidiadau i ddyddiad etholiad cyffredin.

- Cynyddu tryloywder y broses ar gyfer pennu enwau wardiau etholiadol yn Gymraeg ac yn Saesneg, a galluogi ymgysylltu mwy ag aelodau o'r cyhoedd yn y maes a effeithir gan yr adolygiad hwn.
- Ychwanegu nifer o gyrff, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg i'r rhestr o ymgynghorion gorfodol y bydd yn ofynnol i'r Comisiwn a'r prif gynghorau ymgynghori â nhw yn rhan o'r amryw brosesau adolygu a amlinellir yn Rhan 3 o Ddeddf 2013. Bydd ychwanegu Comisiynydd y Gymraeg fel ymgynghorai gorfodol yn rhoi'r cyfle i'r Comisiynydd ddylanwadu ar bob elfen o'r broses adolygu, gan gynnwys y dull arfaethedig ar gyfer enwi wardiau etholiadol.

9.193. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn, fel pecyn o fesurau, yn cryfhau'n sylweddol y trefniadau a roddir ar y Comisiwn a phrif gynghorau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

## **Opsiynau**

9.194. At ddibenion yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol hwn, mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried ar gyfer y cynnig hwn

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Opsiwn 2 - Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol

### **Opsiwn 1 - Busnes fel arfer**

9.195. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y sefyllfa bresennol. Byddai'n golygu y byddai'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol yn parhau fel y maent ar hyn o bryd, ac na roddir sylw i'r pryderon a godwyd yn ystod ac ar ddiwedd rhaglen adolygiadau 2017.

## **Costau**

Costau i Lywodraeth Cymru, y Comisiwn a llywodraeth leol

9.196. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno costau ychwanegol. Fodd bynnag, ni fyddai'r manteision o adeiladu ar y trefniadau presennol, a'u gwella, yn cael eu gwireddu. Byddai'r cyfleoedd i gryfhau llywodraeth effeithiol a hwylus yn cael eu colli, a byddai'n arwain at y pryderon a godwyd o ganlyniad i raglen ddiweddar 2017 o adolygiadau yn cael eu haildrodd mewn rhaglenni adolygu yn y dyfodol.

## **Manteision**

9.197. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn dod ag unrhyw fanteision.

## **Opsiwn 2 - Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol**

9.198. Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno pecyn o fesurau i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan y rhai sy'n rhan o'r broses adolygu a chan aelodau o'r cyhoedd drwy ohebiaeth a deisebau.

9.199. Byddai'n gwella prydlondeb adolygiadau, yn cryfhau'r trefniadau ymgynghori, yn rhoi mwy o eglurder pwrpas ynghylch agweddau ar y broses, ac yn cynyddu hyblygrwydd i reoli'r trefniadau yng ngoleuni amgylchiadau presennol, fel y pandemig diweddar. Gyda'i gilydd, mae'r mesurau canlynol wedi'u cynllunio i gryfhau'r trefniadau presennol.

9.200. Felly, cynigir y newidiadau canlynol i Ddeddf 2013:

- Newid hyd cylch o adolygiadau o 10 i 12 mlynedd
- diwygio'r cyfnod pan na fydd y Comisiwn yn gallu gwneud na chyhoeddi argymhellion i Weinidogion Cymru, o naw i ddeuddeng mis.
- Cyflwyno darpariaeth newydd i atal Gweinidogion Cymru rhag gwneud gorchymyn trefniadau etholiadol o fewn y cyfnod o chwe mis cyn etholiad llywodraeth leol arferol.
- Diwygio adran 37 Deddf 2013 i roi cyfle i gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru yn hytrach na'r Comisiwn mewn perthynas â'r argymhellion terfynol sydd wedi'u cynnwys mewn adroddiad terfynol.
- Cyflwyno terfynau amser ar gyfer adolygiadau o'r dechrau hyd at gyflwyno argymhellion terfynol fel na ddylai adolygiadau o ffiniau prif ardaloedd, siroedd wedi'u cadw a threfniadau etholiadol ar gyfer prif ardal fod yn fwy na 12 mis o hyd, ni ddylai'r amserlen ar gyfer adolygu ffiniau atfor fod yn fwy na 18 mis o hyd ac ni ddylai adolygiadau ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol ar gyfer cymunedau fod yn fwy na 24 mis.
- Cyflwyno darpariaeth newydd i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud yr ymdrech orau bosibl i ddod i benderfyniad o fewn tri mis ar ôl cael yr adroddiad terfynol gan y Comisiwn. Yn achos adolygiadau cymunedol, mae'n ofynnol cael penderfyniad gan y corff sy'n gwneud y Gorchymyn o fewn tri mis i dderbyn yr argymhellion terfynol.
- Ehangu nifer y pethau i'w hystyried wrth ddatblygu argymhellion, i gynnwys eitemau fel maint daearyddol, siâp a hygyrchedd ward etholiadol a chynnal cysylltiadau lleol. Mae'r meini prawf ehangach hyn yn berthnasol i adolygiadau cymunedol yn ogystal ag adolygiadau etholiadol.
- Ychwanegu pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn neu brif gyngor i ohirio adolygiad.
- Cryfhau'r trefniadau ar gyfer ymgynghori drwy ehangu'r rhestr o ymgynghoreion gorfodol i gynnwys cyrff pellach gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg, awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau lechyd Porthladdoedd

- Egluro'r gofyniad i brif gynghorau gynnal adolygiad llawn o drefniadau etholiadol cymunedol yn eu hardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu.
- Ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn a phrif gynghorau bennu enwau wardiau Cymraeg a Saesneg yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'u hadroddiadau.

## Costau

### Costau i Lywodraeth Cymru

9.201. Mae'r prif ofynion ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol yn aros fel y maen nhw ar hyn o bryd. Nid oes disgwyl i'r gwelliannau yn y cynnig ychwanegu costau sylweddol drwy gydol y prosesau. Fodd bynnag, bydd costau cyfle yn gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau i gefnogi'r Comisiwn a'r prif gynghorau. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu'r canllawiau wedi'u nodi yn y tabl isod. Disgwylir y bydd hyn yn digwydd yn 2024-25.

Tabl 9.12 – Costau cynhyrchu canllawiau ar adolygiadau etholiadol a chymunedol

Costau staff	Cyflog blynyddol gydag argostau (£)	Cost dyddiol (wedi'i dalgrynnu) (£)	Nifer y dyddiau sydd eu hangen	Cyfanswm (wedi'i dalgrynnu) (£)
Gradd 7	86,731	334	10	3,340
EO	40,504	156	10	1,560
Cyfreithiwr (Gradd 7)	86,731	334	5	1,670
Cyfieithu (SEO)	66,364	255	5	1,275
			<b>Cyfanswm</b>	<b>7,800</b>

### Costau i'r Comisiwn

9.202. Mae'r prif ofynion ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol yn aros fel maen nhw ar hyn o bryd. Nid oes disgwyl i'r gwelliannau yn y cynnig hwn ychwanegu costau sylweddol drwy gydol y broses. Fel nawr, gellir adennill costau sy'n gysylltiedig ag adolygiadau cymunedol oddi wrth y prif gyngor priodol. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld costau ychwanegol am hysbysebu er mwyn hwyluso cryfhau'r broses ymgynghori i gefnogi'r darpariaethau hyn. Rydym yn disgwyl i hyn fod rhwng £3,500 a £5,500 yn y blynyddoedd pan fydd adolygiadau'n cael eu cynnal (2024-25, 2025-26, 2027-28 a 2030-31).

### Costau i lywodraeth leol

9.203. Nodwyd y disgwyliad ar gyfer pob prif gyngor mewn perthynas ag adolygiadau etholiadol a chymunedol yn Neddf 2013. Nid ydym yn

rhagweld unrhyw gostau ychwanegol sylweddol i lywodraeth leol o ganlyniad i'r cynigion hyn. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y gofyniad i gynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Cyngor bob blwyddyn a'r gofynion ymgynghori ehangach sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau, yn arwain at gostau bach rheolaidd ychwanegol. Rydym yn rhagweld y byddai hyn yn golygu un diwrnod y flwyddyn i Reolwr Gwasanaethau Etholiadol a dau ddiwrnod y flwyddyn i weinyddwr etholiadol ar gyfer pob cyngor. Mae hyn yn cyfateb i gost cyfle blynyddol o £14,200 ledled Cymru, gan ddechrau yn 2024-25 (amcangyfrifir ar y dybiaeth bod y costau cyflog yn cyfateb i G7 Llywodraeth Cymru ac EO yn y drefn honno). Rydym hefyd yn rhagweld costau pontio bach ar gyfer gweithgareddau fel hyfforddiant staff o tua £2,000 fesul awdurdod lleol yn 2024-25, sy'n gyfanswm o £44,000.

Tabl 9.13 – Costau staff llywodraeth leol ar gyfer adolygiadau etholiadol a chymunedol

Costau staff	Cyflog blynyddol gydag argostau (£)	Costau dyddiol (£)	Nifer y dyddiau sydd eu hangen	Cyfanswm (£) (wedi'i dalgrynnu)
Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol	86,731	334	22	7,348
Gweinyddwr Etholiadol	40,504	156	44	6,864
			<b>Cyfanswm</b>	<b>14,200</b>

## Manteision

### Manteision i lywodraeth leol

- 9.204. Bydd y mesurau a gyflwynir drwy'r cynnig hwn yn caniatáu mwy o gynllunio rhwng y Comisiwn a llywodraeth leol. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl bartïon yn gwybod yn sicr pa bryd y bydd pob adolygiad yn dechrau ac yn gorffen, ac felly byddant yn helpu i ddyrannu a rheoli adnoddau i gefnogi'r adolygiadau.
- 9.205. Bydd cynnwys y ddarpariaeth sy'n gwahardd Gweinidogion Cymru rhag gwneud Gorchmynion yn ystod y chwe mis cyn etholiad cyffredin yn rhoi sicrwydd i brif gynghorau y gallant fwrw ymlaen â'r paratodau ar gyfer eu hetholiadau gan wybod na fydd unrhyw newid.
- 9.206. Bydd cyflwyno meini prawf ychwanegol i'w hystyried wrth gynnal adolygiadau yn galluogi argymhellion i adlewyrchu amgylchiadau lleol yn well, ac yn gwella'r trefniadau ar gyfer llywodraeth leol effeithiol a hwylus.



## Manteision i eraill

- 9.207. Bydd y mesurau yn y cynnig hwn yn sicrhau yr ymgynghorir ar bob argymhelliad, gyda mwy o bwyslais ar sicrhau bod pleidleiswyr yn ymwybodol o argymhellion ynghylch yr ardaloedd lle maent yn byw, ac yn cael cyfle i wneud hynny.
- 9.208. Bydd y cynnig hwn yn cryfhau democratiaeth ac atebolrwydd lleol, a'i fwriad yw ennyn mwy o ymddiriedaeth rhwng llywodraeth leol a dinasyddion lleol.

## **Yr Opsiwn a ffefrir**

- 9.209. Byddai Opsiwn 1 yn cynnal y sefyllfa bresennol. Byddai'r cyfleoedd i gryfhau'r trefniadau'n cael eu colli a byddai'r rheini a oedd yn mynegi pryderon am y trefniadau presennol yn teimlo nad oedd eu lleisiau'n cael eu clywed nac yn cael eu gweithredu arnynt.
- 9.210. Bydd Opsiwn 2 yn cryfhau'r trefniadau presennol, yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cynllunio rhaglenni adolygu ac, o ganlyniad, dyraniad adnoddau. Bydd hefyd yn canolbwyntio mwy ar sicrhau bod pleidleiswyr yn cael cyfle i gymryd rhan lawn yn y broses, ac yn hyderus yr ymgynghorir â hwy ar bob argymhelliad. Bydd yn galluogi trefniadau sy'n adlewyrchu llywodraeth leol effeithiol a hwylus yn well.
- 9.211. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

## **Adolygu ffiniau atfor**

### **Cefndir**

- 9.212. Mae adran 28 o Ddeddf 2013 yn gwneud darpariaeth i'r Comisiwn adolygu ffiniau atfor ardaloedd llywodraeth leol (a siroedd a gedwir), tra bo adran 46 yn nodi i ba raddau y mae rhannau o lannau'r môr ac ymestyniadau o'r lannau'r môr (boed yn naturiol neu'n artiffisial) yn ffurfio rhan o'r gymuned a'r sir sy'n ffinio glan y môr.
- 9.213. Cafodd y darpariaethau eu dwyn ymlaen o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a chawsant eu llunio cyn y posibilrwydd o ddatblygiadau fel môr-lynnoedd llanw. Mae'n debygol y gallai Cymru weld mwy o gynigion ar gyfer datblygiadau o'r fath, ac mae'n bwysig bod y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â ffiniau atfor yn cael ei hystyried o ran ei haddasrwydd i'r diben i ddarparu ar gyfer datblygiadau o'r fath, a allai gwmpasu ffiniau atfor sawl ardal llywodraeth leol neu fynnu bod ffin atfor ardal neu ardaloedd yn cael ei hymestyn a'i chwtogi wedyn i ddarparu ar gyfer adeiladu.

9.214. Roedd y Papur Gwyn yn cynnig newid darpariaeth Deddf 2013 i alluogi'r Comisiwn i adolygu ffiniau tanfor mwy nag un ardal awdurdod lleol pan fydd yn cynnal adolygiad o dan adran 28.

## **Opsiynau**

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

Opsiwn 2 – Diwygio'r ddeddfwriaeth i'w gwneud yn glir y gall Adolygiad o'r Ffin Atfor gynnwys ystyried ffiniau tanfor ardaloedd awdurdodau lleol niferus.

## **Opsiwn 1 – Busnes fel arfer**

9.215. Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newid i'r trefniadau presennol a byddai dryswch ac amwysedd o hyd ynghylch nifer yr ardaloedd awdurdod lleol y gellid eu hystyried fel rhan o un adolygiad.

## **Costau**

Costau i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r Comisiwn

9.216. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol na'r Comisiwn.

## **Manteision**

Manteision i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r Comisiwn

9.217. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol. Byddai'r ystyriaeth o adolygiadau ffiniau atfor yn parhau fel y mae ar hyn o bryd.

**Opsiwn 2 – Diwygio'r ddeddfwriaeth i'w gwneud yn glir y gall Adolygiad o Ffin Atfor gynnwys ystyried ffiniau tanfor ardaloedd awdurdodau lleol niferus.**

9.218. Bydd yr opsiwn hwn yn mewnosod is-adran (3) newydd yn adran 28 Deddf 2013 sy'n egluro y gall y Comisiwn adolygu ffiniau atfor mwy nag un ardal awdurdod lleol pan fydd yn cynnal adolygiad o dan adran 28.

## **Costau**

Costau i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r Comisiwn

9.219. Ni fyddai Opsiwn 2 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol na'r Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi cadarnhau bod hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd eisoes

yn digwydd ac na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo. Mewn gwirionedd, mae'r newid hwn er mwyn sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth ynghylch cwmpas y ddarpariaeth.

## **Manteision**

### Manteision i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r Comisiwn

9.220. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi eglurder ynghylch cwmpas adolygiadau ffiniau atfor ac yn galluogi'r rhai sy'n adolygu i ystyried nifer o ffiniau atfor lle bo hynny'n briodol

## **Yr Opsiwn a ffefrir**

9.221. Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newid i'r sefyllfa bresennol

9.222. Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir oherwydd ei fod yn egluro cwmpas Adolygiadau Ffiniau Atfor ac yn rhoi hyblygrwydd i gynnwys ffiniau atfor mwy nag un awdurdod lleol lle bo hynny'n briodol.

## **Pennod 2 – Taliadau Aelodau Etholedig**

### **Cefndir**

9.223. Y Panel yw'r corff annibynnol sydd â'r prif swyddogaeth o wneud penderfyniadau ynghylch cyflogau a thaliadau prif gynghorau, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol i'w haelodau etholedig. Mae ei bwerau presennol hefyd yn cynnwys gwneud argymhellion ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflogau prif weithredwyr y prif gynghorau.

9.224. Yn 2021, cynhaliwyd adolygiad annibynnol Deng Mlynedd o'r Panel i weld a oedd y sefydliad yn dal yn addas i'r diben, ac yn cynnig gwerth da i'r pwrs cyhoeddus. Un o'r argymhellion oedd ailystyried y trefniadau presennol am gymorth ysgrifenyddol i'r Panel ac ystyried a allai corff Cymreig annibynnol sydd ag agenda debyg ddarparu cymorth ysgrifenyddol yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

9.225. Ar ôl ystyried Cyrff Cymreig annibynnol, tynnwyd sylw at y materion cyffredin a'r dibyniaethau rhwng gwaith y Panel a'r Comisiwn, a rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r potensial o ddod â swyddogaethau'r ddau gorff at ei gilydd mewn un corff.

9.226. Cytunodd Gweinidogion Cymru â'r argymhelliad y dylai'r gefnogaeth ysgrifenyddol i'r Panel gael ei darparu gan gorff heblaw Llywodraeth Cymru, a fyddai'n atgyfnerthu annibyniaeth gweithrediad y Panel.

- 9.227. Ystyrir mai'r Comisiwn yw'r cyfatebiad gorau, gan ei fod yn annibynnol, yn gorff corfforedig, ac mae ganddo swyddogaeth ysgrifenyddiaeth fewnol effeithiol dan arweiniad prif weithredwr. Mae'r Comisiwn yn defnyddio'r un sylfaen dystiolaeth a rhanddeiliaid i wneud ei waith ac mae ei bwrpas hefyd wedi'i wreiddio yn y gwaith o hyrwyddo democratiaeth leol effeithiol.
- 9.228. Mewn gwirionedd, mae eisoes berthynas symbiotig rhwng gwaith y ddau sefydliad. Mae'r naill agenda a'r llall yn dibynnu ar gael gwir ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o anghenion y boblogaeth, y ffordd y mae aelodau etholedig a chynghorau'n gweithredu ac effaith y materion hyn ar lwyth gwaith aelodau etholedig.
- 9.229. Ar y sail hon, fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn, cynigiodd Gweinidogion Cymru y dylid trosglwyddo swyddogaethau'r Panel i'r Comisiwn ac, o ganlyniad, diddymu'r Panel. Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig hwn.
- 9.230. Cynigir mai'r Bil hwn yw'r cyfrwng i alluogi creu'r newid hwn. Byddai'r Bil yn golygu mai'r un set o Gomisiynwyr fyddai'n pennu niferoedd cynghorwyr ledled Cymru, eu trefniadau etholiadol, a'r taliadau cydnabyddiaeth iddynt.
- 9.231. Wrth wneud y newidiadau hyn, mae Gweinidogion Cymru yn cynnig peidio â rhoi swyddogaethau'r Panel yn adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y Mesur) sy'n ymwneud â chyflogau prif weithredwyr y prif gynghorau. Bydd y swyddogaeth hon yn dod i ben. Mae tâl yr holl swyddogion yn rhan annatod o'r berthynas rhwng cyflogwyr / cyflogeion a dylai cynghorau ei hun fod yn atebol i'w hetholwyr am y penderfyniadau y maent yn eu gwneud yn hyn o beth.
- 9.232. Byddai'r Bil yn cyflwyno swyddogaeth newydd a fyddai'n galluogi'r Comisiwn i bennu cynllun o daliadau ailsefydlu ar gyfer cynghorwyr sy'n sefyll i gael eu hailethol ac nad ydynt yn cael eu hail-ethol i'w sedd. Byddai Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, yn penderfynu ar y cynghorwyr perthnasol sy'n gymwys ar gyfer y cynllun.

## **Opsiynau**

- 9.233. Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 1: Busnes fel arfer.

Opsiwn 2: Rhoi swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) i'r Comisiwn a diddymu'r Panel.

- 9.234. Ni fyddai Opsiwn 1 yn golygu unrhyw newid. Er y gallai'r Panel fwrw ymlaen â nifer o'r gwelliannau anneddfwriaethol a gynigiwyd gan yr adolygiad deng mlynedd, ni fyddai argymhelliad allweddol, sef y

byddai'r ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan gorff y tu allan i Lywodraeth Cymru, yn cael sylw.

## **Costau**

### Costau i Lywodraeth Cymru, y Panel a llywodraeth leol

9.235. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

## **Manteision**

### Manteision i Lywodraeth Cymru, y Panel a llywodraeth leol

9.236. Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

### Opsiwn 2: Rhoi swyddogaethau'r Panel i'r Comisiwn a diddymu'r Panel.

9.237. Byddai Opsiwn 2 yn golygu diddymu Rhan 8 o Fesur 2011. Byddai swyddogaethau'r Panel (a'i swyddogaethau mewn perthynas ag uno gwirfoddol ac ailstrwythuro arall a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) yn cael eu hymgorffori yn swyddogaethau a threfniadau gweithredu'r Comisiwn fel y nodir ar hyn o bryd yn Neddf 2013.

9.238. O ran aelodaeth, mae Atodlen 2 y Mesur 2011 ar hyn o bryd yn darparu nad yw'r Panel yn cynnwys llai na 3, a dim mwy na 7, o aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru. Ar hyn o bryd, mae 5 aelod ar y Panel, gan gynnwys y Cadeirydd. Mae gan y Comisiwn 5 aelod ar hyn o bryd. Yn unol â'r canllawiau presennol, mae aelodau'r Comisiwn a'r Panel yn cael eu talu ar wahanol lefelau. Ni yw'n fwriad i'r Comisiwn weithredu ar sail nifer cyfun yr aelodau h.y. 12. O ystyried y gorgyffwrdd rhwng y swyddogaethau a'r gallu i gyflawni beichiau gwaith rhaglenni'n effeithiol, cynigir bod y Comisiwn yn gweithredu ar sail wyth aelod (disgwylir i hyn godi i naw ar sail y swyddogaethau a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn o ganlyniad i Ddiwygio'r Senedd. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â hyn yn cael eu cynnwys yn y dogfennau ategol ym Mil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

### Costau i Lywodraeth Cymru

9.239. Nid oes disgwyl i Opsiwn 2 gyflwyno costau sylweddol i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, disgwylir y bydd rhai costau'n gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau i gefnogi'r Comisiwn a llywodraeth leol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu canllawiau wedi'u nodi yn y tabl isod. Disgwylir y bydd y costau'n digwydd yn ystod 2024-25.

### Tabl 9.14 – Costau cynhyrchu canllawiau i'r Comisiwn

Costau staff (costau cyfle)	Cyflog blynyddol gydag argostau (£)	Cost dyddiol (wedi'i dalgrynnu) (£)	Nifer y dyddiau sydd eu hangen	Cyfanswm (wedi'i dalgrynnu) (£)
Gradd 7	86,731	334	5	1,670
EO	40,504	156	10	1,560
Cyfreithiwr (Gradd 7)	86,731	334	5	1,670
Cyfieithu (SEO)	66,364	255	5	1,275
			<b>Cyfanswm</b>	<b>6,200</b>

9.240. Byddai rhywfaint o gyllid hefyd yn cael ei drosglwyddo gan Lywodraeth Cymru, na fyddai'n arwain at unrhyw gostau ychwanegol. Nodir y rhain isod dan Costau i'r Comisiwn.

#### Costau i'r Comisiwn

9.241. Bydd Opsiwn 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ailedrych ar ei strwythur staffio i sefydlu'r strwythur gorau posibl i gyflawni'r swyddogaethau hyn. , a fyddai'n cael ei ddiwallu gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

9.242. Disgwylir y bydd cyllideb rhedeg flynyddol gyfredol y Panel, sef £60,000, yn cael ei throsglwyddo i'r Comisiwn. Cafodd y gyllideb hon ei chynyddu o £50,000 i £60,000 yn 2023/2024 er mwyn galluogi gwaith ymchwil ac ymgysylltu a pharatoi ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau. Yn amodol ar broses y gyllideb, rhagwelir y byddai'r £10,000 ychwanegol hwn yn parhau i gael ei ddarparu yn 2024/2025, gyda'r £60,000 llawn yn cael ei gydgrynhoi i ddyraniad y Comisiwn o 2025/2026 ymlaen. Byddai hyn hefyd yn cynnwys costau eraill sy'n cael eu hysgwyo gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd, fel cynnal gwefan y Panel, cyfieithu a chostau cysylltiedig eraill.

9.243. Bydd Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo £80,000 arall i'r Comisiwn, sef cost y cymorth ysgrifenyddol presennol a ddarperir gan staff Llywodraeth Cymru. Byddai'r gost ychwanegol hon yn cael ei thalu gan Lywodraeth Cymru, ond byddai'n cael ei gwrthbwysu gan arbedion cost cyfle cyfatebol ar gyfer yr amser staff sy'n cael ei dreulio ar y swyddogaeth ysgrifenyddol ar hyn o bryd. Felly, byddai'r elfen hon yn niwtral o ran cost.

9.244. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn i sicrhau adnoddau a chapasiti digonol i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar yr wybodaeth orau sydd ar gael.

#### Costau i lywodraeth leol

9.245. Nid oes disgwyl i Opsiwn 2 gyflwyno unrhyw gost ychwanegol sylweddol a rheolaidd i lywodraeth leol.

## **Manteision**

### Manteision i'r Comisiwn a llywodraeth leol

9.246. Opsiwn 2 – Er mwyn penderfynu ar y trefniadau a'r lefelau tâl priodol ar gyfer aelodau etholedig, rhaid i'r Panel gasglu tystiolaeth i ddeall llwyth gwaith aelodau etholedig a sut mae natur y llwyth gwaith yn newid yn dibynnu ar amryw o ffactorau. Mae hyn yn cynnwys demograffeg yr etholwyr yn ardal y cyngor, amgylchiadau economaidd-gymdeithasol y wardiau, ac i ba raddau y mae'r boblogaeth yn un dros dro. Bydd y Bil yn sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol ar waith ar draws amrywiaeth o faterion gan gynnwys amseru a hyd adolygiadau, gan alluogi mwy o gynllunio ar y cyd ar gyfer rhaglenni adolygu. Bydd yn galluogi ymchwil a gomisiynir i ystyried agweddau ehangach ffiniau a nifer yr aelodau etholedig ac ystyried sut mae materion gwahanol fel gwledigrwydd ac amddifadedd, er enghraifft, yn effeithio ar y trefniadau ar gyfer ardal.

9.247. Y Comisiwn sy'n pennu'r gymhareb o aelodau etholedig i etholwyr. Mae'n gwneud hyn drwy geisio sicrhau bod y gymhareb o aelodau etholedig i etholwyr yr un fath ar gyfer pob ardal o fewn ardal sir/bwrdeistref sirol. Gellir dadlau ei bod yn debygol nad yw'r ymarferiad rhifiadol hwn, yn ei hanfod, yn ddigon i adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn cymunedau ac, yn hytrach nag ystyried y gwahaniaethau yn llwyth gwaith aelodau etholedig, mae'n cyffredinoli'r materion i gydbwysedd rhifol, ni waeth beth yw'r amgylchiadau mewn unrhyw gymuned neu ym mhob cymuned. Fodd bynnag, mae profiad diweddar o'r 22 adolygiad etholiadol yn dweud wrthym fod hyn ymhell o fod yn wir, a'r adborth a gafwyd o'r prosesau hynny oedd y dylai'r Comisiwn gynnwys yn ei fethodoleg yr un ffactorau â'r rhai a grybwyllwyd uchod mewn perthynas â gwaith y Panel.

9.248. Mae'r Bil yn rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r ffactorau sy'n effeithio ar ardaloedd unigol ac mae'n galluogi'r Comisiwn a llywodraeth leol i gydweithio i nodi materion y mae angen eu hystyried.

## **Yr Opsiwn a ffefrir**

9.249. Byddai Opsiwn 1 yn parhau â'r drefn bresennol. Byddai'r ddau sefydliad yn parhau i weithredu ar wahân ac yn colli'r cyfleoedd i gael dull cyfannol a fyddai'n sail i bolisiau mwy crwn.

9.250. Opsiwn 2 – byddai'n adeiladu ar y synergeddau sy'n sail i'r set lawn o swyddogaethau, yn manteisio ar archwilio dibyniaethau rhwng

cynghorwyr, capasiti llwyth gwaith a threfniadau etholiadol. Bydd hyn yn arwain at bolisi mwy crwn. Dyma'r opsiwn a ffeirir.

### **Pennod 3 – Anghymhwysu a Dylanwad Amhriodol**

#### **Anghymhwysu**

9.251. Yn y Papur Gwyn, nodwyd cynigion gennym i anghymhwysu cynghorwyr tref a chymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd, gan sicrhau bod y trefniadau'n cyd-fynd â chyfundrefn anghymhwysu aelodau prif gynghorau Cymru. Gofynnwyd hefyd a ddylid cadw'r cyfnodau gras presennol ar gyfer Aelodau'r Senedd sydd hefyd yn gwasanaethu fel cynghorwyr prif gyngor. Y diben yw cefnogi tegwch, cydraddoldeb ac atebolrwydd y Senedd a llywodraeth leol.

9.252. Roedd yr ymatebion i'r Papur Gwyn yn gefnogol iawn i'r cynnig cyntaf. O ran yr ail gwestiwn, roedd y mwyafrif yn cefnogi cadw'r cyfnod gras, ond i rai ymatebwyr, roedd hynny ar yr amod bod cylchoedd etholiadau lleol ac etholiadau'r Senedd yn aros yr un fath. Hefyd, soniodd nifer o ymatebwyr am bwysigrwydd cysondeb rheolau ar draws gwahanol haenau o lywodraeth.

9.253. Gan ystyried yr ymatebion, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'r mesurau canlynol yn y Bil:

- a) atal aelodaeth ddeuol y Senedd a chynghorau cymuned (sy'n cynnwys cynghorau tref a chymuned) yng Nghymru drwy anghymhwysu cynghorwyr cymuned yng Nghymru rhag gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd, gan sicrhau bod y trefniadau ar gyfer cynghorwyr cymuned yn cyd-fynd â'r drefn anghymhwysu ar gyfer cynghorwyr prif gyngor (aelodau cyngor sir neu fwrdeistref sirol) yng Nghymru;
- b) dileu'r "cyfnod gras" presennol ar gyfer prif gynghorwyr a etholwyd i'r Senedd pan fo'r diwrnod disgwylidig ar gyfer etholiad cyffredin nesaf aelodau'r cyngor o fewn y cyfnod o 372 o ddiwrnodau gan ddechrau ar y diwrnod dychwelyd;
- c) dileu'r "cyfnod gras" presennol ar gyfer Aelodau'r Senedd sy'n cael eu hethol yn gynghorwyr prif gyngor pan fo diwrnod disgwylidig etholiad cyffredin nesaf Aelodau'r Senedd o fewn y cyfnod o 372 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod dychwelyd; a
- d) dileu'r "cyfnod gras" presennol ar gyfer Aelod o'r Senedd a etholwyd yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin pan fo diwrnod disgwylidig etholiad cyffredinol nesaf Aelodau'r Senedd o fewn y cyfnod o 372 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar y diwrnod dychwelyd.

9.254. Mae dau opsiwn yn cael eu hystyried ar gyfer yr Asesiad Effaith



Rheoleiddiol hwn:

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer: Byddai'r trefniadau presennol yn parhau.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i roi'r newidiadau a amlinellir uchod ar waith. Byddai darpariaethau yn y Mesur yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn gweithredu'r newidiadau a amlinellir uchod.

### **Costau a manteision**

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

9.255. Ni nodwyd unrhyw gostau na manteision ychwanegol.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i roi'r newidiadau ar waith

### **Costau**

Costau i'r Comisiwn Etholiadol

9.256. Byddai angen i'r Comisiwn Etholiadol ddiweddarau canllawiau yng ngoleuni'r trefniadau newydd, ond rydym yn rhagweld y byddai hyn o fewn gweithgarwch busnes fel arfer ac felly byddai'n niwtral o ran cost.

Costau i lywodraeth leol

9.257. Gallai'r newidiadau mewn trefniadau arwain at fwy o is-etholiadau llywodraeth leol y byddai cost ychwanegol ar eu cyfer. Nid yw'n bosibl amcangyfrif y costau hyn, oherwydd ansicrwydd ynghylch y tebygolrwydd o wahanol sefyllfaoedd, ond maent yn debygol o fod yn fach iawn. Mae'n bosibl y bydd swyddi gwag mewn cynghorau cymuned, rhag ofn y bydd yn rhaid i'r aelod ymddiswyddo os bydd hefyd yn cael ei ethol i'r Senedd. Fodd bynnag, yn ymarferol, nid yw'n ddigwyddiad cyffredin i Aelodau'r Senedd wasanaethu hefyd fel cynghorwyr cymuned. Hefyd, mae'n debygol y byddai cynghorau cymuned yn cyfethol cynghorwyr cymuned newydd mewn sefyllfaoedd o'r fath yn hytrach na chynnal is-etholiad. Yn y senario lle mae prif gynghorydd yn ildio ei sedd cyngor, lle byddai, dan y trefniadau presennol, wedi cadw dwy rôl yn ystod y cyfnod gras, gallai hyn arwain at gostau uwch ar gyfer cynnal is-etholiad os bydd angen un. Byddai'r costau hyn yn gostau cyffredinol o weinyddu isetholiad, er enghraifft costau cardiau pleidleisio, gorsafoedd pleidleisio, y cyfrif, ac ati. Nid yw'n bosibl rhagweld pa mor aml y byddai'r senario hwn yn digwydd, felly nid ydym wedi amcangyfrif y costau ar gyfer hyn ac nid yw'r costau'n hysbys. Ond ni fyddem yn rhagweld y byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol sylweddol i lywodraeth leol. Byddai'r newidiadau hyn yn dod i rym at ddibenion etholiad ar gyfer y Senedd a gynhelir ar neu ar ôl 5 Ebrill 2026.

### **Manteision**

9.258. Byddai'r newidiadau arfaethedig i'r drefn anghymhwysu bresennol ar gyfer cynghorwyr lleol yng Nghymru o fudd i ddemocratiaeth leol yng Nghymru drwy wneud y broses ethol yn fwy cyfartal. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb yn y trefniadau ar gyfer cynghorwyr cymuned a phrif gynghorwyr. Byddai hyn yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch yr ymrwymadau yng nghyswllt amser i ddal swyddi deul a gwrthdaro posibl rhwng buddiannau. Y rheswm am hyn yw bod gan y Senedd rôl allweddol mewn materion sy'n effeithio ar gynghorau cymuned. Mae'n amlwg hefyd y byddai gan gynghorydd cymuned sydd hefyd yn aelod o'r Senedd lawer mwy o fynediad at benderfyniadau sy'n effeithio ar gynghorau cymuned na chynghorwyr cymuned nad ydynt yn aelodau o'r Senedd.

9.259. Byddai manteision tebyg yn deillio o ddileu'r cyfnodau gras pan fydd cynghorwyr prif gyngor hefyd yn gallu gwasanaethu fel Aelodau o'r Senedd ac Aelodau'r Senedd hefyd yn gallu gwasanaethu fel prif gynghorwyr neu aelodau o Dŷ'r Cyffredin, gan sicrhau bod y manteision posibl yn cael eu gwireddu ar unwaith, yn hytrach nag ar ôl y cyfnod gras.

### Llywodraeth leol

9.260. Byddai mwy o degwch rhwng prif gynghorau a chynghorau cymuned, drwy ddileu'r fantais a gallai rhai ei chael drwy bod eu haelodau yn Aelodau o'r Senedd. Hefyd, gallai fod arbedion cost gan na fyddai bellach yn rhaid i gynghorau dalu i gynghorwyr am y "cyfnod gras", pe byddent yn dewis ildio'u sedd ar y cyngor. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur yn gywir beth allai'r arbedion hyn fod ac felly nid ydynt yn hysbys.

### **Yr Opsiwn a ffefrir**

9.261. O ystyried y manteision a nodir uchod, Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

### Dylanwad amhriodol

#### **Cefndir**

9.262. Dylanwad amhriodol yw'r drosedd etholiadol pan fydd unigolyn yn ceisio rhoi pwysau i orfodi etholwr i beidio â phleidleisio, neu i bleidleisio mewn ffordd na fyddent wedi gwneud pe na bai pwysau wedi'i roi.

9.263. Diffinnir y drosedd etholiadol o ddylanwad amhriodol mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn adran 115 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Deddf 1983) ac, mewn perthynas ag etholiadau'r Senedd, yn Erthygl 81 o Orchymyn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007. Mae'n un o'r troseddau etholiadol hanesyddol, ochr yn ochr â llwgrwobrwyo a tretio.

- 9.264. Argymhellodd nifer o adroddiadau (e.e. y Comisiwn Etholiadol, Pwyllgorau Seneddol) y dylid aildrafftio a moderneiddio'r drosedd.
- 9.265. Yn dilyn hynny, cafodd gwaith ei wneud gan Lywodraeth y DU i gryfhau a moderneiddio iaith y drosedd, gyda darpariaethau diwygiedig yn cael eu hychwanegu at Ddeddf Etholiadau 2022. Dim ond i etholiadau a gadwyd yn ôl y mae'r diffiniad hwn yn berthnasol ar hyn o bryd.
- 9.266. Mae diffiniad newydd Deddf Etholiadau 2022 o'r drosedd mewn perthynas ag etholiadau a gadwyd yn ôl yn cael ei gryfhau'n arbennig o ran niwed i enw da a bwriad unigolyn. Nid oedd y diffiniad blaenorol, lle'r oedd mwy o ffocws ar niwed corfforol, yn eithrio niwed i enw da yn benodol ond, yn y diffiniad newydd, mae darpariaeth gyfartal yn cael ei rhoi iddo.
- 9.267. Mae'r diffiniad newydd ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl yn cael ei wella ymhellach drwy egluro pwysigrwydd 'bwriad' wrth gyflawni'r drosedd. Mae'r ymadrodd "at ddibenion" yn yr adran newydd sy'n amlinellu elfennau'r drosedd yn dangos bod bwriad y person sy'n cyflawni'r gweithgaredd yn allweddol. I fod yn euog o ddylanwad amhriodol, mae'n ddigon sefydlu bwriad i ddylanwadu'n ormodol ar berson, hyd yn oed os nad oedd y gweithgaredd yn llwyddiannus yn y cyswllt hwn.
- 9.268. Mae swyddogion wedi ystyried yr iaith gryfach sy'n disgrifio'r drosedd o ddylanwad amhriodol (sydd bellach wedi'i chynnwys yn adran 114A Deddf 1983 ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl) ac maent yn cynnig ehangu'r newidiadau a wnaed gan Ddeddf Etholiadau 2022 fel eu bod yn berthnasol i etholiadau Cymru.

## **Costau a manteision**

### Opsiwn 1 – Busnes fel arfer

- 9.269. Byddai'r diffiniad presennol o ddylanwad amhriodol yn cael ei gynnal ar gyfer etholiadau Cymru.
- 9.270. Ni ddisgwylir unrhyw gostau na manteision â gwerth ariannol. Yn unol â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan Asesiadau Effaith Deddf Etholiadau 2022, nid oes amcangyfrif o gostau monitro a gorfodi presennol y drosedd dylanwad amhriodol wedi cael ei gynnwys gan nad oes data ar faint sy'n cael ei wario ar y drosedd benodol hon. Gan mai'r opsiwn hwn fyddai cynnal y sefyllfa bresennol, ni fyddai angen i'r Comisiwn Etholiadol ddiweddarau'r canllawiau presennol ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a staff

gorsafodd pleidleisio na diweddarau'r Cod Ymddygiad ar gyfer ymgyrchwyr.

**Opsiwn 2** – Cyflwyno deddfwriaeth i gryfhau a moderneiddio'r diffiniad o drosedd etholiadol Dylanwad Amhriodol gan ymestyn yr iaith a ddarperir gan adran 114A Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 fel ei bod yn berthnasol i etholiadau Cymru.

## Costau

### Cynnydd mewn costau monitro a gorfodi

- 9.271. Bydd egluro'r gyfraith ar ddylanwad amhriodol yn ei gwneud yn gliriach pan fydd yr arfer llwgr wedi digwydd. Prif fuddiolwyr y ddeddfwriaeth ddiweddaraf fydd etholwyr a'r heddlu ac erlynwyr y mae'n ofynnol iddynt ystyried a yw dylanwad amhriodol wedi'i gyflawni pan wneir cyhuddiad. Bydd iaith eglur y drosedd wedi'i hailddrafftio yn ddatgymhelliad i'r rhai a fyddai'n ceisio rhoi pwysau gormodol ar etholwr, ond bydd hefyd yn sicrhau y bod y drosedd yn symlach i'w herlyn os bydd achosion yn cael eu dwyn ymlaen.
- 9.272. Roedd Asesiadau Effaith Deddf Etholiadau 2022 yn awgrymu y gallai unrhyw gynnydd mewn achosion o ddylanwad amhriodol droi'n gynnydd mewn costau i'r heddlu, system y llysoedd ac erlynwyr. Fodd bynnag, roedd yr Asesiadau Effaith hefyd yn cydnabod y byddai nifer yr etholiadau a gadwyd yn ôl lle byddai angen gorfodaeth o'r fath yn isel.
- 9.273. O ran etholiadau Cymru, ni ddisgwylir y bydd cynnydd yn nifer yr achosion neu nifer isel o achosion. Mae achosion ledled y DU eisoes yn isel a hyd yn oed yn llai felly yn etholiadau Cymru. Mae'r tabl isod yn nodi nifer yr achosion mewn etholiadau diweddar). Ers 2013, mae data twyll etholiadol y Comisiwn Etholiadol yn dangos, o blith pedwar achos posibl a allai fod wedi cael eu herlyn, ni chymerwyd unrhyw gamau yng nghyswllt tri ohonynt ac nid oes data ar gael ar y pedwerydd.

Tabl 9.15 – Achosion o droseddi Dylanwad Amhriodol mewn etholiadau diweddar

Blwyddyn	Nifer y cyhuddiadau o Ddylanwad Amhriodol	Math o Etholiad	Canlyniadau
2013	3	Etholiadau lleol yng Nghymru	Dim gweithredu pellach:2 Data ddim ar gael:1
2021	1	Etholiadau'r Senedd	Dim camau pellach

9.274. Pe bai'r ddeddfwriaeth gliriach yn arwain at erlyn mwy o achosion o ddylanwad amhriodol, gallai hynny hefyd arwain at fwy o ddeisebau etholiadol yn herio canlyniadau etholiadau yn ogystal ag erlyniadau llwyddiannus o achosion o ddylanwad amhriodol.

9.275. Yn unol â'r dull gweithredu a ddefnyddiwyd gan Aseidiadau Effaith Deddf Etholiadau 2022, nid oes gwerth ariannol wedi cael ei roi i'r costau hyn gan nad oes data ar faint mae cyrff perthnasol yn ei wario ar fonitro a gorfodi, yng nghyswllt dylanwad amhriodol. Yn yr un modd, nid oes data i ddangos faint o erlyniadau ychwanegol fydd yna gan nad ydym yn gwybod faint o honiadau / deisebau etholiad fyddai wedi arwain at weithredu pellach, pe bai'r gyfraith wedi bod yn gliriach ar y pryd. Felly, nid yw'r gost yn hysbys ar hyn o bryd.

### Costau i'r Comisiwn Etholiadol

9.276. Bydd angen i'r Comisiwn Etholiadol ddiweddarau ei ganllawiau ar gyfer gweinyddwyr etholiadol a staff gorsafoedd pleidleisio, gan nodi beth sy'n cael ei ganiatáu a beth nad yw'n cael ei ganiatáu mewn gorsafoedd pleidleisio. Bydd angen diweddarau'r Cod Ymddygiad i ymgrychwr ar yr hyn y dylid ei ystyried wrth ymgrychu y tu allan i orsafoedd pleidleisio hefyd. Bydd angen diweddarau ymgrychoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol hefyd gyda gwybodaeth i etholwyr am ddylanwad amhriodol. Fodd bynnag, gan y bydd y Comisiwn Etholiadol eisoes yn gwneud y newidiadau hyn mewn perthynas â'r disgrifiad newydd o ddylanwad amhriodol sydd wedi'i gynnwys yn Neddf Etholiadau 2022, ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol yn codi gan y bydd iaith y drosedd unwaith eto yn union yr un fath ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau Cymru.

### **Manteision**

9.277. Gallai cryfhau deddfwriaeth sy'n ymwneud â dylanwad amhriodol leihau nifer yr achosion o fygwth etholwyr. Bydd iaith well y drosedd yn galluogi'r heddlu ac erlynwyr i fod yn fwy hyderus wrth gymhwyso'r ddeddfwriaeth eglur mewn sefyllfaoedd gweithredol.

9.278. Bob tro y bydd polisïau'n cael eu cysoni, rydym am gael fframwaith rheoleiddio clir a chyson ar gyfer etholiadau a gadwyd yn ôl ac etholiadau Cymreig yng Nghymru cyn belled ag y bo modd. Credwn y byddai hyn o fudd i bleidleiswyr, ymgeiswyr ac ymgrychwyr. Ni fyddai gweithredu dwy system wahanol yn yr achos hwn yn ddymunol. Felly, pan fo'n briodol, rydym yn cynnig cyflwyno darpariaethau cyfatebol mewn perthynas ag etholiadau Cymreig yng Nghymru.

9.279. Gallai llai o achosion o ddylanwad amhriodol a bygwth etholwyr gynyddu'r nifer sy'n pleidleisio, gan fod pobl yn debygol o deimlo'n fwy cyfforddus i bleidleisio'n rhydd a chymryd rhan mewn etholiadau. Bydd sicrhau bod y drosedd dylanwad amhriodol yn adlewyrchu'n briodol yr amrywiaeth o weithgareddau y gellir eu defnyddio i atal etholwyr rhag pleidleisio neu achosi iddynt newid eu pleidlais yn rhoi eglurder a hygredded i bleidleiswyr mewn perthynas ag etholiadau Cymru.

### **Yr Opsiwn a ffefrir**

9.280. Nid oes unrhyw fanteision wedi'u nodi i opsiwn 1. Yr opsiwn a ffefrir yw opsiwn 2 i gyflwyno deddfwriaeth i gryfhau a moderneiddio'r diffiniad o'r drosedd etholiadol Dylanwad Amhriodol

## **Pennod 4 – Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru**

### **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

#### **Cefndir**

- 9.281. Mae pwyllgor archwilio yn darparu dull pwysig o gadw cydbwysedd yng nghyswllt trefniadau llywodraethu sefydliad. Mae'n adolygu ei faterion ariannol, trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol.
- 9.282. O ganlyniad i'r swyddogaethau ychwanegol sy'n cael eu rhoi i'r Comisiwn, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol cryfhau rôl y pwyllgor o ran ei gwmpas a lefel yr aelodaeth annibynnol ar y pwyllgor.
- 9.283. Mae'r Bil yn diwygio adran 17 o Ddeddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio a rhoi swyddogaethau adolygu ac asesu ychwanegol i'r pwyllgor mewn perthynas â threfniadau archwilio mewnol ac allanol y Comisiwn, ymdrin â chwynion ac adolygu adroddiadau a datganiadau ariannol.
- 9.284. Bydd hefyd yn galluogi'r Comisiwn i roi swyddogaethau addas pellach i'r pwyllgor ac yn pennu uchafswm nifer aelodau'r pwyllgor, isafswm nifer aelodau lleyg y pwyllgor ac yn ei gwneud yn ofynnol i gadeirydd y pwyllgor a'r dirprwy gadeirydd fod yn aelodau lleyg o'r pwyllgor.
- 9.285. Wrth fwrw ymlaen â'r uchod, mae'r Bil yn diwygio'r ddyletswydd bresennol i sefydlu pwyllgor archwilio i sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio sy'n adlewyrchu'r newidiadau uchod.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer - Cynnal y sefyllfa bresennol, heb unrhyw newidiadau i drefniadau llywodraethu ac archwilio presennol y Comisiwn.

#### **Costau a manteision**

- 9.286. Nid ydym wedi nodi unrhyw gostau na manteision ychwanegol i'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i gryfhau trefniadau llywodraethu ac archwilio'r Comisiwn - Cyflwyno deddfwriaeth i wneud y newidiadau a nodir uchod.

#### **Costau**

##### Costau i'r Comisiwn

- 9.287. Rydym yn rhagweld costau blynyddol, gan ddechrau yn 2024-25, ar gyfer tâl Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y pwyllgor archwilio (yn

seiliedig ar 3 diwrnod darllen a 3 diwrnod cyfarfod yr un) o £3,000, fel a ganlyn:

- Cadeirydd £1,600
- Dirprwy Gadeirydd £1,400

9.288. Rhagwelir y bydd y pwyllgor llywodraethu ac archwilio yn parhau gyda'r trefniant ar gyfer cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn.

### **Manteision**

9.289. Byddai'r opsiwn hwn yn sicrhau bod trefniadau archwilio a llywodraethu'r Comisiwn yn cael eu cryfhau i ystyried ei swyddogaethau newydd, a roddir gan y Bil hwn a Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau). Mae hyn yn cynnwys cwmpas estynedig a mwy o annibyniaeth, gyda gofyniad i'r cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd fod yn aelodau lleyg.

### **Yr Opsiwn a ffefrir**

9.290. O ystyried y manteision a nodir uchod, Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

### **Pŵer i godi tâl**

#### **Cefndir**

9.291. Er mwyn cefnogi cyflawni swyddogaethau newydd a diwygiedig y Comisiwn ymhellach, mae'r Bil yn mewnosod adran newydd yn Neddf 2013 sy'n rhoi pŵer i'r Comisiwn godi tâl ar dderbynwyr am nwyddau neu wasanaethau, os ydynt yn cytuno i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Byddai hyn mewn perthynas â'i swyddogaethau gweinyddu etholiadol newydd (y gellir eu harfer gan yr EMB) neu ei swyddogaethau mewn perthynas â Rhan 3 o Ddeddf 2013 (trefniadau ar gyfer llywodraeth leol). Er enghraifft, gall y Comisiwn Ffiniau gaffael sesiynau hyfforddi dewisol i'r gymuned etholiadol, y gallai godi tâl ar fynychwyr am hynny i adennill cost darparu'r hyfforddiant.

Opsiwn 1 – Busnes fel arfer. Byddai'r opsiwn hwn yn cynnal y status quo.

#### **Costau**

9.292. Nid ydym wedi nodi unrhyw gostau ariannol ar gyfer yr opsiwn hwn, fodd bynnag, gallai fod effeithiau negyddol ar allu'r Comisiwn i ymgymryd â'i swyddogaethau newydd.



## **Manteision**

9.293. Nid ydym wedi nodi unrhyw fanteision o'r opsiwn hwn.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth i roi pŵer i'r Comisiwn godi tâl am nwyddau neu wasanaethau

## **Costau**

9.294. Nid ydym wedi nodi unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

## **Manteision**

9.295. Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi mwy o hyblygrwydd a chwmpas yn y ffordd y gallai'r Comisiwn gario ei swyddogaethau newydd ar gyfer gweinyddu etholiadol a ychwanegir gan y Bil hwn (y gellir ei arfer gan yr EMB). Byddai hyn hefyd yn berthnasol i'r ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â threfniadau ar gyfer llywodraeth leol. Enghraifft fyddai'r Comisiwn yn caffael sesiynau hyfforddi dewisol ar gyfer y gymuned etholiadol, y gallai godi tâl ar fynychwyr am hynny i adennill cost darparu'r hyfforddiant.

## **Yr Opsiwn a Ffeirir**

9.296. Am y rhesymau a nodir uchod, Opsiwn 2 - Cyflwyno deddfwriaeth i roi pŵer i'r Comisiwn godi tâl am nwyddau neu wasanaethau - yw'r opsiwn a ffeirir.

## **Costau cyffredinol gweithredu**

### **Staff Llywodraeth Cymru – amcangyfrif o'r costau ar gyfer gweithredu**

9.297. Bydd tîm y Bil, sy'n cynnwys 4.2 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn Llywodraeth Cymru ar wahanol raddfeydd (yn unol â'r tabl isod), yn parhau â'r gwaith gweithredu cyn etholiad y Senedd 2026 ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, yn 2027. Oddeutu £239,400 y flwyddyn fydd cost 4.2 staff cyfwerth ag amser llawn. Felly, mae costau wedi cael eu cynnwys am ddwy flynedd ar ôl y Cydsyniad Brenhinol a ragwelir. Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Bil a ddarperir gan wasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru yn cael eu hystyried yn gostau gweithredol, ac felly nid ydynt wedi cael eu cynnwys. Bydd y costau a gyflwynir isod yn cael eu talu o'r adnoddau presennol ac felly'n cynrychioli costau cyfle yn hytrach na gwariant ariannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

Tabl 9.16 – Costau staff LIC ar gyfer gweithredu'r Bil

Gradd	Cyferwerth ag Amser Llawn	Cost Band Cyfartalog (gan gynnwys argostau)	Cyfanswm costau blynyddol (wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf)
Dirprwy Gyfarwyddwr	0.2	£120,174	£24,000
Gradd 7	0.8	£86,731	£69,400
SEO	0.6	£66,364	£39,800
HEO	0.6	£52,774	£31,700
EO	1	£40,504	£40,500
Cymorth Tîm	1	£33,927	£34,000
<b>Cyfanswm</b>			<b>£239,400</b>

### **Costau i'r Comisiwn Etholiadol**

- 9.298. Yn dilyn yr amcangyfrif ariannol diwygiedig ar gyfer 2024-25, y cytunwyd arno gan Bwyllgor y Llywydd, mae costau wedi'u diweddarau ar gyfer y Comisiwn Etholiadol yn sgil Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru).
- 9.299. Mae'r costau wedi newid ers yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cyntaf yn sgil sefydlu tîm deddfwriaethol yn hydref 2023, a ddigwyddodd ar ôl yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol cyntaf ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a'r Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig.
- 9.300. Sefydlwyd y tîm newydd o fewn y Comisiwn i ganolbwyntio ar ymateb i ddiwygio deddfwriaethol ac etholiadol ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys y rhaglenni diwygio yng Nghymru ac yn yr Alban, diwygiadau posibl yn y dyfodol ar lefel y DU, a gweithrediad parhaus Deddf Etholiadau 2022.
- 9.301. Bydd y tîm yn ymdrin â chydlynu deddfwriaeth newydd i sicrhau ei bod yn ymarferol ar gyfer gweinyddwyr etholiadol, pleidleiswyr, pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr.
- 9.302. Bydd hefyd yn llunio ac yn rheoli cynlluniau cyflawni i sicrhau y gall diwygiadau gael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus a bydd yn helpu timau eraill y Comisiwn i weithio gyda llywodraethau a rhanddeiliaid eraill i nodi a monitro risgiau a materion o ran cyflawni.
- 9.303. Y costau isod yw'r rhai ar gyfer y tîm y gellir eu priodoli i Fil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Bydd y costau ar gyfer Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a Bil Senedd Cymru

(Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) yn cael eu cynnwys yn yr Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y darnau hynny o ddeddfwriaeth.

9.304. Yn ogystal â'r costau yn y tabl, ceir costau gwerth £2,000 sydd wedi'u hysgwyddo yn gynnar yn 2024-25, a ystyrir yn 'gostau suddedig' gan y byddant wedi'u hysgwyddo cyn y Cydsyniad Brenhinol.

**Amcangyfrif o'r costau dros gyfnod o 10 mlynedd**

	<b>Amcangyfrif o'r costau (£000au)</b>							
	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32 ymlaen
<b>Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)</b>	8	10	10	10	10	10	10	0

## Atodiad A – Tablau Crynodeb o Gost

### Tabl A – Costau i Lywodraeth Cymru

		2024- 25 (£)	2025- 26 (£)	2026- 27 (£)	2027- 28 (£)	2028- 29 (£)	2029- 30 (£)	2030- 31 (£)	2031- 32 (£)	2032- 33 (£)	2033- 34 (£)
Bwrdd Rheoli Etholiadau	Trosiannol	20,600	20,600								
	Rheolaidd										
Cofrestru heb Gais	Trosiannol		9,500								
	Rheolaidd										
Platfform Gwybodaeth i Bleidleiswyr	Trosiannol	21,500									
	Rheolaidd										
Cynlluniau Cymorth Cyllidebol	Trosiannol		9,500								
	Rheolaidd										
Adolygiadau Trefniadau Etholiadol	Trosiannol	7,800									
	Rheolaidd										
Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Etholedig	Trosiannol	6,200									
	Rheolaidd										
Gweithredu	Trosiannol	239,400	239,400								
	Rheolaidd										
<b>Cyfanswm</b>		<b>295,500</b>	<b>279,000</b>								

574,500

**Tabl B – Costau i'r Comisiwn Democratiaeth Lleol a Ffiniau Cymru**

		2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)	2030-31 (£)	2031-32 (£)	2032-33 (£)	2033-34 (£)	
EMB	Trosiannol	30,000										
	Rheolaidd	132,500	140,000	140,000	132,500	132,500	140,000	132,500	140,000	132,500	140,000	
Plattform Gwybodaeth i Bleidleiswyr	Trosiannol		1,000,000									
	Rheolaidd		153,095	263,095	263,095	263,095	263,095	263,095	263,095	263,095	263,095	263,095
Adolygiadau Trefniadau Etholiadau	Trosiannol											
	Rheolaidd	5,500	5,500		5,500			5,500				
Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Etholedig	Trosiannol											
	Rheolaidd	60,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	
Pwyllgor Archwilio	Trosiannol											
	Rheolaidd	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000	3,000	
<b>Cyfanswm</b>		<b>231,000</b>	<b>1,441,595</b>	<b>546,095</b>	<b>544,095</b>	<b>538,595</b>	<b>546,095</b>	<b>544,095</b>	<b>546,095</b>	<b>538,595</b>	<b>546,095</b>	<b>6,022,355</b>

**Tabl C – Costau ar gyfer awdurdodau lleol**

		<b>2024-25</b>	<b>2025-26</b>	<b>2026-27</b>	<b>2027-28</b>	<b>2028-29</b>	<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>	
		<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	<b>(£)</b>	
Cofrestru heb Gais	Trosiannol											
	Rheolaidd	-	-	1,995,900	1,995,900	1,830,600	1,830,600	1,830,600	1,830,600	1,830,600	1,830,600	
Adolygiadau Trefniadau Etholiadol	Trosiannol	44,000										
	Rheolaidd	14,200	14,200	14,200	14,200	14,200	14,200	14,200	14,200	14,200	14,200	
<b>Cyfanswm</b>		<b>58,200</b>	<b>14,200</b>	<b>2,010,100</b>	<b>2,010,100</b>	<b>1,844,800</b>	<b>1,844,800</b>	<b>1,844,800</b>	<b>1,844,800</b>	<b>1,844,800</b>	<b>1,844,800</b>	<b>15,161,400</b>

**Tabl D – Costau i’r Comisiwn Etholiadol**

		2024-25 (£)	2025-26 (£)	2026-27 (£)	2027-28 (£)	2028-29 (£)	2029-30 (£)	2030-31 (£)	2031-32 (£)	2032-33 (£)	2033-34 (£)	
Gweithredu'r Bil EEB	Trosiannol	8,000	10,000	10,000	10,000	10,000	10,000	10,000	0	0	0	
	Rheolaidd											
<b>Cyfanswm</b>		<b>8,000</b>	<b>10,000</b>	<b>10,000</b>	<b>10,000</b>	<b>10,000</b>	<b>10,000</b>	<b>10,000</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>0</b>	<b>68,000</b>

**Tabl E – Arbedion cost i Lywodraeth Cymru**

		2024- 25 (£)	2025- 26 (£)	2026- 27 (£)	2027- 28 (£)	2028- 29 (£)	2029- 30 (£)	2030- 31 (£)	2031- 32 (£)	2032- 33 (£)	2033- 34 (£)	
EMB	Trosiannol											
	Rheolaidd		70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	70,000	
Arolwg Ymgeiswyr	Trosiannol											
	Rheolaidd			9,500					9,500			
Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau Etholedig	Trosiannol											
	Rheolaidd	60,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	140,000	
<b>Cyfanswm</b>		<b>60,000</b>	<b>210,000</b>	<b>219,500</b>	<b>210,000</b>	<b>210,000</b>	<b>210,000</b>	<b>210,000</b>	<b>219,500</b>	<b>210,000</b>	<b>210,000</b>	<b>1,969,000</b>



## 10. Asesiad Fforddiadwyedd

### Dull

- 10.1 Er bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn asesu gwerth cymdeithasol ac felly'n cynnwys effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, mae asesiad fforddiadwyedd yn asesiad cwbl ariannol. O'r herwydd, dim ond costau arian parod a manteision sy'n rhyddhau arian sy'n cael eu cynnwys. Byddai unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd ehangach a nodwyd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu dileu o asesiad fforddiadwyedd.
- 10.2 Mae'r asesiad fforddiadwyedd yn ystyried yr un cyfnod â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, 2024-25 i 2033-34.
- 10.3 Canfu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol nifer o gostau cyfle sy'n gysylltiedig â'r amser a dreulir gan aelodau presennol o staff ar weithgareddau sy'n ymwneud â gweithredu'r Bil ac mewn perthynas â datblygu rheoliadau. Gan nad yw'r costau cyfle hyn yn cynrychioli gwariant ariannol ychwanegol i'r sefydliadau dan sylw, maent wedi cael eu tynnu o'r asesiad fforddiadwyedd hwn.
- 10.4 Mae'r costau arian parod a'r manteision sy'n rhyddhau arian parod yn yr asesiad hwn wedi cael eu haddasu i adlewyrchu chwyddiant disgwylidig yn ystod y cyfnod gwerthuso. Mae'r addasiad hwn wedi cael ei wneud ar sail yr amcanestyniadau datchwyddydd cynnyrch domestig gros sydd wedi'u cynnwys yn Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)<sup>15</sup> a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2024. Nid oedd amcanestyniadau'r OBR ond yn ymestyn i 2028-29 ac felly mae cyfartaledd amcanestyniadau'r OBR wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer gweddill y cyfnod gwerthuso. Er bod chwyddiant yn gostwng erbyn hyn, mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch ei lwybr yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.
- 10.5 Oni nodir yn wahanol, mae'r holl gostau wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf. Efallai na fydd rhai o'r cyfansymiau mewn tablau yn cyfateb oherwydd y talgrynnu hwn.

---

<sup>15</sup> [CP 1027 - Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol - Rhagolwg economaidd a chyllidol - Mawrth 2024 \(obr.uk\)](https://obr.uk/cp-1027-y-swyddfa-cyfrifoldeb-cyllidebol-rhagolwg-economaidd-a-chyllidol-mawrth-2024/)

## Cyrff

### Awdurdodau Lleol

10.6 Ar hyn o bryd mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y costau i'r Awdurdodau Lleol mewn perthynas â darpariaethau ynghylch cofrestru etholiadol heb gais.

10.7 Fodd bynnag, bydd yr amcangyfrifon presennol ar oblygiadau'r Bil i Awdurdodau Lleol yn cynnwys dau faes o gostau ychwanegol i lywodraeth leol, ond nodir y gallai hyn newid yn dilyn y cyfnod peilota. Mae'n ansicr pryd y bydd y costau hyn yn cael eu hysgwyddo gan y bydd yn dibynnu ar ganlyniad yr ymarferion peilot, fodd bynnag, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rhagdybir y bydd y costau'n cael eu hysgwyddo o 2026-27 ymlaen. Bydd costau rheolaidd cychwynnol o £1,995,900 yn 2026-27 a 2027-28, ac ar ôl hynny amcangyfrifir y bydd cost reolaidd o £1,830,600 y flwyddyn tan 2033-34. Rhagwelir y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer costau'r beichiau newydd hyn.

Tabl 10.1 – Costau i awdurdodau leol 2024-2023

	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Costau cyfalaf	-	-	-	-	-
Costau refeniw	44,000	-	1,995,900	1,995,900	1,830,600
Cyfanswm costau	44,000	-	1,995,900	1,995,900	1,830,600
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	47,200	-	2,207,400	2,249,300	2,102,200

	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34
Costau cyfalaf	-	-	-	-	-
Costau refeniw	1,830,600	1,830,600	1,830,600	1,830,600	1,830,600
Cyfanswm costau	1,830,600	1,830,600	1,830,600	1,830,600	1,830,600
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	2,142,200	2,182,900	2,224,400	2,266,600	2,309,700

### Llywodraeth Cymru

10.8 Costau cyfle yw holl gostau uniongyrchol Llywodraeth Cymru ac felly nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad fforddiadwyedd. Mae

rhywfaint o arbedion cost i Lywodraeth Cymru, a nodir yn y tabl isod, ar gyfer costau rhedeg y WECB a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (y Panel). Fodd bynnag, bydd yr arbedion hyn yn cael eu trosglwyddo i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, a fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb am y swyddogaethau hyn.

10.9 Er bod costau wedi'u priodoli yn ôl ble maent yn cael eu hysgwyddo gyntaf yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol, disgwylir y bydd y costau'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru yn y pen draw. Enghraifft o hyn yw cost sefydlu EMB sydd wedi'i phriodoli i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol a'r asesiad hwn.

Tabl 10.2 – Costau i Lywodraeth Cymru 2024-2034

	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Costau cyfalaf	-	-	-	-	-
Costau refeniw	-60,000	-130,000	-130,000	-130,000	-130,000
Cyfanswm costau	-60,000	-130,000	-130,000	-130,000	-130,000
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	-64,600	-141,400	-143,800	-146,500	-149,300

	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34
Costau cyfalaf	-	-	-	-	-
Costau refeniw	-130,000	-130,000	-130,000	-130,000	-130,000
Cyfanswm costau	-130,000	-130,000	-130,000	-130,000	-130,000
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	-152,100	-155,000	-158,000	-161,000	-164,000

10.10 O ystyried manteision disgwylidig ymgysylltu democrataidd gwell, ein hasesiad ni yw bod y costau hyn yn fforddiadwy.

#### *Y Comisiwn Etholiadol*

10.11 Amcangyfrifir bod y costau i'r Comisiwn Etholiadol sy'n ymwneud â gweithredu'r ddeddfwriaeth yn £10,000 y flwyddyn. Cyllideb gyffredinol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer gweithgarwch datganoledig yng Nghymru yn 2023-24 yw £1,414,000.

Tabl 10.3 – Costau i'r Comisiwn Etholiadol 2024 – 2034

	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Costau cyfalaf	-	-	-	-	-
Costau referiw	8,000	10,000	10,000	10,000	10,000
Cyfanswm costau	8,000	10,000	10,000	10,000	10,000
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	<b>8,600</b>	<b>10,900</b>	<b>11,100</b>	<b>11,300</b>	<b>11,500</b>

	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34
Costau cyfalaf	-	-	-	-	-
Costau referiw	10,000	10,000	-	-	-
Cyfanswm costau	10,000	10,000	-	-	-
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	<b>11,700</b>	<b>11,900</b>	-	-	-

### *Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru*

10.12 Mae cost y Bil i'r Comisiwn wedi'i nodi isod. Fel y nodwyd uchod, er bod y costau hyn wedi'u priodoli i'r Comisiwn, disgwylir iddynt gael eu hariannu yn y pen draw gan Lywodraeth Cymru. Bydd y costau rhedeg blynyddol sy'n gysylltiedig â'r EMB a throsglwyddo swyddogaethau'r Panel yn cael eu hariannu'n rhannol o drosglwyddo arbedion cost Llywodraeth Cymru a nodwyd uchod. Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r costau sy'n weddill gael eu hariannu o adnoddau presennol gydag ailflaenoriaethu o ganlyniad i hynny mewn manau eraill.

10.13 Fel y nodir yn y tabl isod, mae costau blynyddol y Comisiwn yn amrywio o £248,000 i £1,567,700 (yn 2025-26). Mae'r costau hyn yn cynrychioli cyfran fach o gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru (£24,138,851,000<sup>16</sup>) sy'n dod o Gronfa Gyfunol Cymru ac felly ystyrir eu bod yn fforddiadwy.

Tabl 10.4 – Costau i'r Comisiwn 2024-2034

<sup>16</sup> [Cyllideb derfynol 2023 i 2024: cynnig \(llyw.cymru\)](#)

	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
Costau cyfalaf		1,000,000			
Costau refeniw	231,000	441,600	546,100	544,100	538,600
Cyfanswm costau	231,000	1,441,600	546,100	544,100	538,600
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	248,000	1,567,700	604,000	613,200	618,500
	2029-30	2030-31	2031-32	2032-33	2033-34
Costau cyfalaf					
Costau refeniw	546,100	544,100	546,100	538,600	546,100
Cyfanswm costau	546,100	544,100	546,100	538,600	546,100
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>	<b>639,000</b>	<b>648,800</b>	<b>663,600</b>	<b>666,900</b>	<b>689,000</b>

## Crynodeb Cyffredinol

10.14 Mae cyfanswm costau'r Bil wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Ar sail yr wybodaeth a amlinellir uchod, ein hasesiad ni yw y bydd y Bil yn fforddiadwy dros y cyfnod gwerthuso.

Tabl 10.5 – Cyfanswm terfynol y Bil 2024-2034

		2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29
<b>Awdurdoda u Lleol</b>	Cyfalaf					
	Refeniw	44,000	-	1,995,900	1,995,900	1,830,600
<b>Llywodraeth Cymru</b>	Cyfalaf					
	Refeniw	-60,000	-130,000	-130,000	-130,000	-130,000
<b>Y Comisiwn</b>	Cyfalaf		1,000,000			
	Refeniw	231,000	441,600	546,100	544,100	538,600
<b>Y Comisiwn Etholiadol</b>	Cyfalaf					
	Refeniw	8,000	10,000	10,000	10,000	10,000
<b>Cyfanswm</b>		223,000	1,321,600	2,422,000	2,420,000	2,249,200
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>		239,400	1,437,200	2,678,600	2,727,300	2,583,000

		<b>2029-30</b>	<b>2030-31</b>	<b>2031-32</b>	<b>2032-33</b>	<b>2033-34</b>
<b>Awdurdod au Lleol</b>	Cyfalaf					
	Refeniw	1,830,600	1,830,600	1,830,600	1,830,600	1,830,600
<b>Llywodraeth Cymru</b>	Cyfalaf					
	Refeniw	-130,000	-130,000	-130,000	-130,000	-130,000
<b>Y Comisiwn</b>	Cyfalaf					
	Refeniw	546,100	544,100	546,100	538,600	546,100
<b>Y Comisiwn Etholiadol</b>	Cyfalaf					
	Refeniw	10,000	10,000			
<b>Cyfanswm</b>		2,256,700	2,254,700	2,246,700	2,239,200	2,246,700
<b>Cyfanswm wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant</b>		2,640,800	2,688,600	2,730,000	2,772,500	2,834,700

## 11. Asegiadau o Effaith

- 11.1. Mae Asegiad Effaith Integredig llawn wedi cael ei gynnal sy'n ystyried effaith darpariaethau'r Bil ar grwpiau penodol o bobl. Cyhoeddwyd penodau 1 ac 8 o'r Asegiad Effaith Integredig ar ffurf drafft ochr yn ochr â'r Papur Gwyn ar Weinyddu a Diwygio Etholiadol ym mis Hydref 2022, pryd y buom yn ymgynghori ar gyfres o gynigion mawr i ddiwygio a moderneiddio etholiadau a gweinyddu etholiadol yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am 12 wythnos ac fe'i cyhoeddwyd hefyd mewn fersiynau hawdd eu darllen, sy'n addas i bobl ifanc ac laith Arwyddion Prydain. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad hwnnw, a chadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ei fwriad i ddeddfu ar ddiwygio etholiadol mewn Datganiad Llafar i'r Senedd ym mis Mai 2023.
- 11.2. Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn mynegi cefnogaeth gyffredinol i'n huchelgeisiau a nodir yn y Papur Gwyn. Rydym hefyd wedi ystyried y sylwadau a godwyd wrth baratoi'r Bil a byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni baratoi ar gyfer rhoi ein cynigion ar waith.
- 11.3. Mae'r Asegiad Effaith Integredig drafft wedi cael ei ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad. Cyhoeddir penodau 1 ac 8 o'r Asegiad Effaith Integredig wedi'u diweddarau ar wefan Llywodraeth Cymru ac mae'r asegiadau effaith penodol a'r Asegiad Effaith Integredig llawn ar gael ar gais o [Etholiadau.elections@llyw.cymru](mailto:Etholiadau.elections@llyw.cymru).
- 11.4. Bydd y Bil yn cyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd. Mae'n cefnogi nod Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru fwy cyfartal, bydd yn helpu i wneud democratiaeth a phleidleisio yn fwy hygyrch i bob aelod o gymdeithas ac yn annog cyfranogiad gweithredol mewn bywyd democrataidd yng Nghymru. Bydd ein diwygiadau yn helpu pobl i ddod yn ddinasyddion mwy actif, ymgysylltiol ac wrth wneud hynny gallant gyfrannu at ganlyniadau economaidd-gymdeithasol gwell.
- 11.5. Mae'r asegiadau effaith penodol canlynol wedi'u cwblhau:
- Hawliau Plant
  - Cydraddoldeb
  - Y Gymraeg
  - Asegiad Effaith Economaidd/Rheoleiddiol
  - Cyfiawnder
- 11.6. Rydym hefyd wedi nodi effeithiau tebygol ar breifatrwydd a chefn gwlad a fydd yn cael eu hystyried wrth i ni ddatblygu polisiau ymhellach. Os bydd angen, bydd yr asegiadau effaith perthnasol yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil.

## 12. Asesu'r Gystadleuaeth

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb
<b>C1:</b> Yn y farchnad(au) yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C2:</b> Yn y farchnad(au) yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Nac oes
<b>C3:</b> Yn y farchnad(au) yr effeithir arnynt gan y rheoliad newydd, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran o'r farchnad o leiaf 50%?	Nac oes
<b>C4:</b> A fyddai costau'r rheoliadau yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill?	Na fyddai
<b>C5:</b> A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint cwmnïau?	Nac ydy
<b>C6:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu bodloni?	Byddai
<b>C7:</b> A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid iddynt eu talu?	Na fyddai
<b>C8:</b> A yw'r sector yn cael ei nodweddu gan newid technolegol cyflym?	Nac ydy
<b>C9:</b> A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai

- 12.1 Cynhaliwyd asesiad cystadleuaeth a daeth i'r casgliad na fydd y Bil hwn yn cael unrhyw effaith sylweddol ar gystadleuaeth y farchnad.
- 12.2 Gwybodaeth ychwanegol i C6: Mae rhai darpar gyflenwyr sydd â phrofiad yn y maes hwn eisoes ac yn cynnig atebion tebyg ond gwahanol mewn manau eraill yn eu cynnig busnes. Mae'n debygol y byddai'r cwmnïau hyn yn gallu datblygu cynnyrch yn gyflymach, ac felly mae'n debyg am gost is, na chyflenwr nad oedd ganddo arbenigedd tebyg.



## 13. Adolygu ar ôl gweithredu

- 13.1. Mae Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol i foderneiddio arferion a gweinyddiaeth etholiadol ar gyfer etholiadau Cymreig a chyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddiwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd.
- 13.2. Mae ein pecyn diwygio etholiadol yn gyrru ein huchelgais hirdymor i gynyddu cyfranogiad pleidleiswyr a sicrhau bod dinasyddion yn gallu chwarae eu rhan lawn yn ein democratiaeth. Mae ein polisïau yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn y bumed Senedd pan gafodd yr hawl i bleidleisio ei hestyn i bobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed a dinasyddion tramor cymwys yng Nghymru, a'r gwaith i gyflwyno set o ddatblygiadau etholiadol arloesol yn yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022 gan brofi ffyrdd o wella cyfranogiad yn y broses etholiadol.
- 13.3. Bydd y Bil yn gweithredu diwygiadau mewn pryd ar gyfer y set nesaf o etholiadau Cymreig arfaethedig yn 2026 a 2027. Roedd diwygiadau eraill a gynigiwyd yn y Papur Gwyn y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu gweithredu yn yr etholiadau hynny drwy is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys Gorchymyn Ymddygiad newydd y Senedd) neu gyfryngau gweinyddol.
- 13.4. Bydd y Comisiwn Etholiadol yn parhau i gynnal adolygiadau statudol chwe mis ar ôl etholiadau a byddwn yn ystyried y dystiolaeth o'r adolygiadau hynny wrth ddatblygu ein dull ar ôl gweithredu.
- 13.5. Ar gyfer cofrestru heb gais, bydd cyfnod o ddatblygu a gwerthuso cynlluniau peilot i benderfynu ar y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer gweithredu'r darpariaethau.
- 13.6. Mae ein cynigion peilota yn cynnwys gofyniad i'w gwerthuso fel rhan o'r ddeddfwriaeth a bydd y gwerthusiadau hynny yn ein cynorthwyo wrth weithredu darpariaethau yn y Bil hwn ac asesu eu llwyddiant cyn etholiadau dilynol.
- 13.7. Ar gyfer y Comisiwn, mae gofyniad presennol i lunio adroddiad blynyddol y mae'n rhaid ei osod gerbron y Senedd. Byddai hyn yn cynnwys swyddogaethau newydd y Comisiwn a roddir gan y Bil hwn, hynny yw, yr EMB a'r Panel.
- 13.8. Ar gyfer y plattform gwybodaeth am etholiadau, mae gofyniad bod yn rhaid i'r corff sy'n darparu'r plattform hwnnw (y rhagwelir mai hwn yw'r EMB) gyhoeddi adroddiad o fewn 12 mis i'r bleidlais, a osodir gerbron y Senedd.
- 13.9. Byddwn hefyd yn ceisio cyd-fynd â gwerthuso Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) lle bo hynny'n bosibl. Mae'r Bil hwnnw'n

darparu bod yn rhaid i'r Llywydd gyflwyno cynnig cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a beth bynnag o fewn chwe mis i gyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn etholiad Mai 2026, a fyddai (os caiff ei gymeradwyo gan y Senedd) yn sefydlu Pwyllgor i gynnal adolygiad o weithrediad ac effaith rhannau o'r Bil hwn.

- 13.10. Rhaid i'r adolygiad hwnnw gynnwys Rhannau 1 a 2 o'r Bil, sef y darpariaethau mewn perthynas â'r Senedd a'i Haelodau, nifer Gweinidogion Cymru, a'r system bleidleisio yn etholiadau cyffredinol y Senedd. Yn ogystal, rhaid i'r cynnig gynnig bod yr adolygiad hefyd yn ymdrin ag i ba raddau y mae elfennau democratiaeth iach yn bresennol yng Nghymru, gan ganiatáu disgresiwn sylweddol i'r Pwyllgor benderfynu ar gwmpas yr adolygiad. Mae'r Bil yn datgan bod yn rhaid i'r Pwyllgor adrodd o fewn 12 mis i gyfarfod cyntaf y Senedd yn dilyn etholiad 2026.
- 13.11. Mae cyfle i elfennau'r adolygiadau hynny o'r Pwyllgor sy'n edrych ar "ddemocratiaeth iach" hefyd ystyried canlyniadau'r Bil.
- 13.12. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried canfyddiadau gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru - Diffinio, mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i lywio'r ffordd yr ydym yn gwerthuso llwyddiant y Bil hwn dros y tymor hwy.
- 13.13. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i baratoi i weithredu diwygiadau 2026/2027 gan sicrhau bod unrhyw ofynion deddfwriaethol, gweinyddol a digidol ar waith o leiaf chwe mis cyn yr etholiadau hynny yn unol â Chonfensiwn Gould, sy'n golygu y dylid setlo cyfraith etholiadol o leiaf chwe mis cyn yr etholiad y byddai'n effeithio arni. Byddwn yn ceisio barn a chyfranogiad rhanddeiliaid wrth gynllunio pryd a sut i adolygu llwyddiant.
- 13.14. Ar gyfer holl ddarpariaethau'r Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod asesiadau rheolaidd yn cael eu cynnal o ran sut y mae'r ddeddfwriaeth wedi cael effaith ac yn gweithredu'r bwriad polisi. Bydd pwerau ychwanegol, eu costau a'u manteision yn erbyn y sylfaen a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu monitro a bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i Weinidogion am gynnydd ar ôl gweithredu.

## Atodiad 1

# BIL ETHOLIADAU A CHYRFF ETHOLEDIG (CYMRU)

## NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

- Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ("y Bil") fel y'i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar 2 Hydref 2023. Fe'u lluniwyd gan Is-adran Etholiadau Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Bil. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Bil ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Bil, a phan na fo angen esboniad na sylw ar adran unigol o'r Bil, nis rhoddir.

### TROSOLWG CYFFREDINOL O'R BIL

- Mae'r Bil wedi ei rannu yn 3 Rhan sy'n cynnwys 73 o adrannau, ac Atodlen o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

### Rhan 1 - Gweinyddu a Chofrestru Etholiadol

- Mae Rhan 1 yn cynnwys darpariaethau ynghylch gweinyddu etholiadol a chofrestru etholiadol mewn cysylltiad ag etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, ac mae wedi ei rhannu'n 5 pennod.
- Mae Pennod 1 yn ymwneud â chydlynu gwaith gweinyddu etholiadol ar gyfer etholiadau Senedd Cymru, etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a refferenda datganoledig. Mae'r Bennod yn rhoi swyddogaethau newydd i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y cyfeirir ato fel "y **Comisiwn Ffiniau**" o hyn ymlaen) ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau sefydlu Bwrdd Rheoli Etholiadol i gyflawni'r swyddogaethau.
- Mae Pennod 2 yn gosod dyletswydd ar swyddogion cofrestru etholiadol yng Nghymru i gofrestru personau fel etholwyr llywodraeth leol heb i geisiadau i gofrestru gael eu gwneud, os ydynt yn fodlon bod gan y personau hawlogaeth i fod yn gofrestredig. Mae cofrestru fel etholwr llywodraeth leol yn rhoi hawlogaeth i berson i bleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru yn ogystal ag mewn etholiadau llywodraeth leol. Mae'r Bennod hefyd yn darparu ar gyfer gweithdrefn i swyddogion cofrestru etholiadol roi hysbysiad i bobl o'u bwriad

i'w cofrestru fel etholwyr llywodraeth leol ac mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd i gofrestru yn gymwys.

6. Mae Pennod 3 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i awdurdodi peilota diwygiadau i'r gyfraith sy'n ymwneud ag etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau lleol yng Nghymru. Mae'r Bennod yn gwneud darpariaeth i awdurdodau cyhoeddus sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud â gweinyddu etholiadol wneud cynigion i Weinidogion Cymru ar gyfer peilotau etholiadol, yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwerthuso cynigion ar gyfer peilotau ac ar gyfer gwerthuso'r peilotau, ac mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i wneud newidiadau parhaol i'r gyfraith yn dilyn peilotau.
7. Mae Pennod 4 yn cynnwys darpariaeth ynghylch materion hygrychedd ac amrywiaeth sy'n ymwneud ag etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n cynnwys darpariaeth –
  - sy'n rhoi dyletswyddau ar y Comisiwn Etholiadol i adrodd ar weinyddu etholiadau cyffredin llywodraeth leol yng Nghymru (mae eisoes yn ofynnol gan adran 5 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (y cyfeirir ati fel "DPGER" o hyn ymlaen) i'r Comisiwn adrodd ar etholiadau Senedd Cymru) ac i gynnwys yn ei adroddiadau ar etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ddisgrifiad o'r camau a gymerwyd gan swyddogion canlyniadau i ddarparu cymorth i bleidleiswyr anabl;
  - sy'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i awdurdodau lleol (yn lle pŵer i wneud rheoliadau) sy'n pennu gofynion ynghylch yr arolwg o ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol y mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ei gynnal gan adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
  - sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drwy reoliadau ddarparu ar gyfer sefydlu a gweithredu plattfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig, sy'n gyfleuster electronig (megis gwefan neu gymhwysiad meddalwedd) er mwyn darparu gwybodaeth gyfredol sy'n ymwneud â'r etholiadau i bleidleiswyr yn etholiadau Senedd Cymru ac mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru;
  - sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i hybu amrywiaeth ymhlith y rhai sy'n ceisio cael eu hethol yn Aelodau o'r Senedd neu'n gynghorwyr mewn llywodraeth leol yng Nghymru;
  - ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig yn Senedd Cymru neu mewn llywodraeth leol yng Nghymru;
  - sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau sydd wedi eu hanelu at annog pleidiau gwleidyddol cofrestredig i gasglu a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ynghylch eu

hymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd ac i bleidiau o'r fath ddatblygu a chyhoeddi strategaethau sydd wedi eu hanelu at hybu amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr ar gyfer pob etholiad Cymreig.

8. Mae Pennod 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch rheoleiddio treuliau yr eir iddynt mewn ymgyrchoedd etholiad yn etholiadau Senedd Cymru ac mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth –
- ynghylch trin gwariant ymgyrchu tybiannol (defnydd o eiddo etc. a ddarperir yn ddi-dâl neu am bris sy'n is na'r gwerth ar y farchnad);
  - sy'n darparu ar gyfer cod ymarfer ar dreuliau etholiad;
  - sy'n awdurdodi talu treuliau drwy bersonau heblaw asiantiaid etholiad;
  - ar gyfer cyfyngiadau ar ba drydydd partion a gaiff fynd i wariant a reolir;
  - ar gyfer cod ymarfer ar wariant a reolir mewn ymgyrch etholiad.

## **Rhan 2 – Cyrff Etholedig a'u Haelodau**

9. Mae Rhan 2 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygiadau o ffiniau a threfniadau etholiadol awdurdodau lleol, cydnabyddiaeth ariannol aelodau awdurdodau lleol, anghymhwyso rhag aelodaeth o Senedd Cymru ac awdurdodau lleol a'r drosedd o ddylanwad amhriodol. Mae'r Rhan wedi ei rhannu'n 4 pennod.
10. Mae Pennod 1 yn diwygio Rhan 3 o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (y cyfeirir ati fel "**Deddf 2013**" o hyn ymlaen), sy'n gwneud darpariaeth ynghylch adolygiadau o ffiniau a threfniadau etholiadol cynghorau siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau yng Nghymru. Mae'r bennod –
- yn newid yr ystyriaethau sy'n gymwys i adolygiadau sy'n ymwneud â siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau a'r cyfnodau adolygu cymwys;
  - yn ei gwneud yn glir y caiff adolygiad o ffiniau atfor gynnwys mwy nag un ardal llywodraeth leol;
  - yn gwneud newidiadau i'r gofynion sy'n ymwneud ag ymgynghori ac ystyried sylwadau ar adolygiadau;
  - yn gwneud darpariaeth fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu cyfarwyddo oedi adolygiadau etholiadol ac mae'n nodi gofynion ynghylch cyhoeddi gorchmynion adolygu a gwybodaeth gysylltiedig arall.
11. Mae Pennod 2 yn diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn rhoi ei swyddogaethau i'r Comisiwn Ffiniau.

12. Mae Pennod 3 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd ac yn gynghorydd cymuned, ac am y drosedd o ddylanwad amhriodol.
13. Mae Pennod 4 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer pwyllgor llywodraethu ac archwilio i'r Comisiwn Ffiniau ac yn rhoi pŵer i'r Comisiwn i godi tâl am nwyddau a gwasanaethau y mae'n eu darparu.

### **Rhan 3 – Darpariaeth Gyffredinol**

14. Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau sy'n gymwys i'r Bil yn gyffredinol, gan gynnwys darpariaeth ddehongli gyffredinol, pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol drwy reoliadau a darpariaeth ynghylch dod â'r Bil i rym.

## **SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

### **RHAN 1 GWEINYDDU A CHOFRESTRU ETHOLIADOL**

#### **PENNOD 1: CYDLYNU GWAITH GWEINYDDU ETHOLIADOL**

#### **Adran 1 - Bwrdd Rheoli Etholiadol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

15. Mae'r adran hon o'r Bil yn mewnosod Rhan 2A yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") (fel y'i hailenwir gan Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)), sy'n cynnwys adrannau newydd 20A i 20I. Mae'r Rhan hon yn disgrifio swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn Ffiniau o gydlynu'r gwaith o weinyddu etholiadau'r Senedd ac etholiadau lleol yng Nghymru, ynghyd ag unrhyw refferenda datganoledig yng Nghymru. Mae'r Rhan hefyd yn nodi'r trefniadau i sefydlu'r Bwrdd.

#### *Adran 20A - Swyddogaethau gweinyddu etholiadol*

16. Mae adran 20A yn disgrifio'n fwy manwl swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn Ffiniau o gydlynu'r gwaith o weinyddu etholiadau a refferenda Cymreig. Mae is-adrannau (2) a (3) yn cadarnhau bod y swyddogaeth yn cynnwys—
  - (i) cynorthwyo swyddogion canlyniadau, awdurdodau lleol a phersonau eraill i gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda Cymreig;
  - (ii) hybu arferion gorau mewn etholiadau a refferenda Cymreig, er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu hyfforddiant i'r rhai sy'n ymwneud â gweinyddu'r etholiadau; a
  - (iii) darparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall i Weinidogion Cymru ynghylch gweinyddu etholiadau a refferenda Cymreig.

***Adran 20B - Cyfarwyddiadau i swyddogion canlyniadau***

17. Mae adran 20B yn darparu pŵer i'r Comisiwn Ffiniau i ddyroddi cyfarwyddydau ysgrifenedig i swyddogion canlyniadau ynghylch cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda Cymreig. Enghraifft o gyfarwyddydau y gellid eu dyroddi allai fod cyfarwyddydau i sefydlu dyddiad cyson ledled Cymru ar gyfer dosbarthu papurau pleidleisio drwy'r post.
18. Nid oes rhaid dilyn cyfarwyddydau a ddyroddir gan y Comisiwn Ffiniau o dan yr adran hon os ydynt yn anghyson ag unrhyw ddyletswydd gyfreithiol a osodir ar y swyddog, neu'n ymwneud â swyddogaeth y swyddog sy'n ymwneud â phôl cyfun.

***Adran 20C - Cyfarwyddiadau i swyddogion cofrestru etholiadol***

19. Mae'r adran hon yn darparu pŵer i'r Comisiwn Ffiniau i ddyroddi cyfarwyddydau ysgrifenedig i swyddogion cofrestru etholiadol ynghylch cyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda Cymreig. Fel yn achos cyfarwyddydau a ddyroddir i swyddogion canlyniadau, nid oes rhaid dilyn cyfarwyddyd a ddyroddir gan y Comisiwn Ffiniau o dan yr adran hon os yw'n anghyson ag unrhyw ddyletswydd gyfreithiol a osodir ar y swyddog cofrestru etholiadol.

***Adran 20D - Ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol***

20. Rhaid ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol cyn rhoi unrhyw gyfarwyddyd o dan adrannau 20B neu 20C.

***Adran 20E - Y Bwrdd Rheoli Etholiadol***

21. Mae adran 20E yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau sefydlu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ("y BRhE"), a fydd yn gwbl gyfrifol am gyflawni swyddogaeth gweinyddu etholiadol y Comisiwn Ffiniau.
22. Wrth ymgymryd â'i waith, caiff y BRhE hefyd ddefnyddio pŵer y Comisiwn Ffiniau yn adran 12 o Ddeddf 2013 sy'n caniatáu iddo wneud pethau sy'n ategol i'r gwaith o arfer ei swyddogaethau eraill (ac eithrio benthyca arian, caffael eiddo heb gydsyniad Gweinidogion Cymru neu ffurfio cwmnïau).

***Adran 20F - Aelodaeth o'r Bwrdd***

23. Mae adran 20F yn nodi pwy fydd yn aelod o'r BRhE. Yn gryno, rhaid i'r BRhE gynnwys -
  - (i) Cadeirydd, y mae rhaid iddo fod yn Gomisiynydd a benodwyd o dan adran 4 o Ddeddf 2013 ac sydd â phrofiad blaenorol o fod yn swyddog canlyniadau neu'n swyddog cofrestru etholiadol. Bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar ei delerau a'i amodau;

- (ii) un Comisiynydd arall a benodwyd o dan adran 4 o Ddeddf 2013, y bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn penderfynu ar ei delerau a'i amodau;
- (iii) o leiaf bedwar aelod arall, y mae rhaid iddynt fod yn swyddogion etholiadau presennol neu'n gyn-swyddogion etholiadau (fel y'u diffinnir gan adran 20F(9)).

24. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol i'r BRhE ddewis un o'r aelodau hyn sy'n swyddogion etholiadau presennol neu'n gyn-swyddogion etholiadau i fod yn ddirprwy gadeirydd y BRhE. Mae is-adran (8) yn nodi'r personau na chaniateir iddynt fod yn aelod o'r BRhE, a benodir o dan is-adran (1)(c).

#### ***Adran 20G - Deiliadaeth***

25. Mae adran 20G yn darparu bod aelodau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol yn dal swydd ac yn ymadael â swydd yn unol â thelerau ac amodau eu penodiad, fel y'u penderfynir o dan adran 20F.

#### ***Adran 20H - Trafodion y Bwrdd***

26. Mae adran 20H yn galluogi'r BRhE i benderfynu ar ei weithdrefn ei hun, gan gynnwys isafswm nifer yr aelodau y mae rhaid iddynt fod yn bresennol er mwyn gwneud penderfyniadau. Mae is-adran (1) yn cadarnhau bod pleidleisiau pob aelod yn gyfwerth â phleidleisiau'r aelodau eraill, ond y bydd gan y Cadeirydd (neu ei ddirprwy yn absenoldeb y Cadeirydd) bleidlais fwrw os bydd y bleidlais yn gyfartal. Hefyd, mae is-adran (3) yn cadarnhau dilysrwydd trafodion neu weithredoedd y BRhE os oes diffyg yn aelodaeth y BRhE.

27. Mae is-adran (4) yn galluogi'r Cadeirydd neu'r dirprwy Gadeirydd i wahodd pobl eraill i gyfarfodydd y BRhE i ddarparu cyngor neu i gynorthwyo gyda gwaith y Bwrdd, ar yr amod bod yr holl aelodau'n cytuno. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, gynrychiolwyr y Comisiwn Etholiadol, Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, Rheolwyr Gwasanaethau Etholiadol, a chynrychiolwyr Llywodraeth y DU a/neu Lywodraeth Cymru. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan y BRhE ddigon o hyblygrwydd i geisio'r arbenigedd a'r cymorth sy'n angenrheidiol wrth gyflawni ei swyddogaethau. Ni fyddai unrhyw fynychwyr o'r fath yn rhan o'r aelodaeth ffurfiol ac ni fyddent yn gyfrifol am ddyroddi'r cyfarwyddydau ffurfiol.

#### ***Adran 20I - Dehongli***

28. Mae adran 20I yn diffinio geiriau a thermau penodol a ddefnyddir yn Rhan 2A o Ddeddf 2013 (fel y'i mewnosodir gan adran 1(2)).

## **Adran 2 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol**



29. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r mân ddiwygiadau a'r diwygiadau canlyniadol a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Bil, sy'n gwneud newidiadau i Ddeddf 2013 sy'n ymwneud â Phennod 1 o'r Bil.
30. Mae paragraff 1(4) yn rhoi is-adrannau newydd (1A), (1B) ac (1C) yn lle adran 14(1) o Ddeddf 2013, sy'n ymdrin â chyfarwyddydau a roddir i'r Comisiwn Ffiniau gan Weinidogion Cymru.
31. Mae is-adran (1A) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddydau i'r Comisiwn Ffiniau mewn perthynas â swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau, ac eithrio mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ran 2A o Ddeddf 2013 sy'n ymwneud â chydlynu gwaith gweinyddu etholiadol, neu ei swyddogaethau o dan Ran 3A o Ddeddf 2013 sy'n ymwneud â ffiniau etholaethau'r Senedd.
32. Mae is-adran (1B) yn nodi bod rhaid i'r Comisiwn Ffiniau gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf 2013, ac mae is-adran (1C) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob cyfarwyddyd y maent yn ei roi i'r Comisiwn Ffiniau neu i brif gyngor o dan Ddeddf 2013 ("prif gyngor" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru).

## **PENNOD 2: COFRESTRU ETHOLIADOL HEB GEISIADAU**

### **Adran 3 - Dyletswydd i gofrestru etholwyr llywodraeth leol**

33. Mae is-adran (1) yn hepgor adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, sy'n cynnwys darpariaeth ynghylch cofrestru etholwyr llywodraeth leol heb gais, nad yw wedi ei dwyn i rym.
34. Mae is-adran (2) yn mewnosod adran newydd (9ZA) yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (y cyfeirir ati fel "**Deddf 1983**" o hyn ymlaen). Bydd adran 9ZA yn ei gwneud yn ofynnol i bob swyddog cofrestru etholiadol yng Nghymru ychwanegu etholwyr cymwys at y gofrestr llywodraeth leol yng Nghymru pan fo'r swyddog cofrestru etholiadol wedi ei fodloni bod gan y person hawlogaeth i fod yn gofrestredig. Defnyddir cofrestr llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer etholiadau sy'n ethol cynghorwyr i siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau yng Nghymru ynghyd ag etholiadau i fod yn Aelod o Senedd Cymru. Bydd angen i swyddogion cofrestru etholiadol wirhau hunaniaeth y person a'r amgylchiadau sy'n ymwneud â'i gymhwystra er mwyn bod yn fodlon; a bydd angen i swyddogion cofrestru etholiadol hysbysu personau y maent yn bwriadu eu cofrestru cyn iddynt wneud hynny. Ni fydd angen i'r etholwr wneud cais drwy'r system bresennol os oes dyletswydd ar y swyddog cofrestru etholiadol i'w gofrestru.

35. Mae adran 9ZA(3) yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol hysbysu personau y maent wedi eu bodloni eu bod yn gymwys i'w cofrestru cyn iddynt gael eu cofrestru. Rhaid i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig gan roi gwybod i'r person am y canlynol –
- i. dyletswydd y swyddog cofrestru etholiadol i gofrestru'r person ar ôl diwedd y cyfnod hysbysu,
  - ii. yr eithriadau i ddyletswydd y swyddog cofrestru etholiadol i gofrestru'r person;
  - iii. hawl yr etholwr i ofyn am gael ei eithrio o'r gofrestr olygedig o etholwyr llywodraeth leol (os gwneir darpariaeth ar gyfer cofrestr olygedig mewn rheoliadau o dan adran 53 o Ddeddf 1983);
  - iv. hawl yr etholwr i wneud cais i gofrestru'n ddiennw; a
  - v. y mathau o etholiadau y bydd gan y person hawlogaeth i bleidleisio ynddynt ac na fydd ganddo hawlogaeth i bleidleisio ynddynt o ganlyniad i gael ei gofrestru heb gais (byddai gan y person hawlogaeth i bleidleisio yn etholiadau Senedd Cymru ac mewn etholiadau ar gyfer cynghorwyr mewn siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau yng Nghymru, ond ni fyddai'n rhoi hawlogaeth iddo i bleidleisio mewn etholiad i fod yn aelod o Dŷ'r Cyffredin yn Senedd y DU – byddai angen gwneud cais i gofrestru yn yr achos hwnnw).
36. Y cyfnod hysbysu yw 45 o ddiwrnodau (is-adran (4) o adran 9ZA) ac mae hyn yn rhoi amser i berson sy'n cael hysbysiad i ymateb iddo ag unrhyw bryderon neu wrthwynebiadau cyn i ddyletswydd y swyddog cofrestru etholiadol i gofrestru gymryd effaith ar ddiwedd y cyfnod.
37. Mae is-adran (5) o adran 9ZA yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru etholiadol gofrestru'r person ar ddiwedd y cyfnod hysbysu o 45 o ddiwrnodau oni bai –
- i. bod y person wedi hysbysu'r swyddog cofrestru etholiadol nad yw'n dymuno cael ei gofrestru (paragraff (a));
  - ii. nad yw'r swyddog cofrestru etholiadol wedi ei fodloni mwyach fod gan y person hawlogaeth i fod yn gofrestredig (paragraff (b)); neu
  - iii. bod y person yn dymuno gwneud cais i gofrestru'n ddiennw neu ei fod wedi gwneud cais o'r fath (paragraff (c)).
38. Pan fo'r person yn gwrthwynebu cael ei gofrestru heb gais, bydd yn ofynnol i'r swyddog cofrestru etholiadol roi terfyn ar y broses gofrestru awtomatig ac, yn lle hynny, ddilyn y broses yn adran 9E o Ddeddf 1983, sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru etholiadol wahodd person i wneud cais i gofrestru os oes gan y swyddog cofrestru etholiadol, mewn perthynas â pherson anghofrestredig y mae'r swyddog cofrestru etholiadol yn gwybod ei enw a'i gyfeiriad, reswm dros gredu bod gan y person hawlogaeth i fod yn gofrestredig. Mae adran 9ZA(6) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i

wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynghylch gofynion hysbysiadau i berson y mae'r swyddog cofrestru etholiadol yn ystyried ei gofrestru o dan yr adran, gan gynnwys darpariaeth ynghylch ffurf yr hysbysiad a sut ac i bwy y caniateir iddo gael ei ddarparu.

39. Mae is-adrannau (8) a (9) yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau o dan is-adran (6) gael eu gwneud drwy offeryn statudol ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Senedd.

#### **Adran 4 - Darpariaeth sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i gofrestru etholwyr llywodraeth leol cymwys**

40. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 9E o Ddeddf 1983 i wneud darpariaeth ynghylch y berthynas rhwng dyletswyddau presennol swyddogion cofrestru etholiadol o dan adran 9E mewn cysylltiad â gwahoddiadau i wneud cais i gofrestru a'r ddyletswydd newydd i gofrestru heb gais o dan adran 9ZA a fewnosodir gan adran 3. Effaith y diwygiad i adran 9E yw na fydd dyletswydd y swyddog cofrestru etholiadol yn adran 9E(1) yn gymwys tra bo'r broses gofrestru o dan adran 9ZA yn mynd rhagddi.
41. Mae is-adran (4) yn diwygio adran 13A o Ddeddf 1983, sy'n ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cofrestru etholiadol ddyroddi hysbysiadau ynghylch newidiadau i'r gofrestr a restrir yn is-adran (1) o'r adran honno. Mae ychwanegu person at y gofrestr o dan adran newydd 9ZA yn cael ei ychwanegu at y rhestr o newidiadau sy'n sbarduno'r ddyletswydd i ddyroddi hysbysiadau. Mae is-adrannau (5) a (6) yn gwneud diwygiadau canlyniadol cysylltiedig i adrannau 13AB a 13B o Ddeddf 1983.
42. Mae is-adrannau (7) a (9) yn diwygio adran 53 o Ddeddf 1983 ac Atodlen 2 iddi. Mae adran 53 o Ddeddf 1983 yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau ynghylch cofrestru etholiadol o dan y Ddeddf honno, ac mae Atodlen 2 i Ddeddf 1983 yn pennu pethau y gellir eu gwneud mewn rheoliadau o dan adran 53. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 53 (ac Atodlen 2) i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 (O.S. 2018/644), i'r graddau y mae'r pwerau'n arferadwy o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
43. Mae is-adran (9) yn diwygio Atodlen 2 i Ddeddf 1983 i bennu pethau pellach y gellir eu cynnwys mewn rheoliadau o dan adran 53 o'r Ddeddf honno mewn cysylltiad â'r ddyletswydd newydd i gofrestru o dan adran 9ZA.
44. Mae paragraff 1A o Atodlen 2 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau sy'n awdurdodi person i ddatgelu gwybodaeth i berson arall, neu sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny, at ddiben cynorthwyo swyddog cofrestru mewn perthynas â materion a bennir yn y paragraff. Mae paragraff (a) o is-

- adran (9) yn diwygio paragraff 1A o Atodlen 2, ac yn cael yr effaith o ychwanegu cynorthwyo swyddog cofrestru i benderfynu a yw person yn gymwys i gael ei gynnwys yn y gofrestr at ddiben adran 9ZA, at y rhestr o faterion y gellir gwneud rheoliadau mewn cysylltiad â hwy sy'n awdurdodi neu sy'n ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth.
45. Mae paragraff (b) o is-adran (9) yn ei gwneud yn glir fod rheoliadau o dan adran 53 yn gallu gwneud darpariaeth ynghylch y camau y mae swyddog cofrestru wedi ei awdurdodi i'w cymryd, neu y mae'n ofynnol iddo eu cymryd, at ddiben penderfynu a yw person yn gymwys i gael ei gynnwys yn y gofrestr at ddiben adran 9ZA.
46. Mae is-adran (7) yn diwygio adran 53 i ddarparu na all rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 1A(1)(aa) o Atodlen 2 (a fewnosodir gan is-adran (9)(a)) sy'n awdurdodi person i ddatgelu gwybodaeth, neu sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny, roi swyddogaethau i awdurdodau a gedwir yn ôl, nac addasu eu swyddogaethau, pe bai cydsyniad un o Weinidogion y Goron, neu ymgynghori ag un o Weinidogion y Goron, yn ofynnol ar gyfer darpariaeth sy'n gwneud peth o'r fath pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.
47. Mae is-adran (8) yn diwygio adran 56 o Ddeddf 1983 i roi hawl i apelio i'r llys sirol yn sgil penderfyniadau o dan adran 9ZA.
48. Mae paragraffau (c) a (d) o is-adran (9) yn ymwneud â'r gofrestr etholiadol olygedig, neu agored. Mae'r darpariaethau hyn yn datgymhwyso'r pwerau i wneud rheoliadau ym mharagraffau 10 a 10B o Atodlen 2 i Ddeddf 1983, gan olygu nad yw Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud rheoliadau sy'n caniatáu ar gyfer creu a chyflenwi cofrestr etholiadol llywodraeth leol olygedig, neu agored, o ran Cymru.

### **PENNOD 3: PEILOTA A DIWYGIO ETHOLIADAU CYMREIG**

#### **Adran 5 - Rheoliadau peilot: pwerau**

49. Mae adran 5 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ("rheoliadau peilot") er mwyn i beilotau etholiadol ddigwydd mewn cysylltiad â'r materion a ganlyn, a nodir yn is-adran (3):
- i. cofrestru etholwyr ar gyfer etholiadau Cymreig, sydd, yn ymarferol, yn golygu cofrestru etholwyr ar y gofrestr llywodraeth leol. Fodd bynnag, ni fydd y peilotau hyn yn gallu effeithio ar hawl sylfaenol person i bleidleisio ac ni allant newid yr etholfraint;
  - ii. pryd, ble a sut y mae pleidleisio'n digwydd, a allai gynnwys trefniadau pleidleisio ymlaen llaw, gorsafoedd pleidleisio gwahanol, pleidleisio'n electronig etc., ymhlith pethau eraill;
  - iii. sut y caiff pleidleisiau eu cyfrif, a allai gynnwys cyfrif electronig;

- iv. cyfathrebu â phleidleiswyr ynghylch etholiadau Cymreig; a
  - v. y prosesau a'r gweithdrefnau cyn pleidleisio, wrth bleidleisio neu ar ôl pleidleisio mewn etholiad Cymreig.
50. Diffinnir "etholiad Cymreig" gan is-adran (8) fel etholiadau'r Senedd, etholiadau prif gynghorau neu etholiadau cyngor tref a chymuned ("etholiadau llywodraeth leol"). Yn ogystal, bydd peilotau hefyd yn gallu cael eu cynnal mewn is-etholiadau llywodraeth leol. Nid yw'r darpariaethau hyn yn gymwys i etholiadau seneddol y DU nac etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu sy'n digwydd yng Nghymru.
51. Mae adran 5(4) hefyd yn caniatáu i beilotau gael eu cynnal mewn cysylltiad â'r newidiadau y mae adrannau 3 a 4 yn eu gwneud i Ddeddf 1983 mewn cysylltiad â chofrestru fel etholwr heb gais. Nid oes angen cydsyniad prif gyngor ar Weinidogion Cymru i gynnal y peilotau hyn, ac nid oes rhaid iddynt gyflwyno cynnig i'r Comisiwn Ffiniau ychwaith.
52. Caiff rheoliadau peilot greu, dileu neu addasu troseddau, ond ni chaniateir iddynt greu nac addasu trosedd sydd, neu a ddaw, yn drosedd y caniateir ei chosbi â chyfnod o garchar sy'n hwy nag un flwyddyn (pan fo'r euogfarn ar ddiad), neu'r "terfyn cymwys", ar euogfarn ddiannod. Ystyr y "terfyn cymwys" ar euogfarn ddiannod yw'r cyfnod hiraf yn y carchar y gall llys ynadon ei roi mewn cysylltiad â throsedd ddiannod (h.y. trosedd na ellir ond ei rhoi ar brawf mewn llys ynadon) neu drosedd neillfordd (h.y. trosedd y gellir ei rhoi ar brawf yn llys yr ynadon neu yn Llys y Goron). Diffinnir y terfyn cymwys gan adran 224(1A) o'r Cod Dedfrydu (y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf Dedfrydu 2020) ac ar hyn o bryd mae'n 6 mis o garchar am drosedd ddiannod a 6 mis am drosedd neillfordd. Mae'r cyfeiriad at y Cod "fel y mae'n cael effaith o bryd i'w gilydd" yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y gall y naill neu'r llall o'r terfynau hyn newid yn y dyfodol. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r terfynau drwy reoliadau a wneir o dan baragraff 14A o Atodlen 23 i'r Cod Dedfrydu.

### **Adran 6 – Rheoliadau peilot: gofynion**

53. Mae adran 6 yn nodi'r gofynion a osodir ar Weinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau peilot. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i reoliadau peilot ddisgrifio amcan y peilot a phennu'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i'r Comisiwn Etholiadol lunio ei adroddiad ar weithrediad y rheoliad peilot (gweler adran 18(1)).
54. Mae is-adran (2) yn gwahardd Gweinidogion Cymru rhag gwneud rheoliadau peilot sy'n gymwys i brif gyngor oni bai bod y prif gyngor hwnnw wedi cydsynio i'r peilot, neu fod Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i unrhyw argymhellion a wnaed gan y Comisiwn Ffiniau. Fodd bynnag, nid yw'r gwaharddiad hwn yn gymwys i unrhyw reoliadau peilot a wneir yn

y 12 mis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol pan fo'r rheoliadau at ddiben profi'r trefniadau sy'n ymwneud â chofrestru etholiadol heb gais.

### **Adran 7 – Rheoliadau peilot: y weithdrefn**

55. Yn gyffredinol, pan fydd rheoliadau peilot yn cael eu gwneud, byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Senedd. Fodd bynnag, bydd rheoliadau peilot sy'n treialu'r system y mae adran 3 yn darparu ar ei chyfer; sy'n cael eu gwneud heb gydsyniad y prif gyngor a fydd yn gweithredu'r peilot; neu sy'n cynnwys darpariaeth sy'n creu trosedd neu'n ehangu cwmpas trosedd, yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol y Senedd. Bydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod datganiad gerbron y Senedd sy'n egluro pam y maent yn cynnig peilota gweithgaredd o'r fath heb gydsyniad y prif gyngor angenrheidiol.

### **Adran 8 – Cynigion ar gyfer peilotau a wneir gan Weinidogion Cymru**

56. Mae adran 8 yn nodi'r weithdrefn y mae rhaid i Weinidogion Cymru ei dilyn wrth gynnig cynllun peilot. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r swyddogion canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd y byddai'r cynnig yn gymwys ynddynt ynghylch eu cynnig ar gyfer cynllun peilot. Rhaid iddynt wedyn gyflwyno'r cynnig i'r Comisiwn Ffiniau i'w ystyried. Bydd swyddogaeth y Comisiwn Ffiniau o ystyried cynigion ar gyfer peilotau etholiadol, a'r holl swyddogaethau eraill mewn perthynas â pheilotau etholiadol, yn cael eu cyflawni gan ei Fwrdd Rheoli Etholiadol yn unol ag adran 20E o Ddeddf 2013 (fel y'i mewnosodir gan adran 1 o'r Bil hwn). Cyn gwneud unrhyw reoliadau peilot, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r adroddiad a lunnir gan y BRhE ar y cynnig.

### **Adran 9 – Cynigion ar gyfer peilotau a wneir gan brif gynghorau**

57. Mae adran 9 yn galluogi prif gynghorau i gynnig cynllun peilot. Mae prif gynghorau wedi eu cyfyngu i wneud cynigion ar gyfer peilotau mewn cysylltiad â gweithgareddau sydd i'w treialu mewn etholiadau cyffredin llywodraeth leol ac is-etholiadau llywodraeth leol. Mae is-adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ymgynghori â Gweinidogion Cymru am ei gynnig cyn ei gyflwyno i'r BRhE i'w ystyried. Cyn gofyn i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau peilot ar sail ei gynnig, rhaid i'r cyngor roi sylw i'r adroddiad a lunnir gan y BRhE, a rhaid i'r adroddiad gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ynghyd â'r cais i wneud rheoliadau peilot.

### **Adran 10 – Cynigion ar gyfer peilotau a wneir ar y cyd gan y Comisiwn Etholiadol a phrif gynghorau**

58. Mae adran 10 yn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i wneud cynigion ar y cyd â phrif gynghorau mewn cysylltiad â gweithgareddau sydd i'w treialu mewn etholiadau cyffredin llywodraeth leol ac is-etholiadau llywodraeth leol. Bydd y cynigion hyn yn ddarostyngedig i'r un gofynion gweithdrefnol â chynigion a wneir gan brif gynghorau.

### **Adran 11 – Cynigion ar gyfer peilotau a wneir gan swyddogion cofrestru etholiadol**

59. Yn unol ag adran 11, caiff swyddogion cofrestru etholiadol wneud cynigion ar gyfer peilotau. Mae'r pŵer hwn, fodd bynnag, wedi ei gyfyngu i beilota gweithgareddau sy'n ymwneud â chofrestru etholwyr. Mae'r broses y mae'n ofynnol i'r swyddogion cofrestru ei dilyn yr un fath â'r broses sydd i'w dilyn gan brif gynghorau.

### **Adran 12 – Cynigion ar y cyd ar gyfer peilotau**

60. Mae adran 12 yn galluogi prif gyngor, y Comisiwn Etholiadol a swyddog cofrestru etholiadol i wneud cynnig ar y cyd i Weinidogion Cymru ar gyfer peilot. Os yw'r Comisiwn Etholiadol yn gwneud y cynnig, rhaid iddo wneud hynny ar y cyd ag un neu ragor o brif gynghorau ond caiff hefyd wneud y cynnig ar y cyd â swyddog cofrestru etholiadol.

### **Adran 13 – Argymhellion y Comisiwn Etholiadol**

61. Mae adran 13 yn galluogi'r Comisiwn Etholiadol i argymhell cynigion ar gyfer peilot i brif gyngor neu i swyddog cofrestru etholiadol.

### **Adran 14 – Gwerthuso cynigion ar gyfer peilot**

62. Mae adran 14 yn nodi'r hyn y mae'n ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau ei wneud wrth werthuso cynigion ar gyfer peilot ac wrth lunio ei adroddiad. Rhaid i'r Comisiwn Ffiniau edrych ar amcanion y peilot a'i ddymunoldeb, hynny yw, pa un a allai'r peilot fod o fudd i'r pleidleisiwr neu'r gweinyddwyr etholiadol. Mae hefyd yn ofynnol iddo ystyried costau tebygol y peilot arfaethedig a'i ddichonoldeb. Gall Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan is-adran (3) sy'n nodi unrhyw feini prawf penodol y maent yn credu eu bod yn berthnasol wrth werthuso'r cynigion ar gyfer peilot, a rhaid i'r Comisiwn Ffiniau roi sylw i ffactorau o'r fath wrth asesu'r cynnig a llunio ei adroddiad. Rhaid i unrhyw un sy'n cyflwyno cynnig ar gyfer peilot i'r Comisiwn Ffiniau ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y mae'r Comisiwn Ffiniau yn gofyn amdani a fydd yn caniatáu i'r cynnig gael ei ystyried yn llawn ac i'r adroddiad gael ei lunio'n gywir. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau anfon copi o'r adroddiad y mae'n ei lunio at bwy bynnag a gyflwynodd y cynnig heb fod yn hwyrach na 6 wythnos ar ôl i'r cynnig gael ei gyflwyno.

### **Adran 15 – Fforymau peilotau etholiadau Cymreig**

63. Mae adran 15 yn nodi'r cymorth y bydd y Comisiwn Ffiniau yn ei ddarparu i'r cyrff sy'n cymryd rhan mewn peilot. Yn y lle cyntaf, mae'n ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau sefydlu fforwm lle y gellir trafod materion sy'n ymwneud â chyflwyno'r peilot yn ymarferol. Rhaid i'r fforwm hwn gynnwys swyddogion canlyniadau'r prif gynghorau sy'n cymryd rhan yn ogystal â

gweinyddwyr etholiadol o'r awdurdodau hynny ac aelodau o'r Comisiwn Ffiniau, ond nid yw ei aelodaeth yn gyfyngedig iddynt hwy.

#### **Adran 16 – Canllawiau ar beilotau**

64. Mae adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau gyhoeddi canllawiau ar gynnal peilot y mae rhaid iddynt gynnwys cyngor ynghylch y trefniadau y mae eu hangen ar gyfer y peilot, yr hyfforddiant staff sy'n ofynnol, yn ogystal â sut i redeg y peilot yn unol â'r rheoliadau peilot.

#### **Adran 17 – Gwerthuso'r rheoliadau peilot**

65. Mae adran 17 yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwerthuso peilotau wedi iddynt ddiwydd. Bydd y gwerthusiad hwn yn cael ei gynnal gan y Comisiwn Etholiadol, y mae rhaid iddo werthuso pa mor llwyddiannus yw'r peilot wrth gyflawni ei amcanion, a pha un a ddylid mabwysiadu'r newidiadau a wneir gan reoliadau peilot yn barhaol ai peidio. Rhaid i'r prif gyngor lle y digwyddodd y peilot ddarparu unrhyw gymorth i'r Comisiwn Etholiadol wrth i'r Comisiwn lunio ei adroddiad, a rhaid i'r swyddog canlyniadau perthnasol gyhoeddi'r adroddiad o fewn mis i'w gael, oni bai bod y peilot yn un sy'n dod o fewn cylch gwaith adran 11 yn unig, ac os felly, ar y swyddog cofrestru etholiadol y mae'r ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad y Comisiwn Ffiniau.

#### **Adran 18 - Rheoliadau diwygio etholiadol**

66. Mae adran 18 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno newidiadau parhaol sy'n debyg i'r rhai a dreialwyd mewn cynllun peilot, drwy gyfrwng rheoliadau diwygio etholiadol. Mae is-adran (1)(b) yn darparu mai dim ond os yw'r Comisiwn Etholiadol yn argymhell hynny y gellir gwneud rheoliadau o'r fath. Gall rheoliadau diwygio etholiadol gymhwyso'r newid a beilotwyd i unrhyw etholiadau Cymreig, neu i'r cyfan ohonynt.
67. Caiff rheoliadau diwygio etholiadol greu, dileu neu addasu troseddau, ond ni chaniateir iddynt greu nac addasu trosedd sydd, neu a ddaw, yn drosedd y caniateir ei chosbi â chyfnod o garchar sy'n hwy nag un flwyddyn (pan fo'r euogfarn ar dditiad), neu'r "terfyn cymwys", ar euogfarn ddiannod. Ystyr y "terfyn cymwys" ar euogfarn ddiannod yw'r cyfnod hiraf yn y carchar y gall llys ynadon ei roi mewn cysylltiad â throsedd ddiannod (h.y. trosedd na ellir ond ei rhoi ar brawf mewn llys ynadon) neu drosedd neillffordd (h.y. trosedd y gellir ei rhoi ar brawf yn llys yr ynadon neu yn Llys y Goron). Diffinnir y terfyn cymwys gan adran 224(1A) o'r Cod Dedfrydu (y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf Dedfrydu 2020) ac ar hyn o bryd mae'n 6 mis o garchar am drosedd ddiannod a 6 mis am drosedd neillffordd. Mae'r cyfeiriad at y Cod "fel y mae'n cael effaith o bryd i'w gilydd" yn caniatáu ar gyfer y posibilrwydd y gall y naill neu'r llall o'r terfynau hyn newid yn y dyfodol. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddiwygio'r terfynau drwy reoliadau a wneir o dan baragraff 14A o Atodlen 23 i'r Cod Dedfrydu.



### **Adran 19 - Rheoliadau diwygio etholiadol: y weithdrefn**

68. Mae adran 19 yn nodi pa un o weithdrefnau'r Senedd y mae rhaid ei dilyn wrth wneud rheoliadau diwygio etholiadol. Mae'n darparu ar gyfer cymryd camau craffu ychwanegol a champau craffu manylach sy'n cynnwys ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgor o'r Senedd ystyried y rheoliadau a'u goblygiadau. Bydd y Senedd hefyd yn cael mwy o amser i ystyried y rheoliadau a'u goblygiadau, a phan osodir y rheoliadau, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru hefyd osod copi o werthusiad y Comisiwn Etholiadol o'r rheoliadau peilot cysylltiedig.
69. Pan fo Gweinidogion Cymru wedi penderfynu peidio â derbyn argymhelliad pwyllgor i wneud newidiadau o sylwedd i reoliadau drafft, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, neu'n gwneud newidiadau o sylwedd i'r rheoliadau drafft sy'n sylweddol wahanol i'r rhai sydd wedi eu hargymell gan bwyllgor, rhaid iddynt osod datganiad gerbron y Senedd sy'n nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn.

### **Adran 20 - Cyhoeddi**

70. Mae Pennod 3 o Ran 1 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi dogfennau (gweler, er enghraifft, adran 15(7)). Mae adran 20 yn ei gwneud yn ofynnol i'r dogfennau hynny gael eu cyhoeddi'n electronig, yn ychwanegol at unrhyw fodd arall y mae'r person sydd o dan y ddyletswydd i gyhoeddi yn ystyried ei fod yn briodol.

### **Adran 21 - Rheoliadau: darpariaeth ategol**

71. Mae adran 21 yn darparu y caiff rheoliadau peilot a rheoliadau diwygio etholiadol a wneir o dan Bennod 3 o Ran 1 o'r Bil gynnwys darpariaeth ategol, gan gynnwys darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth drosiannol, neu ddarpariaeth arbed. Caiff y rheoliadau addasu deddfiadau (pa bryd bynnag y'u gwneir) a chânt wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer ardaloedd gwahanol.

### **Adran 22 - Dehongli'r Bennod hon**

72. Mae adran 22 yn diffinio geiriau a thermau penodol a ddefnyddir ym Mhennod 3 o Ran 1 o'r Bil.

### **Adran 23 - Diwygiadau canlyniadol**

73. Mae'r adran hon yn cyflwyno Rhan 2 o Atodlen 1, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ganlyniadol ar adrannau 5 i 23 o'r Bil.

## **PENNOD 4: HYGRCHEDD AC AMRYWIAETH: ETHOLIADAU CYMREIG**

## Adran 24 - Adroddiadau gan y Comisiwn Etholiadol

74. Mae adran 24 yn mewnosod adran 5A yn DPGER. Mae dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol o dan adran 5 o Ddeddf 2000 i lunio adroddiad ar weinyddiaeth pob un o etholiadau'r Senedd. Mae adran 5A(1) o DPGER fel y'i mewnosodir gan adran 24 yn creu dyletswydd i'r Comisiwn Etholiadol lunio a chyhoeddi adroddiad ar etholiadau cyffredin ar gyfer siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau yng Nghymru.
75. Mae is-adrannau (2) a (3) o adran 5A yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i gynnwys yn ei adroddiadau yn dilyn etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol ddisgrifiad o'r camau y mae swyddogion canlyniadau wedi eu cymryd i gynorthwyo pobl anabl i bleidleisio yn yr etholiadau hynny.
76. Mae is-adran (4) o adran 5A yn diffinio "disability" at ddibenion is-adran (3), mewn perthynas â gwneud rhywbeth, fel ei fod yn cynnwys anallu tymor byr i'w wneud. Mae hyn yr un fath â'r diffiniad o "disability" yn adran 202 o Ddeddf 1983 (sef y Ddeddf y gwneir y rheolau odani ar gyfer cynnal etholiadau llywodraeth leol) a'r diffiniad o "disability" yn erthygl 2(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007 (O.S. 2007/236) (sy'n cynnwys y rheolau ar gyfer cynnal etholiadau Senedd Cymru).
77. Mae is-adran (4) o adran 5A hefyd yn diffinio "returning officer" (*swyddog canlyniadau*) at ddiben y dyletswydd yn is-adran (3) i adrodd ar gamau a gymerwyd gan swyddogion canlyniadau. Yn achos adroddiadau ar etholiadau'r Senedd, fe'i diffinnir drwy gyfeirio at orchmynion a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y cyfeirir ati fel "**DLIC 2006**" o hyn ymlaen), sy'n llywodraethu'r modd y cynhelir etholiadau'r Senedd. Yn achos adroddiadau ar etholiadau llywodraeth leol, diffinnir swyddogion canlyniadau fel person a benodir o dan adran 35(1A) o Ddeddf 1983.
78. O dan y trefniadau newydd ar gyfer ethol aelodau i Senedd Cymru a sefydlir gan Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, ni fydd dim is-etholiadau pan fydd seddi gwag ymhlith aelodaeth Senedd Cymru. Mae adran 25(3) yn gwneud darpariaeth drosiannol fel y bydd adroddiad o dan adran 5A(3) yn ofynnol hefyd ar gyfer is-etholiad yn un o etholaethau'r Senedd cyn i Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ddod i rym.

## Adran 25 - Arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus mewn etholiadau lleol

79. Mae adran 25 yn diwygio adran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 drwy ddileu'r gofyniad i ffurf yr arolwg a'r cwestiynau gael eu nodi mewn rheoliadau. Yn lle hynny, mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i nodi'r rhain

mewn cyfarwyddyd i awdurdodau lleol. Mae is-adran (4) yn mewnosod is-adran 3A ym Mesur 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd a roddir o dan adran 1 o Fesur 2011.

80. Yn ychwanegol at y cwestiynau craidd yn yr arolwg, sy'n gymwys i bob awdurdod lleol yng Nghymru, mae'n caniatáu i awdurdodau lleol gynnwys cwestiynau sydd wedi eu hanelu at ganfod effaith unrhyw fentrau lleol a sefydlwyd i wella amrywiaeth ymhlith yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad yr ymgymerir â'r arolwg ar ei gyfer.

### **Adran 26 – Platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig**

81. Mae'r darpariaethau yn adran 26 yn ymwneud â sicrhau bod gwybodaeth am etholiadau Cymreig ar gael i helpu pleidleiswyr i gymryd rhan mewn etholiadau Cymreig. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drwy reoliadau sefydlu a chynnal platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig sy'n darparu gwybodaeth gyfredol am etholiadau Senedd Cymru ac etholiadau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau (ond nid yw'n ofynnol iddynt eu gwneud) ynghylch gwybodaeth a ddylai fod ar gael ar y platfform mewn perthynas ag etholiadau cynghorau cymuned ac etholiadau maerol yng Nghymru.
82. Rhaid i'r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr adran hon hefyd ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron y Senedd adroddiad ynghylch sut y maent wedi sefydlu'r platfform a'i gynnal. Rhaid i adroddiad gael ei gyhoeddi heb fod yn hwy na 12 mis ar ôl etholiad cyffredin i'r Senedd ac etholiad cyffredin i brif gyngor.

### **Adran 27 - Gwasanaethau i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig**

83. Mae is-adran (1) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi trefniadau yn eu lle ar gyfer darparu gwasanaethau i hybu amrywiaeth yn nodweddion gwarchoddedig ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol personau sy'n ceisio sefyll i gael eu hethol yn aelodau o Senedd Cymru ac o gynghorau siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau yng Nghymru.
84. Diffinnir "nodweddion gwarchoddedig" at y diben hwn yn is-adran (11) fel y nodweddion gwarchoddedig yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sef –
- i. oed;
  - ii. anabled;
  - iii. ailbennu rhywedd;
  - iv. priodas a phartneriaeth sifil;
  - v. beichiogrwydd a mamolaeth;
  - vi. hil;
  - vii. crefydd neu gred;
  - viii. rhyw; a

- ix. cyfeiriadedd rhywiol.
85. Mae is-adran (2) yn nodi'r materion y mae rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddynt wrth gyflawni'r ddyletswydd hon. Rhaid i Weinidogion Cymru ystyried a oes grwpiau o bersonau â'r un nodweddion gwarchoddedig sy'n cael eu tangynrychioli ymhlith aelodaeth Senedd Cymru neu gynghorau siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau. Mae tangynrychioli i'w ystyried drwy gyfeirio at y boblogaeth a wasanaethir gan y corff sy'n cael ei ystyried (is-adran (3)).
86. Rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw hefyd i'r canlynol –
- i. dymunoldeb lleihau'r anghydraddoldeb mewn canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, a
  - ii. dymunoldeb sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bersonau ni waeth a ydynt (neu nad ydynt) yn aelodau o blaid wleidyddol gofrestrdedig.
87. Mae is-adran (4) yn darparu nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu gwasanaethau mewn cysylltiad â phob grŵp o bersonau a dangynrychiolir sydd â'r un nodweddion gwarchoddedig.
88. Mae is-adran (5) yn nodi rhestr hollgynhwysol o'r gwasanaethau y caniateir eu darparu o dan y trefniadau sy'n ofynnol gan yr adran hon. Y gwasanaethau yw gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, coetsio a mentora, profiad gwaith, cyfarpar, a chymorth â thasgau. Mae is-adran (8) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ychwanegu at y rhestr o wasanaethau a diwygio neu ddileu unrhyw wasanaethau a ychwanegir gan y rheoliadau.
89. Mae is-adran (6) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau, mewn unrhyw drefniant a roddir yn ei le o dan y ddyletswydd hon, fod Gweinidogion Cymru wedi eu gwahardd rhag gwneud penderfyniadau mewn achosion penodol ynghylch a yw unigolyn i gael gwasanaeth o dan y trefniadau.

### **Adran 28 - Cynlluniau cymorth ariannol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig**

90. Mae is-adran (1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu drwy reoliadau ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol i gynorthwyo ymgeiswyr sy'n sefyll i gael eu hethol yn aelodau o Senedd Cymru neu o gyngor sir, bwrdeistref sirol neu gymuned yng Nghymru sydd ag amgylchiadau penodedig neu nodweddion penodedig i oresgyn unrhyw rwystrau rhag cymryd rhan yn yr etholiad sy'n gysylltiedig â'r nodweddion neu'r amgylchiadau hynny. Ystyr "penodedig" ac "a bennir" yw wedi ei bennu yn y rheoliadau (gweler is-adran (13)).

91. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i roi cynllun o gymorth ariannol yn ei le i gynorthwyo ymgeiswyr anabl mewn etholiadau o'r fath i oresgyn unrhyw rwystr rhag cymryd rhan yn yr etholiad sy'n gysylltiedig â'u hanabledd.
92. Mae is-adran (7) yn ei gwneud yn ofynnol nad yw'r cynlluniau cymorth ariannol y darperir ar eu cyfer gan reoliadau o dan yr adran hon yn cael eu gweithredu'n uniongyrchol gan bersonau a eithrir. Mae'r personau a eithrir wedi eu nodi yn adran 30, ac mae'r rhestr o bersonau a eithrir yn cynnwys Gweinidogion Cymru (fel aelodau o Lywodraeth Cymru), Gweinidogion y Goron, awdurdodau lleol ac eraill.

### **Adran 29 - Personau a eithrir**

93. Mae'r adran hon yn rhestru'r personau na chaniateir iddynt weithredu cynllun o gymorth ariannol y darperir ar ei gyfer gan reoliadau o dan adran 28.

### **Adran 30 - Canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig**

94. Mae is-adran (1)(a) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i annog pleidiau gwleidyddol cofrestredig i gasglu, crynhoi a chyhoeddi gwybodaeth benodedig am amrywiaeth ynghylch eu hymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd. Mae'r termau 'gwybodaeth am amrywiaeth' a 'penodedig' wedi eu diffinio yn is-adran (3) o'r adran hon.
95. Mae is-adran (1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i annog pleidiau gwleidyddol cofrestredig i ddatblygu, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu strategaethau i hybu amrywiaeth eu hymgeiswyr ac i gynorthwyo ymgeiswyr i oresgyn rhwystrau sy'n gysylltiedig â nodweddion neu amgylchiadau penodedig. Tra bo'r canllawiau yn is-adran (1)(a) yn ymwneud ag ymgeiswyr ar gyfer etholiadau'r Senedd, mae'r canllawiau a gyhoeddir o dan is-adran (1)(b) yn ymwneud ag ymgeiswyr ar gyfer pob etholiad Cymreig (a ddiffinnir yn is-adran (3)).
96. Mae is-adran (2) yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau o dan yr adran hon; a hynny cyn 1 Mai 2025. Wedi hynny, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r canllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd, gan roi sylw i'r cylch etholiadau sy'n berthnasol i is-adrannau (1)(a) a (b).
97. Mae is-adran (3) yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn yr adran hon.

## **PENNOD 5: CYLLID YMGYRCHU**

### **Adran 32 - Gwariant tybiannol: ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol**

98. Mae adran 32 yn diwygio adran 90C(1A) o Ddeddf 1983 i egluro na ddylid ond ystyried bod gwariant ar ran ymgeisydd mewn etholiad lleol Cymreig yn wariant yr aed iddo gan yr ymgeisydd pan fo'r gwariant wedi ei gyfarwyddo, ei annog neu ei awdurdodi ganddo.

### **Adran 33 - Gwariant tybiannol a gwariant gan drydydd parti: etholiadau Senedd Cymru**

99. Mae adran 33 yn diwygio adrannau 73(1A), 86(1A), a 94(8A) o DPGER, a pharagraff 3(11) o Atodlen 8A iddi, fel bod y darpariaethau diwygiedig mewn perthynas â gwariant tybiannol gan bleidiau gwleidyddol a thrydydd partïon hefyd yn gymwys bellach i gyfnodau ymgyrchu ar gyfer etholiadau Senedd Cymru.

### **Adran 34 - Codau ymarfer ar dreuliau**

100. Mae adran 34(1) yn diwygio paragraff 14A o Atodlen 4A i Ddeddf 1983 sy'n galluogi'r Comisiwn Etholiadol i lunio cod ymarfer sy'n rhoi canllawiau ar dreuliau etholiad ar gyfer ymgeiswyr mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r diwygiad yn egluro y gall y canllawiau ymdrin â chymhwyso'r rheolau mewn perthynas â threuliau yr eir iddynt, gan sicrhau bod y codau ymarfer yn ddigon eang er mwyn cynnwys esboniad o'r rheolau ar bob math o wariant.
101. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 156(3)(aa) o DPGER fel nad yw unrhyw weithdrefn gan y Senedd yn gymwys i orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru sy'n dwyn i rym god ymarfer a luniwyd gan y Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â threuliau etholiad mewn etholiadau i Senedd Cymru o dan Atodlen 8 i DPGER. Mae'r adran hefyd yn gwneud diwygiadau pellach, mwy cyffredinol i adran 156 i egluro'r gweithdrefnau sy'n gymwys i offerynnau statudol a wneir gan Weinidogion Cymru o dan ddarpariaethau DPGER.

### **Adran 35 - Personau awdurdodedig nad yw'n ofynnol iddynt dalu drwy asiant etholiad**

102. Mae adran 35 yn diwygio adran 73(5)(ca) o Ddeddf 1983, a fewnosodwyd gan Ddeddf Etholiadau 2022, er mwyn galluogi gwneud taliadau ar ran ymgeisydd neu ymgyrch yn ystod ymgyrch etholiad llywodraeth leol yng Nghymru gan berson awdurdodedig heblaw asiant etholiad. Bwriedir i hyn roi eglurder i drydydd partïon sydd wedi eu hawdurdodi gan ymgeisydd neu asiant i'w hyrwyddo, o dan adran 75 o Ddeddf 1983. Mae'r diwygiad yn sicrhau bod trydydd partïon yn gallu mynd i dreuliau awdurdodedig, a thalu amdanynt, o dan adran 75, yn hytrach na bod rhaid talu'r treuliau drwy asiant yr ymgeisydd y maent yn ei hyrwyddo.

### **Adran 36 - Cyfyngu ar ba drydydd partïon a gaiff fynd i wariant a reolir**

103. Mae adran 36 yn cyflwyno cyfyngiad pellach ar drydydd partion a gaiff fynd i wariant a reolir (gan gynnwys gwariant tybiannol a reolir) mewn cysylltiad ag ymgyrch etholiad i'r Senedd. Mae'n gwneud hyn drwy fewnosod adran newydd 89B yn DPGER, sy'n darparu mai dim ond y trydydd partion hynny a fyddai'n dod o fewn y categorïau o drydydd partion a restrir yn adran 88(2) o Ddeddf 2000 sy'n gallu mynd i dreuliau o ran gwariant a reolir uwchlaw trothwy *de minimis* o £700 yn ystod cyfnod rheoleiddiedig datganoledig Cymreig. Mae adran 89B a fewnosodir hefyd yn cynnwys trosedd neillfordd o awdurdodi treuliau yn groes i'r adran, sy'n drosedd y gellir ei chosbi drwy ddirwy.

### **Adran 37 - Trydydd partion sy'n gallu rhoi hysbysiad**

104. Mae adran 37 yn mewnosod adran 88(11) a (12) yn DPGER, er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o drydydd partion sy'n gallu mynd i wariant a reolir yn ystod cyfnod rheoleiddiedig datganoledig Cymreig. Gellir ychwanegu trydydd partion at y rhestr neu eu dileu ohoni, neu gellir amrywio'r rhestr, ond dim ond pan fo'r Comisiwn Etholiadol yn argymhell hynny y gellir dileu neu amrywio. Effaith adran 37(3) yw y bydd unrhyw orchmynion a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 88(11) o DPGER yn destun gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol y Senedd.

### **Adran 38 - Cod ymarfer ar reolaethau sy'n ymwneud â thrydydd partion**

105. Er mwyn cynorthwyo trydydd partion i ddeall y cyfyngiadau newydd hyn, mae adran 38 yn mewnosod is-adran (1A) yn adran 100A o DPGER, a fewnosodwyd yn DPGER gan Ddeddf 2022. Mae'r is-adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol lunio cod ymarfer ar wariant a reolir gan drydydd partion yn ystod cyfnod rheoleiddiedig datganoledig Cymreig. Mae adran 38(4) yn mewnosod adran 100C yn DPGER sy'n nodi'r broses y mae rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ei dilyn wrth lunio'r cod ymarfer, sy'n cynnwys ymgynghori â Phwyllgor y Llywydd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (neu'r pwyllgor olynol) yn Senedd Cymru, ac unrhyw bersonau eraill y mae'r Comisiwn Etholiadol yn ystyried eu bod yn briodol. Mae adran 100C hefyd yn nodi'r broses sydd i'w dilyn cyn mabwysiadu unrhyw god a gynigir gan y Comisiwn. Effaith adran 38(5) yw nad yw unrhyw weithdrefn gan y Senedd yn gymwys i orchymyn a wneir o dan adran 100C(8).

### **Adran 39 - Diwygiadau canlyniadol**

106. Mae adran 39 yn cyflwyno Rhan 3 o Atodlen 1, sy'n cynnwys nifer o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i DPGER. Mae'r diwygiadau o sylwedd a wneir i DPGER gan y Ddeddf yn cyfeirio at etholiadau Senedd Cymru, ac effaith y diwygiadau pellach hyn yw sicrhau bod cysondeb yn DPGER drwyddi draw pan fydd yn cyfeirio at yr etholiadau hynny.

## **RHAN 2 CYRFF ETHOLEDIG A'U HAELODAU**

### **PENNOD 1: TREFNIADAU AR GYFER LLYWODRAETH LEOL**

#### **Adran 40 – Ystyriaethau ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal**

107. Mae adran 40 yn amnewid adran 30(1) o Ddeddf 2013 ac yn nodi ystyriaethau diwygiedig ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal. Mae'r materion y mae rhaid eu hystyried yn cynnwys dymunoldeb cael cymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer yr aelodau sydd yr un fath neu mor debyg â phosibl ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal; maint, siâp a hygyrchedd daearyddol ward etholiadol; a chynnal cwlwm lleol.

#### **Adran 41 – Y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau prif ardal**

108. Mae adran 41 yn diwygio adran 29 o Ddeddf 2013 drwy newid hyd cylch o adolygiadau o 10 i 12 mlynedd ac ailosod dyddiad dechrau'r cylch nesaf yn 30 Medi 2023. Mae'r diwygiad hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio hyd y cylch a'r dyddiad ailosod drwy reoliadau.

#### **Adran 42 – Adolygu ffiniau atfor**

109. Mae adran 42 yn diwygio adran 28 o Ddeddf 2013 i egluro bod y Comisiwn Ffiniau yn gallu adolygu ffiniau tanfor mwy nag un ardal awdurdod lleol pan fydd yn cynnal adolygiad o dan adran 28.

#### **Adran 43 - Argymhellion a phenderfyniadau sy'n deillio o adolygiad etholiadol: dyletswydd i roi sylw i sylwadau**

110. Mae adran 43 yn diwygio adran 37 o Ddeddf 2013 i egluro na all Gweinidogion Cymru weithredu unrhyw argymhelliad na phenderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau nes bod o leiaf chwe wythnos wedi mynd heibio gan ddechrau â'r diwrnod y daw'r argymhellion i law Gweinidogion Cymru. Hefyd, pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried adroddiad terfynol ar adolygiad o drefniadau etholiadol, rhaid iddynt hefyd roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir iddynt yn ystod y cyfnod 'sylwadau' chwe wythnos.
111. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud diwygiadau tebyg i adrannau 38 a 39 o Ddeddf 2013 mewn perthynas â'r swyddogaethau a arferir gan y Comisiwn Ffiniau mewn cysylltiad ag adroddiadau ar newidiadau i ffiniau cymuned a swyddogaethau a arferir gan gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol mewn cysylltiad â threfniadau etholiadol cymuned.

#### **Adran 44 - Enwau wardiau etholiadol**



112. Mae adran 44 yn diwygio adran 34(2) o Ddeddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau ystyried y broses o enwi wardiau etholiadol fel rhan o'i weithdrefn ymgynghori ragadolygu.
113. Mae hefyd yn mewnosod adran 36A yn Neddf 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau a chynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol (yn ôl y digwydd), yn achos wardiau etholiadol sydd ag enwau gwahanol at ddibenion nodi'r wardiau wrth gyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, bennu enwau neu enwau arfaethedig Cymraeg a Saesneg wardiau etholiadol yn y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg o'u hadroddiadau adolygu drafft a phellach.

#### **Adran 45 - Ymgynghori ar adolygiadau**

114. Mae adran 45 yn diwygio adran 34 o Ddeddf 2013 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau neu, yn ôl y digwydd, gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, cyn cynnal adolygiad, ddod â'r adolygiad hwnnw i sylw aelodau'r cyhoedd yr effeithir arnynt gan yr adolygiad hwnnw.
115. Mae'n gwneud diwygiadau tebyg i adran 35 i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau neu, yn ôl y digwydd, gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gymryd unrhyw gamau yr ystyrir eu bod yn briodol i ymgynghori ag aelodau perthnasol o'r cyhoedd wrth gynnal adolygiad. Rhaid i'r Comisiwn Ffiniau neu gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith y caniateir cyflwyno sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus a nodi pryd y mae'r cyfnod ymgynghori yn dechrau ac yn dod i ben. Rhaid ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir.
116. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 36 o Ddeddf 2013 i egluro bod y cyfnod y caniateir cyflwyno sylwadau ar adroddiad ynddo yn '[g]lyfnod ymgynghori cyhoeddus'.

#### **Adran 46 - Ystyr "ymgyngoreion gorfodol" yn Rhan 3 o Ddeddf 2013**

117. Mae adran 46 yn diwygio adran 34(3) o Ddeddf 2013 drwy ychwanegu awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau Iechyd Porthladd a Chomisiynydd y Gymraeg at y rhestr o gyrff y mae rhaid ymgynghori â hwy mewn perthynas â'r weithdrefn adolygu.

#### **Adran 47 - Argymhellion a phenderfyniadau sy'n deillio o adolygiad etholiadol: y cyfnod cyn etholiad lleol**

118. Mae adran 47 yn diwygio adran 29(8) o Ddeddf 2013 i ymestyn y cyfnod pan na chaniateir i'r Comisiwn Ffiniau wneud na chyhoeddi unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â threfniadau etholiadol cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol o 9 i 12 mis.
119. Mae hefyd yn diwygio adran 37 o Ddeddf 2013 i wahardd Gweinidogion Cymru rhag arfer eu swyddogaethau o dan adran 37(1) yn y chwe mis cyn

etholiad cyffredin llywodraeth leol (sef yr etholiad i bob sedd ym mhob cyngor a gynhelir unwaith bob pum mlynedd).

#### **Adran 48 - Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau adolygiadau**

120. Mae adran 48 yn diwygio Deddf 2013 drwy fewnosod adran newydd 36B. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau neu gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol (yn ôl y digwydd) gyhoeddi datganiad sy'n pennu'r diwrnod y mae'r adolygiad yn dechrau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau neu'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol wneud pob ymdrech i gyhoeddi ei adroddiadau pellach o fewn y dyddiadau cau fel y'u pennir. Nid yw methu â chadw at yr amserlen yn annilysu'r adolygiad. Ni ddylai'r amserlen ar gyfer adolygiadau o ffiniau prif ardaloedd, siroedd wedi eu cadw a threfniadau etholiadol ar gyfer prif ardal fod yn fwy na 12 mis o ran hyd, ni ddylai'r amserlen ar gyfer adolygiadau o ffiniau atfor fod yn fwy na 18 mis o ran hyd ac ni ddylai adolygiadau o ffiniau cymunedau a threfniadau etholiadol ar gyfer cymunedau fod yn fwy na 24 mis.

#### **Adran 49 - Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau gweithredu**

121. Mae adran 49 yn diwygio adran 37 o Ddeddf 2013 drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud pob ymdrech i wneud penderfyniad ar bob argymhelliad a gânt o fewn tri mis i gael yr argymhellion. Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gyhoeddi datganiad sy'n nodi eu penderfyniad mewn cysylltiad â phob argymhelliad. Mae'r dyddiad y cyhoeddir y datganiad i'w drin fel dyddiad y penderfyniad. Nid yw methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn annilysu unrhyw orchymyn neu unrhyw benderfyniad.
122. Diwygir adrannau 38 a 39 i osod dyletswydd debyg ar y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas â'i benderfyniadau ar yr argymhellion y mae'n eu cael oddi wrth gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol mewn cysylltiad â newidiadau i ffiniau cymunedau, ac ar gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol mewn cysylltiad â threfniadau etholiadol cymunedau.

#### **Adran 50 - Cyfarwyddydau i oedi adolygiadau**

123. Mae adran 50 yn diwygio adran 48 o Ddeddf 2013 i alluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd i oedi adolygiad sy'n cael ei gynnal o dan Ran 3 o Ddeddf 2013. Ni chaiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r pŵer hwn i oedi adolygiad am gyfnod sy'n fwy na chyfanswm o 9 mis. Pan fydd adolygiad yn cael ei oedi, nid yw'r oedi i'w ystyried at ddiben cyfrifo hyd y cyfnodau o dan adran 36B(2) i (5).

#### **Adran 51 - Adolygiadau cymuned a gweithredu**

124. Mae adran 51 yn diwygio adran 22 o Ddeddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gyhoeddi adroddiad blynyddol heb

fod yn hwyrach na 1 Gorffennaf bob blwyddyn ar y modd y cyflawnodd ei swyddogaethau o dan Ran 3 o Ddeddf 2013 ac adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 mewn cysylltiad â chadw ei drefniadau cymunedol o dan adolygiad. Dylai'r adroddiad hwn egluro'r modd y cyflawnodd ei swyddogaethau i'r graddau y mae'r swyddogaethau'n ymwneud ag enwau cymunedau, newidiadau i ffiniau cymunedau, newidiadau i gynghorau cymuned a threfniadau etholiadol cymunedau yn ystod y flwyddyn. Rhaid anfon copi o'r adroddiad i'r Comisiwn Ffiniau ac at Weinidogion Cymru.

125. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 31 o Ddeddf 2013 i egluro dyletswydd cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol i gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned unwaith ym mhob cyfnod adolygu (12 mlynedd). Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio hyd y cyfnod adolygu, a'i ddyddiad dechrau.
126. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 33(3) o Ddeddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol roi sylw i ystyriaethau daearyddol arbennig, yn benodol maint, siâp a hygyrchedd ward gymunedol, wrth gynnal adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned.

### **Adran 52 - Hysbysiad o benderfyniadau ynghylch statws cymunedau fel trefi**

127. Mae adran 52 yn diwygio adran 245B o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i'w gwneud yn ofynnol i gyngor cymuned roi hysbysiad electronig o unrhyw benderfyniad y mae'n ei basio i ddod yn gyngor tref i Weinidogion Cymru, i'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol perthnasol ac i'r Comisiwn Ffiniau.

### **Adran 53 - Cyhoeddi gorchmynion o dan Ran 3 o Ddeddf 2013**

128. Mae adran 53 yn diwygio Ddeddf 2013 drwy fewnosod adran 49ZA. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol a'r Comisiwn Ffiniau gyhoeddi ar eu gwefannau gopiau o'r holl orchmynion y maent yn eu gwneud o dan Ran 3 o Ddeddf 2013 a hefyd y rhai a wneir gan gyrff eraill sy'n gallu gwneud gorchmynion o dan yr un Rhan. Yn achos yr olaf, mae'n ofynnol i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol gyhoeddi'r gorchmynion hynny sy'n berthnasol i'w hardal hwy yn unig.
129. Mae'r adran hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ba gorff datganoledig bynnag sydd wedi gwneud gorchmyn o dan Ran 3 o Ddeddf 2013 anfon copi i'r gyrff datganoledig eraill sy'n gallu gwneud gorchmynion o dan Ran 3, neu i'w hysbysu.
130. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys ond i orchmynion a wneir ar ôl i adran 49ZA ddod i rym.

#### **Adran 54 - Cyhoeddi rhestrau cyfredol o gymunedau a chynghorau cymuned**

131. Mae adran 54 yn diwygio Deddf 2013 drwy fewnosod adran 49ZB. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol gyhoeddi a chynnal ar ei wefan restr gyfredol o'r holl gymunedau a chynghorau cymuned yn ei ardal, gyda'u henwau presennol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau wneud yr un peth ar gyfer yr holl gymunedau a chynghorau cymuned yng Nghymru. O ran cymunedau a chynghorau cymuned at ddiben cyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, dylai'r rhestr ddangos yr enwau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd ni waeth a yw'r rhestr yn cael ei chyrcu drwy'r Gymraeg ynteu drwy'r Saesneg.

#### **Adran 55 - Darpariaeth drosiannol**

132. Mae adran 55 yn galluogi unrhyw adolygiad a gynhelir o dan Ran 3 o Ddeddf 2013 sy'n cael ei gynnal pan ddaw Pennod 1 i rym i gael ei gwblhau o dan y trefniadau a oedd yn gymwys pan gychwynnwyd yr adolygiad. Mae hefyd yn sicrhau bod Rhan 3 o Ddeddf 2013 a'r holl orchmynion a rheoliadau a wneir o dan y Rhan honno cyn i Bennod 1 ddod i rym yn parhau i gael effaith at ddibenion adolygiadau o'r fath.

### **PENNOD 2: CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU ETHOLEDIG**

#### **Adran 56 - Diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

133. Mae adran 56 yn diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac yn dileu o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ddarpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau ac aelodaeth y Panel.

#### **Adran 57 - Swyddogaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol**

134. Mae adran 57 yn mewnosod Rhan 5A yn Deddf 2013 sy'n nodi swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau mewn cysylltiad â thaliadau a phensiynau i aelodau o awdurdodau perthnasol yng Nghymru (fel y'u diffinnir yn adran newydd 69C(2) o Ddeddf 2013) a thaliadau i gyn-aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Rhan 5A yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

##### *Adran 69A - Swyddogaeth sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau*

135. Mae adran 69A yn nodi swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau mewn cysylltiad â thalu aelodau o awdurdod perthnasol. Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddilynol, rhaid i'r

Comisiwn Ffiniau benderfynu ar y materion perthnasol y mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol wneud taliadau i aelodau o'r awdurdod amdanynt, neu yr awdurdodir awdurdod perthnasol i wneud taliadau i aelodau o'r awdurdod amdanynt.

136. Diffinnir "materion perthnasol" yn is-adran (2) fel materion sy'n ymwneud â busnes swyddogol aelodau (fel y'i diffinnir yn adran 69A(11)) neu gyfnodau o absenoldeb teuluol y mae gan aelodau hawlogaeth i'w cael o dan Ran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
137. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau osod y swm y mae rhaid ei dalu i aelod neu'r uchafswm y gellir ei dalu i aelod. Gall y Comisiwn Ffiniau benderfynu na ellir talu taliadau i fwy na chyfran benodedig neu nifer penodedig o aelodau awdurdod perthnasol. Ni all y gyfran neu'r nifer (yn ôl y digwydd) fod yn fwy na 50% oni bai bod Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad.
138. Gall y Comisiwn Ffiniau osod canran uchaf neu gyfradd uchaf arall yr addasiad y gall awdurdod perthnasol ei gwneud, ar gyfer blwyddyn ariannol, i'r symiau a oedd ag effaith mewn cysylltiad â materion perthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol. Gellir gosod mynegrif hefyd.
139. Wrth osod swm, gwneud penderfyniad neu osod cyfradd neu fynegrif, rhaid i'r Comisiwn Ffiniau ystyried effaith ariannol debygol ei benderfyniadau ar awdurdodau perthnasol.

***Adran 69B - Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau aelodau***

140. Mae adran 69B yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau benderfynu ar y disgrifiadau o aelodau awdurdod perthnasol y mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn mewn cysylltiad â hwy. Nid yw hyn yn cynnwys aelodau cyfetholedig o awdurdodau perthnasol sy'n gymwys i fod yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Rhaid i'r Comisiwn Ffiniau hefyd benderfynu ar y materion perthnasol y mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn mewn cysylltiad â hwy.

***Adran 69C - Awdurdodau perthnasol, aelodau etc.***

141. Mae adran 69C yn diffinio termau penodol a ddefnyddir yn Rhan 5A o Ddeddf 2013, gan gynnwys "aelodau awdurdod perthnasol" ac mae hefyd yn cynnwys pŵer i bennu awdurdod perthnasol mewn rheoliadau o dan is-adran (2)(e).

***Adran 69D - Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau ailsefydlu***

142. Mae adran 69D yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau wneud penderfyniadau penodol am daliadau ailsefydlu. Mae taliad ailsefydlu yn daliad i berson sy'n peidio â bod yn aelod ar ddiwedd tymor ei swydd; a oedd, pan oedd yn ei swydd, yn aelod o awdurdod lleol (fel y'i diffinnir yn adran 72 o Ddeddf 2013) o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan

Weinidogion Cymru; sydd wedi sefyll i gael ei ailethol i fod yn aelod o'r un awdurdod; ac nad yw wedi ei ddychwelyd i'w swydd yn yr etholiad hwnnw.

143. Rhaid i'r Comisiwn Ffiniau benderfynu ar faterion megis swm y taliad ailsefydlu sydd i'w dalu, yr amodau cymhwyso i gael taliad a'r uchafswm sydd i'w dalu. Rhaid i'r Comisiwn Ffiniau ystyried yr effaith ariannol debygol ar awdurdodau lleol a rhaid iddo adolygu penderfyniadau cyn pob etholiad cyffredin llywodraeth leol gan ddechrau â'r etholiad sydd i'w gynnal ym mis Mai 2027.

***Adran 69E - Adroddiadau blynyddol ar dâl mewn perthynas ag aelodau o awdurdodau perthnasol***

144. Mae Adran 69E yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol ("tâl" yn Neddf 2013) ynghylch arfer ei swyddogaethau o dan Ran 5A heb fod yn hwyrach na 28 Chwefror yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi neu unrhyw ddyddiad diweddarach y mae'r Comisiwn Ffiniau a Gweinidogion Cymru yn cytuno arno. Rhaid i'r adroddiad nodi gwybodaeth benodol fel y'i pennir.

***Adran 69F - Adroddiadau atodol ar dâl***

145. Mae adran 69F yn galluogi'r Comisiwn Ffiniau i lunio a chyhoeddi un neu ragor o adroddiadau atodol ar gydnabyddiaeth ariannol i'w adroddiad diweddaraf ar gydnabyddiaeth ariannol. Caiff yr adroddiad atodol amrywio darpariaethau a wnaed yn yr adroddiad blynyddol hwnnw ar gydnabyddiaeth ariannol neu wneud unrhyw ddarpariaeth y gallai'r adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol fod wedi ei gwneud.

***Adran 69G - Darpariaeth bellach ynghylch adroddiadau blynyddol ar dâl ac adroddiadau atodol ar dâl***

146. Mae adran 69G yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau, cyn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol neu adroddiad atodol ar gydnabyddiaeth ariannol, anfon drafft o'r adroddiad i gyrff penodol ac at bersonau penodol a chyhoeddi'r adroddiad drafft cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei anfon. Wrth lunio adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol neu adroddiad atodol ar gydnabyddiaeth ariannol, rhaid i'r Comisiwn Ffiniau ystyried yr adroddiad blynyddol diwethaf ar gydnabyddiaeth ariannol ac unrhyw adroddiad atodol ar gydnabyddiaeth ariannol a sylwadau sydd wedi dod i law ynghylch yr adroddiadau hyn a'r adroddiadau drafft.

***Adran 69H - Cyfarwyddiadau i ailystyried adroddiadau drafft***

147. Mae adran 69H yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau i ailystyried darpariaeth mewn adroddiad drafft blynyddol neu adroddiad drafft atodol ar gydnabyddiaeth ariannol. Mae'n nodi'r wybodaeth y mae rhaid ei phennu mewn cyfarwyddyd, gan gynnwys y

rheswm dros roi'r cyfarwyddyd a dyddiad penodedig ar gyfer ymateb. Nid oes rhwymedigaeth ar y Comisiwn Ffiniau i amrywio'r adroddiad drafft ond rhaid iddo ymateb a chynnwys ei resymeg os yw'n penderfynu peidio ag amrywio'r adroddiad drafft.

***Adran 69I - Dyletswyddau'r Comisiwn o ran cyhoeddi a hysbysu mewn perthynas ag adroddiadau***

148. Mae adran 69I yn nodi dyletswyddau mewn cysylltiad â chyhoeddi'r adroddiadau blynyddol ac atodol ar gydnabyddiaeth ariannol, gan gynnwys y gofyniad bod y Comisiwn Ffiniau yn caniatáu cyfnod o wyth wythnos o leiaf ar gyfer ymgynghori ar adroddiad drafft cyn cyhoeddi adroddiad atodol ar gydnabyddiaeth ariannol a'r gofyniad bod y Comisiwn Ffiniau yn cyhoeddi adroddiadau ar ei wefan ac mewn unrhyw ffordd arall y mae'r Comisiwn Ffiniau yn ystyried ei bod yn briodol.

***Adran 69J - Gofynion gweinyddol ar gyfer awdurdodau perthnasol mewn adroddiadau***

149. Mae adran 69J yn galluogi adroddiadau blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol roi systemau gweinyddol yn eu lle er mwyn osgoi dyblygu taliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol a cheisiadau am daliad mewn cysylltiad â'r un materion perthnasol. Gall yr adroddiadau hyn hefyd gynnwys gofynion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer cadw cofnodion o daliadau a wneir o dan Ran 5A.

***Adran 69K - Gofynion cyhoeddi ar gyfer awdurdodau perthnasol mewn adroddiadau***

150. Mae adran 69K yn galluogi'r Comisiwn Ffiniau i nodi yn ei adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol wybodaeth y mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol ei chyhoeddi.

***Adran 69L - Monitro cydymffurfedd â gofynion y Comisiwn***

151. Mae adran 69L yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a nodir mewn adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol neu adroddiad atodol ar gydnabyddiaeth ariannol ac mae'n galluogi'r Comisiwn Ffiniau i fonitro gweithrediad a'r modd y rheolir y taliadau a wneir gan awdurdodau perthnasol. Gall y Comisiwn Ffiniau ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol ddarparu gwybodaeth iddo am faterion gan gynnwys materion mewn cysylltiad â thaliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol, pensiynau perthnasol, a thaliadau ailsefydlu. Rhaid i awdurdodau perthnasol gydymffurfio â chais o'r fath.

***Adran 69M - Cyfarwyddiadau i orfodi cydymffurfedd â gofynion y Comisiwn***

152. Mae adran 69M yn galluogi Gweinidogion Cymru, os ydynt wedi eu bodloni bod awdurdod wedi methu â chydymffurfio â gofyniad mewn adroddiad

blynyddol neu adroddiad atodol ar gydnabyddiaeth ariannol, i roi cyfarwyddyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gydymffurfio â'r gofyniad hwnnw. Mae'r adran yn nodi'r materion y mae rhaid eu pennu yn y cyfarwyddyd.

***Adran 69N - Aelodau sy'n dymuno ymwrthod â thaliadau***

153. Mae adran 69N yn galluogi person i ildio ei hawlogaeth i gael taliadau, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol fel y penderfynir gan y person hwnnw. Gan ei bod yn ofynnol i awdurdodau wneud taliadau penodol i aelodau, mae adran 69N(2) yn galluogi awdurdodau i beidio â thalu lwfansau mewn amgylchiadau pan fo aelod wedi dewis ymwrthod â thaliad drwy hysbysiad ysgrifenedig.

***Adran 69O - Cadw taliadau yn ôl***

154. Mae adran 69O yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol gadw yn ôl daliadau i berson:
- a) sydd wedi ei atal dros dro (neu wedi ei atal dros dro yn rhannol) rhag bod yn aelod yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu
  - b) sydd wedi ei rwystro rhag gweithredu fel aelod o awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 80A(6) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.
155. Mae'r adran hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddydau i awdurdodau perthnasol (ar ôl ymgynghori â'r Comisiwn Ffiniau) i gadw taliadau yn ôl mewn cysylltiad â'r materion perthnasol a bennir yn y cyfarwyddyd neu i beidio â gwneud taliad ailsefydlu.
156. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi awdurdodau perthnasol i'w gwneud yn ofynnol i berson wneud ad-daliadau mewn amgylchiadau penodol ac mae'n galluogi awdurdodau lleol i adennill taliadau mewn amgylchiadau penodol.

***Adran 69P - Canllawiau***

157. Mae adran 69P yn galluogi'r Comisiwn Ffiniau i ddyroddi canllawiau i awdurdodau perthnasol ynghylch sut i gydymffurfio â gofynion o dan Ran 5A. Mae hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r Comisiwn Ffiniau ynghylch ei swyddogaethau o dan y Rhan honno. Mae'n ofynnol i awdurdodau perthnasol neu'r Comisiwn Ffiniau, yn ôl y digwydd, roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon.

***Adran 69Q - Cyfarwyddiadau o dan y Rhan hon***

158. Mae adran 69Q yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud cais am orchymyn llys i orfodi cyfarwyddydau a wneir o dan adrannau 69M a 69O ac yn nodi nad yw'r pŵer i ddyroddi cyfarwyddydau o dan y Rhan hon yn cyfyngu ar



bŵer cyffredinol Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn Ffiniau o dan adran 14 o Ddeddf 2013.

#### **Adran 69R - Pŵer i addasu darpariaeth**

159. Mae adran 69R yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu Rhan 5A o Ddeddf 2013 drwy reoliadau.

#### **Adran 58 - Trosglwyddo eiddo, hawliau ac atebolrwyddau**

160. Mae'r adran hon yn darparu bod yr holl eiddo a ddelir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn union cyn ei ddiddymu, a holl hawliau ac atebolrwyddau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n bodoli yn union cyn ei ddiddymu, yn trosglwyddo i'r Comisiwn Ffiniau.

#### **Adran 59 - Mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol**

161. Mae'r adran hon yn cyflwyno Rhan 4 o Atodlen 1, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ganlyniadol ar adrannau 56 i 58 o'r Ddeddf.

#### **Adran 60 - Arbedion**

162. Mae adran 60 yn arbed effaith y darpariaethau a ddiddymir gan adran 56 at ddibenion y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac eithrio'r cyfeiriadau at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, y dylid eu dehongli fel pe baent yn gyfeiriadau at y Comisiwn Ffiniau.

### **PENNOD 1: ANGHYMHWYSO A DYLANWAD AMHRIODOL**

#### **Adran 61 - Anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd ac yn gynghorydd cymuned**

163. Mae adran 61 yn diwygio adran 16(1) o DLIC 2006, sy'n pennu'r personau sydd wedi eu hanghymhwysu rhag dod yn Aelod o'r Senedd neu barhau i fod yn Aelod o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd). Mae hefyd yn diddymu adrannau 17B, 17E a 17F o DLIC 2006 sy'n darparu ar gyfer eithriadau cyfyngedig penodol rhag anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd yn rhinwedd bod yn aelod o gyrff etholedig eraill, ac yn diwygio adran 17D o DLIC 2006.
164. Mae adran 16(1)(za) o DLIC 2006 yn darparu bod person wedi ei anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd os yw'r person yn aelod o Dŷ'r Cyffredin. Mae adran 17B o DLIC 2006 yn darparu eithriad rhag anghymhwysu ar gyfer Aelod o'r Senedd a ddychwelir fel aelod o Dŷ'r Cyffredin o fewn 372 o ddiwrnodau i ddiwrnod disgwylidig yr etholiad cyffredinol nesaf ar gyfer Aelodau'r Senedd. Mae adran 61(3) yn dileu adran 17B fel nad yw'r eithriad yn gymwys mwyach.

165. Mae adran 16(1)(zc) o DLIC 2006 yn darparu bod person wedi ei anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd os yw'r person yn aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru. Mae adran 61(2)(b) yn ymestyn y ddarpariaeth anghymhwysu hon i berson sy'n aelod o gyngor cymuned yng Nghymru, er mwyn cysoni'r trefniadau ar gyfer cynghorwyr cymuned (gan gynnwys cynghorwyr tref) yng Nghymru â'r gyfundrefn anghymhwysu ar gyfer cynghorwyr prif gynghorau yng Nghymru.
166. Mae adran 17D o DLIC 2006 yn darparu ar gyfer eithriad rhag anghymhwysu ar gyfer aelodau sydd newydd eu hethol, am gyfnod penodol. Nid yw person a ddychwelir fel Aelod mewn etholiad i'r Senedd wedi ei anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd yn rhinwedd bod yn aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru nes i'r person hwnnw honni ei fod yn tyngu'r llw teyrngarwch (neu'r cadarnhad cyfatebol) o dan DLIC 2006. Hefyd, nid yw Aelod o'r Senedd a ddychwelir fel aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru wedi ei anghymhwysu rhag bod yn Aelod o'r Senedd nes i'r person hwnnw wneud datganiad derbyn o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae adran 61(4) yn diwygio adran 17D fel bod y darpariaethau hyn hefyd yn gymwys pan fo'r person yn aelod o gyngor cymuned yng Nghymru, neu'n cael ei ddychwelyd fel aelod o gyngor o'r fath.
167. Mae adran 17E o DLIC 2006 yn darparu ar gyfer eithriad â therfyn amser rhag anghymhwysu os dychwelir aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru fel Aelod o'r Senedd; ac mae diwrnod disgwylidig etholiad cyffredin nesaf aelodau'r cyngor o fewn 372 o ddiwrnodau i'r diwrnod dychwelyd. Mae adran 61(5) yn dileu adran 17E o DLIC 2006 fel nad yw'r eithriad yn gymwys mwyach. Mae adran 17F o DLIC 2006 yn darparu ar gyfer eithriad â therfyn amser rhag anghymhwysu os dychwelwyd Aelod o'r Senedd fel aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru ac mae diwrnod disgwylidig yr etholiad cyffredinol nesaf i'r Senedd o fewn 372 o ddiwrnodau i'r diwrnod dychwelyd. Mae adran 61(6) yn dileu adran 17F o DLIC 2006 fel nad yw'r eithriad yn gymwys mwyach. Mae adran 61(7) yn darparu y bydd y newidiadau hyn yn cymryd effaith at ddibenion etholiad i'r Senedd pan gynhelir y pŵl ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026.

**Adran 62 - Anghymhwysiad am arferion llwgr neu anghyfreithlon: etholiadau llywodraeth leol**

168. Mae adran 62 yn diwygio'r gyfraith bresennol ar anghymhwysu rhag bod yn ymgeisydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru ac yn aelod ohoni. Mae'r adran yn mewnosod is-adran (ba) yn adran 80A(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 er mwyn cau bwlch yn y gyfundrefn anghymhwysu bresennol drwy ychwanegu categori newydd o bersonau sydd wedi eu hanghymhwysu: personau na chaniateir iddynt sefyll fel ymgeisydd ar gyfer cyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon na bod yn aelod o gyngor o'r fath.

**Adran 63 - Anghymhwysiad am arferion llwgr neu anghyfreithlon: etholiadau Senedd Cymru**

169. Mae adran 63 yn diwygio'r gyfraith bresennol ar anghymhwysio rhag bod yn ymgeisydd ar gyfer y Senedd ac yn aelod ohoni. Mae'r adran yn mewnosod paragraff (5A) yn Atodlen 1A i DLIC 2006 er mwyn cau bwloch yn y gyfundrefn anghymhwysio bresennol drwy ychwanegu categori newydd o bersonau sydd wedi eu hanghymhwysio: personau na chaniateir iddynt sefyll fel ymgeisydd ar gyfer cyngor dosbarth yng Ngogledd Iwerddon na bod yn aelod o gyngor o'r fath.

#### **Adran 64 - Anghymhwysiad rhag bod yn aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd: y drosedd o ddichell**

170. Mae adran 64 yn diwygio Atodlen 1A i DLIC 2006 (anghymhwysiad rhag bod yn Aelod o'r Senedd neu'n ymgeisydd mewn etholiad i fod yn Aelod o'r Senedd) drwy fewnosod paragraff 8 yn yr Atodlen honno. Mae'r paragraff hwn yn creu categori newydd o bersonau sydd wedi eu hanghymhwysio: personau sydd wedi eu heuogfarnu o'r drosedd o ddichell. Mae'r anghymhwysiad wedi ei gyfyngu i gyfnod o 4 blynedd o ddyddiad yr euogfarn. Mae'r paragraff hwn hefyd yn creu'r drosedd o ddichell, y mae euogfarn am y drosedd honno yn sbarduno'r anghymhwysiad.
171. Mae is-baragraff 8(2) yn darparu bod trosedd wedi ei chyflawni os yw person (a ddiffinnir yn is-baragraff 8(3) fel person sy'n gweithredu yn rhinwedd y ffaith ei fod yn Aelod o'r Senedd, neu'n ymgeisydd i ddod yn Aelod o'r Senedd), yn fwriadol a chyda'r bwriad i gamarwain, yn gwneud datganiad, yn ei gyhoeddi, neu'n achosi neu'n caniatáu iddo gael ei gyhoeddi ar ei ran, sy'n honni bod yn ddatganiad o ffaith, y mae'r person yn gwybod ei fod yn anwir neu'n ddichellgar o ran manylyn perthnasol.
172. Mae is-baragraff 8(4) yn darparu ar gyfer tri amddiffyniad penodol i'r drosedd.
173. Rhaid cychwyn achos am y drosedd o fewn chwe mis i'r dyddiad y gwnaed y datganiad neu y'i cyhoeddwyd, ac ni chaiff unrhyw unigolyn preifat nac unrhyw endid preifat (fel y'i diffinnir yn is-baragraff (11)) weithredu fel erlynydd.
174. Mae is-baragraff (7) yn bŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ychwanegu, dileu neu addasu darpariaethau, ac fel arall i ddiwygio unrhyw ddeddfiad at ddibenion y darpariaethau ynghylch y drosedd o ddichell, neu mewn cysylltiad â'r darpariaethau hynny. Mae rheoliadau a wneir o dan yr is-baragraff hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

#### **Adran 65 - Dylanwad amhriodol**

175. Mae adran 114A o Ddeddf 1983 yn nodi'r rhestr o weithgareddau a all fod yn gyfystyr â'r arfer llwgr o ddylanwad amhriodol.
176. Mae adran 65(2) yn diwygio adran 114A o Ddeddf 1983 fel bod y disgrifiad o'r arfer llwgr o ddylanwad amhriodol sy'n gymwys ar hyn o bryd mewn

etholiadau llywodraeth leol yn Lloegr ac yn etholiadau Senedd y DU hefyd yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Mae adran 64(3) yn hepgor cyfeiriadau at Gymru o adran 115 fel nad yw'r disgrifiad o'r arfer llwgr o ddylanwad amhriodol a nodir yn adran 115 o Ddeddf 1983 yn gymwys mwyach i etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

#### **PENNOD 4: COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

##### **Adran 66 - Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru: personau na chaniateir iddynt fod yn aelodau etc.**

177. Mae adran 66 yn diwygio Deddf 2013 drwy ychwanegu at y rhestr o'r rhai sydd wedi eu heithrio rhag bod yn gomisiynwyr neu'n gomisiynwyr cynorthwyol i'r Comisiwn Ffiniau, neu'n Brif Weithredwr y Comisiwn Ffiniau, er mwyn sicrhau didueddrwydd oherwydd y swyddogaethau newydd sydd wedi eu darparu i'r Comisiwn Ffiniau. Y rhai sydd wedi eu hychwanegu at y rhestr yw aelodau o staff awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru, aelodau neu aelodau o staff cyd-bwyllgor corfforedig, ac aelodau neu aelodau o staff awdurdod tân ac achub. Mae'r diwygiad hefyd yn ei gwneud yn glir bod staff awdurdod lleol wedi eu heithrio.

##### **Adran 67 - Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru: pwyllgor llywodraethu ac archwilio**

178. Mae adran 67 yn diwygio adran 17 o Ddeddf 2013 i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Ffiniau sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio. Mae hefyd yn rhoi swyddogaethau adolygu ac asesu ychwanegol i'r pwyllgor mewn perthynas â threfniadau archwilio mewnol ac allanol y Comisiwn Ffiniau, sut y mae'n ymdrin â chwynion, ac adolygu datganiadau ariannol ac adroddiadau. Gwneir darpariaeth hefyd sy'n galluogi'r Comisiwn Ffiniau i roi swyddogaethau addas pellach i'r pwyllgor. At hynny, mae'r adran yn diwygio adran 18 o Ddeddf 2013 i bennu uchafswm nifer yr aelodau o'r pwyllgor ac isafswm nifer yr aelodau lleyg o'r pwyllgor, ac i ddarparu bod rhaid i gadeirydd y pwyllgor a'r dirprwy i'r cadeirydd ill dau fod yn aelodau lleyg o'r pwyllgor.

##### **Adran 68 - Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru: pŵer i godi tâl**

179. Mae adran 68 yn diwygio Deddf 2013 i fewnosod adran 11A, sy'n darparu pŵer i'r Comisiwn Ffiniau i godi tâl ar y sawl sy'n cael nwyddau neu hyfforddiant a ddarperir gan y Comisiwn Ffiniau mewn perthynas â'i swyddogaethau gweinyddu etholiadol, neu'r rhai sy'n ymwneud â swyddogaethau prif gyngor o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, pan fo'r derbynnydd wedi cytuno i gael y nwyddau neu'r hyfforddiant. Er enghraifft, gall y Comisiwn Ffiniau ddarparu sesiynau hyfforddi dewisol i'r gymuned etholiadol, y gallai osod tâl amdanynt ar fynychwyr er mwyn adennill y gost o ddarparu'r hyfforddiant.

### **Rhan 3 – DARPARIAETH GYFFREDINOL**

#### **Adran 69 - Rheoliadau: cyfyngiadau**

180. Mae rhai o bwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y Bil yn awdurdodi darpariaeth sy'n rhoi swyddogaethau i bersonau a darpariaeth i ddileu neu addasu swyddogaethau presennol, yn ddarostyngedig i hyd a lled y pwerau penodol (er enghraifft, y pŵer i wneud rheoliadau peilot o dan adran 5 a'r pŵer i ddarparu ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol o dan adran 28). Mae cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru yn ddarostyngedig i gyfyngiadau yn Atodlen 7B i DLIC 2006, gan olygu y gall cydsyniad gweinidogion llywodraeth y DU, neu ymgynghori â hwy, fod yn ofynnol ar gyfer darpariaethau yn un o Ddeddfau'r Senedd sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdodau cyhoeddus nad ydynt yn awdurdodau datganoledig Cymreig, neu ddarpariaethau sy'n dileu neu'n addasu swyddogaethau awdurdodau o'r fath.
181. Mae adran 69 yn darparu na chaiff y rheoliadau o dan y Bil gynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y Gweinidog priodol o dan baragraff 8(1)(a) neu (c), 10 neu 11 o Atodlen 7B i DLIC 2006 pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru; ac na chaiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog priodol o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B i'r Ddeddf honno pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

#### **Adran 70 - Dehongli cyffredinol**

182. Mae adran 70 yn diffinio geiriau a thermau penodol a ddefnyddir yn y Bil drwyddo draw.

#### **Adran 71 - Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.**

183. Mae adran 71 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau atodol, darpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth o'r Bil. Rhaid i'r rheoliadau hynny gael eu gwneud drwy offeryn statudol a chaniateir iddynt ddiwygio, addasu, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad (sy'n cynnwys darpariaeth yn Neddfau Senedd y DU, Deddfau neu Fesurau'r Senedd ac mewn is-ddeddfwriaeth).
184. Byddai angen i reoliadau o dan yr adran hon sy'n diwygio Deddfau Senedd y DU neu Ddeddfau neu Fesurau Senedd Cymru gael eu cymeradwyo gan Senedd Cymru. Mae rheoliadau eraill a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol yn y Senedd.

#### **Adran 72 - Dod i rym**

185. Mae adran 72 yn nodi pryd neu sut y bydd darpariaethau'r Bil yn dod i rym.
186. Byddai'r darpariaethau a ganlyn yn dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol (gweler is-adran (1)):
- y darpariaethau ynghylch peilota a diwygio etholiadau Cymreig (ym Mhennod 3 o Ran 1),
  - anghymhwysu cynghorwyr cymuned rhag bod yn Aelod o'r Senedd (adran 61),
  - Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru: personau na chaniateir iddynt fod yn aelodau etc. (adran 66), a
  - Rhan 3 o'r Bil.
187. Bydd darpariaethau ynghylch adolygiadau o ffiniau a threfniadau etholiadol llywodraeth leol (Pennod 1 o Ran 2), cynnal arolwg o gynghorwyr ac ymgeiswyr aflwyddiannus mewn etholiadau llywodraeth leol (adran 25), y canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig (adran 30), a'r darpariaethau ynghylch anghymhwysiad am arferion llwgr neu anghyfreithlon (adrannau 62 a 63) yn dod i rym ddau fis ar ôl i'r Bil gael y Cydsyniad Brenhinol (gweler is-adran (2)).
188. Caniateir i ddarpariaethau eraill y Bil gael eu dwyn i rym ar ddiwrnodau a bennir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru (gweler is-adran (3)). Caiff y gorchymynion sy'n dwyn darpariaethau i rym bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol a gwneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed (gweler is-adran (4)). Rhaid i orchymynion o'r fath gael eu gwneud drwy offeryn statudol, ond nid yw unrhyw weithdrefn gan y Senedd yn gymwys i'w gwneud.

### **Adran 73 – Enw byr**

189. Mae adran 73 yn darparu mai enw byr y Bil yw Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

## Atodiad 2

### Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

Rheol sefydlog		Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6(i)	Datgan y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd	Datganiad yr Aelod	Tudalen 1
26.6(ii)	Nodi amcanion polisi y Bil	Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael	Tud 7 - 36
26.6(iii)	Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud 84 - 173
26.6(iv)	Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;  (b) manylion y Bil, a  (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau)	Pennod 4 – Ymgynghori	Tud 37-39

<b>Rheol sefydlog</b>		<b>Adran</b>	<b>tudalennau/ paragraffau</b>
26.6(v)	Nodi crynodeb o ddeiliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio	Pennod 4 – Ymgynghori	Hyperddolen o fewn paragraff 4.4, tudalen 37
26.6(vi)	Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Pennod 4 – Ymgynghori	Paragraff 4.8, tudalen 38
26.6(vii)	Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil	Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol	Tud 174-209
26.6(viii)	Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;</li> <li>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;</li> <li>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;</li> <li>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac</li> <li>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio</li> </ul>	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud 84-173
26.6(ix)	Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol	Rhan 2 – Aseiad Effaith Rheoleiddiol	Tud 84-173



Rheol sefydlog		Adran	tudalennau/ paragraffau
26.6(x)	<p>Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:</p> <p>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;</p> <p>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac</p> <p>(c) Gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);</p>	Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth	Tud 40-83
26.6(xi)	Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio	Nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i'r Bil hwn	
26.6(xii)	Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.	Dogfennau ar wahân – Asesiad Effaith Integredig ac Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder	

<b>Rheol sefydlog</b>		<b>Adran</b>	<b>tudalennau/ paragraffau</b>
26.6B	Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol.	Atodiad 3 – Tabl Tarddiadau	Tud 215-217
26.6C	Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy'n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi'n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil.	Atodiad 4 – Atodlen o Ddiwygiadau	Tud 218-431

## Atodiad 3

### Tabl Tarddiadau

Bwriedir i'r tabl isod ddarparu gwybodaeth ynghylch tarddiad y darpariaethau ym Mil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru). Nid yw'r tabl yn darparu canllawiau diffiniol na chyflawn, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Bil a'r nodiadau esboniadol ar y Bil. Er bod gofal wedi ei gymryd i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag y bo'n rhesymol ymarferol, nid yw'n honni bod yn awdurdodol, ac ni ddylid dibynnu arni fel pe bai'n awdurdodol.

#### ALLWEDD I'R BYRFODDAU

Mesur LIL 2011	Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011
A.	Adran
Aau.	Adrannau

<b>ADRAN/ PARAGRAFF</b>	<b>CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES</b>	<b>NEWID SYLWEDDOL</b>
1 - 53	Newydd	
54	Newydd	
55(1)	Newydd	
55(2)	Mae A. 69A yn deillio yn bennaf o A. 142 Mesur LIL 2011, mae hefyd yn diffinio ystyr "blwyddyn ariannol" at ddibenion yr adran hon ac A. 69D. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A.69B yn deillio'n bennaf o A.143 Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69C yn deillio'n bennaf o A.144 Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Newydd	
55(2)	Mae A. 69E yn deillio'n bennaf o Aau.145, 146 a 147 Mesur LIL 2011. Mae'r ddyletswydd ynghylch cynhyrchu adroddiad blynyddol a'i gynnwys wedi ei egluro. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes

55(2)	Mae A. 69F yn deillio'n bennaf o A. 147(5) a (6) Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69G yn deillio'n bennaf o A147(7) - (9) a (10) – (12). Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69H yn deillio'n bennaf o A. 149 Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69I yn deillio'n bennaf o A. 148(1), (1A), (2) ac A. 152(1) Mesur LIL 2011. Mae'r adran yn egluro'r dyletswyddau cyhoeddi a hysbysu, ac mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69J yn deillio'n bennaf o A. 150 Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69K yn deillio'n bennaf o A. 151 Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69L yn deillio'n bennaf o A. 153 Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69M yn deillio'n bennaf o A. 156 Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69N yn deillio'n bennaf o A. 154 Mesur LIL 2011.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69O yn deillio'n bennaf o A. 155 Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69P yn deillio'n bennaf o A. 157 Mesur LIL 2011. Eglurir rhychwant y canllawiau, ac mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(2)	Mae A. 69Q yn deillio'n bennaf o Aau. 155(4) a	Nac Oes

	156(3) Mesur LIL 2011 ac eglurir rychwant y pŵer i Weinidogion Cymru wneud cyfarwyddyd. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	
55(2)	Mae A. 69R yn deillio'n bennaf o A. 158 Mesur LIL 2011. Mae'r geiriad wedi cael ei foderneiddio.	Nac Oes
55(3)	Newydd	
55(4)	Newydd	
56	Newydd	
57	Newydd	
58	Newydd	
59 - 69	Newydd	
Atodlen 1	Newydd	

## Atodiad 4

### Atodlen o ddiwygiadau

#### Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)

##### Y DIWYGIADAU SYDD I'W GWNEUD GAN BIL ETHOLIADAU A CHYRFF ETHOLEDIG (CYMRU)

Bwriedir i'r ddogfen hon ddangos sut y byddai'r darpariaethau yn [nodwch enw'r Ddeddf] fel yr oeddent yn gymwys o ran Cymru ar [nodwch y dyddiad drafftio] yn edrych fel y'u diwygid gan [nodwch enw'r Bil] (pe bai'n cael ei ddeddfu fel y'i cyflwynwyd ar [nodwch y dyddiad cyflwyno]).

Ceir llinell drwy'r testun sydd i gael ei ddileu gan [nodwch enw'r Bil], e.e. ~~mae testun sydd wedi ei hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae testun sydd i gael ei ychwanegu gan Fil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) wedi ei danlinellu, e.e. mae testun sydd wedi ei ychwanegu yn edrych fel hyn. Rhoddir y cyfeiriadau at y darpariaethau diwygio perthnasol yn y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

Cynhwysir nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn y Ddeddf, er nad ydynt yn cael eu diwygio, er mwyn helpu i ddeall y diwygiadau arfaethedig.

#### Rhybudd

Mae'r testun hwn wedi ei lunio gan swyddogion [enw'r grŵp neu adran] Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrech wedi ei gwneud i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

At ddiben helpu pobl i ddeall effaith Bil [nodwch enw'r Bil] (Cymru) yn unig y mae'r testun wedi ei lunio. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

#### Deddfwriaeth Sylfaenol

[Deddf Llywodraeth Leol 1972](#)

[Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983](#)

[Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000](#)

[Deddf Llywodraeth Cymru 2006](#)

[Mesur Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2011](#)

[Deddf Llywodraeth Leol \(Democratiaeth\) \(Cymru\) 2013](#)

[Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) 2021](#)

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Deddf Llywodraeth Leol 1972

Adran	Diwygiwyd gan
<p>(7)Yn yr adran hon—</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyr “anabledd” (“<i>disability</i>”) yw amhariad corfforol neu feddyliol a chanddo effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau beunyddiol normal;</li> <li>• ystyr “cred” (“<i>belief</i>”) yw unrhyw gred grefyddol neu athronyddol ac mae cyfeiriad at gred yn cynnwys cyfeiriad at ddiffyg cred;</li> <li>• ystyr “crefydd” (“<i>religion</i>”) yw unrhyw grefydd ac mae cyfeiriad at grefydd yn cynnwys cyfeiriad at ddiffyg crefydd;</li> <li>• ystyr “cyfeiriadedd rhywiol” (“<i>sexual orientation</i>”) yw cyfeiriadedd rhywiol person— <ul style="list-style-type: none"> <li>(a)tuag at bersonau o'r un rhyw,</li> <li>(b)tuag at bersonau o'r rhyw arall, neu</li> <li>(c)tuag at bersonau o'r naill ryw neu'r llall;</li> </ul> </li> <li>• mae “cynghorydd” (“<i>councillor</i>”) yn cynnwys cynghorydd cymuned;</li> <li>• ystyr “hil” (“<i>race</i>”) yw lliw, cenedligrwydd neu darddiad ethnig neu genedlaethol.</li> </ul>	
<p><b>2Cwblhau arolwg a chyhoeddi gwybodaeth</b></p> <p>(1)Rhaid i awdurdod lleol gwblhau ei arolwg a darparu'r wybodaeth sy'n cael ei chrynhai ganddo i Weinidogion Cymru cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad yr etholiad cyffredin y mae'n ymwneud ag ef.</p> <p>(2)Rhaid i awdurdod lleol ddarparu'r wybodaeth ar <del>unrhyw ffurf ragnodedig neu mewn unrhyw ddull ragnodedig</del> <u>ar y ffurf neu yn y dull a gyfarwyddir gan Weinidogion Cymru.</u></p> <p>(3)Caiff awdurdod lleol gyhoeddi'r wybodaeth sy'n cael ei chrynhai gan arolwg yn y dull y mae o'r farn ei bod yn briodol ei chyhoeddi, yn ddarostyngedig i is-adran (6).</p> <p>(4)Rhaid i Weinidogion Cymru—</p> <p>(a)crynhai'r wybodaeth a gânt oddi wrth awdurdodau lleol o dan yr adran hon, a</p> <p>(b)ei chyhoeddi cyn pen deuddeng mis ar ôl dyddiad yr etholiad cyffredin y mae'n ymwneud ag ef.</p> <p>(5)Caiff Gweinidogion Cymru—</p> <p>(a)cyhoeddi gwybodaeth o dan is-adran (4)(b) yn y dull y maent o'r farn ei bod yn briodol ei chyhoeddi, yn ddarostyngedig i is-adran (6);</p>	<p>Rhan 1, Pennod 4, adran 26</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(b)rhannu unrhyw wybodaeth a ddarperir iddynt o dan is-adran (1) ag unrhyw gorff sy'n cynrychioli buddiannau cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol neu gynghorau cymuned yng Nghymru.</p> <p>(6)Nid yw unrhyw wybodaeth a geir o dan adran 1 neu'r adran hon i'w chyhoeddi na'i rhannu ar unrhyw ffurf sydd, naill ai ar ei phen ei hun neu ar y cyd ag unrhyw wybodaeth arall, yn datgelu pwy yw unrhyw unigolyn y mae'n ymwneud ag ef neu'n ei gwneud yn bosibl i'r unigolyn hwnnw gael ei adnabod.</p>	
<p><b>3Canllawiau ynghylch arolygon</b></p> <p>Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 1 a 2, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.</p> <p><b><u>3A Cyhoeddi cyfarwyddiadau ynghylch arolygon</u></b></p> <p><u>Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd a roddir o adran 1(3) or 2(2).</u></p>	<p>Rhan 1, Pennod 4, adran 26</p>
<p><del>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 141Y Panel</del></p> <p><del>(1)Bydd panel o bersonau o'r enw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn parhau.</del></p> <p><del>(2)Mae Atodlen 2 yn cael effaith mewn perthynas â'r Panel.</del></p> <p><del>Prif swyddogaethau'r Panel</del></p> <p><del>142Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau</del></p> <p><del>(1)Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012 ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddilynol, caiff y Panel benderfynu ar y materion perthnasol—</del></p> <p><del>(a)y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol wneud taliad i aelodau o'r awdurdod amdanynt;</del></p> <p><del>(b)yr awdurdodir awdurdod perthnasol i wneud taliad i aelodau o'r awdurdod amdanynt.</del></p> <p><del>(2)Dyma yw materion perthnasol—</del></p> <p><del>(a)materion sy'n ymwneud â busnes swyddogol aelodau o awdurdodau perthnasol;</del></p> <p><del>(b)cyfnodau o absenoldeb teuluol o dan Ran 2.</del></p> <p><del>(3)Wedi iddo arfer y pŵer hwnnw, rhaid i'r Panel osod un o'r canlynol ar gyfer pob mater perthnasol—</del></p>	<p>Rhan 2, Pennod 2, adran 56</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(a) y swm y mae'n rhaid i awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod;~~

~~(b) yr uchafswm y caiff awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.~~

~~(4) Ar ôl penderfynu'r materion perthnasol y ceir awdurdodi neu ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol wneud taliadau amdanynt o dan is-adran (1) a phennu'r swm neu'r uchafswm ar gyfer pob mater o dan is-adran (3), caiff y Panel benderfynu na chaniateir talu taliadau mewn cysylltiad â mater neu faterion penodol i fwy na chyfran benodedig [F2 neu nifer penodedig] o'r aelodau o awdurdod.~~

~~(5) Ni chaiff y gyfran a bennir gan y Panel yn unol ag is-adran (4) fod yn fwy na hanner cant y cant oni fydd cydsyniad Gweinidogion Cymru wedi ei sicrhau.~~

~~[F3(5A) Ni chaiff y nifer a bennir gan y Panel yn unol ag is-adran (4), a fynegir fel cyfran o gyfanswm aelodau awdurdod, fod yn uwch na phum deg y cant oni chafwyd cydsyniad Gweinidogion Cymru.]~~

~~(6) Caiff y Panel osod—~~

~~(a) y ganran uchaf neu'r gyfradd uchaf arall y bydd gan awdurdod perthnasol hawl i'w defnyddio i addasu, ar gyfer blwyddyn ariannol, y symiau a oedd ag iddynt effaith ar gyfer y materion perthnasol yn y flwyddyn ariannol flaenorol;~~

~~(b) mynegrif y bydd gan awdurdod perthnasol hawl i'w ddefnyddio i addasu, ar gyfer blwyddyn ariannol, y symiau a oedd ag iddynt effaith ar gyfer y materion perthnasol hynny yn y flwyddyn ariannol flaenorol ag y bydd y Panel yn penderfynu.~~

~~(7) Caniateir arfer y pwerau o dan is-adran (6) er mwyn—~~

~~(a) gosod cyfradd a mynegrif mewn perthynas â'r un mater;~~

~~(b) gosod cyfraddau neu fynegrifau gwahanol mewn perthynas â materion gwahanol.~~

~~(8) Wrth osod swm o dan is-adran (3), gwneud penderfyniad o dan is-adran (4) neu osod cyfradd neu fynegrif o dan is-adran (6), rhaid i'r Panel ystyried beth yn ei farn ef fydd effaith ariannol debygol gwneud hynny ar awdurdodau perthnasol.~~

~~(9) Caiff y Panel wneud penderfyniadau gwahanol o dan is-adran (1), gosod symiau gwahanol o dan is-adran (3), gwneud penderfyniadau gwahanol o dan is-adran (4) neu osod cyfraddau neu fynegrifau gwahanol o dan is-adran (6) mewn perthynas ag awdurdodau o~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~ddisgrifiadau gwahanol neu awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad.~~

~~(10)At ddibenion is-adran (2) mae mater yn ymwneud â busnes swyddogol aelod o awdurdod perthnasol os yw'n fater y mae aelod yn ymgymryd ag ef—~~

~~(a)fel aelod o awdurdod perthnasol, neu~~

~~(b)fel aelod o gorff y penodir yr aelod yn aelod ohono gan yr awdurdod perthnasol neu gan grŵp o gyrff sy'n cynnwys yr awdurdod perthnasol, neu yn sgil cael ei enwebu gan yr awdurdod perthnasol neu gan grŵp o gyrff sy'n cynnwys yr awdurdod perthnasol.~~

~~143Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau aelodau~~

~~(1)Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag aelodau o awdurdodau perthnasol—~~

~~(a)nad ydynt yn aelodau cyfetholedig, a~~

~~(b)a chanddynt am y tro hawl i fod yn aelodau o gynllun pensiwn yn unol â rheoliadau o dan adran 7 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (cynlluniau pensiwn llywodraeth leol).~~

~~(2)Caiff y Panel benderfynu ar y disgrifiadau o aelodau y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn ("pensiwn perthnasol") iddynt neu mewn cysylltiad â hwy.~~

~~(3)Caiff y Panel benderfynu ar y materion perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn perthnasol mewn cysylltiad â hwy.~~

~~(4)Caiff y Panel wneud penderfyniadau gwahanol mewn perthynas ag awdurdodau o ddisgrifiadau gwahanol neu awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad.~~

~~143A[F4]Swyddogaethau sy'n ymwneud â chydabyddiaeth ariannol prif weithredwyr]~~

~~(1)Caiff y Panel wneud argymhellion i awdurdod perthnasol cymwys am—~~

~~(a)unrhyw bolisi yn natganiad yr awdurdod ar bolisiau tâl sy'n ymwneud â [F5]chydnabyddiaeth ariannol] [F6]prif weithredwr] yr awdurdod;~~

~~(b)unrhyw newid arfaethedig i [F5]gydnabyddiaeth ariannol] [F7]prif weithredwr] yr awdurdod.~~

~~(2)Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys roi sylw i unrhyw argymhelliad a gaiff oddi wrth y Panel wrth idde gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 38 neu 39 o [Ddeddf Lleoliaeth 2011 \(p.20\)](#).~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(3) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys, cyn iddo newid [F8cydnabyddiaeth ariannol] [F9ei brif weithredwr] mewn modd nad yw'n gymesur â newid i [F10gydnabyddiaeth ariannol] staff arall yr awdurdod—~~

~~(a) ymgynghori â'r Panel am y newid arfaethedig, a~~

~~(b) rhoi sylw i unrhyw argymhelliad a gaiff oddi wrth y Panel wrth iddo benderfynu p'un ai i fynd rhagddo i wneud y newid ai peidio.~~

~~[F11(3A) Ond caiff awdurdod perthnasol cymwys sydd wedi ymgynghori â'r Panel ynghylch gostyngiad arfaethedig mewn [F12cydnabyddiaeth ariannol] wneud y gostyngiad cyn derbyn argymhelliad gan y Panel os nad yw'r contract y mae'r [F12cydnabyddiaeth ariannol] yn [F13cael ei darparu] oddi tano yn atal yr awdurdod rhag newid y [F12cydnabyddiaeth ariannol] ar ôl derbyn argymhelliad.~~

~~(3B) Pan fo awdurdod perthnasol cymwys yn newid [F14cydnabyddiaeth ariannol] ei [F15brif weithredwr] yn unol ag is-adran (3A) ac yn derbyn argymhelliad gan y Panel ynghylch y newid wedi hynny—~~

~~(a) rhaid iddo ailystyried y [F14cydnabyddiaeth ariannol], a~~

~~(b) wrth wneud hynny, rhaid iddo roi sylw i'r argymhelliad.]~~

~~(4) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys roi unrhyw wybodaeth i'r Panel y mae'n rhesymol i'r Panel ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei rhoi iddo mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.~~

~~[F16(4A) Rhaid i'r Panel hysbysu Gweinidogion Cymru am bob argymhelliad y mae'n ei wneud o dan yr adran hon.]~~

~~(5) Caiff y Panel gyhoeddi unrhyw argymhellion y mae yn eu gwneud o dan yr adran hon.~~

~~[F17(5A) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys—~~

~~(a) hysbysu'r Panel a Gweinidogion Cymru am ei ymateb i argymhelliad a wnaed gan y Panel ynghylch newid i [F18gydnabyddiaeth ariannol] ei [F19brif weithredwr] cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod yn penderfynu ar yr ymateb, a~~

~~(b) peidio â newid y [F18cydnabyddiaeth ariannol] cyn—~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(i) diwedd y cyfnod o wyth wythnos sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r awdurdod yn hysbysu Gweinidogion Cymru o dan baragraff (a), neu</p> <p>(ii) os yw Gweinidogion Cymru, cyn diwedd y cyfnod hwnnw, yn hysbysu'r awdurdod na fyddant yn rhoi cyfarwyddyd i'r awdurdod o dan is-adran (5B), y diwrnod y derbynnir yr hysbysiad hwnnw.</p> <p>(5B) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod ymateb awdurdod perthnasol cymwys i argymhelliad a wnaed gan y Panel ynghylch newid i <b>[F20]</b> gydnabyddiaeth ariannol yn golygu y bydd yr awdurdod yn <b>[F21]</b> darparu (neu, o dan is-adran (3A), ei fod yn <b>[F21]</b> darparu) <b>[F20]</b> cydnabyddiaeth ariannol sy'n anghyson â'r argymhelliad, caiff Gweinidogion Cymru—</p> <p>(a) cyfarwyddo'r awdurdod i ailystyried y <b>[F20]</b> cydnabyddiaeth ariannol, a</p> <p>(b) pennu yn y cyfarwyddyd erbyn pryd y mae'n rhaid i'r awdurdod wneud hynny.]</p> <p><b>[F22]</b> (5C) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (5B) i awdurdod perthnasol cymwys—</p> <p>(a) nid yw'r swyddogaeth o ailystyried y gydnabyddiaeth ariannol i fod yn gyfrifoldeb i weithrediaeth yr awdurdod o dan drefniadau gweithrediaeth (o fewn ystyr adran 10 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000);</p> <p>(b) mae maer etholedig (o fewn ystyr adran 39(1) o'r Ddeddf honno) i'w drin fel pe bai'n aelod o'r awdurdod at ddibenion y swyddogaeth honno, ac</p> <p>(c) nid yw adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i'r swyddogaeth honno.]</p> <p>(6) Rhaid i'r Panel roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.</p> <p>(7) Yn yr adran hon—</p> <p>(d) ystyr "awdurdod perthnasol cymwys" ("qualifying relevant authority") yw awdurdod perthnasol (yn ystyr y Rhan hon) y mae'n ofynnol iddo lunio datganiad ar bolisiau tâl;</p> <p>(e) <b>[F23]</b> "mae i "cydnabyddiaeth ariannol" yr ystyr a roddir i</p>	
---	--



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><del>“remuneration” yn adran 43 o Ddeddf Lleoliaeth 2011;]</del></p> <p><del>(f) <b>F24</b>...</del></p> <p><del>(g) ystyr “datganiad ar bolisiau tâl” (“pay policy statement”) yw datganiad ar bolisiau tâl a lunnir gan awdurdod perthnasol (yn ystyr adran 43(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011) o dan adran 38 o'r Ddeddf honno;</del></p> <p><del>(h) <b>F25</b>“ystyr “prif weithredwr” (“chief executive”) yw prif weithredwr a benodir o dan adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;]</del></p> <p><del>(i) <b>F26</b>...</del></p> <p><del>144Awdurdodau perthnasol, aelodau etc.</del></p> <p><del>(1)Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Rhan hon.</del></p> <p><del>(2)Mae awdurdod yn “awdurdod perthnasol” os daw o fewn un o'r disgrifiadau a ganlyn—</del></p> <p><del>(a)awdurdod lleol;</del></p> <p><del>(b)cyngor cymuned;</del></p> <p><del>(c)awdurdod Parc Cenedlaethol (a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995) ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;</del></p> <p><del>(d)awdurdod tân ac achub Cymreig, sef awdurdod yng Nghymru a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.</del></p> <p><del><b>F27</b>(da).....</del></p> <p><del><b>F28</b>(db)cyd-bwyllgor corfforedig;]</del></p> <p><del><b>F29</b>(e)corff a bennir yn awdurdod perthnasol mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.]</del></p> <p><del>(3)Mae cyfeiriad at ddisgrifiad o awdurdod perthnasol i'w ddarllen gydag is-adran (2).</del></p> <p><del>(4)Mae “aelod”, mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yn cynnwys—</del></p> <p><del>(a)maer etholedig i'r awdurdod (o fewn ystyr 39(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000);</del></p> <p><del>(b)aelod gweithrediaeth etholedig o'r awdurdod (o fewn ystyr adran 39(4) o'r Ddeddf honno), <b>F30</b>...</del></p>	
---	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(c)aelod cyfetholedig o'r awdurdod. [F31, a~~

~~(d)person sy'n aelod o is-bwyllgor i gyd-bwyllgor corfforedig a chanddo hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan yr is-bwyllgor hwnnw;]~~

~~(5)Ystyr "aelod cyfetholedig", mewn perthynas ag awdurdod perthnasol [F32]heblaw cyd-bwyllgor corfforedig], yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod (ac eithrio yn rhinwedd is-adran (4)) ond—~~

~~(a)sy'n aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod neu sy'n aelod o gyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor i'r awdurdod ac sy'n cynrychioli'r awdurdod ar y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor hwnnw, a~~

~~(b)a chanddo hawl i bleidleisio ar gwestiynau sydd i'w benderfynu yng nghyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.~~

~~[F33(6)Ni chaniateir i gorff gael ei bennu yn awdurdod perthnasol oni bai—~~

~~(a)bod Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef,~~

~~(b)ei fod yn arfer swyddogaethau perthnasol, ac~~

~~(c)bod ei aelodaeth yn cynnwys o leiaf un aelod o awdurdod a ddisgrifir yn is-adran (2)(a) i (d).~~

~~(7)"Swyddogaeth berthnasol" yw—~~

~~(a)swyddogaeth a roddir gan un o Ddeddfau neu Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu~~

~~(b)swyddogaeth y gellid ei rhoi gan un o Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.~~

~~(8)Nid yw adrannau 142(4), 143, 147(3)(b) a 155 yn gymwys mewn perthynas â'r awdurdod perthnasol a ddisgrifir yn is-adran [F34(2)(db) neu (e)].]~~

#### ~~[F4Adroddiadau gan y Panel~~

##### ~~145Adroddiadau blynyddol~~

~~(1)Rhaid i'r Panel gyhoeddi adroddiad ("adroddiad blynyddol") am arfer ei swyddogaethau mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol.~~

~~(2)Caiff adroddiad blynyddol osod gofynion (gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, ofynion i wneud taliadau) ar awdurdodau perthnasol.~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~146~~Yr adroddiad blynyddol cyntaf

~~(1)Y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2012 yw'r flwyddyn ariannol gyntaf y mae'n rhaid i'r Panel gyhoeddi adroddiad blynyddol arni o dan adran 145.~~

~~(2)Rhaid cyhoeddi'r adroddiad ar y flwyddyn ariannol honno ("yr adroddiad blynyddol cyntaf") heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2011.~~

~~(3)Rhaid i'r adroddiad blynyddol cyntaf nodi—~~

~~(a)y materion perthnasol,~~

~~(b)y symiau a osodwyd o dan adran 142(3),~~

~~(c)y gyfran a benderfynwyd o dan adran 142(4),~~

~~(d)yr aelodau o awdurdodau perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdodau perthnasol dalu pensiwn perthnasol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy, a~~

~~(e)y materion perthnasol y mae pensiwn perthnasol yn daladwy mewn cysylltiad â hwy.~~

~~(4)Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol cyntaf ond cyn cyhoeddi'r ail adroddiad blynyddol, caiff y Panel gyhoeddi un neu ragor o adroddiadau atodol.~~

~~(5)Caiff adroddiad atodol o dan yr adran hon amrywio'r ddarpariaeth a wnaed yn yr adroddiad blynyddol cyntaf at ddibenion is adran (3)(a), (b), (c), (d) neu (e).~~

~~(6)Wrth lunio adroddiad atodol o dan yr adran hon, rhaid i'r Panel ystyried—~~

~~(a)yr adroddiad ariannol cyntaf ac unrhyw adroddiadau atodol sy'n ymwneud ag ef, a~~

~~(b)y sylwadau a gafodd y Panel am yr adroddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a).~~

~~(7)Cyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol cyntaf neu adroddiad atodol o dan yr adran hon, rhaid i'r Panel—~~

~~(a)anfon drafft at~~

~~(i)Weinidogion Cymru,~~

~~(ii)yr awdurdodau perthnasol hynny y mae'r Panel wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt neu wedi eu hawdurdodi i wneud taliadau i'w haelodau mewn cysylltiad â materion perthnasol, ac~~

~~(iii)unrhyw bersonau eraill y mae'r Panel o'r farn eu bod yn briodol,~~

~~a,~~

~~(b)ystyried y sylwadau y mae'n eu cael ar y drafft.~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(8) Daw darpariaethau'r adroddiad blynyddol cyntaf neu adroddiad atodol o dan yr adran hon i rym ar y dyddiad a bennir at y diben hwnnw yn yr adroddiad; ond ni chaiff yr adroddiad bennu dyddiad cynharach na diwrnod olaf y cyfnod o dri mis yn dechrau drannoeth y dyddiad cyhoeddi.~~

~~147 Adroddiadau blynyddol dilynol~~

~~(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag adroddiadau blynyddol ar ôl yr adroddiad blynyddol cyntaf.~~

~~(2) Rhaid cyhoeddi adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach nag—~~

~~(a) [F3528 Chwefror] yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, neu~~

~~(b) unrhyw ddyddiad diweddarach y mae'r Panel a Gweinidogion Cymru yn cytuno arno.~~

~~(3) Rhaid i adroddiad blynyddol nodi—~~

~~(a) drwy gyfeirio at y swm sydd ag iddo effaith ar gyfer pob mater perthnasol, unrhyw gyfradd neu fynegrif fel y'i gosodir o dan adran 142(6), a~~

~~(b) y disgrifiadau o aelodau o awdurdodau perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdodau perthnasol dalu pensiwn perthnasol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy.~~

~~(4) Caiff adroddiad blynyddol amrywio'r ddarpariaeth a wneir yn yr adroddiad blynyddol cyntaf at ddibenion adran 146(3)(a), (b), (c), (d) neu (e) [F36 (gan gynnwys drwy bennu nifer o dan adran 142(4))].~~

~~(5) Ar ôl cyhoeddi adroddiad blynyddol ond cyn cyhoeddi'r adroddiad blynyddol nesaf, caiff y Panel gyhoeddi un neu ragor o adroddiadau atodol.~~

~~(6) Caiff adroddiad atodol o dan yr adran hon—~~

~~(a) amrywio'r ddarpariaeth a wnaed yn yr adroddiad blynyddol y mae'r adroddiad atodol yn ymwneud ag ef at ddibenion is-adran (3)(a) neu (b) (a chaiff wneud darpariaeth at y dibenion hynny i'r graddau nad yw'r adroddiad blynyddol yn ei gwneud);~~

~~(b) amrywio'r ddarpariaeth a wnaed yn yr adroddiad blynyddol cyntaf at ddibenion adran 146(3)(a), (b), (c), (d) neu (e) (neu'r ddarpariaeth honno fel y'i hamrywiwyd yn rhinwedd is-adran (4)).~~

~~(7) Wrth lunio adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol o dan yr adran hon, rhaid i'r Panel ystyried—~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(a) yr adroddiad blynyddol blaenorol ac unrhyw adroddiadau atodol sy'n ymwneud ag ef;~~

~~(b) y sylwadau a gafodd y Panel am yr adroddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a).~~

~~(8) Cyn cyhoeddi adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol o dan yr adran hon, rhaid i'r Panel—~~

~~(a) anfon drafft at~~

~~(i) Weinidogion Cymru,~~

~~(ii) yr awdurdodau perthnasol hynny y mae'r Panel wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt neu wedi eu hawdurdodi i wneud taliadau i'w haeoldau mewn cysylltiad â materion perthnasol, ac~~

~~(iii) unrhyw bersonau eraill y mae'r Panel o'r farn ei bod yn briodol anfon drafft atynt,~~

~~a,~~

~~(b) ystyried y sylwadau y mae'r Panel yn eu cael ar y drafft.~~

~~**[F37(9)** Mae darpariaethau adroddiad blynyddol neu atodol o dan yr adran hon yn dod i rym ar y dyddiad a bennir at y diben hwnnw yn yr adroddiad.~~

~~(10) Pan fo is-adran (11) yn gymwys, caiff yr adroddiad bennu bod darpariaeth gymwys i gael ei thrin fel petai wedi dod i rym hyd at 3 mis yn gynharach na dyddiad cyhoeddi'r adroddiad.~~

~~(11) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo adroddiad atodol yn cynnwys darpariaeth gymwys.~~

~~(12) "Darpariaeth gymwys" yw darpariaeth sy'n gwneud amrywiad at ddibenion is-adran (3)(a), (b) neu (c) yn adran 146.]~~

~~148 Ymgynghori ar adroddiadau drafft~~

~~(1) Rhaid i'r Panel beidio â chyhoeddi adroddiad blynyddol **F38**... cyn pen y cyfnod o wyth wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'n anfon drafft o'r adroddiad yn unol ag adran 146 neu 147.~~

~~**[F39(1A)** Rhaid i'r Panel beidio â chyhoeddi adroddiad atodol—~~

~~(a) cyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'n anfon drafft o'r adroddiad yn unol ag adran 147, neu~~

~~(b) yn hwyrach na diwedd y cyfnod o wyth wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'n anfon drafft o'r adroddiad yn unol ag adran 147.]~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(2) Rhaid i'r Panel, pan fydd yn anfon drafft o adroddiad yn unol â'r naill neu'r llall o'r adrannau hynny, osod copi electronig o'r drafft ar ei wefan.~~

~~149 Cyfarwyddiadau i amrywio adroddiadau drafft~~

~~(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Panel i ailystyried darpariaeth yn yr adroddiad drafft.~~

~~(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan yr adran hon bennu—~~

~~(a) y ddarpariaeth,~~

~~(b) y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd, ac~~

~~(c) y dyddiad erbyn pryd y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ymateb.~~

~~(3) O ran y Panel—~~

~~(a) rhaid iddo ymateb i'r cyfarwyddyd heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir at ddibenion is-adran (2)(c);~~

~~(b) ni chaiff gyhoeddi'r adroddiad cyn iddo fod wedi ymateb i'r cyfarwyddyd.~~

~~(4) Os yw'r Panel yn penderfynu peidio ag amrywio'r drafft yn unol â'r cyfarwyddyd, rhaid iddo bennu yn ei ymateb y rheswm dros ei benderfyniad.~~

~~150 Gofynion gweinyddol mewn adroddiadau~~

~~(1) Caiff adroddiad blynyddol osod gofynion ar awdurdodau perthnasol er mwyn osgoi—~~

~~(a) dyblygu taliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol;~~

~~(b) dyblygu'n faterion perthnasol faterion sy'n ymwneud â busnes swyddogol aelodau.~~

~~(2) At ddibenion achos pan fo aelod o awdurdod perthnasol yn gwneud rhywbeth sy'n ymwneud ag awdurdod perthnasol arall (yn ogystal â'r awdurdod y mae'r aelod yn perthyn iddo), ac y mae'n rhaid gwneud taliad i'r aelod mewn cysylltiad â mater perthnasol, rhaid i adroddiad blynyddol ddanges sut i benderfynu p'un o'r awdurdodau fydd yn gorfod gwneud y taliad.~~

~~(3) Caiff adroddiad blynyddol osod gofynion ar awdurdodau perthnasol er mwyn cadw—~~

~~(a) cofnodion o geisiadau am daliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol;~~

~~(b) cofnodion o daliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol;~~

~~(c) cofnodion o daliadau a wneir mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol.~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~151 Gofynion cyhoeddus rwydd mewn adroddiadau~~

~~(1) Caiff adroddiad blynyddol osod gofynion ar awdurdodau perthnasol ar gyfer gwneud trefniadau i gyhoeddi gwybodaeth o ddisgrifiad penodedig—~~

~~(a) ynghylch taliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol;~~

~~(b) ynghylch taliadau a wneir mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol.~~

~~**[F40]** (c) ynghylch taliadau eraill a wneir i aelodau awdurdodau perthnasol gan gyrrff cyhoeddus eraill.]~~

~~(2) Caiff yr adroddiad ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau o ddisgrifiadau gwahanol neu i awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad wneud trefniadau gwahanol.~~

~~**[F41]** (3) At ddibenion is-adran (1)(c), "corff cyhoeddus" yw—~~

~~(a) bwrdd iechyd lleol,~~

~~(b) panel heddlu a throsedd,~~

~~(c) awdurdod perthnasol,~~

~~(d) corff wedi ei ddynodi yn gorff cyhoeddus mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.]~~

~~152 Rhoi cyhoeddus rwydd i adroddiadau~~

~~(1) Os yw'r Panel yn cyhoeddi adroddiad, rhaid iddo hysbysu—~~

~~(a) unrhyw bersonau y mae o'r farn ei bod yn debygol y bydd yr adroddiad yn effeithio arnynt, a~~

~~(b) unrhyw ddarlledwyr ac unrhyw aelodau o'r wasg y mae o'r farn ei bod yn briodol eu hysbysu.~~

~~(2) Rhaid i'r Panel sicrhau bod ei adroddiadau ar gael mewn modd rhesymol i bersonau yn gyffredinol.~~

~~(3) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (1) a (2), caiff y Panel benderfynu sut i roi cyhoeddus rwydd i'w adroddiadau.~~

~~(4) Yn yr adran hon, mae "adroddiad" (ac eithrio mewn perthynas ag is-adran (1)(b)) yn cynnwys drafft o adroddiad; ac ystyr "cyhoeddi", mewn perthynas â drafft, yw ei anfon at y personau y mae'n ofynnol anfon drafft atynt o dan 146 neu 147.~~

~~**Taliadau gan awdurdodau perthnasol**~~

~~153 Cydymffurfio â gofynion y Panel~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(1) Rhaid i awdurdod perthnasol gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno gan adroddiad blynyddol.~~

~~(2) Caiff y Panel fonitro gwneud taliadau gan awdurdodau perthnasol mewn cysylltiad â materion perthnasol; ac wrth wneud hynny, caiff y Panel ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol roi iddo unrhyw wybodaeth y mae'n ei phennu am—~~

~~(a) y materion sy'n faterion perthnasol mewn perthynas â'r awdurdod;~~

~~(b) ceisiadau i'r awdurdod am daliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol;~~

~~(c) taliadau a wneir gan yr awdurdod mewn cysylltiad â materion perthnasol.~~

~~(3) Caiff y Panel fonitro gwneud taliadau gan awdurdodau perthnasol mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol; ac wrth wneud hynny, caiff y Panel ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol roi iddo unrhyw wybodaeth y mae'n ei phennu am—~~

~~(a) yr aelodau o'r awdurdod y mae'n ofynnol i'r awdurdod dalu pensiynau perthnasol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy;~~

~~(b) taliadau a wneir gan yr awdurdod mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol.~~

~~(4) Rhaid i awdurdod perthnasol gydymffurfio â gofyniad a osodir arno o dan is-adran (2) neu (3).~~

~~154 Aelodau sy'n dymuno ymwrthod â'u hawl i gael taliadau~~

~~(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw aelod o awdurdod perthnasol, drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir i'r swyddog priodol i'r awdurdod, yn dewis ymwrthod (naill ai'n llwyr neu i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad) â'r hawl i gael taliadau mewn cysylltiad ag unrhyw faterion perthnasol a bennir yn yr hysbysiad.~~

~~(2) Nid yw'r gofyniad a osodir ar yr awdurdod gan adroddiad blynyddol i wneud taliadau mewn cysylltiad â'r materion perthnasol hynny a bennir yn yr hysbysiad yn gymwys yn achos yr aelod hwnnw (neu nid yw'n gymwys yn yr achos hwnnw i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad); ac mae adran 153(1) i'w darllen yn unol â hynny.~~

~~(3) Mae i "swyddog priodol" yr ystyr a roddir i "proper officer" yn adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.~~



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

#### ~~155~~ *Peidio â gwneud taliadau*

~~(1) Ni chaniateir i awdurdod perthnasol wneud taliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol neu bensiwn perthnasol i berson sydd wedi ei atal neu wedi ei atal yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (ymddygiad aelodau llywodraeth leol etc.).~~

~~(2) Caiff Gweinidogion Cymru, mewn unrhyw achosion eraill y maent o'r farn eu bod yn briodol, gyfarwyddo awdurdod perthnasol i beidio â gwneud taliadau (gan gynnwys mewn cysylltiad â phensiynau) mewn cysylltiad ag unrhyw faterion perthnasol a bennir yn y cyfarwyddyd.~~

~~(3) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (2), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Panel.~~

~~(4) Gellir gorfodi cyfarwyddyd o dan is-adran (2) drwy orchymyn mynnu ar gais Gweinidogion Cymru.~~

~~(5) Caiff awdurdod perthnasol ei gwneud yn ofynnol i addalu taliadau a wnaed mewn cysylltiad â materion perthnasol neu bensiwn perthnasol i berson mewn cysylltiad â chyfnod pryd nad oedd gan y person hwnnw hawl i gael y taliad am unrhyw reswm, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) unrhyw un o'r rhesymau canlynol—~~

~~(a) gwnaed y taliadau yn groes i'r gwaharddiad yn is-adran (1);~~

~~(b) gwnaed y taliadau yn groes i'r gyfarwyddyd o dan is-adran (2);~~

~~(c) yr oedd y person wedi peidio â bod yn aelod o'r awdurdod.~~

#### ***Gorfodi***

#### ~~156~~ *Cyfarwyddiadau i gydymffurfio â gofynion*

~~(1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod awdurdod perthnasol wedi methu â chydymffurfio â gofyniad sy'n ymwneud â materion perthnasol a osodir arno gan y Mesur hwn neu yn rhinwedd y Mesur hwn, cânt gyfarwyddo'r awdurdod i gydymffurfio â'r gofyniad.~~

~~(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan yr adran hon bennu—~~

~~(a) y gofyniad;~~

~~(b) y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd;~~

~~(c) y camau y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod eu cymryd;~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(d) y dyddiad erbyn pryd y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gymryd y camau.~~

~~(3) Gellir gorfodi cyfarwyddyd o dan yr adran hon drwy orchymyn mynnu ar gais Gweinidogion Cymru.~~

### **Atodol**

#### *157 Canllawiau*

~~(1) Caiff y Panel roi cyfarwyddyd am sut i gydymffurfio â gofynion a osodir gan adroddiadau blynyddol.~~

~~(2) Mae pŵer y Panel i roi canllawiau o dan is-adran (1) yn cynnwys y pŵer i amrywio neu ddirymu'r canllawiau a roddwyd.~~

~~(3) Rhaid i awdurdod perthnasol roi sylw i ganllawiau a roddir o dan is-adran (1).~~

#### *158 Y pŵer i wneud addasiadau i ddarpariaeth ynghylch y Panel*

Caiff Gweinidogion Cymru drwy orchymyn wneud addasiadau i'r Rhan hon er mwyn—

~~(a) ychwanegu, amrywio neu hepgor darpariaeth am aelodaeth y Panel, deiliadaeth ei aelodau, neu ei weithdrefnau;~~

~~(b) ychwanegu, amrywio neu hepgor darpariaeth sy'n rhoi neu'n gosod swyddogaeth ar y Panel.~~

#### *159 Dehongli Rhan 8*

~~(1) Yn y Rhan hon—~~

~~(d) mae i “adroddiad blynyddol” (“*annual report*”) yr ystyr a roddir yn adran 145;~~

~~(e) mae i “aelod” (“*member*”), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yr ystyr a roddir yn adran 144;~~

~~(f) mae i “aelod cyfetholedig” (“*co-opted member*”), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yr ystyr a roddir yn adran 144;~~

~~(g) mae i “awdurdod perthnasol” (“*relevant authority*”) yr ystyr a roddir yn adran 144 (ac mae cyfeiriad at ddisgrifiad o awdurdod perthnasol i'w ddarllen yn unol â'r adran honno);~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(h) ystyr "blwyddyn ariannol" ("<i>financial year</i>") yw cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;</p> <p>(i) mae i "mater perthnasol" ("<i>relevant matter</i>") yr ystyr a roddir yn adran 142;</p> <p>(j) ystyr "y Panel" ("<i>the Panel</i>") yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol;</p> <p>(k) mae i "pensiwn perthnasol" ("<i>relevant pension</i>") yr ystyr a roddir yn adran 143.</p> <p>(2) Mae'r cyfeiriadau yn adrannau 153, 154 a 157 at ofynion a osodir gan adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at ofynion sy'n cael eu cynnwys mewn adroddiad blynyddol gan adroddiad atodol.</p>	
<p><b>ATODLEN 2 Y PANEL</b>  <b>Aelodaeth</b></p> <p>1(1) <del>[F1 Dim llai na 3, a dim mwy na 7,]</del> aelod sydd i'r Panel ac fe'u penodir gan Weinidogion Cymru.</p> <p>(2) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi un o'r aelodau'n Gadeirydd.</p> <p>(3) Rhaid i aelodau'r Panel ethol un o'u plith yn Is-gadeirydd.</p> <p>(4) Mae'r canlynol wedi eu anghymhwysu rhag bod yn aelodau o'r Panel—</p> <p>(a) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;</p> <p>(b) aelod o Dŷ'r Cyffredin;</p> <p>(c) aelod o Dŷ'r Arglwyddi;</p> <p><b>F2</b>(d).....</p> <p>(e) aelod o awdurdod lleol neu o gyngor cymuned;</p> <p>(f) person sydd wedi ei anghymhwysu rhag bod yn aelod o awdurdod lleol neu gyngor cymuned.</p> <p><b>F3</b>(5).....</p> <p><b>Deiliadaeth</b></p> <p>2(1) Mae aelodau'r Panel yn dal eu swyddi, ac yn gadael eu swyddi, yn unol â thelerau eu penodiad, sef y telerau y mae Gweinidogion Cymru yn penderfynu arnynt.</p>	<p>Rhan 2, Pennod 2, adran 56</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(2)Ni chaniateir penodi person yn aelod o'r Panel am gyfnod hwy na phedair blynedd.~~

~~(3)Ond mae gan berson sy'n peidio â bod yn aelod o'r Panel hawl i gael ei ailbenodi.~~

~~(4)Mae person a benodir i lenwi sedd wag achlysurol yn aelodaeth y Panel yn gwasanaethu fel aelod hyd at y dyddiad y byddai cyfnod aelodaeth y person y llenwyd ei sedd yn dod i ben.~~

~~(5)Mae aelod o'r Panel sy'n dal swydd Cadeirydd neu Is-gadeirydd yn gwneud hynny nes daw cyfnod aelodaeth y person hwnnw i ben.~~

### **Cyfarfodydd**

~~3(1)Rhaid i'r Panel gyfarfod o leiaf unwaith bob blwyddyn galendr.~~

~~(2)Cworwm y Panel yw tri a rhaid iddo gynnwys y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd.~~

~~(3)Y Cadeirydd (neu, yn absenoldeb y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd) sy'n llywyddu yng nghyfarfodydd y Panel.~~

~~(4)Caiff aelodau'r Panel (yn ddarostyngedig i ddarpariaeth a wneir gan y Rhan hon neu yn rhinwedd y Rhan 8) reoleiddio gweithdrefnau'r Panel.~~

~~(5)Rhaid i gwestiwn sydd i'w benderfynu gan y Panel gael ei benderfynu mewn cyfarfod o aelodau'r Panel drwy fwyafrif o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw gan yr aelodau hynny sy'n bresennol yn y cyfarfod.~~

~~(6)Os yw nifer y pleidleisiau ar gwestiwn sydd i'w benderfynu yn gyfartal, mae gan y person sy'n llywyddu'r cyfarfod ail bleidlais neu'r bleidlais fwrw.~~

### **Gwybodaeth**

~~4Caiff y Panel, mewn cysylltiad â chyflawni ei swyddogaethau, geisio gwybodaeth neu gyngor.~~

### **Treuliau, cymorth gweinyddol etc.**

~~5(1)Rhaid i Weinidogion Cymru dalu treuliau a dynnir gan y Panel (naill ai gan y Panel fel corff neu gan aelodau unigol o'r Panel) wrth iddo gyflawni swyddogaethau'r Panel (neu swyddogaethau aelodau'r Panel yn rhinwedd eu swydd).~~

~~(2)Caiff Gweinidogion Cymru dalu lwfansau i aelodau'r Panel.~~

~~(3)Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod cymorth gweinyddol ar gael i'r Panel.~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

## Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013

Section	Amended by
<p><b>1Trosolwg</b></p> <p>(1)Mae'r Rhan hon yn rhoi trosolwg o ddarpariaethau'r Ddeddf hon.</p> <p>(2)Mae Rhan 2 yn ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ac yn diwygio ei gyfansoddiad a'i swyddogaethau.</p> <p><u>(2A) Mae Rhan 2A yn rhoi swyddogaethau gweinyddu etholiadol i'r Comisiwn ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddogaethau gael eu harfer gan fwrdd a sefydlir gan y Comisiwn o'r enw y Bwrdd Rheoli Etholiadol.</u></p> <p>(3)Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch—</p> <p>(a)dyletswyddau'r Comisiwn i fonitro'r trefniadau ar gyfer llywodraeth leol a, lle y bo'n briodol, i gynnal adolygiadau, a dyletswyddau prif gynghorau i fonitro'r trefniadau ar gyfer y cymunedau yn eu hardal a, lle y bo'n briodol, i gynnal adolygiadau (gweler adrannau 21 a 22),</p> <p>(b)y mathau o adolygiadau y gellir eu cynnal, yr ystyriaethau i'r corff adolygu eu hystyried a'r newidiadau y gellir eu hargymell mewn perthynas â phob math o adolygiad (gweler adrannau 23 i 33),</p> <p>(c)y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiadau (gweler adrannau 34 i 36),</p> <p>(d)gweithredu argymhellion yn dilyn adolygiad a materion cysylltiedig (megis trosglwyddo staff neu eiddo rhwng prif gynghorau a chyrff cyhoeddus eraill) (gweler adrannau 37 i 44).</p> <p>(4)Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygu aelodaeth cyrff cyhoeddus penodol.</p> <p>(5)Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth—</p> <p>(a)ynghylch penodi aelod llywyddol prif gyngor;</p> <p>(b)sy'n ailddatgan ac yn ymestyn pwerau awdurdodau lleol mewn perthynas â hyrwyddo a gwrthwynebu Biliau preifat;</p> <p>(c)sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth cynghorau cymuned fod ar gael ar ffurf electronig;</p> <p>(d)ynghylch cyhoeddi cofrestrau o fuddiannau aelodau cyrff cyhoeddus penodol (gan gynnwys awdurdodau lleol) yn electronig;</p>	<p>ATODLEN 1, PENNOD 1, 1 (1)</p> <p>ATODLEN 1, PENNOD 4, 13 (2)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(e) yn ymwneud â mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell;</p> <p>(f) yn ymwneud â rôl pwyllgorau gwasanaethau democrataidd;</p> <p>(g) sy'n cymhwyso gofynion o ran cydbwysedd gwleidyddol i bwyllgorau archwilio prif bwyllgorau;</p> <p><del>(h) yn ymwneud â swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a sut y mae'n paratoi adroddiadau;</del></p> <p>(i) ynghylch sefydlu cyd-bwyllgorau safonau;</p> <p>(j) sy'n galluogi'r pwyllgor safonau neu swyddog monitro awdurdod perthnasol i gyfeirio achosion sy'n ymwneud ag ymddygiad at bwyllgor safonau neu swyddog monitro awdurdod perthnasol arall.</p> <p><u>(5A) Mae Rhan 5A yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Comisiwn wrth benderfynu ar y taliadau a'r pensiynau sy'n daladwy i aelodau a chyn-aelodau awdurdodau penodol (gan gynnwys awdurdodau lleol).</u></p> <p>(6) Mae Rhan 6 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ynghylch y Ddeddf hon.</p>	
<p><b>4 Aelodaeth</b></p> <p>(1) Yr aelodau a ganlyn fydd aelodau'r Comisiwn—</p> <p>(a) aelod i gadeirio'r Comisiwn (yr "aelod cadeirio"),</p> <p>(b) aelod i weithredu fel dirprwy i'r aelod cadeirio, ac</p> <p>(c) dim mwy na 3 aelod arall.</p> <p>(2) Mae'r aelodau i'w penodi gan Weinidogion Cymru ar delerau ac amodau a benderfynir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys amodau o ran tâl, lwfansau a threuliau).</p> <p>(3) Ni chaiff Gweinidogion Cymru benodi person sydd yn—</p> <p>(a) aelod <del>Seneddol o Dŷ'r Gyffredin Seneddol</del>;</p> <p>(b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;</p> <p>(c) aelod o awdurdod lleol <u>neu'n aelod o staff awdurdod lleol...</u>;</p> <p><del>(d) swyddog i awdurdod lleol ...;</del></p> <p>(e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol , <u>neu'n aelod o staff awdurdod Parc Cenedlaethol</u>, ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;</p>	<p>ADRAN 66</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(ea) aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o staff cyd-bwyllgor corfforedig, a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

(eb) aelod o awdurdod tân ac achub, neu'n aelod o staff awdurdod tân ac achub, a gyfansoddir gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

(f)comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu

(g)aelod o staff y Comisiwn.

### **8Prif weithredwr**

(1)Rhaid i'r Comisiwn gyflogi prif weithredwr.

(2)Mae'r prif weithredwr i'w benodi gan **[F1y Comisiwn]** ar delerau ac amodau a benderfynir **[F2ganddo]** (gan gynnwys amodau o ran tâl, pensiwn, lwfansau a threuliau).

**[F3(2A)**Ond os yw swydd prif weithredwr wedi bod yn wag am dros chwe mis, caiff Gweinidogion Cymru benodi prif weithredwr o dan unrhyw delerau ac amodau a bennir ganddynt (gan gynnwys amodau o ran cydnabyddiaeth ariannol, pensiwn, lwfansau a threuliau).**]**

(3)Cyn penodi prif weithredwr **[F4o dan is-adran (2A),]** rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn.

**[F5(4)**Ni chaiff y prif weithredwr fod—

(a)yn aelod Seneddol;

(b)yn Aelod o'r Senedd;

(c)yn aelod o awdurdod lleol neu'n aelod o staff awdurdod lleol;

(d)yn swyddog awdurdod lleol;

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(e) yn aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol , neu'n aelod o staff awdurdod Parc Cenedlaethol, ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(ea) yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o staff cyd-bwyllgor corfforedig, a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

(eb) yn aelod o awdurdod tân ac achub, neu'n aelod o staff awdurdod tân ac achub, a gyfansoddir gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

(f) yn gomisiynydd heddlu a throstedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru. ]

## **11 Comisiynwyr cynorthwyol**

(1) Caiff y Comisiwn benodi person ("comisiynydd cynorthwyol") y caiff, at ddibenion adran 13, ddirprwyo swyddogaethau iddo.

(2) Ond ni chaiff y Comisiwn benodi person sydd yn—

(a) aelod Seneddol;

(b) aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

(c) aelod o awdurdod lleol neu'n aelod o staff awdurdod lleol F1...;

(d) swyddog i awdurdod lleol F2...;

(e) aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol , neu'n aelod o staff awdurdod Parc Cenedlaethol, ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(ea) aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o staff cyd-bwyllgor corfforedig, a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1); (eb) aelod o awdurdod tân ac achub, neu'n aelod o staff awdurdod tân ac achub, a gyfansoddir gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo:</u></p> <p>(f)comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru; neu</p> <p>(g)aelod o staff y Comisiwn.</p> <p>(3)Cyn penodi comisiynydd cynorthwyol rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru.</p> <p>(4)Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau neu dreuliau a benderfynir ganddo i gomisiynydd cynorthwyol.</p> <p>(5)Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i gomisiynydd cynorthwyol.</p>	
<p><i>Pwerau cyffredinol a chyfarwyddiadau</i></p> <p><b><u>11A Pŵer i godi tâl</u></b></p> <p><u>(1) Caiff y Comisiwn godi tâl ar berson am ddarparu nwyddau neu wasanaethau fel a grybwyllir yn is-adran (2) i adennill cost y ddarpariaeth os yw'r person wedi cytuno i'r nwyddau neu'r gwasanaethau gael eu darparu.</u></p> <p><u>(2) Y nwyddau neu'r gwasanaethau yw—</u></p> <p><u>(a) nwyddau y mae'r Comisiwn yn eu darparu neu'n eu sicrhau, neu hyfforddiant y mae'r Comisiwn yn ei ddarparu neu'n ei sicrhau, wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 20A (swyddogaethau gweinyddu etholiadol);</u></p> <p><u>(b) hyfforddiant y mae'r Comisiwn yn ei ddarparu neu'n ei sicrhau ar gyfer prif gyngor mewn cysylltiad â swyddogaethau'r cyngor o dan Ran 3.</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 4, adran 66</p>
<p><b>14 Cyfarwyddiadau</b></p> <p><del>(1)Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd (boed yn gyffredinol neu'n benodol) a roddir iddo gan Weinidogion Cymru.</del></p>	<p>ATODLEN 1, Rhan 1, 1 (4)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(1A)Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r Comisiwn mewn perthynas ag arfer swyddogaethau'r Comisiwn o dan unrhyw ddeddfiad, ac eithrio mewn perthynas ag arfer swyddogaethau o dan—</u></p> <p style="padding-left: 40px;"><u>(a) Rhan 2A (cydlynu gwaith gweinyddu etholiadol);</u></p> <p style="padding-left: 40px;"><u>(b) Rhan 3A (swyddogaethau sy'n ymwneud ag adolygiadau o ffiniau etholaethau'r Senedd).</u></p> <p><u>(1B)Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon.</u></p> <p><u>(1C)Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi pob cyfarwyddyd y maent yn ei roi i'r Comisiwn neu i brif gynqor o dan y Ddeddf hon.</u></p> <p>(2)Caniateir i gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon gael ei amrywio neu ei ddirymu drwy gyfarwyddyd dilynol.</p>	
<p><b><u>Materion ariannol a llywodraethu</u></b></p> <p><b>15 Cyllido</b></p> <p>(1)Caiff Gweinidogion Cymru dalu grantiau i'r Comisiwn o symiau a benderfynir ganddynt.</p> <p>(2)Gwneir grant yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a bennir gan Weinidogion Cymru (gan gynnwys amodau ynghylch ad-dalu).</p>	<p>Rhan 2, Pennod 4, adran 65</p>
<p><b><u>17 Pwyllgor archwilio Pwyllgor llywodraethu ac archwilio</u></b></p> <p>(1)Rhaid i'r Comisiwn sefydlu pwyllgor (“pwyllgor archwilio”) (“pwyllgor llywodraethu ac archwilio”) i—</p> <p>(a)adolygu materion ariannol y Comisiwn a chraffu arnynt,</p> <p>(b)adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Comisiwn,</p> <p><u>(ba) adolygu, asesu a rheoli trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Comisiwn,</u></p> <p><u>(bb) adolygu ac asesu sut y mae'r Comisiwn yn ymdrin â chwynion,</u></p> <p><u>(bc) adolygu—</u></p> <p style="padding-left: 40px;"><u>(i) datganiadau o gyfrifon ac adroddiadau a lunnir gan y Comisiwn o dan adrannau 19(1) ac 20,</u></p> <p style="padding-left: 40px;"><u>(ii) adroddiadau a lunnir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan adran 19(4),</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 4, adran 65</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(c)adolygu ac asesu darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd defnydd y Comisiwn o'i adnoddau wrth gyflawni ei swyddogaethau, a</p> <p>(d)llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Comisiwn mewn perthynas ag adolygiadau a gynhelir o dan baragraffau (a), (b) , <u>(ba), (bb), (bc)</u> neu (c).</p> <p>(2)Rhaid i'r pwyllgor <u>archwilio llywodraethu ac archwilio</u> anfon copiâu o'i adroddiadau a'i argymhellion at Weinidogion Cymru.</p> <p><u>(2A) Caiff y Comisiwn roi i'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio y swyddogaethau y mae'r Comisiwn o'r farn eu bod yn addas i'w harfer gan y pwyllgor.</u></p> <p>(3)Y pwyllgor <u>archwilio llywodraethu ac archwilio</u> sydd i benderfynu sut i arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.</p>	
<p><b><u>18 Pwyllgor archwilio: aelodaeth Pwyllgor llywodraethu ac archwilio: aelodaeth a chworwm</u></b></p> <p><del>(1)Mae aelodau'r pwyllgor archwilio i fod fel a ganlyn—</del></p> <p><del>(a) o leiaf ddau aelod o'r Comisiwn, a</del></p> <p><del>(b) o leiaf un aelod lleyg.</del></p> <p><del>(2)Ni chaiff aelod cadeirio'r Comisiwn fod yn aelod o'r pwyllgor archwilio.</del></p> <p><u>(1) Mae aelodau'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio i fod fel a ganlyn—</u></p> <p><u>(a) o leiaf ddau aelod o'r Comisiwn;</u></p> <p><u>(b) o leiaf ddau aelod lleyg;</u></p> <p><u>(c) dim mwy na phum aelod.</u></p> <p><u>(2) Rhaid penodi aelod lleyg o'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio—</u></p> <p><u>(a) i gadeirio'r pwyllgor (y "cadeirydd");</u></p> <p><u>(b) yn ddirprwy i'r cadeirydd.</u></p> <p><u>(2A) Ni chaiff person fod yn aelod o'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio os yw'r person yn aelod o'r Comisiwn a'i fod naill ai'n aelod cadeirio'r Comisiwn neu'n gweithredu fel dirprwy i aelod cadeirio'r Comisiwn.</u></p> <p><u>(2B) Tri aelod yw'r chworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio, a rhaid i'r chworwm gynnwys o leiaf un aelod lleyg.</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 4, adran 65</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(3)Caiff y Comisiwn dalu unrhyw dâl, lwfansau a threuliau a benderfynir ganddo i aelod lleyg.

(4)Rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn penderfynu ar y tâl neu'r lwfansau sy'n daladwy i aelod lleyg.

(5)Yn yr adran hon, ystyr "aelod lleyg" yw unrhyw berson ar wahân i—

(a)un o aelodau neu gyflogeion y Comisiwn, neu

(b)arbenigwr sydd wedi ei benodi o dan adran 10(1) neu gomisiynydd cynorthwyol sydd wedi ei benodi o dan adran 11(1).

<p><b><u>RHAN 2A</u></b></p> <p><b><u>CYDLYNU GWAITH GWEINYDDU ETHOLIADOL</u></b></p> <p><i><u>Swyddogaethau cyffredinol</u></i></p> <p><b><u>20A Swyddogaethau gweinyddu etholiadol</u></b></p> <p><u>(1)Swyddogaeth gyffredinol y Comisiwn yw cydlynu'r gwaith o weinyddu etholiadau a refferenda Cymreig.</u></p> <p><u>(2)Mae'r swyddogaeth gyffredinol yn is-adran (1) yn cynnwys—</u></p> <p><u>(a)cynorthwyo swyddogion canlyniadau, awdurdodau lleol a phersonau eraill wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda Cymreig;</u></p> <p><u>(b)hybu arferion gorau o ran gweinyddu etholiadau a refferenda Cymreig drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor neu hyfforddiant (neu fel arall).</u></p> <p><u>(3)Caiff y Comisiwn ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gymorth arall i Weinidogion Cymru ynghylch gweinyddu etholiadau a refferenda Cymreig.</u></p> <p><u>(4)Yn y Rhan hon ystyr "etholiadau a refferenda Cymreig" yw—</u></p> <p><u>(a)etholiadau Senedd Cymru;</u></p> <p><u>(b)etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru;</u></p> <p><u>(c)refferenda datganoledig.</u></p> <p><i><u>Cyfarwyddiadau</u></i></p> <p><b><u>20B Cyfarwyddiadau i swyddogion canlyniadau</u></b></p> <p><u>(1)Caiff y Comisiwn roi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i swyddogion canlyniadau ynghylch arfer swyddogaethau'r swyddogion mewn perthynas—</u></p> <p><u>(a)ag etholiadau Senedd Cymru yn gyffredinol,</u></p> <p><u>(b)ag etholiad penodol i Senedd Cymru,</u></p> <p><u>(c)ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru yn gyffredinol,</u></p> <p><u>(d)ag etholiad llywodraeth leol penodol yng Nghymru,</u></p> <p><u>(e)â refferenda datganoledig yn gyffredinol, neu</u></p>	<p>Rhan 1, Pennod 1, adran 1</p>
--	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(f) â refferendwm datganoledig penodol.</u></p> <p><u>(2) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i swyddog canlyniadau ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn.</u></p> <p><u>(3) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i swyddog canlyniadau—</u></p> <p><u>(a) arfer unrhyw ddisgresiwn sydd gan y swyddog wrth gyflawni swyddogaethau'r swyddog, neu</u></p> <p><u>(b) arfer y disgresiwn mewn ffordd benodol.</u></p> <p><u>(4) Rhaid i swyddog canlyniadau y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan is-adran (1) gydymffurfio â'r cyfarwyddyd i'r graddau y mae'n cyfarwyddo'r swyddog—</u></p> <p><u>(a) i arfer unrhyw ddisgresiwn a fyddai gan y swyddog fel arall wrth gyflawni swyddogaethau'r swyddog (neu i'w arfer mewn ffordd benodol), neu</u></p> <p><u>(b) i ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn.</u></p> <p><u>(5) Nid yw'n ofynnol i swyddog canlyniadau gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan is-adran (1)—</u></p> <p><u>(a) os byddai cydymffurfio â'r cyfarwyddyd yn anghyson ag un o ddyletswyddau'r swyddog o dan unrhyw ddeddfiad,</u></p> <p><u>(b) i'r graddau y mae arfer swyddogaethau'r swyddog yn ddarostyngedig i'r cyfarwyddyd yn ymwneud ag etholiad a gedwir yn ôl mewn pŵl sydd wedi ei gyfuno ag etholiad neu refferendwm Cymreig, neu</u></p> <p><u>(c) i'r graddau y mae arfer swyddogaethau'r swyddog yn ddarostyngedig i'r cyfarwyddyd yn ymwneud â'r cyfuniad—</u></p> <p><u>(i) o bŵl mewn etholiad a gedwir yn ôl â'r pŵl mewn etholiad neu refferendwm Cymreig;</u></p> <p><u>(ii) o bŵl mewn etholiad Senedd Cymru â'r pŵl mewn etholiad cyffredin llywodraeth leol yng Nghymru.</u></p> <p><u>(6) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi pob cyfarwyddyd y mae'n ei roi o dan is-adran (1).</u></p>	
<p><b>20C</b></p>	<p><b>Cyfarwyddiadau i swyddogion cofrestru etholiadol</b></p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(1)Caiff y Comisiwn roi cyfarwyddiadau ysgrifenedig i swyddogion cofrestru etholiadol ynghylch arfer swyddogaethau'r swyddogion mewn perthynas—</u></p> <p><u>(a)ag etholiad penodol i Senedd Cymru,</u></p> <p><u>(b)ag etholiad llywodraeth leol penodol yng Nghymru, neu</u></p> <p><u>(c)â refferendwm datganoledig penodol.</u></p> <p><u>(2)Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru etholiadol—</u></p> <p><u>(a)arfer unrhyw ddisgresiwn sydd gan y swyddog wrth gyflawni swyddogaethau'r swyddog, neu</u></p> <p><u>(b)arfer y disgresiwn mewn ffordd benodol.</u></p> <p><u>(3)Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) ei gwneud yn ofynnol i swyddog cofrestru etholiadol ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn.</u></p> <p><u>(4)Rhaid i swyddog cofrestru etholiadol y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan is-adran (1) gydymffurfio â'r cyfarwyddyd i'r graddau y mae'n cyfarwyddo'r swyddog—</u></p> <p><u>(a)i arfer unrhyw ddisgresiwn a fyddai gan y swyddog fel arall wrth gyflawni swyddogaethau'r swyddog (neu i'w arfer mewn ffordd benodol), neu</u></p> <p><u>(b)i ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn.</u></p> <p><u>(5)Nid yw'n ofynnol i swyddog cofrestru etholiadol gydymffurfio â chyfarwyddyd o dan is-adran (1)—</u></p> <p><u>(a)os yw'n anghyson—</u></p> <p><u>(i)ag un o ddyletswyddau'r swyddog o dan unrhyw ddeddfiad, neu</u></p> <p><u>(ii)â chyfarwyddyd a roddir o dan adran 52 o Ddeddf 1983;</u></p> <p><u>(b)i'r graddau y mae arfer swyddogaethau'r swyddog yn ymwneud â phôl mewn etholiad a gedwir yn ôl sydd wedi ei gyfuno â phôl mewn etholiad neu refferendwm Cymreig.</u></p> <p><u>(6)Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi pob cyfarwyddyd y mae'n ei roi o dan is-adran (1).</u></p>	
<b>20D</b>	<b>Ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol</b>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(1)Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan adran 20B neu 20C, rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â'r Comisiwn Etholiadol.</u></p> <p><u>(2)Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol roi ymateb ysgrifenedig i'r Comisiwn ar y materion yr ymgynghorwyd ag ef yn eu cylch.</u></p> <p><u>Y Bwrdd</u></p> <p><b><u>20E Y Bwrdd Rheoli Etholiadol</u></b></p> <p><u>(1)Rhaid i'r Comisiwn sefydlu bwrdd o'r enw y Bwrdd Rheoli Etholiadol ("y Bwrdd").</u></p> <p><u>(2)Mae swyddogaethau'r Comisiwn o dan y darpariaethau a bennir yn is-adran (3) wedi eu dirprwyo i'r Bwrdd ac ni chaniateir iddynt gael eu harfer ond gan y Bwrdd.</u></p> <p><u>(3)Y darpariaethau yw—</u></p> <p><u>(a)adrannau 20A i 20D;</u></p> <p><u>(b)pennod 3 o Ran 1 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholiadol (Cymru) 2024 (peilota a diwygio etholiadau Cymreig);</u></p> <p><u>(c)darpariaeth a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.</u></p> <p><u>(4)Caniateir i'r pwerau yn adran 12 gael eu harfer gan y Bwrdd neu'r Comisiwn mewn perthynas â'r swyddogaethau sydd wedi eu dirprwyo gan is-adran (2).</u></p> <p><u>(5)Nid yw is-adran (2) yn effeithio ar gyfrifoldeb y Comisiwn dros arfer y swyddogaethau dirprwyedig.</u></p> <p><b><u>20F Aelodaeth o'r Bwrdd</u></b></p> <p><u>(1)Mae'r Bwrdd i gynnwys—</u></p> <p><u>(a)aelod o'r Comisiwn sy'n gyn-swyddog etholiadau i gadeirio'r Bwrdd,</u></p> <p><u>(b)un aelod arall o'r Comisiwn, ac</u></p> <p><u>(c)aelodau sy'n swyddogion etholiadau neu'n gyn-swyddogion etholiadau (ac mae un ohonynt i fod yn ddirprwy gadeirydd y Bwrdd).</u></p> <p><u>(2)Mae aelodau'r Bwrdd i'w penodi gan y Comisiwn.</u></p> <p><u>(3)Rhaid i'r Comisiwn benodi o leiaf bedwar aelod i'r Bwrdd o'r math a ddisgrifir yn is-adran (1)(c).</u></p>	
--	--



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(4)Mae'r cadeirydd i'w ddewis gan y Comisiwn ac mae'r dirprwy gadeirydd i'w ddewis gan y Bwrdd.</u></p> <p><u>(5)Mae aelodau o'r Bwrdd sydd hefyd yn aelodau o'r Comisiwn i'w penodi ar delerau ac amodau a benderfynir gan Weinidogion Cymru.</u></p> <p><u>(6)Mae aelodau eraill y Bwrdd i'w penodi ar delerau ac amodau a benderfynir gan y Comisiwn ar ôl ymgynghori â Gweinidogion Cymru.</u></p> <p><u>(7)Mae'r telerau a'r amodau y caniateir iddynt gael eu penderfynu o dan is-adrannau (5) a (6) yn cynnwys amodau o ran tâl, lwfansau a threuliau.</u></p> <p><u>(8)Rhaid i'r Comisiwn beidio â phenodi person o dan is-adran (1)(c) sydd—</u></p> <p><u>(a)yn aelod o Dŷ'r Cyffredin;</u></p> <p><u>(b)yn Aelod o'r Senedd;</u></p> <p><u>(c)yn aelod o staff Senedd Cymru;</u></p> <p><u>(d)yn berson (nad yw'n dod o fewn paragraff (c)) a benodir i gynorthwyo Aelod o Senedd Cymru i gyflawni swyddogaethau'r Aelod;</u></p> <p><u>(e)yn aelod o awdurdod lleol;</u></p> <p><u>(f)yn aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;</u></p> <p><u>(g)yn gomisiynydd heddlu a throstedd ar gyfer ardal heddlu yng Nghymru;</u></p> <p><u>(h)yn Gomisiynydd neu'n Gomisiynydd Cynorthwyol;</u></p> <p><u>(i)yn aelod o staff y Comisiwn;</u></p> <p><u>(j)yn berson a gyflogir yng ngwasanaeth sifil y wladwriaeth.</u></p> <p><u>(9)Yn yr adran hon ystyr "swyddog etholiadau" yw—</u></p> <p><u>(a)swyddog canlyniadau, neu</u></p> <p><u>(b)swyddog cofrestru etholiadol.</u></p> <p><b>20G Deiliadaeth</b></p> <p><u>Mae aelodau'r Bwrdd yn dal swydd ac yn gadael swydd yn unol â thelerau ac amodau eu penodiad.</u></p> <p><b>20H Trafodion y Bwrdd</b></p>	
--	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(1) Rhaid bod gan aelodau'r Bwrdd bleidleisiau sy'n gyfwerth â'i gilydd at ddiben penderfyniadau'r Bwrdd, ond mae gan y cadeirydd (neu'r dirprwy gadeirydd os yw'r cadeirydd yn absennol) bleidlais fwrw os bydd y bleidlais yn gyfartal.

(2) Caiff y Bwrdd fel arall reoleiddio ei weithdrefn ei hun (gan gynnwys cworwm).

(3) Nid yw unrhyw ddiffyg ym mhenodiad aelod yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir gan y Bwrdd wrth arfer swyddogaethau'r Comisiwn.

(4) Caiff y cadeirydd neu'r dirprwy gadeirydd (gyda chytundeb aelodau eraill y Bwrdd) wahodd person i fod yn bresennol mewn cyfarfod o'r Bwrdd at ddiben darparu cyngor neu gynorthwyo'r Bwrdd fel arall.

Cyffredinol

## **20l Dehongli'r Rhan hon**

Yn y Rhan hon—

ystyr "Deddf 1983" ("the 1983 Act") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (p. 2);

ystyr "etholiad a gedwir yn ôl" ("reserved election") yw—

(a) etholiad ar gyfer aelodaeth o Dŷ'r Cyffredin;

(b) etholiad ar gyfer swydd comisiynydd heddlu a throsedd;

ystyr "etholiadau llywodraeth leol" ("local government elections") yw ethol—

(a) cynghorwyr i ward etholiadol sir neu fwrdeistref sirol,

(b) cynghorwyr i ward gymunedol neu, yn achos cymuned lle nad oes wardiau, i'r gymuned, neu

(c) maer etholedig neu aelod gweithredol etholedig o dan reoliadau a wneir yn rhinwedd adran 44 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22);

ystyr "refferenda datganoledig" ("devolved referendums") yw refferenda a gynhelir o dan—

(a) adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22) neu yn rhinwedd rheoliadau neu orchymyn a wneir o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno;

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(b) adran 40 o Fesur 2011;</u></p> <p><u>(c) unrhyw ddeddfiad arall (pryd bynnag y caiff ei basio neu ei wneud) a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai mewn darpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru (pa un a fyddai'n ofynnol cael cydsyniad un o Weinidogion y Goron ar gyfer y ddarpariaeth ai peidio);</u></p> <p><u>ystyr "swyddog canlyniadau" ("returning officer") yw—</u></p> <p><u>(a) swyddog canlyniadau (sut bynnag y'i disgrifir)—</u></p> <p><u>(i) a benodir o dan adran 35(1A) o Ddeddf 1983,</u></p> <p><u>(ii) a ddynodir yn unol â gorchymyn a wneir o dan adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) ("Deddf 2006"), neu</u></p> <p><u>(iii) a benodir o dan reoliadau a wneir yn rhinwedd adran 44 neu 45 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22);</u></p> <p><u>(b) unrhyw berson a gaiff arfer swyddogaethau swyddog canlyniadau sy'n dod o fewn paragraff (a);</u></p> <p><u>ystyr "swyddog cofrestru etholiadol" ("electoral registration officer") yw swyddog a benodir o dan adran 8(2A) o Ddeddf 1983 neu unrhyw berson a gaiff arfer swyddogaethau'r swyddog.</u></p>	
<p><b>22Dyletswyddau prif gynghorau mewn perthynas ag ardal</b></p> <p>(1) Rhaid i brif gyngor, at ddibenion ystyried a yw'n briodol i wneud neu argymhell newidiadau o dan y Rhan hon, fonitro—</p> <p>(a) y cymunedau yn ei ardal, a</p> <p>(b) trefniadau etholiadol y cymunedau hynny.</p> <p>(2) Yn unol â'r ddyletswydd honno, rhaid i brif gyngor—</p> <p>(a) rhoi sylw i amserlen y Comisiwn ar gyfer cynnal yr adolygiadau o drefniadau etholiadol prif ardaloedd sy'n ofynnol gan adran 29(1), a</p> <p>(b) cynnal y cyfryw adolygiadau o dan y Rhan hon ag a fo'n ofynnol o dan y deddfiad hwn neu unrhyw ddeddfiad arall, y caiff Gweinidogion Cymru eu cyfarwyddo, neu fel y mae fel arall yn ystyried sy'n briodol.</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 51</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(3)Wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Rhan hon (ac wrth gynnal unrhyw adolygiad), rhaid i brif gyngor geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.</p> <p>(4)Rhaid i brif gyngor ddarparu i'r Comisiwn yr wybodaeth y gallai yn rhesymol ofyn amdani mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.</p> <p><del>(5)Rhaid i brif gyngor, mewn cysylltiad â phob cyfnod adrodd, gyhoeddi adroddiad sy'n disgrifio sut y cyflawnodd ei ddyletswydd o dan is-adran (1) ac anfon copi o'r adroddiad at y Comisiwn.</del></p> <p>(6)Yn yr adran hon, ystyr "cyfnod adrodd" yw—</p> <p>(a)y cyfnod o 10 mlynedd sy'n dechrau gyda—</p> <p>(i)y dyddiad pryd y cyhoeddwyd ddiwethaf adroddiad gan y prif gyngor o dan adran 55(2A) neu, os yw'n gynharach, adran 57(4A) o Ddeddf 1972, neu</p> <p>(ii)yn achos prif gyngor nad yw wedi cyhoeddi adroddiad o'r fath cyn y daw'r adran hon i rym, y dyddiad pryd y daw'r adran hon i rym, a</p> <p>(b)pob cyfnod dilynol o 10 mlynedd.</p> <p><u>(5) Cyn 1 Gorffennaf ym mhob blwyddyn, rhaid i brif gyngor gyhoeddi adroddiad ar y modd y cyflawnodd ei swyddogaethau o dan y Rhan hon ac adran 76 o Ddeddf 1972 (newid enw cymuned) yn y flwyddyn flaenorol, i'r graddau y mae'r swyddogaethau yn ymwneud â'r canlynol—</u></p> <p><u>(a) enwau cymunedau,</u></p> <p><u>(b) newidiadau i ffiniau cymunedau,</u></p> <p><u>(c) newidiadau i gynghorau cymuned, a</u></p> <p><u>(d) trefniadau etholiadol cymunedau.</u></p> <p><u>(6) Rhaid i brif gyngor anfon copi o bob adroddiad y mae'n ei gyhoeddi i'r Comisiwn ac at Weinidogion Cymru.</u></p> <p><u>(7) Yn is-adran (5), ystyr "blwyddyn" yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill.</u></p>	
<p><b>28 Adolygu ffiniau tua'r môr</b></p> <p>(1)Caiff y Comisiwn gynnal adolygiad o gymaint o ffin ardal llywodraeth leol (sy'n cynnwys, at ddibenion yr adran hon, sir wedi ei chadw)—</p> <p>(a)sy'n gorwedd o dan farc penllanw pan fo'r llanw'n ganolig, a</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 42</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(b) nad yw'n ffurfio ffin gyffredin ag ardal llywodraeth leol arall.</p> <p>(2) Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw—</p> <p>(a) cynnwys o fewn yr ardal llywodraeth leol unrhyw ardal o'r môr nad yw, ar adeg yr adolygiad, yn ffurfio rhan o ardal llywodraeth leol arall, a</p> <p>(b) allgáu unrhyw ardal o'r môr sydd, ar adeg yr adolygiad, yn ffurfio rhan o'r ardal llywodraeth leol.</p> <p>(3) <u>Caiff adolygiad o dan yr adran hon adolygu ffin mwy nag un ardal llywodraeth leol.</u></p>	
<p><b>29 Adolygu trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal</b></p> <p>(1) Rhaid i'r Comisiwn gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu.</p> <p>(2) Rhaid i'r Comisiwn, mewn perthynas â phob cyfnod adolygu—</p> <p>(a) paratoi a chyhoeddi rhaglen sy'n nodi ei amserlen arfaethedig ar gyfer cynnal yr holl adolygiadau sy'n ofynnol o dan is-adran (1) yn ystod y cyfnod, a</p> <p>(b) anfon copi o'r rhaglen at Weinidogion Cymru.</p> <p>(3) At ddibenion is-adrannau (1) a (2) ystyr "cyfnod adolygu" yw—</p> <p>(a) <del>y cyfnod o 10 mlynedd sy'n dechrau gyda'r diwrnod pryd y daw'r adran hon i rym, a</del> <u>(a) y cyfnod o 12 mlynedd sy'n dechrau ar 30 Medi 2023, a</u></p> <p>(b) pob cyfnod dilynol o 40 <u>12</u> mlynedd.</p> <p><u>(3A) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (3).</u></p> <p>(4) Rhaid i'r Comisiwn gydymffurfio â'i ddyletswyddau yn is-adran (2)—</p> <p>(a) mewn perthynas â'r cyfnod adolygu cyntaf, cyn gynted ag y bo modd wedi iddo ddechrau, a</p> <p>(b) mewn perthynas â phob cyfnod adolygu dilynol, cyn i'r cyfnod ddechrau.</p> <p>(5) Caiff y Comisiwn hefyd, o'i wirfodd neu ar gais prif gyngor, gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal.</p> <p>(6) Ond rhaid i'r Comisiwn beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (5) ar gais prif gyngor os yw o'r farn y byddai</p>	<p>Part 2, Chapter 1, section 41, Part 2, Chapter 1, section 47</p>

gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.

(7)Y newidiadau y caiff y Comisiwn eu hargymell mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon yw—

(a)y newidiadau hynny i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y brif ardal sydd dan adolygiad y mae o'r farn eu bod yn briodol, a

(b)o ganlyniad i newid o'r fath—

(i)y newidiadau hynny i ffiniau cymuned y mae o'r farn eu bod yn briodol mewn perthynas ag unrhyw gymuned yn y brif ardal,

(ii)y newidiadau hynny i gyngor cymuned a newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned o'r fath y mae o'r farn eu bod yn briodol,

(iii)y newidiadau hynny i sir wedi ei chadw y mae o'r farn eu bod yn briodol.

(8)Rhaid i'r Comisiwn beidio â gwneud neu gyhoeddi, yn unrhyw gyfnod o 9 12 mis cyn diwrnod etholiad arferol cyngor o dan adran 26 o Ddeddf 1972 (ethol cyngorwyr), unrhyw argymhellion sy'n ymwneud â threfniadau etholiadol prif ardal.

(9)Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at drefniadau etholiadol prif ardal yn gyfeiriad at y canlynol—

(a)nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y brif ardal,

(b)nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol y rhennir y brif ardal iddynt am y tro at ddibenion ethol aelodau,

(c)nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward etholiadol yn y brif ardal honno, a

(d)enw unrhyw ward etholiadol.

(10)At ddibenion is-adran (9)(b), mae cyfeiriad at y math o ward etholiadol yn gyfeiriad at a yw'r ward yn ward un aelod neu'n ward amlaelod.

(11)Yn y Rhan hon—

- ystyr "ward amlaelod" yw unrhyw ward etholiadol y mae nifer penodedig (mwy nag un) o aelodau i'w hethol ar gyfer y ward honno,
- ystyr "ward etholiadol" yw unrhyw ardal yr etholir aelodau i awdurdod lleol ar ei chyfer, ac
- ystyr "ward un aelod" yw ward etholiadol y mae un aelod yn unig i'w ethol ar ei chyfer.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><b>30Ystyriaethau ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol prif ardal</b></p> <p><del>(1) Rhaid i'r Comisiwn, wrth ystyried a fydd yn gwneud argymhellion ynghylch newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal—</del></p> <p><del>(a) ceisio sicrhau bod yr un gymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal, neu'n agos at fod felly,</del></p> <p><del>(b) rhoi sylw i'r canlynol—</del></p> <p><del>(i) dymunoldeb pennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol sydd yn hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly,</del></p> <p><del>(ii) dymunoldeb peidio â thorri'r cwlwm lleol wrth bennu ffiniau ar gyfer wardiau etholiadol.</del></p> <p><u>(1) Wrth ystyried a fydd yn gwneud argymhellion ynghylch newidiadau i drefniadau etholiadol prif ardal, rhaid i'r Comisiwn roi sylw i'r ffactorau a ganlyn—</u></p> <p><u>(a) dymunoldeb cael cymhareb o etholwyr llywodraeth leol i nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol sydd yr un fath, neu bron yr un fath, ym mhob ward etholiadol o'r brif ardal;</u></p> <p><u>(b) ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol maint, siâp a hygyrchedd ward etholiadol;</u></p> <p><u>(c) unrhyw gwllwm lleol a fyddai'n cael ei dorri gan newidiadau o'r fath.</u></p> <p>(2) At ddibenion is-adran (1)(a), rhaid rhoi sylw i'r canlynol—</p> <p>(a) unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel a welir mewn ystadegau swyddogol perthnasol), a</p> <p>(b) unrhyw newid yn nifer neu yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y brif ardal sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl gwneud unrhyw argymhelliad.</p> <p>(3) Yn yr adran hon, ystyr "ystadegau swyddogol perthnasol" yw'r ystadegau swyddogol hynny o fewn yr ystyr a roddir i "official statistics" yn adran 6 o <a href="#">Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 (p. 18)</a> y mae'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol.</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 40</p>
--	---

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(4)Yn y Rhan hon, ystyr “etholwr llywodraeth leol” yw person sydd wedi ei gofrestru'n etholwr llywodraeth leol yn y gofrestr etholwyr yn unol â darpariaethau Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl.</p>	
<p><b>31 Adolygu trefniadau etholiadol i gymuned gan brif gyngor</b></p> <p><u>(A1) Rhaid i brif gyngor gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob cymuned yn ei ardal o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu.</u></p> <p><u>(A2)Yn is-adran (A1), ystyr “cyfnod adolygu” yw—</u></p> <p>_____ (a) y cyfnod o 12 mlynedd sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daw adran <b>Error! Reference source not found.</b> o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 i rym, a</p> <p>_____ (b) pob cyfnod dilynol o 12 mlynedd.</p> <p><u>(A3) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (A2).</u></p> <p>(1)Caiff prif gyngor <u>hefyd</u> gynnal adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned yn ei ardal —</p> <p>(a) o'i wirfodd, neu</p> <p>(b) ar gais—</p> <p>(i) y cyngor cymuned ar gyfer y gymuned, neu</p> <p>(ii) dim llai na 30 o etholwyr llywodraeth leol sydd wedi eu cofrestru yn y gymuned.</p> <p>(2) Ond rhaid i brif gyngor beidio â chynnal adolygiad o dan is-adran (1) ar gais y cyngor cymuned neu etholwyr llywodraeth leol os yw o'r farn y byddai gwneud hynny'n ei rwystro rhag arfer ei swyddogaethau'n briodol.</p> <p>(3) Y newidiadau y caiff prif gyngor eu cynnig a'u gwneud mewn perthynas ag adolygiad o dan yr adran hon—</p> <p>(a) yw'r newidiadau hynny i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned y mae'r prif gyngor o'r farn eu bod yn briodol, a</p> <p>(b) o ganlyniad i unrhyw newid i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned, y newidiadau hynny i drefniadau etholiadol y brif ardal y mae o'r farn eu bod yn briodol.</p> <p>(4) At ddibenion is-adran (3)(b), mae adran 30 yn gymwys i brif gyngor fel y mae'n gymwys i'r Comisiwn.</p> <p>(5) Caiff prif gyngor ymrwymo mewn cytundeb gyda'r Comisiwn er mwyn i'r Comisiwn (o dan adran 32) arfer</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 51</p>



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>swyddogaeth y cyngor o gynnal adolygiadau o dan yr adran hon.</p> <p>(6)Caiff y cytundeb fod ar y telerau a'r amodau hynny y mae'r prif gyngor a'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol.</p> <p>(7)Yn y Rhan hon, mae cyfeiriad at drefniadau etholiadol cymuned yn gyfeiriad at y canlynol—</p> <p>(a)nifer aelodau'r cyngor ar gyfer y gymuned;</p> <p>(b)ei rhaniad yn wardiau (os yw'n briodol) at ddibenion ethol cynghorwyr;</p> <p>(c)nifer a ffiniau unrhyw wardiau;</p> <p>(d)nifer yr aelodau sydd i'w hethol ar gyfer unrhyw ward;</p> <p>(e)enw unrhyw ward.</p>	
<p><b>33Ystyriaethau ar gyfer adolygiad o drefniadau etholiadol cymuned</b></p> <p>(1)Mae'r adran hon yn gymwys pan fo prif gyngor yn ystyried gwneud neu, yn ôl y digwydd, pan fo'r Comisiwn yn ystyried argymell, newidiadau i'r trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned.</p> <p>(2)Wrth ystyried a ddylid rhannu cymuned yn wardiau cymuned, rhaid rhoi sylw i'r canlynol—</p> <p>(a)a yw nifer neu ddosbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol ar gyfer y gymuned yn y fath fodd sy'n gwneud un etholiad o gynghorwyr cyngor cymuned yn anymarferol neu'n anghyfleus, a</p> <p>(b)a yw'n ddymunol y dylai unrhyw ardal o'r gymuned gael cynrychiolaeth ar wahân ar y cyngor cymuned.</p> <p>(3)Pan benderfynir rhannu cymuned yn wardiau cymuned, wrth ystyried maint a ffiniau'r wardiau ac wrth bennu nifer y cynghorwyr cymuned sydd i'w hethol ar gyfer pob ward, dylid rhoi sylw i'r canlynol—</p> <p>(a)unrhyw newid yn nifer neu yn nosbarthiad etholwyr llywodraeth leol yn y gymuned sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl unrhyw argymhelliad,</p> <p><del>(b)dymunoldeb pennu ffiniau sydd yn hawdd eu hadnabod ac a fyddant yn parhau felly, ac</del></p> <p><u>(b) ystyriaethau daearyddol arbennig, gan gynnwys yn benodol faint, siâp a hygyrchedd ward gymunedol, ac</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 51</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(c) unrhyw gwllwm lleol a fydd yn cael ei dorri wrth bennu ffiniau penodol.</p> <p>(4) Pan benderfynir peidio â rhannu cymuned yn wardiau cymuned, wrth bennu nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol ar gyfer pob cymuned, dylid rhoi sylw i'r canlynol—</p> <p>(a) nifer a dosbarthiad yr etholwyr llywodraeth leol yn y gymuned, a</p> <p>(b) unrhyw newid yn y nifer neu'r dosbarthiad hwnnw sy'n debygol o ddigwydd yn y cyfnod o bum mlynedd yn union ar ôl pennu nifer y cynghorwyr cymuned.</p> <p>(5) At ddibenion yr adran hon, rhaid rhoi sylw i unrhyw anghysondeb rhwng nifer etholwyr llywodraeth leol a nifer y personau sydd yn gymwys i fod yn etholwyr llywodraeth leol (fel a welir mewn ystadegau swyddogol perthnasol).</p> <p>(6) Yn yr adran hon, ystyr "ystadegau swyddogol perthnasol" yw'r ystadegau swyddogol hynny (o fewn yr ystyr a roddir i "official statistics" yn adran 6 o <a href="#">Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 (p. 18)</a>) y mae'r Comisiwn, neu yn ôl y digwydd, y prif gyngor o'r farn eu bod yn briodol.</p>	
<p><b>34 Y weithdrefn ragadolygu</b></p> <p>(1) Cyn cynnal adolygiad o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor gymryd y camau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol er mwyn—</p> <p>(a) dod â'r adolygiad i sylw <u>aelodau o'r cyhoedd yr effeithir arnynt gan yr adolygiad</u>, ymgynghoreion gorfodol ac unrhyw berson arall y mae o'r farn ei bod yn debygol y bydd ganddynt fuddiant yn yr adolygiad, a</p> <p>(b) gwneud yr ymgynghoreion gorfodol a'r personau eraill hynny y mae ganddynt fuddiant yn ymwybodol o unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Weinidogion Cymru sy'n berthnasol i'r adolygiad.</p> <p>(2) O ran adolygiad sydd i'w gynnal o dan adran 29, cyn cynnal yr adolygiad, rhaid i'r Comisiwn hefyd ymgynghori â'r ymgynghoreion gorfodol ynghylch y weithdrefn a'r fethodoleg a fwriedir ar gyfer yr adolygiad ac, yn benodol, sut y mae'n bwriadu penderfynu nifer priodol yr aelodau ar gyfer unrhyw brif gyngor yn y brif ardal neu'r ardaloedd sydd dan adolygiad.</p> <p>(3) At ddibenion y Rhan hon, yr "ymgynghoreion gorfodol" yw—</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 45 , Rhan 2, Pennod 1, adran 46</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(a) unrhyw awdurdod lleol y mae'r adolygiad yn effeithio arno,</p> <p>(b) ac eithrio mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 28 (adolygu ffiniau tua'r môr), comisiynydd heddlu a throsedd ar gyfer unrhyw ardal heddlu y gall yr adolygiad effeithio arni,</p> <p>(ba) unrhyw awdurdod tân ac achub (a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o <a href="#">Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004</a> (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo) ar gyfer ardal yng Nghymru y gallai'r adolygiad effeithio arni,</p> <p>(c) ac eithrio pan fo'r adolygiad yn cael ei gynnal (neu i'w gynnal) ganddo ef, y Comisiwn,</p> <p><u>(ca) yr awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol mewn ardal yr effeithir arni gan yr adolygiad,</u></p> <p><u>(cb) yr awdurdod Iechyd Porthladd a gyfansoddir o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ar gyfer rhanbarth iechyd porthladd mewn ardal yr effeithir arni gan yr adolygiad,</u></p> <p><u>(cc) Comisiynydd y Gymraeg,</u></p> <p>(d) unrhyw gorff sy'n cynrychioli'r staff a gyflogir gan awdurdodau lleol sydd wedi gofyn am ymgynghoriad â hwy, a</p> <p>(e) unrhyw bersonau eraill a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.</p> <p>(4) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i adolygiad a gynhelir gan y Comisiwn yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 26(2)(b)(ii) neu (iii).</p>	
<p><b>35 Ymgynghori ac ymchwilio</b></p> <p>(1) Wrth gynnal adolygiad o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor ("y corff adolygu")—</p> <p><u>(za) ymgynghori ag aelodau o'r cyhoedd yn yr ardal yr effeithir arni gan yr adolygiad,</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 45</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(a)ymgynggori â'r ymgynghoreion gorfodol a'r personau eraill hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol, a</p> <p>(b)cynnal yr ymchwiliadau hynny y mae o'r farn eu bod yn briodol.</p> <p>(2)Ar ôl cynnal yr ymgynghoriad a'r ymchwiliadau o dan is-adran (1), rhaid i'r corff adolygu lunio adroddiad sy'n cynnwys—</p> <p>(a)unrhyw gynigion ar gyfer newid y mae o'r farn eu bod yn briodol neu, os yw o'r farn nad oes unrhyw newid yn briodol, cynnig i'r diben hwnnw,</p> <p>(b)manylion o'r adolygiad y mae wedi ei gynnal.</p> <p>(3)Rhaid i'r corff adolygu—</p> <p>(a)cyhoeddi'r adroddiad yn electronig,</p> <p><u>(aa)rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith y caniateir cyflwyno sylwadau sy'n ymwneud â'r adolygiad i'r corff adolygu yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus,</u></p> <p><u>(ab) nodi yn y deunydd cyhoeddusrwydd pryd y mae'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn dechrau ac yn dod i ben,</u></p> <p>(b)sicrhau bod yr adroddiad ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn swyddfeydd unrhyw brif gyngor sydd â buddiant yn yr adolygiad ar hyd y <u>cyfnod ar gyfer sylwadau cyfnod ymgynghori cyhoeddus,</u></p> <p>(c)anfon copiâu o'r adroddiad at Weinidogion Cymru a'r ymgynghoreion gorfodol,</p> <p>(d)hysbysu unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth i'r corff adolygu sut i gael copi o'r adroddiad, ac</p> <p><del>(e)gwahodd sylwadau a hysbysu'r personau a grybwyllir yn (c) a (d) am y cyfnod ar gyfer sylwadau.</del></p> <p><u>(e) ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir iddo yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus.</u></p> <p>(4)At ddibenion is-adran (3), y "cyfnod ar gyfer sylwadau" yw cyfnod nad yw'n llai na 6 wythnos, nac yn hwy na 12 wythnos (fel a benderfynir gan y corff adolygu) yn dechrau dim cynt nag un wythnos ar ôl rhoi hysbysiad am y cyfnod.</p> <p><u>(4) Yn is-adran (3), ystyr "cyfnod ymgynghori cyhoeddus" yw cyfnod o 6 wythnos o leiaf a dim mwy na 12 wythnos a benderfynir gan y corff adolygu, na chaniateir iddo ddechrau cyn diwedd cyfnod o 7 niwrnod sy'n dechrau gyda'r diwrnod y cyhoeddir yr adroddiad.</u></p>	
--	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(5)At ddibenion yr adran hon, mae gan brif gyngor fuddiant mewn adolygiad—</p> <p>(a)os ef yw'r corff adolygu,</p> <p>(b)os yw ei ardal dan adolygiad,</p> <p>(c)os yw cymuned yn ei ardal (neu os yw'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned honno) dan adolygiad.</p> <p>(6)Yn yr adran hon ac yn adran 36 mae cyfeiriad at gynnig newid yn gyfeiriad at unrhyw newid y caiff y corff adolygu ei argymhell neu ei wneud (gan gynnwys newid canlyniadol) mewn perthynas â'r math o adolygiad sy'n cael ei gynnal.</p>	
<p><b>36Adrodd ar yr adolygiad</b></p> <p>(1)Rhaid i'r Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor ("y corff adolygu"), ar ôl i'r <del>cyfnod ar gyfer sylwadau</del> <u>cyfnod ymgynghori cyhoeddus</u> o dan adran 35(3) ddod i ben, ystyried ei gynigion i newid gan roi sylw i unrhyw sylwadau a gafwyd ganddo yn ystod y cyfnod.</p> <p>(2)Yna rhaid i'r corff adolygu lunio adroddiad pellach.</p> <p>(3)Ac eithrio mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 31, rhaid i'r adroddiad gynnwys—</p> <p>(a)unrhyw argymhelliad i newid y mae'r corff adolygu o'r farn ei fod yn briodol, neu os yw o'r farn nad oes unrhyw newid yn briodol, argymhelliad i'r diben hwnnw,</p> <p>(b)manyllion yr adolygiad a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r cynigion, ac</p> <p>(c)manyllion unrhyw newidiadau i'r cynigion a wnaed yng ngoleuni'r sylwadau a gafwyd ac esboniad paham y gwnaed y newidiadau hynny.</p> <p>(4)Pan fo adolygiad o dan adran 31, rhaid i'r adroddiad gynnwys—</p> <p>(a)y newidiadau y mae'r corff adolygu yn bwriadu eu gwneud i'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned dan adolygiad, neu os yw o'r farn nad yw newid o'r fath yn briodol, ddatganiad i'r diben hwnnw,</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 45</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>(b)many lion yr adolygiad a'r ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r cynigion, ac</p> <p>(c)many lion unrhyw newidiadau i'r cynigion a wnaed yng ngoleuni'r sylwadau a gafodd ac esboniad paham y gwnaed y newidiadau hynny.</p> <p>(5)Rhaid i'r corff adolygu—</p> <p>(a)cyflwyno'r adroddiad a'i argymhellion i'r awdurdod gweithredu priodol (ac eithrio pan ef yw'r awdurdod gweithredu),</p> <p>(b)cyhoeddi'r adroddiad yn electronig a sicrhau ei fod ar gael i edrych arno (yn ddi-dâl) yn swyddfeydd unrhyw brif gyngor sydd â buddiant am gyfnod sydd o leiaf yn 6 wythnos yn dechrau ar ddyddiad y cyhoeddi,</p> <p>(c)anfon copi o'r adroddiad at yr ymgynghoreion gorfodol, yr Arolwg Ordnans ac (onid hwy yw'r awdurdod gweithredu) at Weinidogion Cymru,</p> <p>(d)hysbysu unrhyw berson arall a gyflwynodd dystiolaeth neu a wnaeth sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad a gyhoeddwyd o dan adran 35 sut i gael copi o'r adroddiad.</p> <p>(6)At ddibenion is-adran (5), yr "awdurdod gweithredu priodol" yw—</p> <p>(a)mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 23, Gweinidogion Cymru ac, mewn achos pan fo'r Comisiwn yn argymhell newid i ardal heddlu, yr Ysgrifennydd Gwladol (i'r graddau y mae'n ymwneud â'r newid hwnnw);</p> <p>(b)mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 25, y Comisiwn;</p> <p>(c)mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 26, 27, 28 neu 29, Gweinidogion Cymru;</p> <p>(d)mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 32, prif gyngor y gymuned a fu'n destun yr adolygiad.</p> <p>(7)Pan fo prif gyngor yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 25, nid yw'r</p>	
---	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>Comisiwn i gael ei drin fel ymgynghorai gorfodol at ddibenion is-adran (5)(c).</p> <p>(8)At ddibenion yr adran hon mae gan brif gyngor fuddiant mewn adolygiad—</p> <p>(a)os ef yw'r corff adolygu;</p> <p>(b)os yw ei ardal dan adolygiad;</p> <p>(c)os yw cymuned yn ei ardal (neu os yw'r trefniadau etholiadol ar gyfer y gymuned honno) dan adolygiad.</p> <p>(9)Yn yr adran hon mae cyfeiriad at argymhelliad i newid yn gyfeiriad at unrhyw newid y caiff y corff adolygu ei argymhell neu ei wneud (gan gynnwys newid canlyniadol) mewn perthynas â'r math o adolygiad sy'n cael ei gynnal.</p>	
<p><b><u>36A Enwau wardiau etholiadol mewn adroddiadau adolygu</u></b></p> <p><u>(1)Mae is-adran (2) yn gymwys i adroddiad adolygu o dan y Rhan hon i'r graddau y mae'n ymwneud ag—</u></p> <p><u>(a)ward etholiadol sydd ag enwau gwahanol (mewn unrhyw gyswllt) at ddibenion nodi'r ward wrth gyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg;</u></p> <p><u>(b)cynnig i ward etholiadol gael enwau gwahanol mewn unrhyw gyswllt at ddibenion nodi'r ward wrth gyfathrebu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.</u></p> <p><u>(2)Rhaid i'r Comisiwn neu'r prif gyngor (yn ôl y digwydd) bennu'r ddau enw neu'r ddau enw arfaethedig ar gyfer y ward etholiadol yn nwy fersiwn ieithyddol adroddiad o dan adran 35(2), 36(3) neu 36(4).</u></p> <p><u>(3)Yn yr adran hon ystyr "dwy fersiwn ieithyddol" yw'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg.</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 44</p>
<p><b><u>36B Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau adolygiadau</u></b></p> <p><u>(1)Cyn cynnal adolygiad o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu, yn ôl y digwydd, brif gyngor gyhoeddi datganiad sy'n pennu'r diwrnod y mae'r adolygiad yn dechrau.</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 48</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(2) Rhaid i'r Comisiwn, mewn perthynas ag adolygiad y mae'n ei gynnal o dan adran 23, 27 neu 29, wneud pob ymdrech i gyhoeddi ei adroddiad pellach ar yr adolygiad yn unol ag adran 36(5)(b) cyn diwedd cyfnod o 12 mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod a bennir o dan is-adran (1).</u></p> <p><u>(3) Rhaid i'r Comisiwn, mewn perthynas ag adolygiad y mae'n ei gynnal o dan adran 28, wneud pob ymdrech i gyhoeddi ei adroddiad pellach ar yr adolygiad yn unol ag adran 36(5)(b) cyn diwedd cyfnod o 18 mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod a bennir o dan is-adran (1).</u></p> <p><u>(4) Rhaid i'r Comisiwn, mewn perthynas ag adolygiad y mae'n ei gynnal o dan adran 26, 31 neu 32, wneud pob ymdrech i gyhoeddi ei adroddiad pellach ar yr adolygiad yn unol ag adran 36(5)(b) cyn diwedd cyfnod o 24 mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod a bennir o dan is-adran (1).</u></p> <p><u>(5) Rhaid i brif gyngor, mewn perthynas ag adolygiad y mae'n ei gynnal o dan adran 25 neu 31, wneud pob ymdrech i gyhoeddi ei adroddiad pellach ar yr adolygiad yn unol ag adran 36(5)(b) cyn diwedd cyfnod o 24 mis sy'n dechrau gyda'r diwrnod a bennir o dan is-adran (1).</u></p> <p><u>(6) Os bydd corff adolygu yn methu â chydymffurfio â dyletswydd a osodir gan yr adran hon mewn perthynas ag adolygiad, nid yw methiant y corff i gydymffurfio yn effeithio ar ddilysrwydd yr adolygiad at ddibenion y Ddeddf hon.</u></p>	
<p><b>37 Gweithredu gan Weinidogion Cymru</b></p> <p>(1) Caiff Gweinidogion Cymru, ar ôl iddynt gael adroddiad sy'n cynnwys argymhellion oddi wrth y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad a gynhaliwyd o dan adran 23, 26, 27, 28 neu 29, neu gais am weithredu ei argymhellion o dan adran 39(7)—</p> <p>(a) drwy orchymyn weithredu unrhyw argymhelliad, gydag addasiadau neu hebddynt, neu</p> <p>(b) penderfynu peidio â gweithredu <u>ar unrhyw argymhelliad.</u></p> <p>(2) Er hynny, ni chaiff Gweinidogion Cymru weithredu argymhelliad gydag addasiadau oni bai ei fod—</p> <p>(a) mewn achos sy'n ymwneud ag argymhellion i newid trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardal, os ydynt wedi</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 43</p> <p>Rhan 2, Pennod 1, adran 47</p> <p>Rhan 2, Pennod 1, adran 49</p>



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

ystyried y materion a ddisgrifir yn adran 30 ac wedi eu bodloni ei bod yn briodol i wneud yr addasiad,

(b)mewn achos sy'n ymwneud ag argymhellion i newid trefniadau etholiadol ar gyfer cymuned, os ydynt wedi ystyried y materion a ddisgrifir yn adran 33 ac wedi eu bodloni ei bod yn briodol i wneud yr addasiad, ac

(c)mewn unrhyw achos, os ydynt wedi eu bodloni bod yr addasiad er lles llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

(2A) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio ag arfer eu swyddogaethau o dan is-adran (1) mewn unrhyw gyfnod o 6 mis cyn diwrnod etholiad cyffredin cyngor o dan adran 26 o Ddeddf 1972 (ethol cynghorwyr).

~~(3) Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1)(a) nes bod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd Gweinidogion Cymru yr argymhellion wedi dod i ben.~~

(3A) Rhaid i Weinidogion Cymru beidio ag arfer eu swyddogaethau o dan is-adran (1) cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r argymhellion i law Gweinidogion Cymru.

(3B) Wrth arfer eu swyddogaethau o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan unrhyw berson ar yr argymhellion ac a ddaw i law Gweinidogion Cymru yn ystod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r argymhellion i law Gweinidogion Cymru.

(4) Rhaid i'r Comisiwn roi'r wybodaeth bellach honno i Weinidogion Cymru mewn perthynas â'i argymhellion fel y bo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn rhesymol ofynnol.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud pob ymdrech i wneud penderfyniad ar bob argymhelliad a gânt, o'r math a ddisgrifir yn is-adran (1), cyn diwedd cyfnod o 3 mis sy'n dechrau ar ddiwedd y cyfnod a bennir gan is-adran (3A).

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi eu penderfyniad mewn cysylltiad â phob argymhelliad; ac mae'r dyddiad y cyhoeddir y datganiad i'w drin fel dyddiad y penderfyniad at ddibenion is-adran (5).

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(7) Os bydd Gweinidogion Cymru yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (5), nid yw'r methiant i gydymffurfio yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw orchymyn o dan is-adran (1)(a) nac unrhyw benderfyniad i beidio â gweithredu o dan is-adran (1)(b).</u></p>	
<p><b>38Gweithredu newid i ffin cymuned</b></p> <p>(1)Caiff y Comisiwn, ar ôl iddo gael adroddiad yn cynnwys argymhellion i newid oddi wrth brif gyngor mewn perthynas ag adolygiad a gynhaliwyd o dan adran 25—</p> <p>(a)drwy orchymyn weithredu'r argymhellion heb addasiadau,</p> <p>(b)drwy orchymyn weithredu'r argymhellion gyda'r addasiadau hynny y mae'r prif gyngor yn cytuno arnynt, neu</p> <p>(c)yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 26(2)(b)(ii) neu (iii), gynnal ei adolygiad ei hun.</p> <p><del>(2)Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) nes bod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y Comisiwn argymhellion y prif gyngor wedi dod i ben.</del></p> <p><u>(2A) Rhaid i'r Comisiwn beidio ag arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (1) cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r argymhellion i law'r Comisiwn.</u></p> <p><u>(2B) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (1), rhaid i'r Comisiwn roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan unrhyw berson ar yr argymhellion ac a ddaw i law'r Comisiwn yn ystod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r argymhellion i law'r Comisiwn.</u></p> <p>(3)Dim ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru y caniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) sy'n cynnwys newidiadau i drefniadau etholiadol prif ardal.</p> <p>(4)Rhaid i'r prif gyngor a wnaeth yr argymhellion roi i'r Comisiwn yr wybodaeth bellach honno mewn perthynas â'r argymhellion neu'r weithdrefn a ddilynwyd fel y bo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn rhesymol ofynnol.</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 43 Rhan 2, Pennod 1, adran 49</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(5) Rhaid i Weinidogion Cymru wneud pob ymdrech i wneud penderfyniad ar bob argymhelliad a gânt, o'r math a ddisgrifir yn is-adran (1), cyn diwedd cyfnod o 3 mis sy'n dechrau ar ddiwedd y cyfnod a bennir gan is-adran (3A).</u></p> <p><u>(6) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad sy'n nodi eu penderfyniad mewn cysylltiad â phob argymhelliad; ac mae'r dyddiad y cyhoeddir y datganiad i'w drin fel dyddiad y penderfyniad at ddibenion is-adran (5).</u></p> <p><u>(7) Os bydd Gweinidogion Cymru yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (5), nid yw'r methiant i gydymffurfio yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw orchymyn o dan is-adran (1)(a) nac unrhyw benderfyniad i beidio â gweithredu o dan is-adran (1)(b).</u></p>	
<p><b>39Gweithredu newid i drefniadau etholiadol cymuned</b></p> <p>(1)Caiff prif gyngor, drwy orchymyn, weithredu'r newidiadau a ddisgrifir mewn adroddiad a luniwyd gan y cyngor o dan adran 36(4).</p> <p>(2)Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) tan ddiwedd cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddodd y prif gyngor ei adroddiad.</p> <p>(3)Caiff prif gyngor, ar ôl cael adroddiad sy'n cynnwys yr argymhellion ar gyfer newid oddi wrth y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 32—</p> <p>(a)drwy orchymyn weithredu'r argymhellion heb addasiadau,</p> <p>(b)drwy orchymyn weithredu'r argymhellion gyda'r addasiadau hynny y cytunir arnynt â'r Comisiwn,</p> <p>(c)penderfynu peidio â gweithredu a hysbysu'r Comisiwn yn unol â hynny.</p> <p><del>(4)Ni chaniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (3) tan ddiwedd cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y mae'r cyngor yn cael yr adroddiad.</del></p> <p><u>(4A) Rhaid i'r Cyngor beidio ag arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (3) cyn diwedd y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r argymhellion i law'r Cyngor.</u></p> <p><u>(4B) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (1) neu (3), rhaid i'r Cyngor roi sylw i unrhyw sylwadau a gyflwynir gan unrhyw berson ar yr argymhellion ac a ddaw i law'r Cyngor yn ystod y cyfnod o 6 wythnos sy'n dechrau ar y dyddiad y cyhoeddir yr adroddiad gan y Cyngor (ar gyfer swyddogaethau yn is-adran (1)) neu'r dyddiad y daw'r argymhellion i law'r Cyngor (ar gyfer swyddogaethau o dan is-adran (3)).</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 43 Rhan 2, Pennod 1, adran 49</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(4C) Rhaid i'r prif gyngor wneud pob ymdrech i wneud penderfyniad ar bob argymhelliad a gaiff, o'r math a ddisgrifir yn is-adran (3), cyn diwedd cyfnod o 3 mis sy'n dechrau ar ddiwedd y cyfnod a bennir gan is-adran (4A).</u></p> <p><u>(4D) Rhaid i'r prif gyngor gyhoeddi datganiad sy'n nodi ei benderfyniad mewn cysylltiad â phob argymhelliad; ac mae'r dyddiad y cyhoeddir y datganiad i'w drin fel dyddiad y penderfyniad.</u></p> <p><u>(4E) Os bydd prif gyngor yn methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd yn is-adran (4C), nid yw'r methiant i gydymffurfio yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw orchymyn o dan is-adran (3)(a) neu (b) nac unrhyw benderfyniad neu hysbysiad o dan is-adran (3)(c).</u></p> <p>(5)Dim ond gyda chydysyniad Gweinidogion Cymru y caniateir gwneud gorchymyn o dan is-adran (1) neu (3) sy'n cynnwys newidiadau i drefniadau etholiadol prif ardal.</p> <p>(6)Mae is-adran (7) yn gymwys—</p> <p>(a)pan fo'r prif gyngor wedi hysbysu'r Comisiwn nad yw'n bwriadu gweithredu mewn cysylltiad â'r argymhellion, neu</p> <p>(b)pan na fo'r prif gyngor wedi gwneud gorchymyn (gydag addasiadau neu hebddynt) o fewn y cyfnod o <del>6 mis sy'n dechrau ar y dyddiad y cafodd y cyngor argymhellion y Comisiwn</del> <u>3 mis sy'n dechrau gyda diwedd y cyfnod a bennir gan is-adran (4C).</u></p> <p>(7)Caiff y Comisiwn ofyn i Weinidogion Cymru weithredu'r argymhellion o dan adran 37.</p>	
<p><b>48 Cyfarwyddiadau a chanllawiau ynghylch Rhan 3</b></p> <p>(1)Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.</p> <p>(2)Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn—</p> <p>(a)i gynnal adolygiad o dan y Rhan hon (ni waeth a fyddai gan y Comisiwn y pŵer, neu y byddai'n ddarostyngedig i ddyletswydd, o dan yr amgylchiadau, i gynnal yr adolygiad ai peidio),</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 50</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(aa)pan fo'r Comisiwn wedi gwneud argymhellion neu gynigion i Weinidogion Cymru, i gynnal adolygiad pellach o dan y Rhan hon,

(ab)i roi'r gorau i gynnal adolygiad o dan y Rhan hon,

(b)i beidio â chynnal adolygiad o dan y Rhan hon yn ystod cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd,

(c) . . . . .

(d)i gynnal yr adolygiadau sy'n ofynnol o dan adran 29(1) mewn trefn wahanol i'r hyn a gynigir gan y Comisiwn mewn unrhyw raglen gyfredol ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol a lunnir yn unol â'r adran honno,

(e)i roi sylw i unrhyw faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal adolygiad.

(f) i oedi adolygiad y mae'n ei gynnal o dan y Rhan hon am gyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd neu hyd oni roddir cyfarwyddyd pellach.

(3)Nid yw is-adran (1) yn cyfyngu ar y pŵer cyfarwyddo cyffredinol o dan adran 14.

(4)Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i brif gyngor sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(5)Yn benodol, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo prif gyngor—

(a) i gynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31,

(aa) i roi'r gorau i gynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31,

(ab) i beidio â chynnal adolygiad o dan adran 25 neu 31 yn ystod cyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd,

(b) i roi sylw i unrhyw faterion penodol a bennir yn y cyfarwyddyd wrth gynnal adolygiad.

(c) i oedi adolygiad y mae'n ei gynnal o dan y Rhan hon am gyfnod a bennir yn y cyfarwyddyd neu hyd oni roddir cyfarwyddyd pellach.

(6) Rhaid i brif gyngor gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (4).

(7) Caniateir i gyfarwyddiadau o dan yr adran hon ymwneud ag adolygiad penodol, math o adolygiad neu bob adolygiad.

(8) Ond cyn rhoi cyfarwyddyd o dan yr adran hon mewn perthynas ag adolygiad o brif ardal neu ei threfniadau etholiadol (neu adolygiadau o brif ardaloedd neu eu trefniadau etholiadol yn gyffredinol), rhaid i Weinidogion

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>Cymru ymgynghori â'r Comisiwn ac unrhyw gymdeithas yr ymddengys iddynt eu bod yn cynrychioli awdurdodau lleol.</p> <p>(9)Wrth arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Rhan hon, rhaid i'r Comisiwn neu brif gyngor roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.</p> <p>(10) <u>Rhaid i Weinidogion Cymru beidio â defnyddio'r pwerau cyfarwyddo o dan y Ddeddf hon i oedi adolygiad am fwy na 9 mis, pa un a yw'r oedi am un cyfnod o 9 mis neu am fwy nag un cyfnod sy'n dod i gyfanswm o 9 mis.</u></p> <p>(11) <u>Nid yw unrhyw gyfnod pan gyfarwyddir y Comisiwn neu brif gyngor o dan y Ddeddf hon i oedi adolygiad i gael ei ystyried at ddiben cyfrifo hyd y cyfnodau a grybwyllir yn is-adrannau (2) i (5) o adran 36B.</u></p>	
<p><b><u>49ZA Cyhoeddi gorchmynion o dan Ran 3</u></b></p> <p><u>(1)Rhaid i brif gyngor gyhoeddi a chynnal ar ei wefan—</u></p> <p><u>(a)copi o bob gorchymyn y mae'n ei wneud o dan y Rhan hon;</u></p> <p><u>(b)copi o bob gorchymyn sy'n ymwneud â'i ardal a wneir gan y Comisiwn o dan y Rhan hon;</u></p> <p><u>(c)copi o bob offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn sy'n ymwneud â'i ardal a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Rhan hon, neu ddolen at bob offeryn statudol o'r fath.</u></p> <p><u>(2)Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi a chynnal ar ei wefan—</u></p> <p><u>(a)copi o bob gorchymyn a wneir gan brif gyngor o dan y Rhan hon;</u></p> <p><u>(b)copi o bob gorchymyn y mae'r Comisiwn yn ei wneud o dan y Rhan hon;</u></p> <p><u>(c)copi o bob offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Rhan hon, neu ddolen at bob offeryn statudol o'r fath;</u></p> <p><u>(d)copi o bob offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y Rhan hon, neu ddolen at bob offeryn statudol o'r fath.</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 53</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(3) Rhaid i brif gyngor anfon copi o bob gorchymyn y mae'n ei wneud o dan y Rhan hon i'r Comisiwn.</u></p> <p><u>(4) Rhaid i'r Comisiwn anfon i brif gyngor gopi o bob gorchymyn y mae'n ei wneud o dan y Rhan hon sy'n effeithio ar ardal y prif gyngor.</u></p> <p><u>(5) Rhaid i Weinidogion Cymru—</u></p> <p><u>(a) hysbysu prif gyngor am bob gorchymyn y maent yn ei wneud o dan y Rhan hon sy'n effeithio ar ardal y prif gyngor;</u></p> <p><u>(b) hysbysu'r Comisiwn am bob gorchymyn y maent yn ei wneud o dan y Rhan hon.</u></p> <p><u>(6) Mae'r dyletswyddau yn is-adrannau (1) a (2) yn gymwys i orchmynion a wneir ar ôl i'r adran hon ddod i rym.</u></p>	
<p><b><u>49ZB Cyhoeddi rhestrau cyfredol o gymunedau a chynghorau cymuned</u></b></p> <p><u>(1) Rhaid i brif gyngor gyhoeddi a chynnal ar ei wefan restr gyfredol o'r holl gymunedau a chynghorau cymuned yn ei ardal, gyda'u henwau presennol.</u></p> <p><u>(2) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi a chynnal ar ei wefan restr gyfredol o'r holl gymunedau a chynghorau cymuned yng Nghymru, gyda'u henwau presennol.</u></p> <p><u>(3) Os oes gan gymuned neu gyngor cymuned enwau gwahanol at ddiben cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid cynnwys y ddau enw mewn rhestr y mae'n ofynnol ei chyhoeddi o dan yr adran hon.</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 54</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><b><del>Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol</del></b></p> <p><del>62Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau</del> Yn adran 142 o Fesur 2011 (swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau)—</p> <p>(a) yn is-adran (4), ar ôl “cyfran benodedig” mewn nosoder “neu nifer penodedig”,</p> <p>(b) ar ôl is-adran (5) mewn nosoder—</p> <p>“(5A) Ni chaiff y nifer a bennir gan y Panel yn unol ag is-adran (4), a fynegir fel cyfran o gyfanswm aelodau awdurdod, fod yn uwch na phum deg y cant oni chafwyd cydsyniad Gweinidogion Cymru.”.</p> <p><b><del>Gwybodaeth Cychwyn</del></b></p> <p><del>11A. 62 mewn grym ar 30.9.2013, gweler <a href="#">a.75(2)(d)</a></del></p> <p><del>63Swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflogau penaeithiaid gwasanaethau cyflogedig</del></p> <p>(1) Ar ôl adran 143 o Fesur 2011 mewn nosoder—</p> <p>“143A Swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflogau penaeithiaid gwasanaethau cyflogedig</p> <p>(1) Caiff y Panel wneud argymhellion i awdurdod perthnasol cymwys am—</p> <p>(a) unrhyw bolisi yn natganiad yr awdurdod ar bolisiau tâl sy'n ymwneud â chyflog pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod;</p> <p>(b) unrhyw newid arfaethedig i gyflog pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod.</p> <p>(2) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys roi sylw i unrhyw argymhelliad a gaiff oddi wrth y Panel wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau o dan adran 38 neu 39 o <a href="#">Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p.20)</a>.</p> <p>(3) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys, cyn iddo newid cyflog pennaeth ei wasanaeth cyflogedig mewn modd nad yw'n gymesur â newid i gyflogau staff arall yr awdurdod—</p> <p>(a) ymgynghori â'r Panel am y newid arfaethedig, a</p> <p>(b) rhoi sylw i unrhyw argymhelliad a gaiff oddi wrth y Panel wrth iddo benderfynu p'un ai i fynd rhagddo i wneud y newid ai peidio.</p> <p>(4) Rhaid i awdurdod perthnasol cymwys roi unrhyw wybodaeth i'r Panel y mae'n rhesymol i'r Panel ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei rhoi iddo mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.</p>	<p>Atodlen 1, Rhan 4, 13 (3)</p>
---	--------------------------------------



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(5)Caiff y Panel gyhoeddi unrhyw argymhellion y mae yn eu gwneud o dan yr adran hon.~~

~~(6)Rhaid i'r Panel roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru wrth iddo arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon.~~

~~(7)Yn yr adran hon—~~

- ~~• ystyr “awdurdod perthnasol cymwys” (“*qualifying relevant authority*”) yw awdurdod perthnasol (yn ystyr y Rhan hon) y mae'n ofynnol iddo lunio datganiad ar bolisiau tâl;~~
- ~~• mae “cyflog” (“*salary*”) yn cynnwys, yn achos pennaeth gwasanaeth cyflogedig y mae awdurdod perthnasol cymwys yn ei gymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau, daliadau gan yr awdurdod i bennaeth y gwasanaeth cyflogedig am y gwasanaethau hynny;~~
- ~~• ystyr “datganiad ar bolisiau tâl” (“*pay policy statement*”) yw datganiad ar bolisiau tâl a lunnir gan awdurdod perthnasol (yn ystyr adran 43(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011) o dan adran 38 o'r Ddeddf honno;~~
- ~~• ystyr “pennaeth gwasanaeth cyflogedig” (“*head of paid service*”) yw pennaeth gwasanaeth cyflogedig a ddynodir o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.”.~~

~~(2)Yn mhennawd Rhan 8 o Fesur 2011, hepgorer “AELODAU:”.~~

~~(3)Yn adran 112 o Ddeddf 1972 (penodi staff), yn is-adran (2A), ar ôl “statement” mewnosoder “and in relation to a local authority in Wales, section 143A of the Local Government (Wales) Measure 2011 (functions of the Independent Remuneration Panel in relation to salaries of heads of paid service).”.~~

### ~~Gwybodaeth Cychwyn~~

~~I2A. 63 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 75\(3\)](#)~~

~~I3A. 63 mewn grym ar 1.4.2014 gan [O.S. 2014/380](#), [ergl. 2](#)~~

### ~~64Awdurdodau perthnasol~~

~~Yn adran 144 o Fesur 2011 (awdurdodau perthnasol, aelodau etc.)—~~

~~(a)yn is-adran (2), ar ôl paragraff (d) mewnosoder—~~

~~“(e)corff a bennir yn awdurdod perthnasol mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.”,~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

~~(b) ar ôl is-adran (5) mewnosoder —~~

~~“(6) Ni chaniateir i gorff gael ei bennu yn awdurdod perthnasol oni bai —~~

~~(a) bod Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef,~~

~~(b) ei fod yn arfer swyddogaethau perthnasol, ac~~

~~(c) bod ei aelodaeth yn cynnwys o leiaf un aelod o awdurdod a ddisgrifir yn is-adran (2)(a) i (d).~~

~~(7) “Swyddogaeth berthnasol” yw —~~

~~(a) swyddogaeth a roddir gan un o Ddeddfau neu Fesurau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu~~

~~(b) swyddogaeth y gellid ei rhoi gan un o Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.~~

~~(8) Nid yw adrannau 142(4), 143, 147(3)(b) a 155 yn gymwys mewn perthynas â'r awdurdod perthnasol a ddisgrifir yn is-adran (2)(e).”.~~

#### **Gwybodaeth Cychwyn**

~~14A. 64 mewn grym ar 30.9.2013, gweler [a. 75\(2\)\(d\)](#)~~

~~65 Adroddiadau blynyddol dilynol~~

~~Yn adran 147 o Fesur 2011 (adroddiadau blynyddol dilynol) —~~

~~(a) yn is-adran (2)(a), yn lle “31 Rhagfyr” rhodder “28 Chwefror”,~~

~~(b) yn is-adran (4), ar ôl “(e)” mewnosoder “(gan gynnwys drwy bennu nifer o dan adran 142(4))”,~~

~~(c) yn lle is-adran (9) rhodder —~~

~~“(9) Mae darpariaethau adroddiad blynyddol neu atodol o dan yr adran hon yn dod i rym ar y dyddiad a bennir at y diben hwnnw yn yr adroddiad.~~

~~(10) Pan fo is-adran (11) yn gymwys, caiff yr adroddiad bennu bod darpariaeth gymwys i gael ei thrin fel petai wedi dod i rym hyd at 3 mis yn gynharach na dyddiad cyhoeddi'r adroddiad.~~

~~(11) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo adroddiad atodol yn cynnwys darpariaeth gymwys.~~

~~(12) “Darpariaeth gymwys” yw darpariaeth sy'n gwneud amrywiad at ddibenion is-adran (3)(a), (b) neu (c) yn adran 146.”.~~

#### **Gwybodaeth Cychwyn**

~~15A. 65 mewn grym ar 30.9.2013, gweler [a. 75\(2\)\(d\)](#)~~

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

**~~66~~ Ymgynghori ar adroddiadau drafft**

~~Yn adran 148 o Fesur 2011 (ymgynghori ar adroddiadau drafft)—~~

~~(a) yn is-adran (1), mae “neu adroddiad atodol” wedi ei ddiddymu, a~~

~~(b) ar ôl yr is-adran honno mewnosoder—~~

~~“(1A) Rhaid i'r Panel beidio â chyhoeddi adroddiad atodol—~~

~~(a) cyn diwedd y cyfnod o bedair wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'n anfon drafft o'r adroddiad yn unol ag adran 147, neu~~

~~(b) yn hwyrach na diwedd y cyfnod o wyth wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'n anfon drafft o'r adroddiad yn unol ag adran 147.”.~~

**Gwybodaeth Cychwyn**

**16A.** ~~66~~ mewn grym ar 30.9.2013, gweler **a. 75(2)(d)**

**~~67~~ Gofynion cyhoeddus rwydd mewn adroddiadau**

~~Yn adran 151 o Fesur 2011 (gofynion cyhoeddus rwydd mewn adroddiadau)—~~

~~(a) yn is-adran (1), ar ôl paragraff (b) mewnosoder—~~

~~“(c) ynghylch taliadau eraill a wneir i aelodau awdurdodau perthnasol gan gyrrff cyhoeddus eraill.”.~~

~~(b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder—~~

~~“(3) At ddibenion is-adran (1)(c), “corff cyhoeddus” yw—~~

~~(a) bwrdd iechyd lleol,~~

~~(b) panel heddlu a throsedd,~~

~~(c) awdurdod perthnasol,~~

~~(d) corff wedi ei ddynodi yn gorff cyhoeddus mewn gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru.”.~~

<p><b><u>RHAN 5A</u></b></p> <p><b><u>SWYDDOGAETHAU SY'N YMWNEUD A PHENSIYNAU</u></b></p> <p><i><u>Tâl ar gyfer aelodau awdurdod</u></i></p> <p><b><u>69A Swyddogaeth sy'n ymwneud â thaliadau i aelodau</u></b></p> <p><u>(1) Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill [2025] ac ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddilynol, rhaid i'r Comisiwn benderfynu ar y materion perthnasol—</u></p> <p><u>(a) y mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol wneud taliadau i aelodau o'r awdurdod amdanynt;</u></p> <p><u>(b) yr awdurdodir awdurdod perthnasol i wneud taliadau i aelodau o'r awdurdod amdanynt.</u></p> <p><u>(2) Yn y Rhan hon materion perthnasol yw—</u></p> <p><u>(a) materion sy'n ymwneud â busnes swyddogol aelodau awdurdodau perthnasol;</u></p> <p><u>(b) cyfnodau o absenoldeb teuluol o dan Ran 2 o Fesur 2011.</u></p> <p><u>(3) Wrth wneud penderfyniad o dan is-adran (1) rhaid i'r Comisiwn osod un o'r canlynol ar gyfer pob mater perthnasol—</u></p> <p><u>(a) y swm y mae rhaid i awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod;</u></p> <p><u>(b) yr uchafswm y caiff awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.</u></p> <p><u>(4) Caiff y Comisiwn benderfynu na chaniateir talu taliadau</u></p>	<p>Rhan 2, Pennod 2, adran 57</p>
---	---

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>mewn cysylltiad â mater neu faterion perthnasol i fwy na chyfran benodedig neu nifer penodedig o aelodau awdurdod perthnasol.</u></p> <p><u>(5) Ni chaiff y gyfran a bennir gan y Comisiwn o dan is-adran (4) fod yn fwy na 50% oni bai bod Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad.</u></p> <p><u>(6) Ni chaiff y nifer a bennir gan y Comisiwn o dan is-adran (4), a fynegir fel cyfran o gyfanswm aelodau awdurdod perthnasol, fod yn fwy na 50% oni bai bod Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad.</u></p> <p><u>(7) Caiff y Comisiwn osod—</u></p> <p><u>(a) canran uchaf neu gyfradd uchaf arall yr addasiad y caniateir i awdurdod perthnasol ei gwneud, ar gyfer blwyddyn ariannol, i'r symiau a oedd ag effaith mewn cysylltiad â materion perthnasol ar gyfer y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn honno;</u></p> <p><u>(b) mynegrif y caniateir i awdurdod perthnasol ei ddefnyddio i addasu, ar gyfer blwyddyn ariannol, y symiau a oedd ag effaith mewn cysylltiad â'r materion perthnasol hynny ar gyfer y flwyddyn flaenorol y bydd y Comisiwn yn penderfynu arnynt.</u></p> <p><u>(8) Caniateir arfer y pwerau o dan is-adran (7) er mwyn—</u></p> <p><u>(a) gosod cyfradd a mynegrif mewn perthynas â'r un mater;</u></p>	
--	--

<p><u>(b) gosod cyfraddau neu fynegrifau gwahanol mewn perthynas â materion gwahanol.</u></p> <p><u>(9) Wrth osod swm o dan is-adran (3), gwneud penderfyniad o dan is-adran (4) neu osod cyfradd neu fynegrif o dan is-adran (7), rhaid i'r Comisiwn ystyried beth yn ei farn ef fydd effaith ariannol debygol gwneud hynny ar awdurdodau perthnasol.</u></p> <p><u>(10) Caiff y Comisiwn wneud penderfyniadau gwahanol o dan is-adran (1), gosod symiau gwahanol o dan is-adran (3), gwneud penderfyniadau gwahanol o dan is-adran (4), neu osod cyfraddau neu fynegrifau gwahanol o dan is-adran (7), mewn perthynas ag awdurdodau perthnasol o ddisgrifiadau gwahanol neu ag awdurdodau perthnasol gwahanol o'r un disgrifiad.</u></p> <p><u>(11) At ddibenion is-adran (2) mae mater yn ymwneud â busnes swyddogol aelod o awdurdod perthnasol os yw'n fater y mae aelod yn ymgymryd ag ef—</u></p> <p><u>(a) fel aelod o awdurdod perthnasol, neu</u></p> <p><u>(b) fel aelod o gorff y penodir yr aelod iddo gan yr awdurdod perthnasol neu gan grŵp o gyrff sy'n cynnwys yr awdurdod perthnasol, neu yn sgil cael ei enwebu gan yr awdurdod perthnasol neu gan grŵp o gyrff sy'n cynnwys yr awdurdod perthnasol.</u></p> <p><u>(12) Yn yr adran hon ac yn adran 69E ystyr "blwyddyn ariannol" yw cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth.</u></p>	
---	--

**69B** **Swyddogaethau sy'n ymwneud â phensiynau aelodau**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas ag aelodau o awdurdodau perthnasol—
- (a) nad ydynt yn aelodau cyfetholedig, a
- (b) sydd am y tro yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn yn unol â rheoliadau o dan adran 7 o Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 (p. 11) (cynlluniau pensiwn llywodraeth leol).
- (2) Rhaid i'r Comisiwn benderfynu ar y disgrifiadau o aelodau y mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn ("pensiwn perthnasol") mewn cysylltiad â hwy.
- (3) Rhaid i'r Comisiwn benderfynu ar y materion perthnasol y mae'n ofynnol i awdurdod perthnasol dalu pensiwn perthnasol mewn cysylltiad â hwy.
- (4) Caiff y Comisiwn wneud penderfyniadau gwahanol mewn perthynas ag awdurdodau perthnasol o ddisgrifiadau gwahanol neu ag awdurdodau perthnasol gwahanol o'r un disgrifiad.

**69C** **Awdurdodau perthnasol, aelodau etc.**

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Rhan hon.
- (2) Mae awdurdod yn awdurdod perthnasol os yw'n—
- (a) awdurdod lleol;

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(b) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;</u></p> <p><u>(c) awdurdod tân ac achub Cymreig, sef awdurdod yng Nghymru a gyfansoddwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;</u></p> <p><u>(d) cyd-bwyllgor corfforedig;</u></p> <p><u>(e) corff a bennir yn awdurdod perthnasol mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.</u></p> <p><u>(3) Mae cyfeiriad at ddisgrifiad o awdurdod perthnasol i gael ei ddarllen gydag is-adran (2).</u></p> <p><u>(4) Mae "aelod", mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yn cynnwys—</u></p> <p><u>(a) maer etholedig i'r awdurdod (o fewn ystyr 39(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000),</u></p> <p><u>(b) aelod gweithredol etholedig o'r awdurdod (o fewn ystyr adran 39(4) o'r Ddeddf honno),</u></p> <p><u>(c) aelod cyfetholedig o'r awdurdod, a</u></p> <p><u>(d) person sy'n aelod o is-bwyllgor i gyd-bwyllgor corfforedig ac a chanddo hawlogaeth i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu gan yr is-bwyllgor hwnnw.</u></p>	
---	--



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(5) Ystyr "aelod cyfetholedig", mewn perthynas ag awdurdod perthnasol nad yw'n gyd- bwyllgor corfforedig, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod (ac eithrio yn rhinwedd is-adran (4)) ond—</u></p> <p><u>(a) sy'n aelod o bwylgor neu is-bwyllgor i'r awdurdod neu sy'n aelod o gyd- bwyllgor neu gyd-is- bwyllgor i'r awdurdod ac sy'n cynrychioli'r awdurdod ar y cyd- bwyllgor neu'r cyd-is- bwyllgor hwnnw, a</u></p> <p><u>(b) y mae ganddo hawlogaeth i bleidleisio ar gwestiynau sydd i'w penderfynu yng nghyfarfodydd y pwylgor hwnnw neu'r is-bwyllgor hwnnw.</u></p> <p><u>(6) Ni chaniateir pennu corff yn awdurdod perthnasol mewn rheoliadau o dan is-adran (2)(e) ond—</u></p> <p><u>(a) os yw Gweinidogion Cymru yn arfer swyddogaethau mewn cysylltiad ag ef,</u></p> <p><u>(b) os yw'n arfer swyddogaeth a roddir gan Fesur neu Ddeddf gan Senedd Cymru, neu swyddogaeth a allai gael ei rhoi gan Ddeddf gan Senedd Cymru (gan gynnwys swyddogaeth na allai gael ei rhoi ond gyda chydsyniad un o Weinidogion y Goron), ac</u></p> <p><u>(c) os yw ei aelodaeth yn cynnwys o leiaf un aelod o awdurdod a ddisgrifir yn is-adran (2)(a) i (d).</u></p>	
--	--

(7) Nid yw adrannau 69A(4), 69B, 69E(4)(d) a 69O yn gymwys mewn perthynas ag awdurdod perthnasol a ddisgrifir yn is-adran (2)(d) neu (e).

(8) Yn yr adran hon ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" yw pwyllgor a sefydlir drwy reoliadau o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**69D Swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau ailsefydlu**

(1) Mae taliad ailsefydlu yn daliad i berson—

(a) sy'n peidio â bod yn aelod o awdurdod lleol ar ddiwedd tymor ei swydd,

(b) a oedd, pan oedd yn ei swydd, yn aelod o awdurdod lleol o ddisgrifiad a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru,

(c) sy'n sefyll i gael ei ailethol i fod yn aelod o'r un awdurdod yn etholiad cyffredin yr awdurdod lleol ar gyfer y tymor sy'n dilyn ei dymor yn y swydd, a

(d) nad yw'n cael ei ddychwelyd yn aelod yn yr etholiad hwnnw.

(2) Rhaid i'r Comisiwn benderfynu—

(a) o dan ba amgylchiadau y mae'n ofynnol i awdurdod lleol wneud taliad ailsefydlu;

(b) o dan ba amgylchiadau yr awdurdodir awdurdod lleol i wneud taliad ailsefydlu;

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(c) y materion y mae taliad ailsefydlu yn daladwy mewn cysylltiad â hwy.</u></p> <p><u>(3) Wrth wneud penderfyniad o dan is-adran (2) rhaid i'r Comisiwn osod—</u></p> <p><u>(a) yr amodau cymhwyso i gael taliad;</u></p> <p><u>(b) y swm y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ei dalu;</u></p> <p><u>(c) yr uchafswm y caiff awdurdod lleol ei dalu i aelod;</u></p> <p><u>(d) mecanwaith y caniateir ei ddefnyddio i gynyddu neu i leihau swm y taliadau a osodir o dan baragraff (b) neu (c);</u></p> <p><u>(e) gofynion ynghylch sut y mae taliadau i'w gwneud (a pha mor aml y'u gwneir).</u></p> <p><u>(4) Rhaid i'r Comisiwn wneud trefniadau i adolygu unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud o dan is-adran (2) ac, os yw'n meddwl ei bod yn briodol, caiff ddiwygio ei benderfyniad.</u></p> <p><u>(5) Wrth wneud penderfyniad o dan yr adran hon rhaid i'r Comisiwn ystyried effaith ariannol debygol ei benderfyniad ar awdurdodau lleol.</u></p> <p><u>(6) Wrth wneud penderfyniad o dan is-adran (2) caiff y Comisiwn wneud darpariaeth wahanol mewn perthynas ag aelodau o awdurdodau lleol o ddisgrifiadau gwahanol neu ag aelodau gwahanol o'r un disgrifiad.</u></p>	
---	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(7) Rhaid i'r Comisiwn wneud penderfyniad o dan is-adran (2) cyn pob un o etholiadau cyffredin yr awdurdod lleol, gan ddechrau gyda'r etholiad sydd i'w gynnal ym mis Mai 2027 a rhaid iddo adolygu'r penderfyniad cyn pob etholiad cyffredin dilynol.

(8) Nid yw is-adran (7) ond yn gymwys os yw Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau o dan is-adran (1)(b).

**69E Adroddiadau blynyddol ar dâl mewn perthynas ag aelodau o awdurdodau perthnasol**

(1) Rhaid i'r Comisiwn lunio a chyhoeddi adroddiad ("adroddiad blynyddol ar dâl") ynghylch arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol.

(2) Rhaid i adroddiad blynyddol ar dâl nodi'r gofynion a osodir ar awdurdodau perthnasol gan y Comisiwn o dan adrannau 69A, 69B a 69D.

(3) Rhaid cyhoeddi adroddiad blynyddol ar dâl heb fod yn hwyrach nag—

(a) 28 Chwefror yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, neu

(b) unrhyw ddyddiad diweddarach y mae'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru yn cytuno arno.

(4) Rhaid i adroddiad blynyddol ar dâl nodi—

(a) y materion perthnasol,

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p>_____ (b) <u>y symiau a osodir o dan adran 69A(3),</u></p> <p>_____ (c) <u>y gyfran neu'r nifer a benderfynir o dan adran 69A(4),</u></p> <p>_____ (d) <u>yr aelodau neu'r disgrifiadau o aelodau o awdurdodau perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdodau perthnasol dalu pensiwn perthnasol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy,</u></p> <p>_____ (e) <u>y materion perthnasol y mae pensiwn perthnasol yn daladwy mewn cysylltiad â hwy,</u></p> <p>_____ (f) <u>unrhyw ganran, unrhyw gyfradd neu unrhyw fynegrif a osodir o dan adran 69A(7) a'r mater perthnasol y mae'n ymwneud ag ef, ac</u></p> <p>_____ (g) <u>unrhyw benderfyniad ynghylch taliadau ailsefydlu o dan adran 69D.</u></p> <p><b>69F Adroddiadau atodol ar dâl</b></p> <p>_____ (1) <u>Ar ôl cyhoeddi adroddiad blynyddol ar dâl ond cyn cyhoeddi'r adroddiad nesaf, caiff y Comisiwn lunio a chyhoeddi un neu ragor o adroddiadau atodol ar dâl i'r adroddiad blynyddol ar dâl ("adroddiad atodol ar dâl").</u></p> <p>_____ (2) <u>Caiff yr adroddiad atodol ar dâl—</u></p> <p>_____ (a) <u>amrywio'r ddarpariaeth a wnaed yn yr adroddiad blynyddol ar dâl o dan adran 69E(4);</u></p>	
--	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(b) gwneud unrhyw ddarpariaeth y gallai'r adroddiad blynyddol ar dâl fod wedi ei gwneud o dan adran 69E(4).

**69G Darpariaeth bellach ynghylch adroddiadau blynyddol ar dâl ac adroddiadau atodol ar dâl**

(1) Cyn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar dâl neu adroddiad atodol ar dâl o dan adran 69E neu 69F, rhaid i'r Comisiwn—

(a) anfon drafft o'r adroddiad y mae'n cynnig ei wneud—

(i) at Weinidogion Cymru,

(ii) i'r awdurdodau perthnasol y mae'r Comisiwn wedi ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud taliadau, neu wedi eu hawdurdodi i wneud taliadau, i'w haelodau mewn cysylltiad â materion perthnasol, a

(iii) at unrhyw bersonau eraill y mae'r Comisiwn o'r farn eu bod yn briodol,

(b) cyhoeddi'r adroddiad drafft cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei anfon.

(2) Wrth lunio adroddiad blynyddol ar dâl neu adroddiad atodol ar dâl o dan adran 69E neu 69F, rhaid i'r Comisiwn ystyried—

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(a) yr adroddiad blynyddol diwethaf ar dâl ac unrhyw adroddiadau atodol ar dâl sy'n ymwneud â'r adroddiad blynyddol diwethaf ar dâl;</u></p> <p><u>(b) sylwadau sydd wedi dod i law ynghylch yr adroddiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (a) a'r adroddiadau drafft y cyfeirir atynt yn is-adran (1).</u></p> <p><u>(3) Mae'r darpariaethau mewn adroddiad blynyddol neu atodol ar dâl o dan adran 69E neu 69F yn cael effaith ar y dyddiad a bennir at y diben hwnnw yn yr adroddiad.</u></p> <p><u>(4) Ond pan fo adroddiad atodol ar dâl yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan adran 69F(2) sy'n amrywio darpariaeth a wneir o dan adran 69E(4)(a), (b) neu (c), caiff yr adroddiad atodol ar dâl bennu bod y ddarpariaeth i gael ei thrin fel pe bai'n cael effaith hyd at 3 mis yn gynharach na dyddiad cyhoeddi'r adroddiad atodol ar dâl.</u></p> <p><b><u>69H Cyfarwyddiadau i ailystyried adroddiadau drafft</u></b></p> <p><u>(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Comisiwn i ailystyried darpariaeth mewn adroddiad drafft blynyddol neu adroddiad drafft atodol ar dâl.</u></p> <p><u>(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan yr adran hon bennu—</u></p> <p><u>(a) y ddarpariaeth,</u></p> <p><u>(b) y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd, ac</u></p>	
---	--





Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(b) yn hwyrach na diwedd y cyfnod o 12 wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y mae'n anfon drafft o'r adroddiad yn unol ag adran 69G(1)(a)(i).</u></p> <p><u>(3) Mae is-adrannau (1) a (2) yn ddarostyngedig i adran 69H(3)(b) (ni chaniateir cyhoeddi'r adroddiad ond os yw'r Comisiwn wedi ymateb i'r cyfarwyddyd).</u></p> <p><u>(4) Rhaid i'r Comisiwn gyhoeddi pob adroddiad blynyddol ar dâl, pob adroddiad atodol ar dâl a phob adroddiad drafft a lunnir o dan Ran 5A ar ei wefan, ac mewn unrhyw ffordd arall y mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol.</u></p> <p><u>(5) Caniateir i gopïau o unrhyw beth a gyhoeddir o dan is- adran (4) gael eu cyflenwi yn rhad ac am ddim neu ar ôl talu unrhyw ffi, nad yw'n fwy na chost cyflenwi'r copi, a benderfynir gan y Comisiwn.</u></p> <p><u>(6) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cyhoeddi adroddiad blynyddol ar dâl neu adroddiad atodol ar dâl, rhaid i'r Comisiwn hysbysu'r personau y mae o'r farn ei fod yn debygol o effeithio arnynt ynghylch sut y gallant gael mynediad at yr adroddiad neu gael copi ohono.</u></p> <p><b><u>69J Gofynion gweinyddol ar gyfer awdurdodau perthnasol mewn adroddiadau</u></b></p> <p><u>(1) Caiff adroddiad blynyddol ar dâl gynnwys gofynion y Comisiwn er mwyn—</u></p> <p><u>(a) osgoi dyblygu—</u></p>	
---	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(i) taliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol, a</u></p> <p><u>(ii) ceisiadau am daliad mewn cysylltiad â'r un materion perthnasol o dan adran 69A(2)(a);</u></p> <p><u>(b) cadw cofnodion—</u></p> <p><u>(i) o geisiadau am daliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol;</u></p> <p><u>(ii) o daliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol;</u></p> <p><u>(iii) o daliadau a wneir mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol;</u></p> <p><u>(iv) o daliadau ailsefydlu a wneir o dan adran 69D.</u></p> <p><u>(2) Rhaid i adroddiad blynyddol ar dâl nodi gofynion y Comisiwn mewn perthynas â sut y mae awdurdod perthnasol yn penderfynu pa awdurdod perthnasol y mae'n ofynnol iddo wneud taliad mewn achos pan fo aelod o awdurdod perthnasol yn gwneud rhywbeth—</u></p> <p><u>(a) y mae rhaid gwneud taliad amdano mewn cysylltiad â mater perthnasol, a</u></p> <p><u>(b) sy'n ymwneud ag awdurdod perthnasol arall (yn ogystal â'r awdurdod y mae'r aelod yn perthyn iddo).</u></p>	
--	--

**69K Gofynion cyhoeddi ar gyfer awdurdodau perthnasol mewn adroddiadau**

(1) Caiff adroddiad blynyddol ar dâl nodi gofynion y Comisiwn i awdurdodau perthnasol gyhoeddi gwybodaeth—

(a) ynghylch taliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol;

(b) ynghylch taliadau a wneir mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol;

(c) ynghylch taliadau ailsefydlu a wneir o dan adran 69D;

(d) ynghylch taliadau eraill a wneir i aelodau o awdurdodau perthnasol gan gyrff cyhoeddus eraill.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(d), ystyr "corff cyhoeddus" yw—

(a) bwrdd iechyd lleol;

(b) panel heddlu a throsedd;

(c) awdurdod perthnasol;

(d) corff sydd wedi ei ddynodi'n gorff cyhoeddus mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff y Comisiwn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau o ddisgrifiadau gwahanol neu i awdurdodau gwahanol o'r un disgrifiad wneud trefniadau cyhoeddi gwahanol.

**69L Monitro cydymffurfedd â gofynion y Comisiwn**

(1) Rhaid i awdurdod perthnasol gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a nodir mewn adroddiad blynyddol ar dâl neu adroddiad atodol ar dâl.

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(2) Caiff y Comisiwn fonitro sut y gwneir taliadau gan awdurdodau perthnasol mewn cysylltiad â materion perthnasol; a chaiff ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol ddarparu gwybodaeth iddo—</u></p> <p><u>(a) ynghylch y materion sy'n faterion perthnasol mewn perthynas â'r awdurdod;</u></p> <p><u>(b) ynghylch ceisiadau i'r awdurdod am daliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol;</u></p> <p><u>(c) ynghylch taliadau a wneir gan yr awdurdod mewn cysylltiad â materion perthnasol.</u></p> <p><u>(3) Caiff y Comisiwn fonitro sut y gwneir taliadau gan awdurdodau perthnasol mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol a chaiff ei gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol ddarparu gwybodaeth iddo—</u></p> <p><u>(a) ynghylch aelodau'r awdurdod y mae'n ofynnol i'r awdurdod dalu pensiynau perthnasol iddynt neu mewn cysylltiad â hwy;</u></p> <p><u>(b) ynghylch taliadau a wneir gan yr awdurdod mewn cysylltiad â phensiynau perthnasol.</u></p> <p><u>(4) Caiff y Comisiwn fonitro sut y gwneir taliadau ailsefydlu gan awdurdodau lleol a chaiff ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu gwybodaeth iddo—</u></p>	
--	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

\_\_\_\_\_ (a) ynghylch cyn-aelodau'r awdurdod lleol y mae'n ofynnol i'r awdurdod dalu taliad ailsefydlu iddynt neu mewn cysylltiad â hwy;

\_\_\_\_\_ (b) ynghylch taliadau ailsefydlu a wneir gan yr awdurdod lleol.

**69M Cyfarwyddiadau i orfodi cydymffurfedd â gofynion y Comisiwn**

\_\_\_\_\_ (1) Os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod awdurdod perthnasol wedi methu â chydymffurfio â gofyniad mewn adroddiad blynyddol neu adroddiad atodol ar dâl a wneir o dan y Rhan hon, cânt gyfarwyddo'r awdurdod i gydymffurfio â'r gofyniad.

\_\_\_\_\_ (2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan yr adran hon bennu—

\_\_\_\_\_ (a) y gofyniad;

\_\_\_\_\_ (b) y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd;

\_\_\_\_\_ (c) y camau y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod eu cymryd;

\_\_\_\_\_ (d) y dyddiad erbyn pryd y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gymryd y camau.

**69N Aelodau sy'n dymuno ymwrthod â thaliadau**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw person, drwy hysbysiad ysgrifenedig a roddir i swyddog priodol yr awdurdod, yn dewis ymwrthod (naill ai'n gyfan gwbl neu i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad) â'r hawlogaeth i gael taliadau mewn cysylltiad â'r materion perthnasol, neu daliad ailsefydlu, a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Nid yw'r gofyniad a osodir ar yr awdurdod gan adran 69A a 69D i wneud taliadau a bennir yn yr hysbysiad yn gymwys yn achos yr aelod hwnnw (neu nid yw'n gymwys i'r graddau a bennir yn yr hysbysiad).

(3) Yn yr adran hon mae i "swyddog priodol" yr ystyr a roddir i "proper officer" yn adran 270(3) o Ddeddf 1972.

#### **690 Cadw taliadau yn ôl**

(1) Rhaid i awdurdod perthnasol beidio â gwneud taliadau mewn cysylltiad â materion perthnasol na phensiwn perthnasol i berson—

(a) sydd wedi ei atal dros dro neu wedi ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod yn rhinwedd Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22) (ymddygiad aelodau llywodraeth leol etc.);

(b) sydd wedi ei rwystro rhag gweithredu yn swydd aelod o awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 80A(6) o Ddeddf 1972 (anghymhwys).

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(2) Rhaid i awdurdod lleol beidio â gwneud taliad ailsefydlu i berson sydd wedi ei rwystro rhag gweithredu yn swydd aelod o awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 80A(6) o Ddeddf 1972.</u></p> <p><u>(3) Caiff Gweinidogion Cymru, mewn achosion y maent o'r farn eu bod yn briodol, gyfarwyddo awdurdod perthnasol i beidio ag—</u></p> <p><u>(a) gwneud taliadau (gan gynnwys mewn cysylltiad â phensiynau) mewn cysylltiad â'r materion perthnasol a bennir yn y cyfarwyddyd;</u></p> <p><u>(b) gwneud taliad ailsefydlu.</u></p> <p><u>(4) Cyn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Comisiwn.</u></p> <p><u>(5) Caiff awdurdod perthnasol ei gwneud yn ofynnol i berson addalu taliadau a wneir mewn cysylltiad â materion perthnasol neu bensiwn perthnasol i berson mewn cysylltiad â chyfnod pan nad oedd gan y person hawlogaeth i gael y taliad am unrhyw reswm, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rhesymau a ganlyn—</u></p> <p><u>(a) gwnaed y taliadau yn groes i is-adran (1);</u></p> <p><u>(b) gwnaed y taliadau yn groes i gyfarwyddyd o dan is-adran (3)(a);</u></p> <p><u>(c) yr oedd y person wedi peidio â bod yn aelod o'r awdurdod.</u></p>	
--	--

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

(6) Caiff awdurdod lleol ei gwneud yn ofynnol i berson ad-dalu taliad ailsefydlu a wneir o dan adran 69D pan nad oedd gan y person hawlogaeth i gael y taliad am unrhyw reswm, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y rhesymau a ganlyn—

(a) gwnaed y taliad yn groes i is-adran (2);

(b) gwnaed y taliadau yn groes i gyfarwyddyd o dan is-adran (3)(b).

### **69P Canllawiau**

(1) Caiff y Comisiwn ddyroddi canllawiau i awdurdodau perthnasol ynghylch sut i gydymffurfio â gofynion a osodir o dan y Rhan hon.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i'r Comisiwn ynghylch swyddogaethau'r Comisiwn o dan y Rhan hon.

(3) Mae pwerau'r Comisiwn a Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau o dan is-adrannau (1) a (2) yn cynnwys y pŵer i amrywio neu ddirymu canllawiau a roddir.

(4) Rhaid i awdurdod perthnasol, neu'r Comisiwn yn ôl y digwydd, roi sylw i ganllawiau a roddir o dan yr adran hon.

### **69Q Cyfarwyddiadau o dan y Rhan hon**

(1) Mae cyfarwyddyd a roddir o dan adran 69M a 69O yn orfodadwy drwy orchymyn mandadol ar gais gan Weinidogion Cymru.



Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(2) Nid yw'r pŵer i roi cyfarwyddiadau o dan y Rhan hon yn cyfyngu ar y pŵer cyfarwyddo cyffredinol o dan adran 14.</u></p> <p><b>69R Pŵer i addasu darpariaeth</b></p> <p><u>Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud addasiadau i'r Rhan hon er mwyn ychwanegu, amrywio neu hepgor darpariaeth sy'n rhoi swyddogaeth i'r Comisiwn neu'n gosod swyddogaeth arno.</u></p>	
<p><b>RHAN 6</b> <b>DARPARIAETH AMRYWIOL A CHYFFREDINOL</b></p> <p><b><u>70ZA Cyfarwyddiadau</u></b></p> <p><u>Rhaid i gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon gael ei roi yn ysgrifenedig.</u></p>	<p>Atodlen1, Rhan 4, 13 (4)</p>
<p><b>71Gorchmynion a rheoliadau</b></p> <p>(1)Mae unrhyw bŵer sydd gan Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon (ac eithrio gorchymyn o dan adran 47) yn arferadwy gan offeryn statudol, ac mae'n cynnwys pŵer i—</p> <p>(a)gwneud darpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbedol y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y Ddeddf hon neu mewn cysylltiad â hi,</p> <p>(b)addasu unrhyw ddeddfiad (gan gynnwys y Ddeddf hon), ac</p> <p>(c)gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac ardaloedd gwahanol.</p> <p>(2)Bydd offeryn statudol sy'n cynnwys—</p> <p>(a)gorchymyn o dan adran 34(3)(e) neu 70(1),</p> <p>(b)gorchymyn o dan adran 37(1) sy'n cynnwys darpariaeth i newid ardal prif gyngor neu sir wedi ei chadw ..., neu</p> <p>(ba)rheoliadau o dan adran 20E(3)(c),</p>	<p>Rhan 2, Pennod 1, adran 41 Rhan 2, Pennod 1, adran 51 Atodlen1, Rhan 1, 1(5) Atodlen 1, Rhan 4, 13 (5)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p><u>(bb)rheoliadau o dan adran 29(3A),</u>  <u>(bc)rheoliadau o dan adran 31(A3),</u></p> <p>(c)rheoliadau o dan adran 41(1),  <u>(d)rheoliadau o dan adran 69C(2)(e), 69D(1)(b) neu 69K(2)(d),</u></p> <p>yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.</p> <p>(3)Er gwaethaf is-adran (2), ni fydd unrhyw offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf hon sy'n cynnwys darpariaeth yn disodli, hepgor neu'n ychwanegu at unrhyw ran o destun Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei wneud hyd oni fydd drafft o'r gorchymyn wedi ei roi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo trwy benderfyniad ganddo.</p> <p>(4)Nid yw'r adran hon yn gymwys i orchymyn a wneir o dan adran 45 neu 75.</p>	
<p><b>72Dehongli</b>  (1)Yn y Ddeddf hon, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol—</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• mae “addasu” mewn perthynas â deddfiad yn cynnwys diwygio neu ddiddymu,</li> <li>• ystyr “ardal llywodraeth leol” yw cymuned neu brif ardal,</li> <li>• ystyr “awdurdod lleol” yw prif gyngor neu gyngor cymuned,</li> <li>• “cyfarfod cymunedol” yw cyfarfod o'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer cymuned a gynullwyd o dan adran 27(1) o Ddeddf 1972,</li> <li>• ystyr “Deddf 1972” yw <a href="#">Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)</a>,</li> <li>• <del>mae “deddfiad” yn cynnwys deddfiad sydd mewn is-ddeddfwriaeth,</del></li> <li>• <u>ystyr “deddfiad” yw unrhyw un o'r canlynol neu ddarpariaeth mewn unrhyw un o'r canlynol—</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>___ (a) Deddf neu Fesur gan Senedd Cymru;</li> <li>___ (b) Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig;</li> </ul> </li> </ul>	<p>Atodlen1, Rhan 1, 1 (6)</p>

Noder: at ddiben helpu pobl i ddeall Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) yn unig y mae'r ddogfen hon wedi ei llunio. Ni ddylid dibynnu arni at unrhyw ddiben arall.

<p style="text-align: center;"><u>(c) unrhyw is-ddeddfwriaeth.</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• ystyr “Mesur 2011” yw <a href="#">Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (mccc 4)</a>,</li> <li>• ystyr “prif ardal” yw sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru,</li> <li>• ystyr “prif gyngor” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru.</li> </ul> <p>(2) Mae Atodlen 3 (mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio) yn cael effaith.</p>													
<p><b>ATODLEN 3 MYNEGAI O YMADRODDION WEDI EU DIFFINIO</b>  Mae'r ymadroddion a restrir yn y golofn gyntaf wedi eu diffinio yn eu trefn gan y darpariaethau hynny neu (yn ôl y digwydd) i'w dehongli yn unol â'r darpariaethau hynny yn y Ddeddf hon a restrir yn yr ail golofn mewn perthynas â'r ymadroddion hynny.</p> <p><b>TABL 2</b></p> <table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <thead> <tr> <th style="text-align: center;"><i>Ymadrodd</i></th> <th style="text-align: center;"><i>Darpariaeth perthnasol</i></th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Addasu (<i>Modify</i>)</td> <td>Adran 72(1)</td> </tr> <tr> <td><u>Adroddiad atodol ar dâl</u> (<i>Supplementary remuneration report</i>)</td> <td><u>Adran 69F</u></td> </tr> <tr> <td><u>Adroddiad blynyddol ar dâl</u> (<i>Annual remuneration report</i>)</td> <td><u>Adran 69E</u></td> </tr> <tr> <td>Aelod cadeirio (<i>Chairing member</i>)</td> <td>Adran 4(1)(a)</td> </tr> <tr> <td>Arbenigwr (<i>Expert</i>)</td> <td>Adran 10(1)</td> </tr> </tbody> </table>	<i>Ymadrodd</i>	<i>Darpariaeth perthnasol</i>	Addasu ( <i>Modify</i> )	Adran 72(1)	<u>Adroddiad atodol ar dâl</u> ( <i>Supplementary remuneration report</i> )	<u>Adran 69F</u>	<u>Adroddiad blynyddol ar dâl</u> ( <i>Annual remuneration report</i> )	<u>Adran 69E</u>	Aelod cadeirio ( <i>Chairing member</i> )	Adran 4(1)(a)	Arbenigwr ( <i>Expert</i> )	Adran 10(1)	<p>Atodlen 1, Rhan 1, 1 (7) Atodlen 1, Rhan 4, 13 (6)</p>
<i>Ymadrodd</i>	<i>Darpariaeth perthnasol</i>												
Addasu ( <i>Modify</i> )	Adran 72(1)												
